# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 9 Medi 2021

Lisa Evans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu, o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Mercher, 15 Medi 2021 am 10.00 am_i drafod y materion canlynol:**

**1.** **Ymddiheuriadau**

**2.** **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3.** **Diweddariad ynghylch Cylch Caron (Tudalennau 3 - 4)**

**4.** **Cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) Ceredigion a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021 ac Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-21 (Tudalennau 5 - 88)**

**5.** **'Ceredigion Teg a Chyfartal' - Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-21 (Tudalennau 89 - 184)**

**6.** **Drafft ar yr Adroddiad Blynyddol 2020/21 yr Amcanion Llesiant a Gwella (Tudalennau 185 - 232)**

**7.** **Adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA') (Tudalennau 233 - 342)**

**8.** **Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 4 2020/21 (Tudalennau 343 - 386)**

**9.** **Rhaglen Flaen Ddrafft (Tudalennau 387 - 400)**

**10.** **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd-**

lynu a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021 ac ystyried unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion hynny (Tudalennau 401 - 404)

**11. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd ei fod er sylw brys y Pwyllgor**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

# CYNGOR SIR CEREDIGION

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**

**DYDDIAD:** **15 Medi**

**LLEOLIAD:** **Siambr y Cyngor, Penmorfa**

**TEITL:** **Diweddariad ynghylch Cylch Caron**

**PWRPAS YR ADRODDIAD: Rhoi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor am y sefyllfa bresennol ynghylch Prosiect Cylch Caron**

**RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** **Cael diweddariad ynghylch prosiect Cylch Caron**

**CEFNDIR:**

Bydd prosiect Cylch Caron yn darparu meddygfa, fferyllfa gymunedol, clinigau ar gyfer cleifion allanol, cyfleusterau nyrsio cymunedol a gofal cymdeithasol, ynghyd â thai gofal ychwanegol a hynny ar un safle yn Nhregaron. Bydd y cynllun hwn yn darparu model integredig o ofal cymunedol a thai yng nghefn gwlad ac yn cymryd lle Ysbyty Tregaron a Chartref Gofal Preswyl Bryntirion.

Prosiect ar y cyd yw hwn rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghyd â Llywodraeth Cymru.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Ar ôl colli Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru (Barcud wedi hynny) fel partner datblygu ar gyfer y cynllun, drwy gydsyniad, mae'r holl bartneriaid eraill yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ddarparu Canolfan Adnoddau Integredig yn Nhregaron, sef Cylch Caron.

Mae Mr Peter Skitt yr Uwch Swyddog Cyfrifol yn parhau i arwain Bwrdd ymroddedig o gynrychiolwyr gan gynnwys partneriaid a rhanddeiliaid a fydd yn parhau i fwrw ati i hybu amcanion strategol a chynllun cyflawni'r prosiect hwn.

Mae gweithgor o swyddogion y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor wrthi'n adolygu ac yn diweddaru'r achos busnes yn barod ar gyfer mynd â'r cynllun yn ei flaen. Y bwriad yw cychwyn ar broses aildendro ar gyfer partner datblygu yn hydref 2021.

Cam nesaf y prosiect partneriaeth fydd trefnu digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr' er mwyn ailsefydlu'r broses o ddenu partner datblygu newydd. Mae proses dendro

ffurfiol wrthi'n cael ei pharatoi a bydd hon ar waith ar ôl y digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr'.

**ARGYMHELLIAD: Nodi'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad.**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD: Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu cyn lansiad y tendr**

**Enw Cyswllt: Nerys Lewis**
**Swydd: Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Uniongyrchol, Porth Gofal**
**Dyddiad yr adroddiad: 22.07.2021**
**Acronymau: Dim**

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 15 Medi 2021 |
| **LLEOLIAD:** | Cyfarfod dros y we |
| **TEITL:** | Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) Ceredigion a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021 ac Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-21. |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar y penderfyniadau neu'r camau gweithredu a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | Fel y Pwyllgor Craffu a ddynodwyd i gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

**CEFNDIR:**
O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

**COFNODION CYFARFOD PSB CEREDIGION A GYNHALIWYD AR 12 GORFFENNAF 2021**
Cyflwynir i'r Pwyllgor gofnodion drafft cyfarfod PSB Ceredigion a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021, ac maent i'w gweld yn **Atodiad 1.**

Mae'r adroddiadau diweddaraf o Grwpiau Prosiect y PSB, fel y'u cyflwynwyd i'r PSB, yn cael eu cynnwys ar ffurf **Atodiadau 2.1 i 2.5** isod:
**2.1** Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol – 10 Mehefin 2021
**2.2** Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau – 21 Mai 2021
**2.3** Grŵp Prosiect Cyd-leoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen – 7 Mehefin 2021
**2.4** Grŵp Prosiect Menter ac Arloesedd – 26 Mai 2021
**2.5** Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd – 8 Mehefin 2021

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN LLESIANT LLEOL CEREDIGION 2020-21**
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyflwyno copi o'r Asesiad Llesiant, y Cynllun Llesiant Lleol a phob Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol y Cyngor, a'u cyhoeddi ar wefan

y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn unol â'r cyfrifoldeb hwn a fframwaith yr adroddiad a gytunwyd gan y Pwyllgor hwn ym Mehefin, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion bellach wedi cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-21 a hynny yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf. Yn awr cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor a gwelir copi yn **Atodiad 3.**

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | Nac oes, am nad yw'r adroddiad yn newid Polisi neu Wasanaeth. |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | |

**ARGYMHELLION:**

i. Derbyn cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021.
ii. Derbyn yr adroddiad diweddaraf ar gyfer Grwpiau Prosiect y PSB, fel y'u cyflwynwyd i'r PSB.
iii. Derbyn Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-21.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**
Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Alun Williams |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 26.7.21 |
| **Acronymau:** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / Public Services Board (PSB) |

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Ceredigion**
**Public Services Board**

Caru·Love Ceredigion

**COFNODION**

**Cyfarfod 26**

**12 Gorffennaf 2021, 14:00**

**Cyfarfod dros Zoom**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Cyng. Ellen ap Gwynn (EaG) | Cadeirydd, Cyngor Sir Ceredigion |
| Russell Hughes-Pickering (RHP) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Hazel Lloyd-Lubran (HLL) | CAVO |
| Iwan Cray (IC) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Duncan Hamer (DH) | Llywodraeth Cymru |
| Prif Arolygydd Christina Fraser (CF) | Heddlu Dyfed-Powys |
| Ros Jervis (RJ) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Anna Bird (AB) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Cyng. Elwyn Williams (EW) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Eifion Evans (EE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Christine Harley (CH) | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM |
| Yvette Eley (YE) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Tim Cymorth BGC/PSB** | |
| Diana Davies (DD) | Rheolwr Corfforaethol: Partneriaethau a Pherfformiad (Cyngor Sir Ceredigion - CSC) |
| Sara Dafydd (SD) | Swyddog Partneriaethau (CSC) |
| Manon Horscroft (MH) | Swyddog Cymorth (CSC) |
| Lynne Walters (LW) | Swyddog Partneriaethau (CSC) |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Rob Starr (RS) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Amy Richmond-Jones (ARJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Caitlin Theodorou (CT) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Cllr Rowland Rees-Evans (RRE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| **26.1** | **Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datganiadau o fuddiant** |

| | |
|---|---|
| Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb. Nid oedd dim datganiadau o fuddiant.<br><br>**Ymddiheuriadau:**<br>Steve Moore, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Alun Williams, Cyngor Sir Ceredigion<br>Maria Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Matt Morden, Coleg Ceredigion/ Coleg Sir Gâr<br>Helen Powell, yr Adran Gwaith a Phensiynau<br>Dr Andrew Cornish, Coleg Ceredigion / Coleg Sir Gâr<br>Gwilym Dyfri Jones, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant<br>Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth<br>Gillian Wells, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Pat Smith, yr Adran Gwaith a Phensiynau | |
| **26.2** | **Cofnodion cyfarfod blaenorol BGC Ceredigion – 26.04.21** |
| Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26.04.21 yn gywir. | |
| **26.3** | **Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol** |
| Nid oedd dim materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol. | |
| **26.4** | **Cyflwyniad Ail-Gysylltu â Natur - Dr Yvette Eley, CNC** |
| Dechreuodd y Cadeirydd drwy fynegi ei chydymdeimlad dwysaf â Gillian Wells ar ran y bwrdd cyfan, ar ôl iddi golli ei thad yn ddiweddar.<br><br>Yn absenoldeb Gillian Wells, rhoddodd Dr Yvette Eley gyflwyniad i aelodau'r BGC ar yr adroddiad cwmpasu ar "Ail-gysylltu Natur". Ym mis Rhagfyr 2020, yn dilyn cadarnhau cyllid gan Gyfoeth Naturiol Cymru, cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion broses dendro agored gan weithredu ar ran BGC Ceredigion a Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol, a chomisiynwyd Resources for Change Ltd i baratoi adroddiad cwmpasu. Nod y prosiect oedd nodi tir ledled y sir sydd mewn dwylo cyhoeddus a fyddai'n hwylus ac yn gallu hybu bioamrywiaeth ac iechyd a lles.<br><br>Mae'r adroddiad a ddosbarthwyd i'r aelodau cyn y cyfarfod hwn yn darparu rhestr hir o dros 170 o safleoedd sy'n eiddo i'r cyhoedd ac sydd â'r potensial ar gyfer gwelliant ecolegol/cymunedol. Pan gyflwynwyd y ddogfen dendro yn wreiddiol, nododd YE fod angen addasiadau dealladwy o ganlyniad i gyfyngiadau parhaus Covid-19. Roedd yr addasiadau hyn, yn sgil methu â chynnal ymweliadau safle, wedi arwain at ddiwygio nod prosiectau gan ddynodi clystyrau o safleoedd. Nodwyd cyfanswm o saith prosiect ledled y sir ac roedd y rhain yn gysylltiedig â themâu priodol i adlewyrchu nodweddion | |

DRAFT

a blaenoriaethau ardaloedd. Yn unigol ac ar y cyd, mae modd i'r prosiectau hyn gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ryngweithio a datblygu o fewn cymunedau.

Dyma'r saith safle prosiect a ddewiswyd:
1. **Aberaeron** - Creu ac Adfer Glaswelltir lled-naturiol.
2. **Aberystwyth** - Prosiectau Bywyd Gwyllt Cymunedol.
3. **Aberteifi** - Afon Teifi a Phryfed Peillio.
4. **Llanbedr Pont Steffan** - Coetiroedd a Bywyd Gwyllt Dŵr Croyw.
5. **Llandysul** - Creu ac Adfer Glaswelltir lled-naturiol.
6. **Llanilar** - Cylchdaith Cerdded Bywyd Gwyllt.
7. **Ceinewydd i Lanarth** – Prysgdir arfordirol ac ansawdd dŵr.

Nododd YE fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar oresgyn rhwystrau o ran cymryd rhan a rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn yr oedd angen ei wneud er mwyn gwella amrywiaeth a mynediad i'r bobl sy'n defnyddio'r mannau gwyrdd ledled Ceredigion. Ystyriwyd y canlynol:

- Goresgyn rhwystrau corfforol a seicolegol.
- Ehangder ac amrywiaeth y syniadau i'w datblygu.
- Celf gymunedol i ddenu cynulleidfaoedd newydd.
- Creu llochesi bywyd gwyllt (e.e. blychau adar ac ystlumod) i ddenu grwpiau crefft a grwpiau cymunedol.
- Creu cylchdeithiau cerdded nad ydynt yn dibynnu ar ddefnyddio ceir neu drafnidiaeth gyhoeddus.
- Creu apiau a/neu daflenni i annog cyfranogiad.

I gloi ei chyflwyniad, aeth YE dros ran olaf yr adroddiad a oedd wedi nodi ystod o gyllid/grantiau oedd ar gael. Roedd Resources for Change Ltd wedi nodi ystod o grantiau rhwng £10,000 sef y terfyn uchaf, a £500 sef y terfyn isaf, a fyddai'n addas ar gyfer prosiect unigol y gellid eu datblygu.

Nawr mae angen nodi sefydliadau 'angori' er mwyn symud y syniadau hyn yn eu blaen i gam gweithredu a gofynnwyd am gefnogaeth a chymorth partneriaid y BGC. Cytunwyd y bydd y rhain yn cael eu hystyried yn fanylach wrth i gyfleoedd ariannu gael eu cyflwyno a chytunodd pob partner i drafod cynnwys yr adroddiad gyda'u cydweithwyr.

Diolchwyd i YE am ei chyflwyniad llawn gwybodaeth ac am roi sylw i'r pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth gadarnhaol a ddilynodd.

Yn ystod y drafodaeth honno roedd Ros Jervis (RJ), a groesawyd yn ôl ar ôl methu â mynychu cyfarfodydd y BGC am y 18 mis diwethaf o ganlyniad i Covid-19, wedi holi am sicrhau cyfranogiad cymunedol i bawb. Cyfeiriodd at symposiwm rhanbarthol

DRAFT

Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan ym mis Ionawr 2020 a'r cyfle i ystyried yr adborth ochr yn ochr â'r adroddiad Adnoddau ar gyfer Newid. Roedd y cyfleoedd hyn yn cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at ddarparu gwasanaethau integredig i'r rhai sy'n anabl yn feddyliol ac yn gorfforol. Croesawodd RJ ragor o fanylion am oresgyn rhwystrau corfforol a seicolegol a chytunwyd y byddai'r pwyntiau hyn yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol yn ei gyfarfod nesaf yn ddiweddarach y mis hwn.

Ar y pwynt hwn dymunai RJ gadarnhau mor bwysig yw nodi arweinwyr ymgysylltu yn y cymunedau a diolchodd i bawb am ei chroesawu'n gynnes yn ôl i'r cyfarfod heddiw.

**CAM GWEITHREDU: Dr Yvette Eley i gysylltu â Thîm Cymorth y BGC a Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd a rhannu rhagor o fanylion am y Cynllun Gweithredu gydag aelodau'r BGC pan y manylion ar gael.**

Fan hyn, cododd Hazel Lloyd-Lubran (HLL) fater cynlluniau gwaith y Grwpiau Prosiect. Dywedodd HLL, o drafod gyda Chadeiryddion Grwpiau Prosiect eraill, ein bod ar hyn o bryd mewn cyfnod pontio lle mae'r ffocws yn symud tuag at gasglu syniadau ar gyfer Cynllun Llesiant Lleol nesaf 2023-28. Awgrymwyd bod angen canolbwyntio'n awr ar ddefnyddio'r cyfnod sy'n weddill o fewn y cynllun presennol fel cyfnod pontio i sicrhau'r effaith fwyaf. Oherwydd Covid-19 mae capasiti wedi bod yn broblem fawr o fewn y Grwpiau Prosiect a phwysleisiodd HLL y gellid gwneud llawer drwy gydweithio mewn partneriaeth. Ystyriwyd dull posib sy'n seiliedig ar leoedd ar gyfer gwaith y BGC a'i grwpiau yn y dyfodol. Drwy ddefnyddio fframwaith cyflawni sy'n seiliedig ar gynllun peilot, awgrymodd HLL y gallai hyn fod o fudd i gamau gweithredu'r dyfodol a'r Cynllun Llesiant Lleol newydd.

Cafwyd trafodaeth a gofynnodd y BGC am i Gadeiryddion y Grwpiau Prosiect drafod y newid arfaethedig hwn yng nghyfarfodydd eu Grwpiau Prosiect unigol ym mis Gorffennaf a mis Awst gyda'r bwriad o gyflwyno fframwaith cyflawni diwygiedig yn seiliedig ar leoedd i'r BGC yn ei gyfarfod nesaf ym mis Medi, er ystyriaeth.

**PENDERFYNIAD: Cytunodd y BGC i adolygu'r fframwaith cyflawni presennol gyda'r bwriad o dreialu dull sy'n seiliedig ar leoedd ar gyfer gweddill y Cynllun Llesiant Lleol presennol.**

**CAM GWEITHREDU: Bod Cadeiryddion Grwpiau Prosiect y BGC yn cynnal cyfarfodydd eu grwpiau yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst er mwyn cyflwyno barn y BGC a chael mewnbwn ar themâu a syniadau prosiect ar gyfer peilot y fframwaith cyflawni newydd sy'n seiliedig ar leoedd. Cyflwynir y fframwaith cyflawni newydd er ystyriaeth yng nghyfarfod nesaf y BGC ym mis Medi.**

| | |
|---|---|
| **26.5** | Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020/21 |

Rhoddodd Lynne Walters (LW) y newyddion diweddaraf i'r aelodau am y gwaith a wnaed ar Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer 2020-21. Eisoes dosbarthwyd copi o Adroddiad Blynyddol 2020-21 i'r holl aelodau i'w hystyried ac fel y llynedd cadarnhaodd LW fod y canllawiau a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am adroddiad byr yng nghyd-destun COVID-19.

Mae adlewyrchiad o'r gwaith a wnaed drwy gydol y flwyddyn wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ac mae wedi'i drefnu o amgylch tri maes ar gyfer pob Grŵp Prosiect, sef;
1. Ailedrych ar flaenoriaethau allweddol.
2. Darparu manylion gweithgareddau unigol pob grŵp gan gynnwys unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen a sefydlwyd.
3. Ystyried blaenoriaethau'r dyfodol.

Hefyd tynnodd LW sylw at y ffaith bod gwybodaeth wedi'i chynnwys yn adroddiad gweithgareddau Is-grwpiau'r BGC - yn ogystal â'r chwe Grŵp Prosiect - gan roi sylw arbennig i'r Is-grŵp Tlodi, y Grŵp Ailsefydlu Ffoaduriaid a Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion.

Yn dilyn trafodaeth yn ymwneud â chynnwys yr Adroddiad Blynyddol, cymeradwyodd pob aelod y ddogfen a chytunwyd y byddai'n cael ei chyhoeddi ar wefan BGC Ceredigion a bod copïau'n cael eu hanfon, yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNIAD: Bod y BGC yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-21.**

| | |
|---|---|
| **26.6** | **Y diweddaraf o ran Grwpiau Prosiect y BGC:** |

**i. Menter ac Arloesedd**

Rhoddodd Russell Hughes-Pickering (RHP) y diweddaraf i'r aelodau am gyfarfod blaenorol y Grŵp Prosiect. Dywedodd y byddai pwyslais yr aelodau ar ddwy flaenoriaeth. Byddai'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar ddeall yr ystod o ymyriadau sydd ar gael i gefnogi ac annog busnesau i sefydlu, goroesi a datblygu a hefyd ystyried y newid sy'n digwydd o ran golwg trefi marchnad. Dywedodd RHP mai dim ond dau o'r Sector Preifat oedd yn bresennol yn y cyfarfod a nododd fod y presenoldeb cyfyngedig hwn wedi bod yn broblem yn y Grŵp Prosiect hwn. Teimlai'r Cadeirydd, RHP, ei bod yn amserol bellach i fynd i'r afael â'r mater hwn a chymeradwyodd y mater a godwyd gan HLL yn gynharach yn y cyfarfod, sef ystyried dull gweithredu ar y cyd sy'n seiliedig ar leoedd.

**ii. Grŵp Prosiect Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd er lles Iechyd**

Nododd y Cadeirydd nad oedd y Grŵp Prosiect wedi cwrdd, yn ddealladwy felly, o achos COVID-19. Nododd RJ fod ei holl ymdrechion wedi bod ar ymdrin â'r pandemig a'r angen i weithredu'r rhaglen frechu dorfol fwyaf a welwyd erioed, a hynny ar frys.

iii. **a) Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol**

Nid oedd gan YE ddim pellach i'w adrodd ar ran y Cadeirydd Gillian Wells a derbyniwyd adroddiad y Grŵp Prosiect.

**iv. a) Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau**

Rhoddodd Hazel Lloyd-Lubran (HLL) y wybodaeth ddiweddaraf ers y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 21 Mai. Mae'r Grŵp Prosiect wedi creu is-grŵp i gefnogi'r broses o lunio'r Asesiad newydd o Lesiant Lleol. Rhoddwyd pwyslais ar nodi arweinwyr ymgysylltu a chreu pecyn gwybodaeth i'r rhai sydd â diddordeb mewn hwyluso sesiynau trafod byr fel rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth. Pwysleisiwyd bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth ar annog cynifer o bobl â phosib i gymryd rhan yn yr ymgysylltu. Nododd HLL hefyd fod y Grŵp Prosiect wedi dechrau ystyried datblygu cynllun cyllidebu cydweithredol yn ardal Ceinewydd a fydd yn adeiladu ar y gwaith ymgynghori blaenorol a wnaed gan Rural Futures.

**b) Deall ein Cymunedau – Panel Ailagor Lleoliadau Cymunedol**
Rhoddodd HLL ddiweddariad byr bod y panel yn parhau i gyfarfod bob wythnos gan gynnig cymorth i Leoliadau Cymunedol. Mae'r panel wrthi'n trefnu sesiwn friffio arall i roi'r diweddaraf i'r rhai sy'n trefnu gweithgareddau yn eu lleoliadau cymunedol, gan ei bod hi'n hanfodol darparu gwybodaeth i ganiatáu i hyn ddigwydd mewn modd trefnus.

**v. Grŵp Prosiect Cydleoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen:**

Rhoddodd Iwan Cray (IC) wybod i'r aelodau am y prif gamau gweithredu a oedd wedi digwydd yn y Grŵp Prosiect hwn. Roedd y prif eitem agenda yn ei gyfarfod diwethaf yn canolbwyntio ar weithdy wedi'i hwyluso a ddarparwyd gan Rob Starr a hynny ar Asesu Llesiant Lleol. Derbyniwyd yr adroddiad ar gyfer y Grŵp Prosiect hwn ac i gwblhau ei drosolwg, nododd IC ei fod yntau hefyd yn cytuno â fframwaith cyflawni i'r BGC sy'n seiliedig ar leoedd.

**vi. Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd**

Rhoddodd Sara Dafydd (SD) ddiweddariad byr i'r aelodau yn absenoldeb Cadeirydd y Grŵp Prosiect, Matt Morden. Nodwyd bod y Cadeirydd wedi hysbysu'r BGC o bryderon ynghylch presenoldeb rheolaidd partneriaid mewn cyfarfodydd ym mis Ebrill. Nodwyd hefyd bod y Cadeirydd wedi gofyn, o ystyried yr heriau presennol o ran capasiti, a oedd awydd o hyd i sefydlu adnodd hyfforddi cydnerthedd a fydd yn cael ei rannu ledled sefydliadau'r BGC. Bydd y Mater hwn yn cael ei drafod gan y Grŵp Prosiect yn ei gyfarfod nesaf. Er bod cyfarfodydd wedi cael cefnogaeth dda gan yr Awdurdod Lleol, CAVO, Prifysgol Aberystwyth, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a'r Drindod Dewi Sant, nodwyd nad oedd sefydliadau eraill y BGC wedi cymryd

| | |
|---|---|
| rhan weithredol yng ngwaith y grŵp ac adlewyrchir hyn bellach yn yr adnodd a oedd yn cael ei ddatblygu.<br><br>Fel y Grwpiau Prosiect eraill, cadarnhawyd bod Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil, wedi hwyluso gweithdy rhyngweithiol a oedd yn canolbwyntio ar Asesu Llesiant Lleol a chroesawyd hyn gan y rhai a oedd yn bresennol. I orffen, nododd SD fod y Cadeirydd Matt Morden wedi hysbysu'r Grŵp Prosiect ei fod yn ymddeol o'i swydd yng Ngholeg Sir Gâr/ Coleg Ceredigion ac o ganlyniad y byddai'n ymddiswyddo fel Cadeirydd y Grŵp Prosiect hwn. | |
| **26.7** | **Asesiad o Lesiant Lleol** |
| Rhoddodd Rob Starr (RS) ddiweddariad bras ar gynnydd y gwaith ar yr Asesiad Llesiant Lleol. Roedd adroddiadau wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod er gwybodaeth i'r aelodau. Tynnwyd sylw at y ffaith fod arweinwyr data bellach wedi'u nodi ym mhob sefydliad sy'n aelodau a bydd y rhain yn hanfodol wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Adroddwyd bod y tîm wedi llwyddo i gynnal gweithdai ymgysylltu ar gyfer yr asesiad gyda phob Grŵp Prosiect yn ystod Mai/Mehefin ac roedd y rhain wedi cynnig cyfle gwych i dderbyn mewnbwn ac adborth gan wahanol bartneriaid y BGC ar y themâu a'r dull o ymdrin â'r gweithgaredd ymgysylltu.<br><br>Nododd RS mai'r prif bwyslais ar hyn o bryd yw'r gwaith a wneir gyda grŵp yr Arolwg Rhanbarthol. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn gwerthuso'r adborth ac yn tynnu'r dystiolaeth ynghyd er mwyn llywio cam nesaf y broses ymgysylltu. Y bwriad yw cynnal Arolwg Llesiant Rhanbarthol ym misoedd Awst a Medi, yn debyg iawn i'r fformat a ddefnyddiwyd y tro diwethaf. Cadarnhaodd RS y byddai'r drafft yn cael ei ddosbarthu ymhlith aelodau'r BGC.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Rob Starr a'r Tîm Ymchwil i ddosbarthu'r arolwg drafft i aelodau'r BGC unwaith y bydd ar gael.**<br><br>**CAM GWEITHREDU: Rob Starr a'r Tîm Ymchwil i ddosbarthu copi drafft o'r Pecyn Cymorth Rhanddeiliaid a'r Briff Ymgysylltu ar gyfer aelodau'r BGC unwaith y bydd ar gael.**<br><br>Nodwyd y bydd Cydgysylltydd y Prosiect Llesiant Rhanbarthol, a gyflogir drwy Grant Cymorth y BGC, yn dechrau yn y swydd ar yr ail o Awst.<br><br>Fel rhan o'i ddiweddariad aeth RS drwy bapur ar Ardaloedd Cymunedol arfaethedig yr asesiad. Roedd papur manwl wedi'i ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod ac ar ôl trafod cytunwyd y byddai Ardaloedd Cymunedol yr MSOA yn cael eu mabwysiadu ar gyfer yr asesiad.<br><br>**PENDERFYNIAD: Cytunodd y BGC i ddefnyddio Ardaloedd Cymunedol yr MSOA ar gyfer Asesiad Ceredigion o Lesiant Lleol.** | |
| **26.8** | **Adborth yn dilyn Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion** |
| Rhoddodd Diana Davies (DA) ddiweddariad byr ar ran y Cynghorydd Rowland Rees-Evans. Roedd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion a gynhaliwyd ar 16 Mehefin wedi'u rhannu eisoes â'r aelodau. Trafodwyd yr | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| amlinelliad o’r Adroddiad Blynyddol yn y Pwyllgor ynghyd â chofnodion cyfarfod blaenorol y BGC a chardiau adrodd cysylltiedig y Grwpiau Prosiect. Diolchodd DD i HLL am ddod i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu lle trafodwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Grŵp Prosiect Deall Ein Cymunedau. Roedd aelodau'r Pwyllgor Craffu hefyd wedi diolch i HLL ac aelodau'r Grŵp Prosiect am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn.<br><br>Ar ôl cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llesiant Lleol heddiw, cyflwynir yr adroddiad terfynol gerbron cyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhelir ar 15 Medi 2021.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Cyflwyno Adroddiad Blynyddol terfynol Cynllun Llesiant Lleol 2020-21 i gyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 15 Medi.** | |
| **26.9** | **Unrhyw fater arall** |
| Daeth y Cadeirydd â’r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb am fod yn bresennol ac am eu cyfraniadau parhaus i’r trafodaethau. | |
| **26.10** | **Dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf:**<br>**17eg o Fedi 2021,** 10:00-12:00<br>**18fed o Dachwedd 2021,** 13:30-15:30 |

DRAFT

## Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Manon Horscroft   Dyddiad: 10.06.2021

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Creu cymunedau diogel sy'n amgylcheddol gyfrifol ac sy'n gallu addasu ac ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol |
| **Cadeirydd**<br>**Is-gadeirydd** | **Gillian Wells,** Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Sarah Davies, Prifysgol Cymru, Aberystwyth |

DRAFT

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Cynghorydd Alun Williams**, Rhodri Llwyd, Diana Davies, **Rob Starr,** Alison Heal, Gareth Evans, **Julie Thomas, Michael Smith, Manon Horscroft, Lynne Walters**, **Caitlin Theodorou**, Carwyn Jones-Evans, **Bethan Lloyd-Davies** | Heddlu Dyfed Powys | Andrew Merry |
| Y GIG | Anna Bird, Terri Shaw, Paul Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru | **Gillian Wells, Yvette Eley,** Carol Fielding, Aneurin Cox, **Rachel Jarvis** |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Amy Richmond-Jones, Jessica Millard | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion | Kate Naidoo |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Prifysgol Cymru, Aberystwyth | Sarah Davies | Aelod ychwanegol | Roger Fisher, Mari Hopkins |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

| **Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect:** |
|---|
| **Cyflwynydd:**Teresa Walters (Severn Wye)<br>**Ymddiheuriadau:** *Paul Williams, Anna Bird, Kate Naidoo, Rhodri Llwyd*<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd drwy groesawu pawb i'r cyfarfod. Cytunwyd bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 08.04.21 wedi'u cwblhau yn awr a bod y materion sy'n weddill wedi'u cynnwys ar agenda'r diwrnod hwnnw. Yn sgil absenoldeb Kate Naidoo y diwrnod hwnnw, cadarnhawyd y byddai diweddariad pellach ar yr ymgyrch Byddwch yn Garedig wrth yr Amgylchedd yn cael ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf.<br>**GWEITHREDU: Gillian Wells ac Yvette Eley i rannu Polisi MAWN Cyfoeth Naturiol Cymru gydag aelodau'r Grŵp Prosiect.**<br>**GWEITHREDU: Ymgyrch Byddwch yn Garedig wrth yr Amgylchedd i'w roi ar Agenda'r cyfarfod nesaf.**<br><br><u>Ail-gysylltu a gwella cysylltiadau presennol â natur</u><br>Rhoddodd Lynne Walters (LW) ddiweddariad byr a soniodd am un elfen o'r gwaith hwn sy'n mynd rhagddo yn awr wrth baratoi cais am gyllid. Alison Heal, â datganiad o ddiddordeb, sy'n symud hwn yn ei flaen; cyflwynodd ef i'r gronfa Rhwydwaith Natur yn ddiweddar, derbyniodd adborth cadarnhaol a gofynnwyd am gais llawn. Daeth ymateb cadarnhaol yn dilyn yr asesiad cychwynnol ac mae'r dyddiad cau yr gyfer y cais llawn ar 30ain Mehefin. Mae'r cais yn rhoi ystyriaeth benodol i leihau ffosffadau yn Afon Teifi. Cynhaliwyd cyfarfod o'r grŵp gorchwyl a gorffen y dydd Iau blaenorol ac mae pob aelod wedi cytuno i ystyried casglu gwybodaeth a gaiff ei defnyddio fel tystiolaeth i gefnogi'r cynnig. Mae Afonydd Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda'r grŵp.<br><br>Rhoddodd Julie Thomas (JT) wybodaeth hefyd a oedd yn cadarnhau y byddai Afonydd Cymru yn canolbwyntio ar grynhoi setiau data i gefnogi cais manwl. |

DRAFT

Yn y fan hon o'r cyfarfod, cadarnhaodd Gillian Wells hefyd, fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r BGC a gynhaliwyd ar 26ain Ebrill, y byddai'n rhoi cyflwyniad ar y prosiect hwn er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithio ar y prosiect ar draws ffiniau'r Grŵp Prosiect. Mae angen cefnogaeth y tu hwnt i ffiniau'r Grŵp Prosiect Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd wrth weithredu yn y dyfodol a gellir cyflawni hyn gyda chefnogaeth y BGC.

**GWEITHREDU: Alison Heal i roi diweddariad ar yr elfen hon o ail-gysylltu a gwella'r cysylltiadau presennol â Natur ac adrodd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect ym mis Gorffennaf.**
**GWEITHREDU: Gillian Wells i roi adborth i'r grŵp prosiect ar ôl ei chyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y BGC a gynhelir 12fed Gorffennaf.**

<u>Prosiect AnTir</u>
Croesawyd Teresa Walters (TW) i'r cyfarfod a rhoddwyd gwybodaeth ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Brosiect AnTir. Prosiect 7 mlynedd yw AnTir sy'n cyflenwi hyfforddiant a gweithgareddau llesiant mewn rheoli tir yn gynaliadwy (gan gynnwys tyfu bwyd). Bydd yn rhedeg ym mhedair sir wledig Ceredigion, Sir Gâr, Sir Benfro a Phowys. Cynhelir y flwyddyn gyntaf yng Ngheredigion pan fydd prosiect peilot ar waith. Bydd y cynllun peilot hwn yn cael ei ddilyn gan brosiect peilot ehangach ym mhob sir ym Mlwyddyn 2 cyn i'r prosiect gael ei weithredu'n llawn am y 5 mlynedd ddilynol. Bydd pecyn ariannol o fwy na £2m yn cyd-fynd â'r prosiect llawn a bydd o gymorth wrth fynd i'r afael â materion byd-eang drwy ddatblygu ymateb ymarferol ar lefel leol.

Awgrymodd Rob Starr (RS) bod trafodaeth bellach yn cael ei chynnal gyda Teresa Walters y tu allan i'r cyfarfod fel bod manylion y gwaith hwn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun datblygu'r Asesiad o Lesiant Lleol.

**GWEITHREDU: Rob Starr a Teresa Walters i gwrdd i drafod prosiect AnTir wrth baratoi'r Asesiad o Lesiant Lleol.**
**GWEITHREDU: Bydd copi o'r cyflwyniad i Brosiect AnTir yn cael ei gylchredeg i aelodau'r Grŵp Prosiect yn dilyn y cyfarfod y diwrnod hwnnw.**

<u>Datganiad Ardal Canolbarth Cymru</u>
Rhoddodd Rachel Jarvis (RJ) ddiweddariad ar Ddatganiad Ardal Canolbarth Cymru - Cyfoeth Naturiol Cymru.  Mae pedair thema allweddol sef Gwella Bioamrywiaeth, Tir Cynaliadwy, Dŵr ac Aer, Adnoddau Coedwigaeth ac Ailgysylltu Pobl a Lleoedd. Yn dilyn sesiynau ymgynghori cychwynnol, cyhoeddwyd y Datganiad ym mis Mawrth 2020.  Wedi hynny, fodd bynnag, oherwydd COVID-19, rhoddwyd gwaith pellach ar ei weithredu i'r naill ochr. Ers hynny, cynhyrchwyd 9 Prosiect Ymgysylltu ar-lein dros y flwyddyn ddiwethaf mewn partneriaeth â phartneriaethau allanol. Yn sgil sefydlu'r gweithdai Ymgysylltu hyn, lansiwyd y

DRAFT

grwpiau cyfoedion ar gyfer y 4 Thema Ardal allweddol. Ym mis Mawrth 2021, lluniodd y tîm Adolygiad Blynyddol sy'n nodi'r hyn yr ymgymerwyd ag ef yn y 12 mis diwethaf ac mae hefyd yn pwysleisio'r hyn y mae angen ei wneud yn y 12 mis nesaf. Mae'r Adolygiad Blynyddol ar gael ar ffurf adroddiad pdf a chytunodd RJ y gallai aelodau dderbyn copi ar ôl y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Cadarnhaodd RJ bod angen gwneud rhagor o waith a bod y tîm yn edrych ar nodi'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn yr ardal drwy randdeiliaid allweddol. I orffen, dywedodd RJ mai un o'r prif fecanweithiau cyflenwi i'n galluogi i fynd i'r afael â blaenoriaethau Datganiad Ardal Canolbarth Cymru fydd drwy gydweithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Ceredigion a Phowys fel ei gilydd.

**GWEITHREDU: Dogfen Adolygiad Blynyddol Datganiad Ardal Canolbarth Cymru i'w rhannu gydag aelodau'r Grŵp Prosiect.**
**GWEITHREDU: Aelodau i dderbyn y ddolen ar gyfer yr arolwg ar-lein er mwyn mewnbynnu a chipio gwybodaeth sy'n rhoi manylion y prosiectau ledled Canolbarth Cymru.**

Asesiad Llesiant Lleol
Hwylusodd Rob Starr (RS) weithdy rhyngweithiol i'r aelodau ar yr Asesiad Llesiant Lleol a gyhoeddir ym mis Mawrth 2022. Yn dilyn cyflwyniad, gofynnwyd i'r aelodau ganolbwyntio ar 3 chwestiwn ac anfon eu sylwadau i performanceresearch@ceredigion.gov.uk.

**GWEITHREDU: Aelodau i ymateb i'r tri chwestiwn allweddol a roddwyd yn y gweithdy wedi'i hwyluso.**
**GWEITHREDU: Cyflwyniad o'r gweithdy wedi'i hwyluso i'w gylchredeg i aelodau'r Grŵp Prosiect ar ôl y cyfarfod.**
**GWEITHREDU: Asesiad Llesiant Lleol yn brif eitem ar agenda'r cyfarfod Grŵp Prosiect nesaf.**

Unrhyw Fater Arall
Rhoddodd y Cadeirydd adborth o gyfarfod diwethaf y BGC ym mis Ebrill i'r Grŵp Prosiect, a nododd hefyd bod Cadeiryddion y Grwpiau Prosiect wedi cwrdd i drafod sut i fwrw ymlaen yn y dyfodol. Mae rhai Grŵpiau Prosiect wedi nodi eu bod wedi profi anawsterau o ran parhad mewn presenoldeb a bydd y mater hwn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y BGC ar 12fed Gorffennaf.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb am fod yn bresennol ac am eu cyfraniad parhaus i waith y Grŵp Prosiect.

**Cyfarfodydd nesaf:** 29ain Gorffennaf am 2.00pm
11eg Tachwedd, 2021

DRAFT

**GWEITHREDU A GEIR YN Y CYNLLUN LLESIANT LLEOL DAN Y NOD HWN**

| Gweithredu Tymor Byr | Gweithredu Tymor Canolig | Gweithredu Tymor Hir |
|---|---|---|
| Creu Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol Ceredigion a fydd yn amlinellu meysydd risg, yn sbarduno lefelau ac yn cynnwys ymatebion, gweithredoedd a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth gymunedol. | Trwy addysg a phrosiectau peilot, byddwn yn hyrwyddo cynaliadwyedd cymunedol a busnes, ynni adnewyddadwy, cysylltedd natur a chymryd cyfrifoldeb am y camau a nodwyd yn yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol. | Amddiffyn a gwella cydnerthedd ecosystemau, yr amgylchedd ac asedau naturiol Ceredigion gan wneud y mwyaf o'n heconomi, iechyd a lles |

**CYNLLUN GWEITHREDU: EBRILL 2020 – MAWRTH 2021**

| ALLWEDD | |
|---|---|
| GWYRDD | Ar waith ac ar y trywydd iawn |
| OREN | Ar waith ond rhai pryderon ac angen monitro gofalus |
| COCH | Ar waith ond pryderon mawr ac angen camau unioni |
| GLAS | Ar stop |
| DU | Wedi cau |

DRAFT

**CAM 1:** *Paratoi cais am gyllid i'w gyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru*

| Gweithgaredd | | Erbyn Pryd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Hwyluso sesiwn gychwynnol ar gyfer cywain syniadau fel y gall aelodau'r grŵp prosiect ddefnyddio'r cyllid £25,000 y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gynnig i'r Bwrdd. | 24.09.20 | Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol i ddiweddaru'r grŵp prosiect a chafodd gwybodaeth ei lledaenu i'r partneriaid ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael am gyllid oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.2 | Paratoi ffurflen ar gyfer cynnig prosiectau gan gynnwys amlinelliad o syniadau fel y gall aelodau'r grŵp prosiect roi adborth ac ystyried cyflwyno eu syniadau eu hunain ar gyfer defnyddio cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru. | 30.09.20 | Datblygwyd y ffurflen dan sylw a chafodd ei dosbarthu i holl aelodau'r grŵp prosiect gan ofyn iddynt gyflwyno eu syniadau yn ffurfiol fel y gellid eu cynnwys yn y cais am gyllid oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru. |
| 1.3 | Paratoi adroddiad byr sy'n crynhoi'r prif syniadau i'w hystyried a'u dewis. | 05.10.20 | Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r partneriaid a dewiswyd dwy dasg benodol i'w cynnwys ar y ffurflen dan sylw. Byddai'r dasg allweddol gyntaf yn golygu comisiynu i ymgynghorwyr ganolbwyntio ar gynlluniau a fyddai'n annog pobl i ymwneud mwy â'u hamgylchedd. Byddai'r ail dasg allweddol yn canolbwyntio ar gynnal ymgyrch farchnata o'r enw "Byddwch yn garedig wrth yr amgylchedd". Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith fod cynnig a gyflwynwyd gan y GIG yn canolbwyntio ar y posibilrwydd y gallai'r cyllid hwn fod ar gael ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3. |
| 1.4 | Cyflwyno cais am gyllid i Gyfoeth Naturiol Cymru ynghyd â dogfennau i'w llofnodi. | 09.10.20 | Cyflwynwyd y ffurflen a llofnodwyd y dogfennau perthnasol. Disgwylir penderfyniad ynglŷn â'r cyllid ddechrau mis Tachwedd. |
| 1.5 | Trafod opsiynau ar gyfer gwella'r drefn o gyfathrebu a rhannu ffeiliau gyda phartneriaid y grŵp prosiect rhwng y cyfarfodydd. | 27.10.20 | Yn ystod cyfarfod y grŵp prosiect, ystyriodd pob un o'r aelodau aelodaeth y grŵp hwn a bu iddynt gadarnhau eu cefnogaeth i'r cais cyllido uchod. Cytunwyd hefyd y byddai unrhyw ddogfennau cefndirol ynglŷn â phrosiectau eraill yn cael eu rhannu e.e. Prosiect peilot Cydnerthedd Cymunedol - Castellnewydd Emlyn, Basecamp, Coed Lleol ac ati. |
| 1.6 | Trafod sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i oruchwylio'r defnydd a wneir o gyllid Cyfoeth Naturiol Cymru. | 27.10.20 | Grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu a rhoddwyd pwyslais ar hyn wrth baratoi Briff y Tendr er mwyn bod yn barod cyn gynted ag y daw'r penderfyniadau am y cyllid i law. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.7 | Dechrau ar y gwaith o baratoi briff y tendr ar gyfer penodi ymgynghorwyr. | 02.11.20 | Caiff Briff y Tendr ei lunio a'i ddosbarthu er mwyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen ei adolygu a'i newid. Byddai pwysigrwydd hygyrchedd a chyfeiriad penodol at hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu cynnwys. |
| 1.8 | Gweithio gyda'r grŵp gorchwyl a gorffen i gwblhau briff y tendr gan ddilyn y rheoliadau caffael. | 09.11.20 | Cafwyd y penderfyniad ynglŷn â'r cyllid oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru ar e-bost ar 12fed Tachwedd. Disgwylir llythyr i gadarnhau hyn. Caiff Briff y Tendr ei gwblhau a'i gyhoeddi trwy'r dulliau arferol. Y dyddiad cau yw dydd Llun 7fed Rhagfyr. Hysbysir aelodau'r grŵp prosiect am y cynnydd a wneir. Dechreuir ar y gwaith cyn y cyfarfod cyntaf. |
| 1.9 | Trafod â CAVO i gynllunio'r ymgyrch "Byddwch yn garedig wrth yr amgylchedd" gan ragweld y bydd yn cael ei lansio yn y Flwyddyn Newydd. | 01.12.20 | Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol i sefydlu cytundeb contractiol rhwng Cyngor Sir Ceredigion a CAVO ar gyfer cyflawni'r elfen benodol hon o'r cynnig. Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd fydd y grŵp llywio ar gyfer yr elfen hon o'r prosiect a bydd CAVO yn rhoi diweddariad yng nghyfarfod nesaf y grŵp gorchwyl a gorffen ar 9fed Rhagfyr. |
| 1.10 | Y grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y tendrau a gyflwynir fel y gellir dechrau ar yr ymchwil/mapio ym mis Rhagfyr 2020. | Rhagfyr 2020 | Cynhelir cyfarfod o'r grŵp gorchwyl a gorffen ddydd Mercher 9fed Rhagfyr. |
| 1.11 | Cynnal y cyfarfod cyntaf a chytuno ar y cynllun gwaith. | Rhagfyr 2020 | Cwblhawyd y broses gaffael ac ar ôl i 6 thendr ddod i law, penodwyd Resources for Change Ltd. |
| 1.12 | Monitro Camau Allweddol a Cherrig Milltir y Tendr – bydd yr Adroddiad Dros Dro yn seiliedig ar yr ymchwil desg. | 31.1.21 | Monitro parhaus yn mynd rhagddo. Crëwyd cofnod o'r camau gweithredu i arwain yr ymateb o ran y tendr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.13 | Monitro Camau Allweddol a Cherrig Milltir y Tendr – Cyflwyno rhestr o'r prosiectau | Canol Chwefror 2021 | Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 6ed Ionawr a chynhaliwyd cyfarfod gyda'r Cleientiaid ar 25ain Ionawr. Mae rhestr hir o safleoedd posibl wedi'i pharatoi ac rydym ar hyn o bryd yn cytuno ar y meini prawf fel y gallwn ddatblygu'r rhestr fer. |
| 1.14 | Monitro Camau Allweddol a Cherrig Milltir y Tendr – Cyflwyno'r cynllun gan gefnogi'r adnoddau gweledol a chwblhau'r contract. | 31ain Mawrth 2021 | Cwblhawyd yr adroddiad terfynol yn unol â thelerau ac amodau'r tendr. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn awr i'r BGC er mwyn ysgogi cefnogaeth ychwanegol i weithredu'r themâu allweddol. Mae'r adroddiad cwmpasu yn mynnu bod cynigion cyllido yn cael eu paratoi i alluogi i'r elfennau unigol i gael eu symud yn eu blaen yn y cymunedau. |
| 1.15 | Monitro elfen "Byddwch yn garedig wrth yr amgylchedd" y cais am gyllid | 31ain Mawrth 2021 | Lansiwyd yr ymgyrch 'Byddwch yn garedig wrth yr amgylchedd – Caru lle'r ydych chi'n byw ar 25ain Ionawr – O'ch Gardd, O'ch drws ffrynt ac O'ch Calon. |
| 1.16 | Paratoi adroddiad monitro a chwblhau'r rhwymedigaethau cyllido ar gyfer 2020/21 | 31ain Mawrth 2021 | Cwblhawyd y gwaith hwn wrth i'r adroddiad monitro gael ei baratoi a'i gyflwyno i'r corff cyllido - Cyfoeth Naturiol Cymru. Cwblhawyd pob mater sy'n ymwneud â monitro ariannol yr adroddiad cwmpasu. |

| **CAM 2:** Aelodau'r grŵp i rannu arfer da a chefnogi trafodaethau'r grŵp prosiect | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | | **Dyddiad** | **Sylwadau** |
| 2.1 | Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y dystiolaeth ymchwil er mwyn cefnogi blaenraglen waith y grŵp. | Rhagfyr 2020 | Cynhelir cyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn ar 17eg Chwefror o dan Gadeiryddiaeth Sarah Davies, Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gorchwyl gyntaf y grŵp fydd ystyried y prif flaenoriaethau a nodwyd yn adroddiad terfynol Cynllun Cydnerthedd Hinsawdd Castellnewydd Emlyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.2 | Paratoi ar gyfer yr alwad newydd am gynigion yn amodol ar dderbyn cadarnhad o gyllid ychwanegol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2021/22. | 31ain Ionawr 2021 | Rhoddwyd 31ain Ionawr fel dyddiad ar gyfer y cam gweithredu hwn er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a ddaeth yn sgil yr amserlen dynn eleni. Fodd bynnag, mae'r alwad am brosiectau newydd wedi'i hatal am y tro wrth i Gyfoeth Naturiol Cymru wneud penderfyniadau yn fewnol ynglŷn ag ariannu. |
| | | | |

| **CAM 3:** *Ystyried prosiectau peilot a rhaglenni cymorth eraill* | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Dyddiad** | **Sylwadau** |
| 3.1 | Ystyried adroddiad terfynol Prosiect Cydnerthedd Hinsawdd, Castellnewydd Emlyn. | Ionawr 2021 | Mae'r adroddiad hwn wedi dod i law ac mae'r prif flaenoriaethau wedi'u trafod. Mae'r grŵp wedi cytuno i ofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried hyn yn fwy manwl. |
| 3.2 | Adolygu'r prosiect a rhoi diweddariad am Basecamp a'r rhaglenni eraill. | Mawrth 2021 | Mae'r ymgyrch 'Caru lle'r ydych yn byw' wedi creu cysylltiadau uniongyrchol â Basecamp er mwyn rhannu gwybodaeth a chreu rhagor o gysylltiadau. |
| 3.3 | | | |

**BGC: PENDERFYNIADAU A RISGIAU**

| Penderfyniadau Angenrheidiol neu Risgiau i'w hamlygu i'r BGC |
| --- |
| |

DRAFT

# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Manon Horscroft Dyddiad: 21.05.2021

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | **Creu amodau i gymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau llawn ac annibynnol**<br>Datblygu a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol, a chyfleoedd diwylliannol ac ieithyddol i wella llesiant a sicrhau annibyniaeth. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Deall Ein Cymunedau |
| **Cadeirydd**<br>**Is-gadeirydd** | **Hazel Lloyd-Lubran**, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)<br>Yr Arolygydd Andrew Merry, Heddlu Dyfed-Powys |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Cyng. Dafydd Edwards, Naomi McDonagh, **Sara Dafydd**, **Manon Horscroft**, Diana Davies, **Alan Haird**, Llyr Hughes, Lowri Evans / **Cyra Shimell**, **Meleri Richards**, Mari Hopkins, Sarah Bowen, **Michael Smith** | Tai Wales & West | Rhiannon Ling |
| | | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion | **Teleri Davies**, Kate Naidoo, Chesca Ross |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Delyth Evans**, **Stepheni Kays**, Anna Bird | Swyddfa Ben Lake | Carys Lloyd |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Craig Thomas | Cered | **Non Davies** |
| Tai Ceredigion | Catrin Owen | Iechyd Cyhoeddus Cymru | I'w gadarnhau |

DRAFT

## CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect:**

***Ymddiheuriadau:*** *Y Cynghorydd Dafydd Edwards, Anna Bird, Rhiannon Ling, Sarah Bowen, Llyr Hughes, Mari Hopkins, Lowri Evans*
***Hefyd yn bresennol:*** *Rob Starr (Cyngor Sir Ceredigion)*

<u>Adborth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</u>
Rhoddodd Hazel Lloyd-Lubran (HLL) drosolwg o'r diweddariadau a gyflwynwyd yn y cyfarfod BGC diwethaf ym mis Ebrill, gan gynnwys cyflwyniadau ar Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llesiant Lleol a'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi.

<u>Cyflwyniad ar Ddangosfwrdd Data y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi</u>
Cafwyd cyflwyniad gan Rob Starr (RS) ar y Dangosfwrdd Data sydd ar waith i gefnogi Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi ac Adferiad Economaidd Cyngor Sir Ceredigion. Ers dechrau'r pandemig, rhyddhawyd cryn dipyn o ddata ynghylch effaith COVID-19 drwy ffynonellau fel Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru. Casglwyd data allweddol ar galedi a'r economi i'r Dangosfwrdd Data i ganiatáu i dueddiadau sy'n amlygu eu hunain gael eu monitro ar lefel leol a chenedlaethol fel ei gilydd.

Rhoddwyd trosolwg o'r penawdau gan gynnwys diweithdra, effaith anghyfrannol ar grwpiau, cysylltedd digidol a'r farchnad dai. Oherwydd oedi o ran data diweithdra, eglurodd RS bod hawliadau am fudd-daliadau oherwydd diweithdra felly'n cael eu monitro drwy nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau. Dangosodd data gynnydd o 132% yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau ledled Ceredigion ers Mawrth 2020, ac effeithiwyd ar nifer sylweddol o bobl 18-24 oed. Nododd RS bod pryder yn para hefyd ynghylch diwedd y cynllun ffyrlo a goblygiadau hyn ar golli swyddi posibl a chaledi wedi hynny. Dangosodd data'n ymwneud â chysylltedd digidol bod 12% o aelwydydd yn genedlaethol yn dal heb fynediad i'r rhyngrwyd, a phwysleisiodd RS bod hwn yn ffigwr i bryderu yn ei gylch mewn cyfnod pan fo llawer iawn o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn digwydd ar-lein. Dangosodd tueddiadau diweddar yn y farchnad dai dwf sydyn yn y galw ac mewn prisiau ledled y sir ac ar lefel genedlaethol, a gododd fwy o bryderon o ran yr effaith ar brynwyr tro cyntaf a'r effaith anghymesur ar y genhedlaeth iau. Gan fod ffigurau'n awgrymu bod chwarter y boblogaeth yn parhau yn bryderus ynghylch eu gallu i dalu eu biliau misol, adroddodd RS bod goblygiadau'r pandemig yn debygol o barhau am fisoedd a blynyddoedd i'r dyfodol. Gan gadw hyn mewn golwg, cadarnhawyd y bydd y Tîm Ymchwil a Pherfformiad yn parhau i ddatblygu'r Dangosfwrdd Data wrth symud ymlaen. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r wybodaeth hon fod yn fuddiol wrth gynorthwyo prosesau ymgeisio am grantiau cynhaliaeth yn y sefydliadau trydydd sector.

DRAFT

**GWEITHREDU: RS i gylchredeg y ddolen i'r Dangosfwrdd Data i unrhyw bartneriaid â chanddynt ddiddordeb.**
**GWEITHREDU: RS i gynhyrchu y prif ffigurau misol i'w rhannu gyda phartneriaid a'r trydydd sector.**

Ymgysylltu a Chyfathrebu

Adroddodd Delyth Evans (DE) bod y gwaith yn ymwneud â sefydlu'r safle rhanbarthol ar gyfer Engagement HQ yn datblygu, a bod trafodaethau ar droed ar gyfer cynnal sesiynau hyfforddiant. Mae Michael Smith (MS) a Mari Hopkins (MH) yn gweithio i oresgyn heriau logisteg i ganiatáu i aelod o Dîm CAVO dderbyn hyfforddiant ar safle Engagement HQ yr Awdurdod Lleol. O ran recriwtio arfaethedig Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogi Rhanbarthol drwy Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, adroddodd y Cadeirydd y byddai ymgynghorwyr yn awr yn cael eu penodi gan fod terfynau amser a chyllid yn tynnu at eu terfyn ym mis Mawrth. Drwy hyn, gobeithir y gellir sefydlu fframwaith neu gylch ymgysylltu realistig a bydd partneriaid yn gallu ei gefnogi.

Nododd DE bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn rhedeg ymarfer ymgysylltu newydd yn seiliedig ar greu dyfodol iachach ar ôl COVID, sy'n rhedeg tan 22ain Mehefin. Bydd yr ymarfer yn canolbwyntio ar brofiadau yn ystod y pandemig, enwebiadau ar gyfer safle ysbyty newydd a materion eraill y mae angen i'r Bwrdd Iechyd eu hystyried. Yn dilyn sgyrsiau a gafwyd gyda'r Grŵp Prosiect blaenorol, gofynnodd Sara Dafydd (SD) a fyddai gan y partneriaid ddiddordeb o hyd mewn casglu gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiadau i ddod y gellid eu cryfhau drwy gael sylw ar Radio Aber.
**GWEITHREDU: SD i greu Templed Digwyddiadau a'i lanlwytho i MS Teams i bartneriaid ei boblogi fel y bo'n briodol.**

Asedau Cymunedol a Data

Rhoddodd RS ddiweddariad ar y paratoadau a'r cynnydd yn arwain at yr Asesiad o Lesiant Lleol. Cadarnhawyd bod Datganiad o Ddiddordeb wedi cael ei gyflwyno i Rwydwaith Cydgynhyrchu i Gymru mewn partneriaeth â Sir Gâr a Sir Benfro, a chyflwynodd Powys gais ar wahân oherwydd daearyddiaeth y sir. Cadarnhaodd RS bod Cynlluniau Ymgysylltu wedi'u sefydlu yn lleol ac yn rhanbarthol a bod y gwaith gyda phartneriaid rhanbarthol i ddynodi themâu a chwestiynau i'w cynnwys yn yr arolwg yn parhau. Mae pecyn cymorth ar hyrwyddo digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer sefydliadau'r BGC hefyd ar waith. Bydd swydd Cydlynydd Llesiant Rhanbarthol, a fydd yn cefnogi'r broses Asesiad o Lesiant Lleol, yn cael ei hysbysebu, a bydd y dyddiad cau ar 1af Mehefin. Dywedodd Michael Smith (MS) y byddai gweithdai wedi'u hwyluso yn cael eu cynnal gyda Grwpiau Prosiect y BGC dros y misoedd nesaf ac y byddai sesiwn i gefnogi'r pecyn cymorth i hwyluswyr ar gyfer sefydliadau'r BGC yn cael ei drefnu yn fuan.
**GWEITHREDU: SD i gylchredeg manylion y swydd Cydlynydd Llesiant Rhanbarthol.**
**GWEITHREDU: Sesiwn i'w drefnu gyda phartneriaid i gefnogi'r broses o ddefnyddio'r pecyn cymorth ar gyfer sefydliadau'r BGC.**

DRAFT

| |
|---|
| Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd ar y Grant Adfer ar gyfer Gwirfoddoli. Mae rhestr o ddarparwyr hyfforddiant yn y broses o gael ei llunio, a bydd sesiynau Iechyd Meddwl a Chymorth Cyntaf Sylfaenol yn cael eu lansio ar gyfer gwirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn. Gobeithir y gellir creu cysylltiadau gyda Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru i ddeall pa ffynonellau eraill o gefnogaeth sydd ar gael, ac i gyfeirio at gyfleoedd hyfforddiant pellach lle'n briodol. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd yr Wythnos Gwirfoddolwyr yn dechrau ar 1af Mehefin a gobeithir y gellir lansio'r Strategaeth Wirfoddoli a Gwobrwyo Gwirfoddolwyr yr un pryd.<br>**GWEITHREDU: Partneriaid i godi proffil Gwobrwyo Gwirfoddolwyr i hyrwyddo cydnabyddiaeth i'r gwaith da a wnaed gan gymunedau ers dechrau'r pandemig.**<br><br>Cyd-gynhyrchu<br>Cadarnhaodd y Cadeirydd bod Grŵp Llywio wedi'i sefydlu i archwilio i'r posibilrwydd o roi'r broses Cyllidebu Cyfranogol ar waith yng Nghei Newydd drwy adeiladu ar ganfyddiadau ymarfer ymgynghori Severn Wye yn yr ardal. Nododd y Cadeirydd hefyd bod hyfforddiant datblygu sy'n seiliedig ar asedau yn cael ei ddatblygu yn rhanbarthol drwy Raglen 7, a bod penderfyniad eto i'w wneud ar gyfres o ddyddiadau a rhestr o ddarparwyr.<br>**GWEITHREDU: Diweddariad ar brosiect Severn Wye yng Nghei Newydd i'w ddarparu yn y cyfarfod nesaf.**<br><br>Adolygu Aelodaeth y Grŵp Prosiect<br>Adroddodd y Cadeirydd bod cyswllt wedi'i wneud gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag enwebu cynrychiolydd i fynd i gyfarfodydd y GP wrth symud ymlaen. Nodwyd bod pwynt wedi'i godi yng nghyfarfod ehangach y BGC ym mis Ebrill ynghylch capasiti partneriaid i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd yn rheolaidd, a'i bod yn amserol i gysylltu ag aelodau i weld beth yw eu hamgylchiadau presennol a'u hymrwymiad parhaus i waith y PG.<br><br>Unrhyw Fater Arall<br>Atgoffodd SD y partneriaid y byddai'r cyfarfod nesaf o'r Is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei gynnal ar 18fed Gorffennaf ac y byddai'n cael ei neilltuo i weithdy ar yr Asesiad o Lesiant Lleol wedi'i hwyluso gan Dîm Ymchwil a Pherfformiad Cyngor Sir Ceredigion. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r partneriaid am eu cyfraniadau. |
| **Cyfarfod nesaf:** 20fed o Orffennaf, 10.00am-12.00pm |

**GWEITHREDU A GEIR YN Y CYNLLUN LLESIANT LLEOL DAN Y NOD HWN**

| Gweithredu Tymor Byr | Gweithredu Tymor Canolig | Gweithredu Tymor Hir |
|---|---|---|
| Gweithio gyda chymunedau i gael gwell dealltwriaeth o'u hasedau ffisegol, cymdeithasol a naturiol, a'u deinameg cyfnewidiol. Cyflawnir hyn drwy ddod â rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli amrywiaeth o fewn ein cymunedau at ei gilydd e.e. diwylliannol ac ieithyddol, a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi. | Datblygu 'hybiau' arloesol, ymatebol, sy'n pontio'r cenedlaethau (ffisegol, rhithiol a chymdeithasol) i greu ffocws a phwynt cyswllt ar gyfer cymunedau. | Symud tuag at fodel o gyd-ddylunio a chreu gwasanaethau sy'n rhoi blaenoriaeth i gymryd rhan, a gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau. |

**CYNLLUN GWEITHREDU: MAWRTH 2021 – MAWRTH 2022**

| ALLWEDD | |
|---|---|
| GWYRDD | Ar waith ac ar y trywydd iawn |
| OREN | Ar waith ond rhai pryderon ac angen monitro gofalus |
| COCH | Ar waith ond pryderon mawr ac angen camau unioni |
| GLAS | Ar stop |
| DU | Wedi cau |



**CAM 1:** Nodi cymunedau daearyddol a chymunedau o ddiddordeb *(Data ac asedau cymunedol)*

| | Gweithgaredd | Dyddiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Casglu adroddiadau a chanlyniadau ymarferion ymgynghori cymunedol diweddar. Sicrhau ein bod yn ystyried yr elfen wledig. | Parhaus | Ymgynghoriadau cymunedol Cered - Aberaeron, Llanbed, Cei Newydd<br>Dyfodol Gwledig – Llandysul, Cei Newydd<br>Cynnal y Cardi – Llanbed, Llangrannog<br>CAVO – Llandysul<br>BGC – Aberteifi, Penparcau<br>Cynlluniau Lle |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.2 | Asesu'r rhestr bresennol o grwpiau rhanddeiliaid allweddol, i baratoi ar gyfer yr Asesiad o'r Cynllun Llesiant. | Parhaus | **21.01.21**<br>Ystyried sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen i drafod ble fydd y data'n cael ei gadw'n ganolog yn y lle cyntaf. Creu rhestr o ddeiliaid data, ac ystyried sut gallai'r rhain fwydo mewn i'r Asesiad o'r Cynllun Llesiant.<br>**19.03.21**<br>Bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cwrdd ym mis Ebrill a mis Mai i drafod y cynllun ymgysylltu drafft, gyda sesiwn bellach wedi'i threfnu ar gyfer Mehefin i gynnal gweithdy ymgysylltu. |
| 1.3 | Datblygu platfform Writemedia / Engagement HQ fel storfa ar gyfer adroddiadau ymgysylltu. | Parhaus | **21.01.21**<br>Ystyried sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen i drafod ble fydd y data'n cael ei gadw'n ganolog yn y lle cyntaf.<br>**19.03.21**<br>Bydd casglu data yn canolbwyntio ar arolygon, pleidleisiau, sesiynau grwpiau ffocws – Cytunwyd y byddai Engagement HQ yn gweithredu fel ychwanegiad gwerthfawr os yw'n barod ar gyfer y cyfnod ymgysylltu.<br>Hefyd y posibilrwydd y gellir defnyddio Engagement HQ yn offeryn yn y dull Cyllidebu Cyfranogol yng Nghei Newydd. |
| 1.4 | Parhau i archwilio cysylltiadau â Deall Lleoedd Cymru fel adnodd data cymunedol. | | Ystyried sut mae'r ffynhonnell ddata hon yn berthnasol i'r grŵp data Gorchwyl a Gorffen. |

| **CAM 2:** Datblygu rhaglen o ymgysylltu â chymunedau a chytuno ar bwrpas a neges glir ar gyfer cyfleu'r weledigaeth, ac annog cyfranogiad *(Ymgysylltu a Chyfathrebu)* | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Dyddiad** | **Sylwadau** |
| 2.1 | Profi safle Engagement HQ. | Parhaus | Ystyried sut all y safle gefnogi'r broses o gynnal Asesiad o Lesiant.<br>**21.05.21**<br>Mae cynlluniau'n mynd rhagddynt ar gyfer cynnal sesiynau hyfforddiant ar blatfform Engagement HQ. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 2.2 | Datblygu negeseuon a dulliau allweddol ar gyfer ymarfer ymgysylltu'r Cynllun Llesiant. | | Dysgu o waith Cei Newydd – Ystyried sut all y broses casglu data hon gynorthwyo gyda'r gwaith o ffurfio strategaethau.<br><br>Creu cyswllt â gwaith Cyfranogi ac Ymgysylltu Rhaglen Drawsnewid 7 |
| 2.3 | Datblygu a chyflenwi rhaglen sgiliau ymgysylltu ar gyfer gweithlu partneriaid BGC, a fydd yn cynnwys technegau cyd-gynhyrchu, gan wneud i bob cyswllt gyfrif. | | Rhaglen Drawsnewid 7 neu Gyllideb Hyfforddiant Cronfa Gofal Canolraddol Ceredigion i gefnogi'r ddarpariaeth. |

| **CAM 3:** Gweithio gyda chymunedau i ddeall eu hasedau – gan gynnwys adeiladau, pobl, sgiliau, gweithgareddau, digwyddiadau a gwasanaethau (*Data ac asedau cymunedol*). | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Dyddiad** | **Sylwadau** |
| 3.1 | Cymell a chydnabod gwaith gwirfoddol | Parhaus | **21.05.21**<br>Hyrwyddo Wythnos Gwirfoddolwyr a Gwobrwyo Gwirfoddolwyr. Strategaeth Wirfoddoli i gael ei lansio yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr. Darparu Hyfforddiant Iechyd Meddwl a Chymorth Cyntaf i wirfoddolwyr yn rhan o'r Grant Adfer ar gyfer Gwirfoddoli. |
| 3.2 | Ail-adeiladu cymunedau ar ôl Covid. | Parhaus | Panel Ail-agor Lleoliadau Cymunedol<br>**19.03.21**<br>Sesiwn wybodaeth i gael ei chynnal cyn i weithgareddau dan do ailgychwyn i atgoffa lleoliadau cymunedol o'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael, rheoliadau TTP, a pharatoi ar gyfer etholiadau'r Senedd a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddechrau mis Mai. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.3 | Hyrwyddo Cysylltu Ceredigion fel safle cyfnewid sgiliau a gwybodaeth cymunedol. | Parhaus | Rhaglen Drawsnewid 7 |
| 3.4 | Hyrwyddo InfoEngine / Dewis fel y cyfeiriadur gwasanaethau cymunedol ar-lein. | Parhaus | Rhaglen Drawsnewid 7 |

| **CAM 4:** Cynorthwyo cymunedau i weithio fel Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus *(Cyd-gynhyrchu)* | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Dyddiad** | **Sylwadau** |
| 4.1 | Gweithio gyda chymunedau a swyddogion allweddol i sefydlu Tasgluoedd, i gyd-gynllunio a darparu atebion i gwrdd â'r anghenion a nodwyd yn ystod y broses Cynlluniau Lle. | | |
| 4.2 | Cefnogi'r rhwydwaith o grwpiau cymorth lleol a sefydlwyd mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19 ac annog datblygiad Cynlluniau Cymunedol. | Parhaus | Manylion i'w penderfynu – **28.01.21**<br>**19.03.21**<br>Cynlluniau Cydnerthedd Cymunedol yn y broses o gael eu datblygu drwy'r Grant Adfer Gwirfoddoli ynghyd â chyfleoedd hyfforddi i'w dynodi ar gyfer gwirfoddolwyr ar gymorth cyntaf, iechyd meddwl a meithrin hyder. |
| 4.3 | Gweithio â phartneriaid i dreialu dulliau cyllidebu cyfranogol i ddosbarthu cyllid allweddol i gymunedau, gan gynnwys cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a chyllid Hybiau Gweithredu Lleol Rhaglen Drawsnewid 7. | Parhaus | Rhaglen Drawsnewid 7<br>**19.03.21**<br>Trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda Teresa Walters (Severn Wye) ynghylch defnyddio'r dull cyllidebu cyfranogol ar ôl cwblhau cynlluniau gweithredu ac asesiad o angen yng Nghei Newydd.<br>**21.05.21** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Sefydlu Grŵp Llywio gyda'r nod o symud y broses Cyllidebu Cyfranogol yng Nghei Newydd yn ei blaen. |

**BGC: PENDERFYNIADAU A RISGIAU**

| Penderfyniadau Gofynnol neu Risgiau i'w hamlygu i'r BGC |
|---|
| |

DRAFT

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan Manon Horscroft Dyddiad: 7.06.2021

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan y Cynllun Llesiant** | **Galluogi pob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd**<br>Cefnogi parodrwydd rhieni drwy ymyrraeth gynnar, goresgyn anghydraddoldeb, a hybu dysgu cyfannol. |  |
| **Ein Gwerthoedd** | Yr iaith Gymraeg, Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau, Cynnwys, Cynaladwyedd, Arwain Trwy Esiampl | |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Cydleoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen | |
| **Cadeirydd**<br>**Is-gadeirydd** | **Iwan Cray, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**<br>Peter Skitt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Mae enwau mewn **print trwm** yn dynodi presenoldeb yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion (CSC) | **Y Cynghorydd Catherine Hughes,** Elen James, Diana Davies, **Rob Starr, Michael Smith, Manon Horscroft, Lynne Walters**, Rhian Owen, Rhian Lewis, **Meinir Paske**, Meinir Ebbsworth, **Lowri Evans**, Carwyn Young. | Heddlu Dyfed Powys | Yr Arolygydd Andrew Merry |
| GIG | Peter Skitt, **Amanda Bainbridge**, Lesley Hill, Liz Wilson, Rebecca Thomas, Natalie Vanderlinden, Vicky Wood, Barbara Morgan | Coleg Ceredigion | Helen Griffith |
| Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | Amy Richmond-Jones, Christine Robertson | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion | **Chesca Ross** |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | Jan Batty | Aelodau ychwanegol | Rhys Penry-Williams |

DRAFT

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect:**

**Hefyd yn bresennol:** Mari Hopkins, Sera Llewelyn, Sara Humphreys, Alwyn Davies
**Ymddiheuriadau:** Steven Jones, Rebecca Thomas, Peter Skitt, Barbara Morgan, Cyra Shimell, Carwyn Young, Elen James.

Dechreuodd y Cadeirydd Iwan Cray(IC) y cyfarfod drwy groesawu'r holl aelodau. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir a rhoddodd Lynne Walters (LW) ddiweddariad ar yr holl bwyntiau gweithredu.

**Model Darparu Gwasanaethau Integredig Cyngor Sir Ceredigion – Canolfannau Lles**

Rhoddodd Alwyn Davies (AD) ddiweddariad i'r aelodau ar ran Carwyn Young. Ers y cyfarfod blaenorol, mae'r gwasanaeth eiddo wedi cynllunio pecyn tendro, a gyhoeddwyd am 14 diwrnod. Mewn ymateb, derbyniwyd cynigion tendro ac mae'r rhain yn cael eu hasesu ar hyn o bryd yn unol â'r fanyleb a'r meini prawf. Mae'r gwasanaeth erbyn hyn mewn sefyllfa i benodi pensaer i oruchwylio'r gwaith o ddylunio ac adeiladu'r Ganolfan Les. Ar ôl penodi, ac yn unol â'r gweithdrefnau caffael, bydd cyfnod callio o 10 diwrnod, a fydd yn gyfle i dderbyn unrhyw apeliadau. Yn dilyn y drefn hon, gall y gwaith ddechrau o ddifrif. Cadarnhaodd AD eu bod yn gobeithio symud ymlaen â'r prosiect cyn gynted â phosib, ac yn y cyfamser sefydlwyd tri grŵp cymorth. Mae'r grŵp cyntaf yn Grŵp Rheoli i oruchwylio'r datblygiad cyfan. Grŵp Adeiladu yw'r ail grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Iechyd a Diogelwch ac Ysgolion, ac mae'r trydydd grŵp cymorth yn Grŵp Defnyddwyr, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Gwasanaethau Hamdden a'r Gwasanaethau Eiddo presennol, ac a fydd hefyd, maes o law, yn gobeithio ymestyn ei aelodaeth i gynnwys grwpiau defnyddwyr allanol. Ar hyn o bryd bydd y grwpiau hyn yn cwrdd bob mis i yrru'r prosiect ymlaen. Gorffennodd AD ei ddiweddariad drwy ddiolch i'r partneriaid a oedd wedi cyfrannu at eu hymgynghoriad defnyddwyr blaenorol er mwyn cynorthwyo i ddylunio ardal rheng flaen hyblyg, ac ail-gadarnhaodd bwysigrwydd adborth parhaus gan bartneriaid wrth iddyn nhw ddechrau ar y siwrnai i lansio'r Ganolfan Les gyntaf. Yn wir, os hoffai unrhyw bartner gael trafodaeth bellach gallent gysylltu ag Alwyn Davies neu Carwyn Young ar ôl y cyfarfod hwn.
**GWEITHREDU: Carwyn Young i roi diweddariad pellach ar y Canolfannau Lles yn y cyfarfod nesaf.**

**Y Gronfa Cydnerthedd Gwirfoddoli – Canolfannau yn y gymuned**

Cadarnhaodd Chesca Ross (CR) y byddai adroddiad ymgynghori a baratowyd gan Tammy Foley'n cael ei anfon i'r holl aelodau yn dilyn y cyfarfod heddiw. Rhoddodd CR ddiweddariad ar y gwaith, gan fanylu ar y gwaith a wnaed gan Tammy i ganfod ac asesu modelau llwyddiannus sydd ar waith ar hyn o bryd, yn ogystal â'i gwaith yn ystyried datblygu modelau. Erbyn hyn mae hi wedi edrych ar 5 Canolfan Gymunedol mewn ardaloedd gwahanol ar draws y DU, sef Hwb Canolfan Gymunedol Penparcau, BCT – Building Communties Trust, Canolfan Bromley by Bow, Model Cysylltwyr Cymunedol Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol

DRAFT

Sir Benfro(PAVS) a Chanolfan Gymunedol Harold Hill. Yn dilyn y cyfweliadau hyn, nod yr adroddiad yw crynhoi'r themâu a'r elfennau llwyddiannus cyffredin, a rhoddir sylw arbennig i'r gwersi ymarferol a ddysgwyd wrth roi'r canolfannau ar waith. Roedd yr adroddiad hefyd yn myfyrio ar brofiadau'r Canolfannau Cymunedol hyn yn ystod cyfnod cynnar Covid-19, gan geisio nodi eu blaenoriaethau wrth inni obeithio symud ymlaen i'r cyfnod adfer. Y themâu cyffredin a godod yn ystod y cyfweliadau hyn oedd sefydlogrwydd ariannol, ei fod yn bartneriaeth gadarn o fewn y canolfannau cymunedol eu hunain, yn ogystal â'r partneriaid sy'n defnyddio'r canolfannau. Thema arall oedd Presgribsiynu Cymdeithasol, sy'n ddiddorol i Geredigion, a datblygiadau, oedd yn ymwneud â gweithio gyda Gweithwyr Cymdeithasol, staff Iechyd, a chreu'r cysylltiadau cryf hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r Canolfannau hyn wedi'u hadeiladu gan y Gymuned ac er mwyn cwrdd ag anghenion y gymuned. Mae llwyddiant yn dibynnu ar ymgysylltu â'r cymunedau hyn, canolbwyntio ar yr anghenion, a nodi'r anghenion hynny. I gloi, cadarnhaodd CR bod yna botensial i ymgymryd â gwaith ychwanegol gyda Tammy pan fydd yr amser yn iawn i ymgysylltu ymhellach â chymunedau.
**GWEITHREDU: Chesca Ross i ddosbarthu'r Adroddiad ar Ganolfannau yn y gymuned ar ôl y cyfarfod.**

Yn ogystal â'r wybodaeth uchod, dywedodd CR wrth aelodau'r Grŵp Prosiect fod Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gweithio gyda'u grwpiau rhanbarthol ar gwrs Hyfforddiant Datblygu Cymunedol seiliedig ar asedau. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal hefyd i greu cwrs penodol ar gyfer Ceredigion, gyda dyddiadau posibl ar gael yng Ngorffennaf. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â datblygiad Tir Glas ym Mhrifysgol Llanbed, sydd newydd benodi swyddog prosiect, Hazel Thomas. Bydd manylion pellach am y cwrs hyfforddi'n cael eu rhannu gydag Aelodau'r Grŵp Prosiect gyda hyn, a chytunwyd y dylid gwahodd Hazel Thomas i roi cyflwyniad yn ystod cyfarfod o'r Grŵp Prosiect yn y dyfodol.
**GWEITHREDU: Manylion y cwrs Hyfforddiant Datblygu Cymunedol i'w rannu gyda aelodau'r Grŵp Prosiect.**
**GWEITHREDU: Hazel Thomas i'w gwahodd i roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Prosiect.**

**<u>Porth Cymorth Cynnar – Diweddariad gan y gwasanaeth a thrafodaeth ar flaenoriaethau allweddol y System Integredig ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar – Prosiect Braenaru</u>**
Rhoddodd Lowri Evans (LE) ddiweddariad a chadarnhaodd fod Wavehill Ltd wedi sicrhau'r tendr i werthuso'r prosiect hwn, a ariannir gan Lywodraeth Cymru. Erbyn hyn mae Wavehill Ltd wedi cynhyrchu adroddiad ar waith Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar a'r Prosiect Braenaru yn ardaloedd Aberaeron, Cei Newydd, Y Borth, Llanbed a Thregaron. Cadarnodd LE fod yr adroddiad yn cael ei gyfieithu ar hyn o bryd ac unwaith y caiff ei dderbyn yn ddwyieithog, bydd yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Grŵp Prosiect. Pwrpas y gwerthusiad, sy'n rhan annatod o amodau'r grant, oedd casglu adborth gan staff a rhieni ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn sydd angen ei newid, a syniadau posib ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol. Cwblhaodd y staff arolwg a chafwyd adborth positif ar integreiddio'r ddarpariaeth o wasanaethau. Cafodd Rhieni a Gwarcheidwaid eu cyfweld yn rhithwir hefyd ac er bod y canfyddiadau'n cadarnhau bod yna gefnogaeth gyffredinol i'r cynllun peilot integredig newydd, gwnaed rhai sylwadau oedd yn dangos nad oeddent yn deall manylion yr holl newidiadau a

wnaed ers i'r gwaith hwn ddechrau. Mae angen gwaith pellach ac yn wir mae nifer o staff, rhieni a gwarcheidwaid o'r farn y bydd nifer o'r problemau a wynebwyd ganddynt wrth ddarparu neu gael mynediad at wasanaethau yn lleihau unwaith bod y cyfyngiadau Covid-19 wedi'u codi.
**GWEITHREDU: Bydd Adroddiad ar y Gwerthusiad o waith Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar a Braenaru gan Wavehill Ltd yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Grŵp Prosiect unwaith ei fod wedi'i gyfieithu.**

Dywedodd Rob Starr (RS) fod yna gyfle i gysylltu'r darn hwn o waith â'r Asesiad o Lesiant Lleol, a chytunwyd y byddai RS ac LE yn cwrdd tu allan i'r cyfarfod hwn i drafod y cyfle ymhellach a threfnu i drosglwyddo'r data cyfnewid i'r Tîm Ymchwil.
**GWEITHREDU: Rob Starr a Lowri Evans i drafod ymhellach ar ôl y cyfarfod.**

**<u>Gweithdy Ymgysylltu – Asesiad o Lesiant Lleol</u>**
Arweiniodd RS, Michael Smith (MS) a Mari Hopkins (MH) weithdy rhyngweithiol ar gyfer yr aelodau ar yr Asesiad o Lesiant Lleol, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym Mawrth 2022. Yn dilyn cyflwyniad, gofynnwyd i'r aelodau ystyried 3 chwestiwn allweddol a rannwyd gydag aelodau'r grŵp prosiect cyn y cyfarfod. Hefyd, gofynnwyd i'r aelodau ystyried pa ddata neu ymchwil y gallai eu sefydliadau unigol gael mynediad ato, a allai fod o fudd wrth lunio'r Asesiad o Lesiant Lleol. Gofynnwyd bod unrhyw adborth a manylion am waith blaenorol yn cael ei anfon at performanceresearch@ceredigion.gov.uk.

Mae manylion y drafodaeth hon wedi'u cofnodi ar wahân gan y Tîm Ymchwil sydd yn y broses o ymweld â phob grŵp prosiect.

**GWEITHREDU: Yr Aelodau i ystyried pa ddata ac ymchwil all fod gan eu sefydliadau i helpu i lunio'r Asesiad o Lesiant Lleol.**
**GWEITHREDU: Cyflwyniad y gweithdy a ddarparwyd i'w ddosbarthu i'r aelodau ar ôl y cyfarfod hwn.**

**<u>Trafoaeth ar Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd</u>**
Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Grŵp Prosiect ystyried enwebu enwau newydd i fod yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Grŵp Prosiect.
**GWEITHREDU: Yr Aelodau i ystyried enwau ac enwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd.**
**GWEITHREDU: Y drafodaeth ar Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd i ail-ddechrau yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Prosiect.**

**Cyfarfodydd nesaf:**
26ain Gorffennaf, 2021
1af Tachwedd, 2021

DRAFT

**CAMAU GWEITHREDU YN Y CYNLLUN LLESIANT LLEOL O DAN YR AMCAN HWN**

| Cam Gweithredu Byrdymor | Cam Gweithredu Tymor Canolig | Cam Gweithredu Hirdymor |
|---|---|---|
| Ymgymryd ag ymarfer cwmpasu er mwyn ymchwilio i fanteisio cydleoli ac integreiddio gwasanaethau rheng flaen, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar y blynyddoedd cynnar a gweithio tuag at fodel sy'n cynnig arfer gorau ar draws y sir. | Rhoi model gwasanaethau integredig gydol oed ar waith yng Ngheredigion, a ddarperir drwy bartneriaid y BGC yn y lle cyntaf ac a gaiff ei rannu fel bo'n briodol gyda phartneriaid cyflenwi ychwanegol ledled y sir. | Sicrhau bod gan wasanaethau cyffredinol ddigon o adnoddau a'u bod yn cael eu defnyddio gan bawb. |

**CYNLLUN GWEITHREDU: EBRILL 2020 – MAWRTH 2021**

| ALLWEDD | |
|---|---|
| GWYRDD | Ar waith ac ar y trywydd iawn |
| OREN | Ar waith ond ceir rhai pryderon ac mae angen monitro'n agos |
| COCH | Ar waith ond pryderon mawr ac mae angen cymryd camau unioni |
| GLAS | Wedi'i atal am y tro |
| DU | Wedi dod i ben |

**CAM 1: Canolbwyntio ar raglenni, strategaethau a pholisïau sydd wedi'u hanelu at gyd-gynhyrchu system integredig ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar**

| | Gweithgaredd | Erbyn pryd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Adolygu'r diweddariadau rheolaidd o ran y Rhaglen Beilot Braenaru ac ystyried y ddarpariaeth leol. | Yn parhau | Daw'r wybodaeth ddiweddaraf i law ym mhob cyfarfod, ac yn dilyn trafodaethau am y trefniadau ariannu a'r ddarpariaeth bresennol, caiff blaenoriaethau allweddol eu nodi cyn y cyfarfod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ym mis Mawrth. Mae'r cynnig ar gyfer y cam nesaf wedi'i gyflwyno i LIC ei gymeradwyo. |
| 1.2 | Annog mewnbwn uniongyrchol gan bartneriaid wrth ddatblygu Strategaeth Ranbarthol y Blynyddoedd Cynnar. | Ionawr 2021 | Gofynnwyd am adborth gan y partneriaid ar ôl y cyfarfod. Mae Wavehill Ltd wedi'i gomisiynu i gasglu adborth teuluoedd a bydd hwn yn cael ei rannu gyda'r grŵp prosiect ar fformat cryno. |
| 1.3 | Cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu systemau gwaith integredig sydd wedi'u lleoli ar lefel leol yn ein cymunedau. | Mawrth 2021 | Megis dechrau y mae'r gwaith hwn ond ail-gadarnhaodd y partneriaid eu hymrwymiad i ystyried ffyrdd newydd o weithio ar y cyd, a chytunwyd i ystyried lleoliadau ar draws y Sir wrth i fwy o eglurder ddod o du Llywodraeth Cymru. Mae ymgynghoriad LIC wrthi ar hyn o bryd yn ystyried ardaloedd ar draws Cymru, a dechreuwyd ar y broses o gyflwyno'r cynllun yn raddol o fewn ardaloedd peilot. Croesewir yr ystyriaeth o fodelau posib yng Ngheredigion. |
| 1.4 | Cymryd rhan mewn trafodaethau ar yr Asesiad o Lesiant Lleol | Mehefin 2021 | Holl aelodau'r grŵp prosiect i gymryd rhan yn y sesiynau ymgysylltu ar yr Asesiad o Lesiant Lleol, ac ymgysylltu â chydweithwyr i nodi data ac ymchwil i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn. |

DRAFT

| **CAM 2: Cefnogi sefydlu'r Canolfannau Llesiant mewn modd integredig** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Erbyn pryd** | **Sylwadau** |
| 2.1 | Derbyn diweddariadau rheolaidd gan bartneriaid a darparu mewnbwn y partneriaid wrth ddatblygu'r canolfannau llesiant. | Yn parhau | Bydd gwaith ymgysylltu hanfodol â phartneriaid yn dechrau pan ystyrir bod yr amser yn briodol a disgwylir y bydd y ganolfan gyntaf wedi'i chwblhau erbyn Mehefin 2022. |
| 2.2 | Ymgynghori ar y camau allweddol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau uniongyrchol o fewn y canolfannau llesiant (gan ddechrau gyda gwasanaethau'r ALI). | Ionawr 2021 | Cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol manwl ar y Model Gydol Oed ac mae trafodaethau bellach yn mynd rhagddynt i gomisiynu Penseiri. Mae cynlluniau llawr cychwynnol wedi'u cwblhau a bydd Tendr yn cael ei ryddhau nawr er mwyn comisiynu Penseiri. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.3 | Ystyried unrhyw ofynion ymchwil sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Canolbwyntio ar les preswylwyr a chefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ledled y sir. | Mawrth 2021 | Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â gwaith ymgynghori a gomisiynwyd o dan Gronfa Cydnerthedd Gwirfoddoli CAVO a disgwylir adroddiad yn manylu ar wahanol fodelau. Cwblhawyd yr adroddiad hwn gan Tammy Foley a rhannwyd y canfyddiadau ag aelodau'r grŵp prosiect. Bydd cyfleoedd ar gael i ymgymryd â gwaith pellach pan ystyrir bod hynny'n briodol. |
| 2.4 | Gwella'r canolfannau llesiant drwy nodi'r is-ganolfannau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r hyn a ddarperir a ddarperir gan bartneriaid. | Mawrth 2021 | Mae'r Ganolfan Les newydd yn cael ei dylunio gyda hyblygrwydd mewn golwg er mwyn gallu ymateb i ofynion gwasanaethau. Rhoddir pwyslais hefyd ar nodi is-ganolfannau a fydd yn cysylltu'r Ganolfan ag ardaloedd a chyfleusterau eraill yn yr ardal gyfagos. |
| 2.5 | Sefydliadau sy'n bartneriaid i ymgysylltu â'r Grŵp Defnyddwyr a sefydlwyd i gynorthwyo i ddatblygu'r Ganolfan Les. | Gorff. 2021 | Aelodau'r grŵp prosiect i ystyried sut maen nhw'n cymryd rhan yn y trafodaethau wrth i'r prosiect hwn symud yn ei flaen. |

| **CAM 3 : Ystyried ac ymchwilio i fodelau hybrid posibl ar gyfer darparu gwasanaethau i gymunedau.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | | **Erbyn pryd** | **Sylwadau** |
| 3.1 | Cynnal asesiad o'r cyfeiriad strategol a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â sefydlu canolfannau cymunedol. Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ran uchelgais Llywodraeth Cymru, sy'n dymuno "*gweld oddeutu 30% o weithwyr Cymru'n gweithio o gartref neu yn agos at eu cartrefi yn y tymor hir.*" Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod am roi "*mwy o hyblygrwydd i weithwyr i weithio o bell*" a honnodd y gallai hyn "*ysgogi adfywiad* | Mawrth 2021 | Mae'r gwaith hwn, sy'n seiliedig ar gynnig gan Lywodraeth Cymru yn parhau, ond mae'n dibynnu ar dderbyn canllawiau pellach. Gall y gwaith paratoi ddechrau a'r bwriad yw cyfrannu at y trafodaethau wrth iddynt fynd rhagddynt. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *a gweithgaredd economaidd mewn cymunedau".* | | |
| 3.2 | Cynnal gwaith cwmpasu cychwynnol a datblygu trafodaethau gyda phartneriaid yn seiliedig ar y model hybrid, sy'n cynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. | Mawrth 2021 | Cwblhawyd yr ymchwil cychwynnol sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar 26ain Mawrth. Mae LIC wedi cyhoeddi ei hardaloedd peilot ar gyfer cam 1 ond disgwylir cyhoeddiadau pellach yn seiliedig ar ddata'r ymchwil. |
| 3.3 | Ymgymryd â'r gwaith o fapio asedau partneriaid er mwyn cefnogi hybiau gwaith yn y gymuned, gan gysylltu cyfraniadau positif cydleoliadau o ran y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. | Mawrth 2021 | Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig ag ymchwil sy'n cael ei wneud drwy'r Gronfa Cydnerthedd Gwirfoddoli a disgwylir adroddiad. |
| 3.4 | | | |

**BGC: PENDERFYNIADAU A RISGIAU**

| **Penderfyniadau sydd angen eu gwneud neu risgiau y mae angen tynnu sylw'r BGC atynt.** |
|---|
| |

DRAFT

# Adroddiad Grŵp Prosiect y BGC

| Paratowyd gan: Manon Horscroft | Dyddiad: 26.05.21 |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Amcan y Cynllun Llesiant** | **Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd**<br>Gwella'r seilwaith ffisegol a digidol i gefnogi datblygiad economaidd, gan gynnwys cartrefi addas a fforddiadwy |
| **Ein Gwerthoedd** | Iaith Gymraeg, Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau, Cynnwys, Cynaliadwyedd, Arwain Trwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Menter ac Arloesedd |
| **Cadeirydd**<br>**Is-gadeirydd** | **Russell Hughes-Pickering** (Cyngor Sir Ceredigion)<br>**Gareth Price** (Tynrhyd) |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Mae enwau mewn **print trwm** yn dynodi presenoldeb yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion (CSC) | Diana Davies, **Lynne Walters, Michael Smith, Manon Horscroft,** Eifion Evans, Meleri Richards, Sara Dafydd, **Arwyn Davies, Rob Starr, Mark Gleeson,** Elen James, **y Cyng. Gareth Lloyd, y Cyng. Rhodri Evans.** | Prifysgol Aberystwyth | **Rhian Hayward** |
| Y GIG | Peter Skitt | Menter Busnes | **Alun Jones** |
| Heddlu Dyfed Powys | Yr Arolygydd Andrew Merry | Coleg Sir Gar | **Matt Morden** |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Geraint Thomas, Amy Richmond-Jones, Christine Robertson | Llywodraeth Cymru | Duncan Hamer, **(Carys Roberts)** |



DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Antur Teifi | **Kevin Harrington** | Aelodau Ychwanegol | **Rachel Rowlands, Stephan Rowlands, Caitlin Theodorou, Mari Hopkins, Mick Taylor.** |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect:**

**Ymddiheuriadau:** Diana Davies, Julie Davies-Jones, Gwyn Howells, Meleri Richards, Peter Skitt, yr Athro David Langdon, Eifion Evans, Duncan Hamer.

Dechreuodd y Cadeirydd Russell Hughes-Pickering (RHP) y cyfarfod trwy groesawu pob aelod. Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y grŵp prosiect hwn yn gofnod cywir. Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i'r aelodau drafod ai nawr yw'r amser iawn i ailddechrau sgyrsiau trwy grwpiau ffocws gorchwyl a gorffen ac os felly beth fydd y meysydd y cytunir arnynt wrth symud ymlaen.

Nododd Gareth Price (GP) fod y 14/15 mis diwethaf wedi bod yn heriol iawn i bob busnes yng Ngheredigion ac awgrymodd y dylai un ffocws i'r grŵp fod ar yr adferiad. Dylid canolbwyntio’r ystyriaeth ar beth nesaf a pha raglenni sy'n cael eu datblygu i feithrin cyfleoedd ar gyfer datblygiad a goroesiad busnesau yn y dyfodol. Yn ogystal, arweiniodd y drafodaeth at gytundeb y dylai'r grŵp hefyd ganolbwyntio ar ystyried sut i sicrhau bod y Gwasanaethau Cyhoeddus ar gael er budd uniongyrchol Busnesau yng Ngheredigion.

Mae'r dirwedd weithredu ar gyfer busnesau wedi newid yn ddiweddar ac erbyn hyn mae angen i ffocws y Grŵp Prosiect hwn adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae angen canolbwyntio ar le a fydd yn hwyluso gwell dealltwriaeth o'n trefi marchnad ynghyd â'r ddeinameg newydd sy'n dod i'r amlwg ar ein strydoedd mawr.

<u>**Effaith Economaidd COVID 19 yng Ngheredigion**</u>

Rhoddodd Arwyn Davies (AD) ddiweddariad byr i aelodau gan nodi bod y Strategaeth Economaidd 2020-35 a nododd fod yr adborth gan ymgynghoriadau bellach wedi cael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet yn gynharach eleni. Cadarnhaodd AD fod y Strategaeth Economaidd 2020-35 wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cabinet ym mis Mawrth 2021. Yn unol â'r adborth o'r ymgysylltu a'r ymgynghori, nododd AD fod yr ystod o ymyriadau sy'n ofynnol i gefnogi pobl, lleoedd, mentrau, seilwaith a chysylltedd yn rhoi'r ffocws cywir wrth symud ymlaen. Cytunodd AD â'r pwynt gan GP, ynghylch cynnwys mesurau cymorth a

DRAFT

chyfeiriodd at y mecanweithiau cymorth grant penodol a ddatblygwyd ar frys yng Ngheredigion dros y flwyddyn ddiwethaf i gynnal busnesau. Cyhoeddwyd gwahanol rowndiau o gyllid grant ar gyfer busnesau yng Ngheredigion ac mae tystiolaeth gychwynnol wedi dechrau dod drwodd i awgrymu bod rhai busnesau, yn ogystal â goroesi, wedi gallu arallgyfeirio a phlannu hadau twf trwy'r cyllid a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru. Gweithredwyd y mesurau cymorth newydd hyn yn gyflym ac roedd y cyllid i'w wario erbyn diwedd mis Mawrth, 2021. Cydnabuwyd pwysigrwydd y mesurau cymorth hyn gan bawb.
Aeth AD ymlaen i godi pwynt allweddol ynglŷn â phwysigrwydd creu swyddi yn y Sir. Mae'r gweithgarwch ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar 80 o brosiectau newydd sydd â tharged o arwain at greu 150 o swyddi newydd i bobl yng Ngheredigion. Mae AD a'r tîm nawr yn gobeithio bod y tîm rhanbarthol yn Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gyfran arall o gyllid gan fod yr adborth a gafwyd i becynnau cymorth mis Mawrth wedi bod yn llwyddiannus iawn. Trefnwyd bod cymorth hanfodol i Fusnesau ar gael ac mae Llywodraeth Cymru bellach yn trafod gyda phartneriaid mewn perthynas â chamau nesaf Busnes Cymru. Rhoddir y pwys allweddol yma ar ranbartholi cynnig y cynnyrch ac ymateb i anghenion penodol a nodir yn y Sir. Hysbysodd AD aelodau'r grŵp bod cyfle ar hyn o bryd i ddylanwadu ar siâp ac ymyrraeth Busnes Cymru wrth symud ymlaen.

Ar nodyn olaf, cododd AD y pwynt fod yna Agenda fawr o hyd o ran bodolaeth darpariaeth hyfforddiant ac argaeledd sgiliau perthnasol. Mae adborth bellach yn awgrymu bod busnesau yng Ngheredigion bellach yn chwilio am y sgiliau cywir mewn unigolion, a fydd yn eu galluogi i ddatblygu eu busnesau yn y dyfodol.

Nododd MT fod argaeledd personél gyda'r sgiliau gofynnol yn hanfodol. Mae datblygu arferion busnes gyda'r nod o gefnogi staff, darparu amgylchedd gweithio cadarnhaol ac annog datblygiad proffesiynol a datblygiad sgiliau yn hanfodol gan fod hyn yn meithrin ymrwymiad yr unigolion sy'n gweithio i chi.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cododd GP y pwynt gan fod busnesau wedi bod yn ymladd i oroesi i raddau helaeth, fod y sector preifat heb gymryd sylw o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig yn ystod yr amser anodd iawn hwn. Cododd GP y pwynt fod Ceredigion yn parhau i fod mewn perygl o golli llawer o'r buddsoddiad ac y gallai'r buddion i fusnes fynd i ddifancoll os yw'r meini prawf ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn parhau i ganolbwyntio'n helaeth ar Greu Swyddi. Yn ychwanegol at y mesur perfformiad allweddol hwn, mae angen ystyried meini prawf ychwanegol lle mae grantiau ac ymyriadau hefyd yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol cynaliadwyedd swyddi ac arallgyfeirio swyddi.

**CAM GWEITHREDU: Aelodau i ystyried syniadau ac adborth yn ymwneud â phrofiad busnesau wrth gael gafael ar ymyriadau ac i roi'r wybodaeth hon i Arwyn Davies.**

**Gweithdy wedi'i hwyluso – Asesiad Llesiant Lleol**

| |
|---|
| Hwylusodd Rob Starr (RS) weithdy rhyngweithiol i aelodau ar yr Asesiad Lllsiant Lleol, a gyhoeddir ym mis Mawrth 2022. Roedd yr aelodau wedi cael 3 chwestiwn allweddol cyn y cyfarfod ac yn dilyn cyflwyniad a thrafodaeth gofynnwyd i bob aelod ganolbwyntio ar y cwestiwn hwn a rhoi adborth personol/sefydliadol i performanceresearch@ceredigion.gov.uk.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Aelodau i ymateb i'r tri chwestiwn allweddol a roddir yn y gweithdy wedi'i hwyluso.**<br>**CAM GWEITHREDU: Copi o'r cyflwyniad Asesiad Llesiant Lleol i'w ddosbarthu i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod ar gyfer cyfeirio ato a syniadau.**<br><br>**<u>Gwaith a chyfeiriad y grŵp yn y dyfodol</u>**<br>Cytunwyd gan yr aelodau y bydd ffocws gwaith y Grŵp Prosiect yn y dyfodol ar ymyrraeth a rhoddir ystyriaeth hefyd i weithio gyda grwpiau eraill i symud ffocws lle ymlaen. Ystyriwyd y cyfleoedd i annog trafodaeth ar le ac awgrymwyd y gallai fod gwerth o osod hysbyseb ar gyfer cynrychiolwyr busnes ychwanegol i fynegi diddordeb yn nyfodol trefi.<br><br>Cytunwyd hefyd bod angen i bob aelod ystyried cynrychiolaeth ehangach o'r sector ar gyfer y Grŵp Prosiect ac anfon unrhyw awgrymiadau newydd ymlaen trwy e-bost.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Cysylltir ag aelodau unigol a fynegodd eu diddordeb mewn cymryd rhan mewn grŵp gorchwyl a gorffen a'u gwahodd i fynychu trafodaeth grŵp ffocws. Roedd y datganiadau cychwynnol o ddiddordeb yn y cyfarfod yn cynnwys MT, KH, GP, CR ac AD. Os oes gan unrhyw aelod arall ddiddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch â lynne.walters2@ceredigion.gov.uk.**<br>**CAM GWEITHREDU: Russell Hughes-Pickering i ystyried yr amseru ar gyfer rhyddhau gwahoddiad/datganiad posibl o ddiddordeb.**<br>**CAM GWEITHREDU: Pob aelod i anfon ymlaen unrhyw awgrymiadau o enwau i sicrhau cynrychiolaeth ehangach o'r sector busnes drwodd at lynne.walters2@ceredigion.gov.uk**<br><br>**<u>Unrhyw Fater Arall</u>**<br>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u hamser y prynhawn yma. Cytunwyd y bydd y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cylchredeg maes o law yn dilyn ymatebion unigol a gafwyd gan aelodau'r grŵp prosiect. Cytunwyd i ddechrau mai'r grŵp gorchwyl a gorffen a drefnir trwy Microsoft Teams. |
| **Cyfarfod nesaf:** eto i'w gadarnhau. |

**CAMAU SYDD WEDI'U CYNNWYS YN Y CYNLLUN LLESIANT LLEOL O DAN YR AMCAN HWN**

| Cam Gweithredu Tymor Byr | Cam Gweithredu Tymor Canolig | Cam Gweithredu Hirdymor |
|---|---|---|
| Hyrwyddo arloesedd, entrepreneuriaeth a chamu ymlaen mewn gyrfa drwy sefydlu cyfleoedd o fewn sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer secondiadau, hyfforddiant a gwaith. Byddwn hefyd yn datblygu fframwaith i gynorthwyo unigolion a chymunedau i ddeall tueddiadau'r dyfodol, goresgyn rhwystrau a manteisio ar gyfleoedd ar gyfer menter a chynlluniau. | Defnyddio tir ac adeiladau sefydliadau'r BGC nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon, ochr yn ochr â gweithdrefnau caffael, i gyflawni mwy o fudd cymunedol cynaliadwy. | Sicrhau bod seilwaith (trafnidiaeth, tai, y byd digidol a mannau gwaith) yn cyd-fynd â datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau yng Ngheredigion. |

**CYNLLUN GWEITHREDU: EBRILL 2020 – MAWRTH 2021**

| ALLWEDD | |
|---|---|
| GWYRDD | Ar waith ac ar y trywydd iawn |
| AMBR | Ar waith ond ceir rhai pryderon sydd angen eu monitro'n agos |
| COCH | Ar waith ond mae pryderon mawr ac mae angen cymryd camau unioni |
| GLAS | Wedi'i atal am y tro |
| DU | Wedi dod i ben |

| CAM 1: Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ganolbwyntio ar ymyriadau cefnogi | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithgaredd | | Erbyn Pryd | Sylwadau |
| 1.1 | Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried yr ystod o ymyriadau sydd ar waith i gefnogi busnesau. | Mehefin '21 | Sicrhawyd cytundeb aelodau'r Grŵp Prosiect yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26ain Mai ac mae aelodau unigol wedi cytuno i gyfrannu gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen hwn. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.2 | Cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth gyfredol ac asesu effaith gyffredinol ymyriadau dethol. | Medi '21 | |
| 1.3 | Ystyried nodi bylchau yn y ddarpariaeth ymyriadau a chanolbwyntio ar greu swyddi, diogelu swyddi a datblygu sgiliau. | Medi '21 | |
| 1.4 | Cysylltu â gwaith ffocws lle partneriaid ac ystyried sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i roi'r gwaith hwn ar waith. | Hyd'21 | |
| 1.5 | | | |

| **CAM 2: Ystyried aelodaeth y Grŵp Prosiect** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Erbyn Pryd** | **Sylwadau** |
| 1.1 | Holl aelodau'r grŵp prosiect i ystyried cynrychiolaeth ehangach o'r sector. | Gorffennaf '21 | Enwau a awgrymir i'w rhannu a rhoi ystyriaeth i ryddhau hysbysiad datganiad o ddiddordeb yn gyffredinol. |
| 1.2 | | | |
| 1.3 | | | |
| 1.4 | | | |
| 1.5 | | | |

| **CAM 3:** |
|---|

| Gweithgaredd | | Erbyn Pryd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1.1 | | | |
| 1.2 | | | |
| 1.3 | | | |
| 1.4 | | | |
| 1.5 | | | |

**BGC: PENDERFYNIADAU A RISGIAU**

| Penderfyniadau Angenrheidiol neu Risgiau i'w hamlygu i'r BGC |
|---|
| |

DRAFT

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Adroddiad Grŵp Prosiect y BGC (PSB)

Paratowyd gan: Manon Horscroft  Dyddiad: 08.06.21

| | |
|---|---|
| **Amcan y Cynllun Llesiant** | **Galluogi pobl i greu cyfleoedd, a manteisio arnynt, ac ymateb i heriau drwy gydol eu hoes.** Gwella sgiliau galwedigaethol a sgiliau bywyd, meithrin hyder a galluogi pobl i ymateb yn gadarnhaol i newid. |
| **Ein Gwerthoedd** | Yr Iaith Gymraeg, Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau, Cynnwys, Cynaliadwyedd, Arwain Trwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Hyfforddiant Cydnerthedd |
| **Cadeirydd**<br>**Is-Gadeiydd** | **Matt Morden**, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Mae enwau mewn **print trwm** yn dynodi presenoldeb yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Y Cyng. Catrin Miles**, Naomi McDonagh, **Michael Smith**, **Sara Dafydd**, **Manon Horscroft**, Diana Davies, Caroline Lewis, Victoria Foale, **Rob Starr**, Elen James / **Mark Gleeson** | Adran Gwaith a Phensiynau | **James Gibb** |
| | | Coleg Ceredigion | Katy Barron |
| Heddlu Dyfed-Powys | Yr Arolygydd Andrew Merry | Llywodraeth Cymru | Diana Reynolds |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Chris Rees | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | **Gwilym Dyfri Jones** |
| Prifysgol Aberystwyth | **Dr Antonia Ivaldi** | Iechyd Cyhoeddus Cymru | - |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Suzanne Tarrant, Anna Bird | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) | **Chesca Ross** |

DRAFT

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

| **Materion Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect:** |
|---|
| ***Ymddiheuriadau**: Anna Bird, Suzanne Tarrant, Chris Rees, Diana Reynolds, Elen James, Victoria Foale*<br>***Hefyd yn bresennol:** Mari Hopkins, Caitlin Theodorou (Cyngor Sir Ceredigion)*<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd drwy groesawu'r partneriaid i'r cyfarfod. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir, a bod y gweithredu a bennwyd ar 23ain Mawrth un ai 'wedi'i gwblhau' neu wedi'i gynnwys fel diweddariad ar yr Agenda.<br><br><u>Adborth ac Aelodaeth y BGC</u><br>Yn unol â'r trafodaethau yng nghyfarfod blaenorol y Grŵp Prosiect (GP), cadarnhaodd y Cadeirydd fod pryderon ynghylch presenoldeb rheolaidd partneriaid mewn cyfarfodydd wedi'i adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ehangach yn Ebrill. Holodd y Cadeirydd hefyd a oedd yna awydd o hyd i sefydlu adnoddau hyfforddiant cydnerthedd ar y cyd ar draws sefydliadau'r BGC, o ystyried yr heriau presennol mewn perthynas â chapasiti, a'r amrywiaeth eang o gymorth i staff a sefydlwyd eisoes o fewn sefydliadau perthnasol y BGC.<br><br><u>Gweithdy Ymgysylltu'r Asesiad o Lesiant Lleol</u><br>Fel y cytunwyd yn y cyfarfod GP blaenorol, arweiniodd Rob Starr (RS) a Thîm Ymchwil Cyngor Sir Ceredigion (CSC) weithdy rhyngweithiol yn canolbwyntio ar yr Asesiad o Lesiant Lleol. Roedd y sesiwn yn rhan o broses ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, a fydd yn bwydo'r gwaith o gynhyrchu'r Asesiad drafft cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn yr hydref. Cyhoeddir y drafft terfynol ym Mawrth 2022 yn dilyn cymeradwyaeth y BGC. Fel rhan o'r sesiwn, gofynnwyd i aelodau'r GP ystyried y 3 prif bwynt trafod canlynol:<br>• Sut mae'r is-grŵp hwn wedi gwella llesiant trigolion a chymunedau Ceredigion?<br>• Beth sydd wedi gwella ers yr Asesiad o Lesiant Lleol diwethaf, a beth sydd wedi gwaethygu ers hynny?<br>• Dros y 30-40 mlynedd nesaf, beth dybiwch chi yw'r heriau mwyaf a wynebwn ni o ran llesiant Ceredigion?<br>Hefyd, cyflwynwyd cyfres o gwestiynau cyflym wedi'u teilwra i waith y GP fel rhan o'r sesiwn, a gofynnwyd i aelodau ystyried p'un ai oedd gan eu sefydliadau perthnasol fynediad at ddata neu ymchwil lleol ychwanegol y gellid ei ystyried fel rhan o'r Asesiad, gan roi gwybod am unrhyw syniadau i performanceresearch@ceredigion.gov.uk.<br>**GWEITHREDU: Sara Dafydd (SD) i ddosbarthu cyflwyniad PowerPoint y sesiwn i aelodau'r GP.**<br>**GWEITHREDU: Y partneriaid i ystyried rhannu unrhyw ddata neu ymchwil lleol y gellid ei ymgorffori yn yr Asesiad o Lesiant Lleol.** |

DRAFT

<u>Diweddariad ar yr Ymchwil  Grwpiau Ffocws</u>
Rhoddodd Antonia Ivaldi (AI) ddiweddariad ar yr Ymchwil Grwpiau Ffocws.  Ers y cyfarfod diwethaf, cynhaliwyd 5 sesiwn Grŵp Ffocws gyda 3 sefydliad BGC.  Mae'r rhain yn cynnwys sesiwn gyda CSC, 2 gydag Adnoddau Naturiol Cymru a 2 gyda Phrifysgol Aberystwyth.  Cadarnhaodd AI fod y drafodaeth ar draws y 5 sesiwn wedi caniatáu casglu gwerth 7 awr a hanner o ddata.  Adroddodd SD fod dogfennau wedi'u rhannu â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a gobeithir trefnu sesiwn Grŵp Ffocws gyda'r gweithwyr yn ystod y mis nesaf.  Cadarnhaodd AI y bydd y data ansoddol a gasglwyd yn cael ei ddadansoddi dros y misoedd nesaf, a gobeithir bod mewn sefyllfa i rannu canfyddiadau'r ymchwil erbyn diwedd yr haf.
**GWEITHREDU:  AI i gyflwyno canfyddiadau'r Ymchwil Grwpiau Ffocws yn y cyfarfod nesaf.**

<u>Trafodaeth ar y Cynllun Gweithredu</u>
Ail-gadarnhaodd y Cadeirydd fod yr heriau o ran presenoldeb rheolaidd yng nghyfarfodydd y GP wedi arwain at anhawster i symud ymlaen gyda rhai o'r meysydd gwaith a amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredu'r GP.  Nodwyd iddi fod yn arbennig o anodd gwneud y defnydd gorau posib o'r Gofrestr Hyfforddiant Cydnerthedd am nad oedd y GP mewn sefyllfa i ystyried bylchau o ran cyfleoedd hyfforddi sefydliadol heb gael mynediad at y darlun cyflawn.  Serch tynnu sylw at enghreifftiau o waith da a brwdfrydedd dros yr Agenda cydnerthedd, ystyriwyd faint o awydd oedd yna i ddatblygu a gweithredu rhaglen hyfforddiant ar y cyd a draws sefydliadau'r BGC.  Cytunwyd y byddai trafodaethau ar y ffordd ymlaen yn parhau yng nghyfarfod nesaf y GP.
**GWEITHREDU: Trafodaeth ar y Cynllun Gweithredu i aros ar yr Agenda.**

<u>U.F.A</u>
Cadarnhaodd y Cadeirydd ei ymddeoliad o Goleg Syr Gar / Coleg Ceredigion, ac o ganlyniad bydd yn camu i lawr fel Cadeirydd y PG. Caeodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy ddiolch i bartneriaid am eu cyfraniadau.

**Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:** 24ain o Awst 2021, 14:00-16:00yh



DRAFT

**CAMAU GWEITHREDU YN Y CYNLLUN LLESIANT LLEOL O DAN YR AMCAN HWN**

| Cam Gweithredu Byrdymor | Cam Gweithredu Tymor Canolig | Cam Gweithredu Hirdymor |
|---|---|---|
| Datblygu amrywiaeth o ddulliau gweithredu a chyfleoedd yn y BGC i ddysgu sgiliau bywyd a chydnerthedd unigol i bob aelod o staff sy'n perthyn i sefydliadau'r BGC, gan hyrwyddo | Gweithio gyda sefydliadau a chymunedau eraill i gyflwyno'r rhaglen hyfforddi ledled Ceredigion. | Parhau i hyrwyddo newid diwylliannol sy'n galluogi pobl i groesawu newid. |

| | | |
|---|---|---|
| rhyngweithio rhwng pobl, yn ogystal â llesiant emosiynol a byw'n iach. | | |

**CYNLLUN GWEITHREDU: MAWRTH 2021 – MAWRTH 2022**

| **ALLWEDD** | |
|---|---|
| **GWYRDD** | Yn weithredol ac ar y trywydd iawn |
| **OREN** | Yn weithredol ond mae rhai pryderon ac mae angen monitro'n agos |
| **COCH** | Yn weithredol ond mae pryderon mawr ac mae angen camau unioni |
| **GLAS** | Wedi'i ohirio |
| **DU** | Wedi'i gau |

| **CAM 1:** *Sefydlu cyfeiriadur o adnoddau ar gyfer holl sefydliadau'r BGC.* | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithred** | **Erbyn Pryd** | **Sylwadau** |
| 1.1 | Creu Cyfeiriadur o Hyfforddiant Cydnerthedd drwy daenlen Excel, a dechrau cyfrannu gwybodaeth sydd eisoes yn hysbys ato. | 26.08.20 | **Wedi'i gwblhau.** Rhannwyd sgerbwd arfaethedig y Gofrestr Hyfforddiant Cydnerthedd gyda'r grŵp prosiect ar 26-08-20. Awgrymwyd a gwnaed diwygiadau. Cytunwyd ar y cynnwys ac fe'i uwchlwythwyd ar Teams er mwyn gallu cyfrannu ato. |
| 1.2 | Cadarnhau gydag aelodau'r grŵp prosiect a fyddai Hwb canolog i'r tîm drwy MS Teams yn fuddiol, a ph'un a oes gan y grŵp fynediad at y platfform hwn. | 24.08.20 | **Wedi'i gwblhau.** Cytunodd aelodau'r Grŵp Prosiect i fwrw ymlaen â chael hwb canolog drwy MS Teams. |
| 1.3 | Sefydlu Tîm ar gyfer y Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd ar MS Teams er mwyn caniatáu gwell cyfathrebu a rhannu ffeiliau rhwng cyfarfodydd. | 26.08.20 | **Wedi'i gwblhau.** Sefydlwyd Hwb i'r Tîm ar MS Teams ar 25.08.20. |
| 1.4 | Sicrhau bod y daenlen adnoddau yn cael ei rhannu â'r Grŵp Prosiect dros MS Teams. | 26.08.20 | **Wedi'i gwblhau.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.5 | Sicrhau bod diwygiadau fel yr awgrymwyd gan y grŵp prosiect yn ystod y cyfarfod ar 26-08-20 yn cael eu gwneud i'r Gofrestr Hyfforddiant Cydnerthedd a'r Cynllun Gweithredu. | 07.09.20 | **Wedi'i gwblhau.**<br>Uwchlwythwyd y dogfennau diwygiedig ar Hwb y Tîm. |
| 1.6 | Diffinio'r hyn sy'n berthnasol o dan bennawd yr hyfforddiant o ran cymorth cydnerthedd sefydliadol. | 08.10.20 | **Wedi'i gwblhau.**<br>Rhannwyd y diffiniad gydag aelodau ar 14-10-20 a gwahoddwyd adborth. Mae'r diffiniad wedi'i gynnwys yn y cylch gorchwyl ac wedi'i uwchlwytho ar y safle Teams. |
| 1.7 | Yr holl sefydliadau partner i ddiweddaru'r Cyfeiriadur Hyfforddiant Cydnerthedd gydag unrhyw hyfforddiant perthnasol a gynigir drwy eu sefydliadau a sicrhau bod manylion manwl yn cael eu cynnwys. | 17.11.20 | **06.06.19**<br>Cytunwyd bod angen rhagor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael i staff gan wahanol bartneriaid, gan gynnwys y gynulleidfa darged, unrhyw waith gwerthuso ar y cymorth a ddarperir, a manylion ynglŷn â'r cymorth.<br>**17.11.20**<br>Mae angen gwaith ychwanegol i sicrhau bod holl aelodau'r GP yn cyfrannu at y Gofrestr fel bod gennym ddarlun cyflawn o'r cyfleoedd o ran Hyfforddiant Cydnerthedd sydd ar gael ar draws sefydliadau'r BGC.<br>**08.06.21**<br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr heriau parhaus o ran gwneud y defnydd gorau posib o'r Gofrestr Hyfforddiant Cydnerthedd tra bod gwybodaeth ar goll o hyd o du'r partneriaid |
| 1.8 | Holl aelodau'r grŵp prosiect i barhau i gyfrannu unrhyw ddiweddariadau at y daenlen adnoddau yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y ddogfen fyw yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. | Pan fo angen | |

| **CAM 2:** *Nodi unrhyw fylchau mewn hyfforddiant ac angen yn seiliedig ar ganfyddiadau'r daenlen adnoddau* | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred** | | **Erbyn Pryd** | **Sylwadau** |
| 2.1 | Ar ôl cwblhau pwynt 5 o dan Gam 1, aelodau'r grŵp prosiect i adolygu'r Cyfeiriadur Hyfforddiant Cydnerthedd a nodi bylchau amlwg yn yr hyfforddiant. | 12.01.21 | Aros i bwynt 1.7 o dan Gam 1 gael ei gwblhau. |
| 2.2 | Sgyrsiau â grwpiau bach i'w cynnal gyda staff sefydliadau partner er mwyn nodi unrhyw angen o fewn ein sefydliadau o safbwynt adferiad COVID-19. | Ionawr, 2021 | **17.11.20**<br>Mae Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru a Phrifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i gefnogi'r ymchwil. Mae angen nodi ffynonellau cymorth ym mhob sefydliad, cyn y gall mynychwyr gael eu gwahodd i gymryd rhan ac mae hyn ar waith. Mae enwau cyswllt wedi eu clustnodi er mwyn cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru.<br>**08.06.21**<br>Mae 5 sesiwn Grŵp Ffocws wedi'u cynnal erbyn hyn gyda 3 sefydliad. Gobeithir cynnal sesiwn bellach gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ystod y mis nesaf. |
| 2.3 | Mannau adfer o fewn y GIG i lywio gwaith y grŵp prosiect drwy nodi unrhyw fylchau sy'n codi mewn angen. | Pan fo angen | **23.03.21** Mae'r broses recriwtio wedi bod yn heriol oherwydd COVID-19 ond gobeithio y gellir hyrwyddo'r broses recriwtio unwaith eto a hynny yn y dyfodol agos.<br>**08.06.21**<br>Cafodd y prosiect ei ohirio dros dro'n ddiweddar oherwydd yr heriau mewn perthynas â'r broses recriwtio a phroblemau capasiti. |
| 2.4 | Nodi a oes cyfle i rannu hyfforddiant sefydliadol gyda chymunedau a gwirfoddolwyr mewn rhyw ffurf. | Ionawr / Chwefror, 2021 | **09.07.20** Nodir anghenion hyfforddi penodol Grwpiau Cymorth Cymunedol drwy sesiynau wythnosol dros Zoom gyda thîm CAVO.<br>**17.11.20** Mae GP Deall Ein Cymunedau yn edrych i goladu cyfleoedd hyfforddi er mwyn rhoi yn ôl i'r gymuned - Bydd y maes gwaith hwn yn cael ei godi gan yr GP DEC yng nghyfarfod mis Ionawr.<br>**23.03.21** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Aelodau'r GP i gysylltu â CAVO i fynegi diddordeb mewn dod yn rhan o bortffolio o ddarparwyr all gyflenwi sesiynau i wirfoddolwyr o fewn cymunedau ar draws Ceredigion fel rhan o'r Grant Adfer Gwirfoddoli. |
| 2.5 | Sesiynau hyfforddi / gwybodaeth ynghylch Tracio ac Olrhain COVID-9 i'w rhannu lle bo hynny'n briodol e.e. o fewn grwpiau cymunedol, yn enwedig mewn perthynas ag ailagor lleoliadau cymunedol. | - | Panel Cynghori ar Ailagor Lleoliadau Cymunedol wedi'i ffurfio fel is-grŵp o'r Grŵp Prosiect BGC Deall ein Cymunedau. |

| **CAM 3:** *Datblygu hyfforddiant a rennir ar gyfer sefydliadau BGC yn seiliedig ar fylchau ac angen.* | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithred** | **Erbyn Pryd** | **Sylwadau** |
| 3.1 | | | **23.03.21**<br>Cadeirydd y Grŵp Prosiect i ddod o hyd i wybodaeth o blith aelodau'r BGC ehangach, gan weld a oes awydd o hyd i rannu hyfforddiant cydnerthedd.<br>**08.06.21**<br>Trafodaethau i barhau ar y ffordd fwyaf priodol ymlaen ar gyfer y GP. |

**BGC: PENDERFYNIADAU A RISGIAU**

| **Penderfyniadau sydd angen eu gwneud neu risgiau y mae angen tynnu sylw'r BGC atynt.** |
|---|
| |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



# CYNLLUN LLESIANT LLEOL CEREDIGION

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair | 3-4 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 5 |
| Datganiad COVID-19 | 6-7 |
| Cyflawni'r Cynllun Llesiant Lleol | 7 |
| Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol | 8-11 |
| Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau | 12-16 |
| Grŵp Prosiect Cyd-leoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen | 17-19 |
| Grŵp Prosiect Menter ac Arloesedd | 20-22 |
| Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd | 23-26 |
| Grŵp Prosiect Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd | 27 |
| Is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | 27-30 |
| (i) Is-grŵp Tlodi | |
| (ii) Grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid | |
| (iii) Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion | |
| Ymgynghoriadau a Chyflwyniadau Ychwanegol | 30 |

## Rhagair

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-21. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r camau a gymrwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion i gyflawni'r nodau a gyflwynwyd yn ein Cynllun Llesiant Lleol i Geredigion. Mae'n amlinellu'r gwaith a wnaethpwyd gan bartneriaid BGC er mwyn cyflawni ein 'dyletswydd llesiant' ar y cyd, i wella llesiant economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol pobl a chymunedau yng Ngheredigion.

Yng ngoleuni'r heriau a wynebwyd dros y 12 mis diwethaf, ac o ganlyniad uniongyrchol i'r Coronafeirws, rydym wedi ceisio gwisgo 'lens Covid' yn ystod yr holl drafodaethau a'r holl gamau a gymrwyd yn ystod y cyfnod diwethaf. Bu hyn yn hanfodol gan bod partneriaid wedi gwneud gwaith diflino yn unigol ac ar y cyd er mwyn ymateb i'r heriau sydd wedi codi. Mae pob sefydliad partner wedi dangos eu hymrwymiad a'u cefnogaeth i lesiant preswylwyr, busnesau a chymunedau Ceredigion mewn ffordd glir, ac wrth i ni symud yn ofalus ac mewn ffordd gadarnhaol i gyfnod adfer, mae gwisgo 'lens' Covid' yn mynd yn bwysicach fyth er mwyn ein tywys i gyd mewn ffordd ddiogel a phriodol ar hyd y llwybr i'r dyfodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi manteisio ar y cyfle i adolygu ein blaenoriaethau a'n ffrydiau gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein sylw a'n hymdrechion ar y prif themâu ar draws y Sir. Ail-osodwyd blaenoriaethau ac mae'n iawn bod camau gweithredu dros y 12 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar y mannau lle y mae ein dylanwad ar y cyd yn ychwanegu gwerthu y tu hwnt i'r hyn yr ydym yn ei wneud eisoes fel sefydliadau unigol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi profi ffordd hollol wahanol o weithio ac mae hyn wedi rhoi ffocws o'r newydd ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a chydgynhyrchu datrysiadau. Mae'r holl bartneriaid wedi bod yn cydweithio o ganlyniad i'r sialensiau eithriadol, ac mae cysylltiadau agosach fyth wedi arwain at gynyddu gweithrediad ymarferol mecanweithiau sefydledig er mwyn cydweithio er lles pawb. Mae hyblygrwydd wedi bod yn allweddol, o ran y cyd-destun strategol a'r ymyriadau ymarferol y bu gofyn eu cyflawni o ganlyniad i'r pandemig.

Yn ystod 2020-21, mae dull wedi'i dargedu sy'n seiliedig ar gamau gweithredu allweddol wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol, a cheir cyswllt uniongyrchol rhwng y rhain a llesiant unigolion, busnesau a grwpiau cymunedol ar draws Ceredigion. Trwy gydol y flwyddyn hon, buddsoddwyd amser ac ymdrech yn y broses o addasu arferion gwaith, gan geisio cynnwys mwy o bobl a chymunedau bob amser ar y daith hon o wella'u llesiant.

Yng ngoleuni'r sialensiau parhaus yn sgil pandemig y coronafeirws, unwaith eto, mae Adroddiad Blynyddol eleni yn fwy cryno, ond mae'n iawn bod ein taith yn parhau i roi sylw i'n Nodau Llesiant a chyflawni ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol Ceredigion.

Hoffem gydnabod yr ymrwymiad a'r cymorth a ddangoswyd gan bartneriaid, gan ddiolch iddynt am eu cydnabyddiaeth barhaus o bwysigrwydd cydweithio er budd gwella llesiant pobl a chymunedau Ceredigion.

**Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion**

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi diben cyffredin sy'n rhwymo mewn cyfraith ar ffurf saith Nod Llesiant a phum Dull o Weithio a gynlluniwyd i gynorthwyo a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n bodloni anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

### Pum Dull o Weithio

**Hirdymor**

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

**Atal**

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

**Integreiddio**

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.


**Cydweithio**

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

**Cynnwys**

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

### Y Saith Nod Llesiant



## Datganiad COVID-19

O ganlyniad uniongyrchol i bandemig y Coronafeirws, adolygwyd gweithrediad camau gweithredu'r Grwpiau Prosiect. Ar ôl penderfynu atal cyfarfodydd yn gynnar yn ystod 2020-21, mae Grwpiau Prosiect wedi ailddechrau ar-lein, trwy ddilyn dull gweithredu priodol fesul cam, a chan ymgysylltu gyda phartneriaid mewn ffordd gadarnhaol trwy gyfrwng datrysiadau cyfarfod o bell. Roedd hyn yn dilyn 4 mis cyntaf heriol iawn yn 2020/21, lle y cafodd staff ar draws aelodau partner eu hadleoli a gweithredwyd cymorth ar y cyd yn ystod yr ymateb brys.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf BGC yn 2020-21 ym mis Gorffennaf 2020 trwy drefniant rhith. Mae'n iawn bod y trafodaethau ar yr adeg hon wedi canolbwyntio ar effaith COVID-19, a arweiniodd at y Bwrdd yn rhoi ystyriaeth fanwl i ymatebion priodol i'r sialensiau a oedd wedi codi. Cytunwyd annog pob Grŵp Prosiect i gynnal adolygiad llawn o'i flaenoriaethau, gan amlinellu ei flaengynllun gweithredu.

Y Grŵp Prosiect cyntaf a ailddechreuodd ar ei waith oedd Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau, yr oedd ei aelodaeth yn manteisio ar arbenigedd personél a fu'n ymwneud gyda'r gwaith uniongyrchol o gynllunio a darparu gwasanaethau cymorth er mwyn cynorthwyo cymunedau. Gwelwyd pob partner yn dangos ymrwymiad brwd i'r gwaith ac roeddent yn dymuno cynorthwyo trwy wneud cyfraniad cadarnhaol. Yn ystod 2020-21, mae'r Grŵp Prosiect hwn wedi ceisio sicrhau bod lleisiau wedi cael eu clywed, bod canllawiau wedi cael eu datblygu a bod datrysiadau wedi cael eu gweithredu. Gan weithio mewn partneriaeth a sicrhau cyfranogiad cryf o'r 3ydd sector yn ystod 2020-21, mae'r grŵp wedi rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd ymgysylltu cymunedol, cyd-greu datrysiadau a phwysigrwydd hanfodol cynyddol manteisio ar gryfder capasiti gwirfoddolwyr er mwyn datblygu cydnerthedd cyson ar draws partneriaid a rhyngddynt.

O fis Medi 2020 ymlaen, gwelwyd cyfarfodydd Grwpiau Prosiect eraill yn ailgychwyn. Mae cyfarfodydd grwpiau prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol, Cyd-leoli ac Integreiddio gwasanaethau rheng flaen, Hyfforddiant Cydnerthedd a Menter ac Arloesedd bellach wedi ailgychwyn. Nid yw Grŵp Prosiect Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd, dan Gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, wedi cyfarfod ers dechrau 2020, pan gynhaliodd ei symposiwm rhanbarthol ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan. Yn ystod y gweithdai a gynhaliwyd yn y digwyddiad partneriaeth hwn, nodwyd nifer o feysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt, fodd bynnag, oherwydd ystyriaethau sy'n ymwneud â chapasiti a blaenoriaethau brys, dim ond cynnal briff gwylio dros ddatblygiadau yn y sector trwy blatfform gwybodaeth Basecamp y mae'r grŵp hwn wedi llwyddo i'w wneud. Mae syniadau o Geredigion, rhanbarth Gorllewin Cymru ac yn wir, Cymru gyfan, yn parhau i gael eu rhannu rhwng partneriaid, gyda'r nod o barhau gyda'r gwaith hanfodol hwn a fydd yn cynorthwyo'n fawr yn ystod y cyfnod adfer.

Mae cynnal cyfarfodydd partneriaeth rhith wedi arwain at gynrychiolaeth a chyfranogiad uwch gan ran fwyaf y partneriaid. Mae pob Grŵp Prosiect wedi cwblhau adolygiad llawn o'u blaenoriaethau, gan amlinellu eu Cynlluniau Gweithredu newydd ar gyfer 2020/21. Roedd yr adolygiad hwn wedi galluogi pob Grŵp Prosiect i wisgo lens COVID wrth bennu eu blaenoriaethau a'u Cynllun Gweithredu. Bu hwn yn ddatblygiad cadarnhaol iawn wrth i bartneriaid feithrin perthnasoedd a ffurfiwyd dros flynyddoedd blaenorol ac mae sefydliadau wedi cyfrannu i'r gwaith o gydgynhyrchu'r Cynlluniau Gweithredu newydd. Yn ogystal, mae partneriaid wedi dangos ymrwymiad pellach i dasgau unigol trwy gyfrwng rôl gweithredu uniongyrchol trwy Grwpiau Gorchwyl a Gorffen. Mae hyn yn arbennig o wir gyda Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau a Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol. Gellir gweld rhagor o fanylion am waith y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, ynghyd â blaenoriaethau pob Grŵp Prosiect unigol yn Adran 3.

## Cyflawni'r Cynllun Llesiant Lleol

Cyflawnir y cynllun Llesiant Lleol, a gytunwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Ceredigion ar 16 Ebrill 2018, trwy gyfrwng Grwpiau Prosiect, sy'n cynnwys swyddogion perthnasol ar draws partneriaid BGC. Mae'r Grwpiau Prosiect hyn yn manteisio ar sgiliau ac arbenigedd unigolion sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol berthnasol ac sy'n ceisio cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau ar draws Ceredigion.

## Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol

## Creu cymunedau amgylcheddol gyfrifol a diogel sy'n medru addasu ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd.

**Cefnogi cymunedau i wella eu perthynas â'r amgylchedd naturiol a pharatoi ar gyfer tywydd eithafol.**

### Blaenoriaethau a Adolygwyd

Un o brif amcanion y Grŵp Prosiect hwn yw cynorthwyo cymunedau a gwella eu perthynas gyda'r amgylchedd naturiol, a thrwy hynny, eu paratoi ar gyfer tywydd eithafol. Nododd BGC bod y nod hwn yn flaenoriaeth oherwydd y deallir yn eang bod newid hinsawdd yn fygythiad cydnabyddedig i'n dyfodol hirdymor, ynghyd ag effaith bywyd modern ar ein hasedau naturiol yn yr un modd.

Ar gyfer 2020/21, roedd y camau gweithredu a gydgynhyrchwyd ar gyfer y Grŵp Prosiect hwn fel a ganlyn:

- Paratoi cais am gyllid i'w gyflwyno i NRW a chyflawni camau gweithredu y cytunwyd arnynt.
- Aelodau'r grŵp i rannu arfer da a chynorthwyo trafodaethau'r Grŵp Prosiect mewn ffordd weithredol.
- Ystyried prosiectau peilot a rhaglenni cymorth eraill.

### Camau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2020/21

1. **Ailgysylltu gyda byd Natur**

Ym mis Rhagfyr 2020, penodwyd Resources for Change (R4C) Cyf gan Gyngor Sir Ceredigion, a chan weithredu ar ran y Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol, i nodi tir cyhoeddus yn y sir sy'n hygyrch ac sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth ac iechyd a lles.

Prif elfennau'r adroddiad:

- Diben yr adroddiad hwn oedd nodi ffyrdd o wella bioamrywiaeth, a chynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau rhwng pobl a byd natur.
- Mae'r gwaith wedi llunio rhestr hir o safleoedd cyhoeddus sy'n bodloni meini prawf SINC (Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur), neu y mae ganddynt y potensial i fodloni'r rhain, yn ogystal â safleoedd hygyrch y byddant yn gwella'r cyfleoedd i bobl ddeall a mwynhau byd natur a mannau gwyrdd lleol yn well, a gwella'u hiechyd a'u lles.
- Yn ogystal â llunio rhestr hir o dros 170 o safleoedd cyhoeddus y mae ganddynt botensial gwella ecolegol / cymunedol, nodwyd saith prosiect thematig posibl, y byddant yn galluogi mynediad uniongyrchol i fyd natur. Mae'r themâu hyn yn cynnwys 57 safle y maent wedi'u gwasgaru ar draws y Sir.

- Nodwyd cyfleoedd sy'n cynnwys plannu coed, garddio, cerdded a beicio, casglu sbwriel, creu llochesi bywyd gwyllt a phrosiectau celf cymunedol. Ceir potensial ar gyfer mynediad i bawb trwy wneud gwelliannau i lwybrau ac ystyried lleoliadau y maent yn agos iawn i gymunedau neu mewn cymunedau. Mae'r cynefinoedd yn amrywio o rai arfordirol, gweirgloddiau, coetir a rhai mewn ardaloedd trefol.

Mae'r safleoedd hyn fel a ganlyn:

- ABERAERON: **Prif Thema:** Creu ac Adfer Glaswelltir Lled-naturiol
- ABERYSTWYTH: **Prif Thema:** Prosiectau Bywyd Gwyllt Cymunedol
- ABERTEIFI: **Prif Thema:** Afon Teifi a Pheillwyr
- LLANBEDR PONT STEFFAN: **Prif Thema:** Coetir a Bywyd Gwyllt Dŵr Croyw
- LLANDYSUL: **Prif Thema:** Creu ac Adfer Glaswelltir Lled-naturiol
- LLANILAR: **Prif Thema:** Llwybr Cerdded Bywyd Gwyllt Cylchol
- CEINEWYDD I LANARTH: **Prif Thema:** Prysgdir arfordirol ac ansawdd dŵr

Amlinellwyd ffynonellau ariannol posibl ym mis Mawrth 2021 ar gyfer y prosiectau thema uchod, y byddant yn cynnig ffocws allweddol i'r Cynllun Gweithredu yn y dyfodol ar gyfer y Grŵp Prosiect hwn, yn ogystal â chreu cysylltiadau gyda'r Grwpiau Prosiect eraill.

> *"…….sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn cynorthwyo'r broses o ddatblygu camau allweddol a nodwyd gan yr adroddiad hwn a gomisiynwyd, a'u gyrru yn eu blaen, ar draws safleoedd cyhoeddus."*

2. **Ymgyrch Caru Lle Rydych yn Byw**

Lansiwyd yr ymgyrch ar 25 Ionawr 2021, gyda thri maes gweithredu ar gyfer grwpiau cymunedol, neu unigolion. Gwelwyd y neges wreiddiol ar Facebook dros 1000 gwaith ac mae'r niferoedd sy'n ymweld â'r platfform yn parhau i godi.

> *"……gellir gweld manylion llawn yr ymgyrch hon i unigolion a grwpiau cymunedol trwy droi at* Caru Lle Rydych Chin Byw *."*

Mae prif elfennau'r ymgyrch yn cynnwys:

**O'ch Gardd**: Cynorthwyo grwpiau i blannu gartref ac i ystyried gweithgarwch plannu cymunedol wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.

- Rhannwyd dolenni gydag "Adam yn yr Ardd" – blog fideo dwyieithog ynghylch garddio, sy'n cynnwys fideos ar gyfer y rhai sy'n dysgu Cymraeg.
- Cyswllt gyda busnes bach lleol, "Harvst", sy'n cynhyrchu tai gwydr deallus ac y mae ganddynt ethos cryf o annog gweithgarwch tyfu bwyd.
- Cyswllt gyda'r Ardd Fotaneg yng Nghaerfyrddin – Blog am gynorthwyo Gwenyn
- Cynorthwywyd grwpiau cymunedol ar draws Ceredigion i blannu hadau/ planhigion ar gyfer y Diwrnod Myfyrio Cenedlaethol.

- Datblygir cynlluniau gyda sawl cynllun tyfu bwyd cymunedol – y gobaith yw ffurfio rhwydwaith yng Ngheredigion.

**O'ch Calon**: Yn gysylltiedig gyda cerdded i ddechrau, gyda'r syniad o baentio cerrig i'w rhoi yn eich cymuned leol er mwyn i bobl ddod o hyd iddynt pan fyddant yn cerdded:

- Gweithredoedd er mwyn 'caru' eich ardal leol, sy'n gysylltiedig gyda "Naturehood", prosiect cymunedol gan Earthwatch Europe sy'n gweithio i ddadwneud y dirywiad mewn bywyd gwyllt.
- Cyfieithu taflenni ffeithiau sy'n nodi syniadau er mwyn galluogi pobl i gynorthwyo eu hamgylchedd lleol
    - o Creu coridor bywyd gwyllt
    - o Creu pentyrrau dail a boncyffion
    - o Creu pwll bywyd gwyllt a defnyddio blodau fel peillwyr
- Blog sy'n canolbwyntio ar Wiwerod Coch yng Ngheredigion.
- Gweithredu lleol ar y cyd fel y murlun ar gyfer Awr y Ddaear yn Aberteifi.
- Gweithio gyda grwpiau lleol er mwyn cynorthwyo eu gwaith cymunedol e.e. Caru Aber.
- Ystyried sut y gellir defnyddio'r ymgyrch er mwyn cynorthwyo cymunedau ymhellach wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

**O'ch Drws Ffrynt**: Gofynnwyd i bobl rannu profiadau cadarnhaol o deithiau cerdded yn y gymuned. Rhannu manylion o'r mannau lle y maent yn cerdded a'r gwahanol bethau y maent yn eu gweld.

- Erthyglau yn y wasg leol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch ac er mwyn annog pobl i gyflwyno'u llwybrau cerdded a'u lluniau.
- Rhannu teithiau cerdded Caru Ceredigion.
- Cysylltiadau gyda Cerdded er Lles Ceredigion, i hyrwyddo'u teithiau cerdded rhith. Nodwyd cyfleoedd i ymuno â theithiau cerdded cymunedol, darparu hyfforddiant arweinwyr Gwirfoddolwyr a chymorth Cymheiriaid ar gyfer y dyfodol.
- Gweithio gyda Cered a phreswylwyr cartrefi gofal lleol i ddatblygu taflenni ffeithiau dwyieithog o blanhigion ac adar brodorol i bobl eu hadnabod pan fyddant yn cerdded ac yn garddio. Ystyrir canllawiau ar gyfer gerddi synhwyraidd hefyd sy'n cynnwys perlysiau a phlanhigion persawrus.

Mae'r prosiect hwn wedi canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd gyda grwpiau cymunedol sy'n datblygu gwahanol brosiectau tyfu cymunedol – amlygir y rhain hefyd fel rhan o wythnos arddio genedlaethol a gellir gweld manylion dolenni defnyddiol isod:

*"…….mae dolenni defnyddiol sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol ar gael trwy droi at :*

*Tyfu Cymunedol*

*Adam yn yr Ardd*

Diwrnod Cenedlaethol o Fyfyrdod

*O'ch Drws Blaen* "

**Rhannu arfer da a chynyddu gwybodaeth**

Mae'r elfennau hyn yn hanfodol er mwyn cynnig sylfaen ar gyfer gwaith y Grŵp Prosiect hwn ac felly, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl Ymchwil bach yn ystod 2020/21.

Roedd ffocws y Grŵp Gorchwyl hwn yn ymwneud â chynnwys Partneriaid mewn Prosiect Peilot Cydnerthedd yr Hinsawdd a ariannwyd gan NRW, a oedd yn rhoi ffocws arbennig ar lunio Cynlluniau Cydnerthedd Cymunedol wedi'u hymwreiddio. Roedd y gwaith hwn yn ymwneud â Chydnerthedd yr Hinsawdd – cynllunio ar gyfer dyfodol gwahanol o ganlyniad i'r newid hinsawdd yr ydym eisoes wedi cael ein clymu iddo a'i nod oedd cynnig trosolwg o effeithiau'r hinsawdd a'r risgiau i'r Dref, gan amlinellu'r blaenoriaethau i sefydliadau, grwpiau cymunedol ac unigolion weithio arnynt er mwyn meithrin cydnerthedd.

Yn ogystal, mae'r Grŵp Prosiect hwn wedi ystyried strategaethau allweddol a ddatblygwyd gan bartneriaid ac ystyriaeth uniongyrchol cyfranogiad myfyrwyr mewn mentrau er mwyn gwella gweithgareddau yn y dyfodol.

*"…….sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn ystyried cyfleoedd ymchwil, gan fanteisio ar sgiliau myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig trwy gynnig cyfleoedd i gymryd rhan uniongyrchol mewn meysydd prosiect allweddol."*

**Camau arfaethedig yn y dyfodol**

Bydd y blaengynllun gweithredu ar gyfer y Grŵp Prosiect hwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynigion yn adroddiad cwmpasu Ailgysylltu Byd Natur, parhad a datblygiad pellach camau cymunedol sy'n canolbwyntio ar rannu arfer da gydag Ymgyrch Caru lle Rydych yn Byw a'r arfer parhaus o gysylltu camau gweithredu y prosiect gyda phrif strategaethau sefydliadau partner.

Rhoddir pwyslais ar gadw golwg barcud ar y cynlluniau adfer wrth i ni ddod allan o bandemig COVID-19.

## Grŵp Prosiect Deall Ein Cymunedau

# Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn.

**Datblygu a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol a chyfleoedd diwylliannol ac ieithyddol er mwyn gwella llesiant a sicrhau annibyniaeth.**

### Blaenoriaethau a Adolygwyd

Fel y soniwyd yn flaenorol, Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau oedd y cyntaf i ailddechrau ar ôl dyfodiad pandemig COVID-19, er mwyn sicrhau gweithgarwch hanfodol i rannu gwybodaeth rhwng cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus yn ystod cyfnod pan oedd hi'n hollbwysig ymateb yn gyflym er mwyn cynorthwyo'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Roedd hyn yn arbennig o bwysig oherwydd roedd gan natur wledig Ceredigion, teneurwydd y boblogaeth yn ei hanheddau a sialensiau gan gynnwys ynysigrwydd ac allgáu digidol y potensial i waethygu oherwydd effaith COVID-19. Cynhaliwyd adolygiad o'r blaenoriaethau cyfredol er mwyn sicrhau bod gwaith y Grŵp Prosiect yn bodloni anghenion cymunedau a sefydliadau partner yng ngoleuni'r pandemig, gan gydnabod y dylai'r rhaglen waith barhau i fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau pan fo hynny'n briodol.

Ar gyfer 2020/21, roedd y camau gweithredu a gydgynhyrchwyd ar gyfer y Grŵp Prosiect hwn fel a ganlyn:

- Nodi cymunedau daearyddol a chymunedau o ddiddordeb – Data ac asedau cymunedol.
- Datblygu rhaglen ymgysylltu gyda chymunedau a chytuno ar ddiben a neges glir er mwyn cyfleu'r weledigaeth ac annog cyfranogiad – Ymgysylltu a Chyfathrebu.
- Gweithio gyda chymunedau er mwyn deall eu hasedau – gan gynnwys adeiladau, pobl, sgiliau, gweithgareddau, digwyddiadau a gwasanaethau – Data ac asedau cymunedol.
- Cynorthwyo cymunedau i weithio fel Byrddau Gwasanaeth Cymunedol – Cydgynhyrchu.

### Camau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2020/21

1. **Data ac Asedau Cymunedol**

Mae'r Grŵp Prosiect wedi parhau i gasglu adroddiadau a chanlyniadau gan ymarferion ymgysylltu cymunedol a gynhaliwyd yn ddiweddar. O ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, penderfynwyd oedi rhai ymarferion a phrosiectau am gyfnod, megis y Cynlluniau Bro, wrth ailystyried cyfleoedd ymgysylltu a rhoi ffocws ar ymgynghori digidol yn hytrach nag ymgynghori wyneb yn wyneb. Mae ymgynghoriadau cymunedol wedi cynnwys y rhai a gynhaliwyd gan Cered yn Aberaeron ac yn Llanbedr Pont Steffan, gan Ddyfodol Gwledig yn Llandysul a Cheinewydd, gan Cynnal y Cardi yn Llanbedr Pont Steffan a Llangrannog, a chan CAVO yn Llandysul, Aberteifi a

Phenparcau. Mae casglu adborth ac adroddiadau o ymarferion megis y Cynlluniau Bro a gweithgarwch ymgysylltu cymunedol yn caniatáu mwy o ddealltwriaeth o'r angen, gan adnabod meysydd gwaith posibl ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn bod yn barod ar gyfer yr Asesiad Llesiant Lleol nesaf, a gynhelir yn 2021/2022, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r Grŵp Prosiect hwn er mwyn cynorthwyo'r broses o ddatblygu'r cynllun ymgysylltu a chyfathrebu drafft. Wrth i gyswllt sefydliadau BGC ymestyn ymhell mewn cymunedau, bydd arbenigedd y Grŵp Prosiect yn werthfawr iawn wrth nodi rhanddeiliaid a digwyddiadau allweddol lle y bydd modd cyflawni gweithgarwch ymgysylltu am yr Asesiad Llesiant Lleol. Bydd y broses hon yn hollbwysig wrth gyrraedd y cymunedau hynny sy'n ddifreintiedig, sydd ar y cyrion ac nas clywir eu llais yn aml iawn, gan sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed ac yr ystyrir eu hanghenion. Yn ogystal, bydd aelodau'r Grŵp Prosiect yn cymryd rhan mewn gweithdy wedi'i hwyluso er mwyn coladu eu hystyriaethau a'u harbenigedd trwy gyfrwng poliau, byrddau gwyn rhith a thrafodaeth ynghylch themâu llesiant yng nghyd-destun deall ein cymunedau.

> *"…….sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn cynorthwyo'r broses o ddatblygu'r cynllun ymgysylltu a chyfathrebu drafft ar gyfer yr Asesiad Llesiant Lleol nesaf."*

**2. Ymgysylltu a Chyfathrebu**

Caiff datblygiadau ynghylch Writemedia ac Engagement HQ eu hadrodd i'r Grŵp Prosiect o hyd, gyda'r nod o ddefnyddio'r platfformau ymgysylltu digidol hyn fel storfa ar gyfer adroddiadau ymgysylltu. Mae datblygiad Engagement HQ wedi parhau i fod yn heriol o ganlyniad i gapasiti partneriaid yn ystod COVID-19, ond y gobaith yw y gellir defnyddio'r platfform yn y dyfodol fel offeryn ar gyfer ymgysylltu parhaus er mwyn lleihau nifer yr ymarferion ymgynghori cymunedol gymaint ag y bo modd. Mae'r Grŵp Prosiect wedi cynnal trafodaethau ynghylch sut y gellir defnyddio Engagement HQ er mwyn cynorthwyo dull Cyllidebu Cyfranogol yng Ngheinewydd, yn dilyn llwyddiant prosiect tebyg a ariannwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar draws 3 ardal y sir. Bydd hyn yn datblygu gwaith Severn Wye dan Raglen Dyfodol Gwledig yn yr ardal, y maent wedi bod yn cynorthwyo'r gymuned i fapio asedau lleol, nodi materion sy'n gysylltiedig â byw mewn ardal wledig a chynnig syniadau sy'n seiliedig ar arfer da er mwyn helpu i gyfrannu at ddatrysiad. Yn ogystal, mae'r Grŵp Prosiect yn parhau i archwilio cysylltiadau gyda Deall Lleoedd Cymru fel ffynhonnell data cymunedol, gan ystyried sut y gallai gysylltu gyda a chyfrannu at yr Asesiad Llesiant Lleol.

Mae cyfathrebu effeithiol yn parhau i fod yn hanfodol i waith y Grŵp Prosiect, ac nid yw hyn fyth wedi bod yn fwy hanfodol nag yr oedd yn ystod dyddiau cynnar y pandemig. Trefnodd CAVO gyfarfodydd wythnosol gyda threfnwyr Grwpiau Cymorth Lleol, ac adroddwyd unrhyw adborth, sialensiau a meysydd arfer da yn ôl i'r aelodau yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Prosiect. Cynhaliwyd ymarfer mapio, gyda'r nod o

gofnodi gwasgariad daearyddol darparwyr cymorth ar draws Ceredigion, gan gynnwys banciau bwyd, grwpiau cymorth cymunedol, cynghorau tref a chymuned a grwpiau CFfI. Bu'r ymarfer hwn yn hanfodol wrth nodi unrhyw ardaloedd yn y sir nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan unrhyw rwydweithiau cymorth, gan ganiatáu gweithredu mecanweithiau er mwyn cynorthwyo cymunedau lle y gwelwyd llai o ddarpariaeth. Wrth i neges Arhoswch Gartref ddod yn fwy clir a gweithredwyd dulliau cyfathrebu amgen, roedd hi'n hanfodol i'r Grŵp Prosiect bod negeseuon hanfodol yn parhau i gyrraedd y rhai yr oeddent yn dioddef allgáu digidol yn y sir. O ystyried hyn, lluniwyd dogfen Cynllun Cyfathrebu byw ac fe'i gosodwyd ar wefan MS Teams y Grŵp Prosiect, ac roedd yn cyfeirio at lwybrau cyfathrebu amrywiol a meysydd arfer da er mwyn cyrraedd cymunedau ar-lein ac all-lein. Yn ogystal, cafodd y Grŵp Prosiect gyflwyniad gan Radio Aber, sy'n canolbwyntio ar hwyluso negeseua rhwng cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus trwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys hysbysebu a ffonio i mewn.

> *"Cynhaliwyd ymarfer mapio, gyda'r nod o gofnodi gwasgariad daearyddol darparwyr cymorth ar draws Ceredigion, gan gynnwys banciau bwyd, grwpiau cymorth cymunedol, cynghorau tref a chymuned a grwpiau CFfI. Bu'r ymarfer hwn yn hanfodol wrth nodi unrhyw ardaloedd yn y sir nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan unrhyw rwydweithiau cymorth."*

**3. Adfer ar ôl COVID-19**

Cyn i'r cyfnod clo lacio am y tro cyntaf, sefydlwyd is-grŵp o'r Grŵp Prosiect er mwyn cynorthwyo a chynghori ynghylch ailagor lleoliadau cymunedol mewn ffordd ddiogel. Sefydlwyd panel aml-asiantaethol o arbenigwyr ac maent yn parhau i gyfarfod bob wythnos i drafod ymholiadau, monitro sialensiau a rhannu gwybodaeth. Cynhaliwyd nifer o sesiynau briffio rhith gyda chynrychiolwyr lleoliadau cymunedol, ac mae niferoedd da wedi mynychu'r rhain. Mae templedi asesiadau risg, cyngor ynghylch glanhau, gweithdrefnau tracio ac olrhain, yn ogystal â'r canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru a CGGC, yn parhau i gael eu cynnig ar-lein a thrwy gyfrwng y sesiynau briffio byw, lle y caiff cynrychiolwyr lleoliadau cymunedol eu hannog i ofyn cwestiynau i'r panel am eu gweithgareddau / lleoliadau penodol nhw. Mae'r Panel wedi bod yn llwyddiannus wrth hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau cenedlaethol sy'n seiliedig ar yr angen lleol.

> *"…..sefydlwyd is-grŵp er mwyn cynorthwyo a chynghori ynghylch ailagor lleoliadau cymunedol mewn ffordd ddiogel. Sefydlwyd panel aml-asiantaethol o arbenigwyr ac maent yn parhau i gyfarfod bob wythnos i drafod ymholiadau, monitro sialensiau a rhannu gwybodaeth."*

Yn ogystal, mae'r Grŵp Prosiect yn parhau i ystyried darnau ymchwil amrywiol sy'n ceisio nodi effaith y pandemig ar gymunedau. Cafodd y Grŵp Prosiect gyflwyniad am Brosiect Yfory – Prosiect ar y cyd rhwng Bro360 a Radio Beca, sy'n seiliedig ar arolwg 3

chwestiwn er mwyn darganfod sut y mae'r cymunedau yn rhyngweithio, a nodi'r pethau cadarnhaol a'r pethau negyddol sydd wedi digwydd yn sgil y pandemig. Estynnir gwahoddiad pellach i gynrychiolydd o Brosiect Yfory roi diweddariad i'r Grŵp Prosiect yn ystod y misoedd nesaf, a fydd yn cyfrannu at waith y grŵp yn y dyfodol, gan sicrhau bod unrhyw enghreifftiau cadarnhaol o arfer da yn cael eu cadw.

Bydd astudiaeth gan Ysgol Fusnes Aberystwyth ynghylch effaith COVID-19 sy'n benodol i breswylwyr a busnesau cefn gwlad Ceredigion yn cynorthwyo hefyd wrth gyfrannu at unrhyw waith i gynorthwyo cymunedau yn well wrth i'r adfer barhau.

**4. Cydgynhyrchu**

Fel y soniwyd yn flaenorol, mae'r Grŵp Prosiect yn awyddus i archwilio'r cyswllt posibl rhwng Cyllidebu Cyfranogol fel man cychwyn ar gyfer cydgynhyrchu. Cafwyd trafodaethau gyda Severn Wye yn barod ynghylch peilota'r dull Cyllidebu Cyfranogol er mwyn datblygu'r cynlluniau gweithredu a'r asesiad anghenion a gynhaliwyd yng Ngheinewydd trwy'r Rhaglen Dyfodol Gwledig, gan sicrhau y dosbarthir cronfeydd allweddol i gymunedau. Yn ogystal, adroddir am Grant Adfer Gwirfoddolwyr COVID-19 yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Prosiect, a fydd yn hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau feithrin sgiliau ac ymwybyddiaeth ynghylch cymorth cyntaf, meithrin hyder ac iechyd meddwl, yn ogystal â chynorthwyo'r broses o weithredu cynlluniau wrth gefn cymunedol. Yn ogystal, bydd y prosiect yn ceisio dathlu gwirfoddoli fel gweithred, a'r manteision cysylltiedig i iechyd pobl. Bydd sefydlu platfform Cysylltu Ceredigion lle y gall cymunedau ffurfio cysylltiadau, rhannu gwybodaeth a chyfnewid cynigion gwirfoddoli, yn ogystal ag ymgyrch Cysylltu â Charedigrwydd, sy'n annog preswylwyr i gynorthwyo ei gilydd mewn ffordd anffurfiol trwy gyflawni gweithredoedd caredig, yn cynorthwyo i ategu'r neges hon. Mae'r Grŵp Prosiect yn parhau i hyrwyddo cyfeiriaduron Dewis Cymru ac Infoengine hefyd, lle y gall unigolion archwilio cyngor ac amrediad o wasanaethau sydd ar gael ar draws Cymru a'u hardal benodol nhw.

> *"…peilota'r dull Cyllidebu Cyfranogol er mwyn datblygu'r cynlluniau gweithredu a'r asesiad anghenion a gynhaliwyd yng Ngheinewydd trwy'r Rhaglen Dyfodol Gwledig, gan sicrhau y dosbarthir cronfeydd allweddol i gymunedau."*

**Gweithredu Arfaethedig yn y Dyfodol**

Bydd y Grŵp Prosiect yn parhau i ddatblygu'r gwaith fel yr amlinellir uchod pan fo hynny'n briodol yn ystod y flwyddyn i ddod, gan barhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion y gymuned yn ôl yr angen. Mawr obeithir y bydd modd i'r gwaith ar y Cynlluniau Bro barhau, ac y bydd y Grŵp Prosiect yn gallu cynorthwyo gweithio gyda chymunedau a swyddogion allweddol er mwyn sefydlu Tasgluoedd i gydgynllunio a chyflwyno datrysiadau er mwyn bodloni anghenion a nodwyd yn y broses wrth symud ymlaen.

Bydd y trafodaethau'n parhau ynghylch cyflawni'r dull Cyllidebu Cyfranogol yng Ngheinewydd, er mwyn datblygu'r canfyddiadau a bennwyd fel rhan o Raglen Dyfodol Gwledig, a fydd yn ceisio cynorthwyo'r gymuned i roi sylw i ddatrysiadau ar gyfer y problemau sy'n ymwneud â byw mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal, bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Deall Ein Cymunedau yn parhau i gynorthwyo'r broses Asesiad Llesiant Lleol.

Bydd y Grŵp Prosiect yn parhau i gryfhau cysylltiadau, archwilio cyfleoedd ar gyfer gwneud gwaith ymgysylltu parhaus ac annog ffyrdd cydgynhyrchiol o weithio gyda chymunedau a phartneriaid ar lefel leol a rhanbarthol. Rhagwelir y bydd Engagement HQ yn offeryn hynod o werthfawr wrth gynnwys ymgysylltu parhaus yn ein gwaith o ddydd i ddydd, gan sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ynghylch sicrhau a darparu mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau grant neu gyllid eisoes ar gael fel rhan o ystorfa ganolog er mwyn osgoi syrffed ar ymgynghori. O ystyried hyn, bydd y Grŵp Prosiect yn cynorthwyo wrth brofi'r wefan, a bydd yn parhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau y caiff ei chyflawni a'i rheoli i'w photensial llawn.

Yn ogystal, mae'r Grŵp Prosiect yn bwriadu datblygu a chyflwyno rhaglen sgiliau ymgysylltu ar gyfer gweithlu partner BGC, a fydd yn cynnwys technegau cydgynhyrchu, gan sicrhau bod pob cysylltiad yn bwysig.

"….*parhau i gryfhau cysylltiadau, archwilio cyfleoedd ar gyfer gwneud gwaith ymgysylltu parhaus, ac annog ffyrdd cydgynhyrchiol o weithio gyda chymunedau.*"

# Grŵp Prosiect Cyd-leoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen

## Galluogi pob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd.

**Cefnogi parodrwydd rhieni drwy ymyrraeth gynnar, goresgyn anghydraddoldeb, a hybu dysgu cyfannol.**

**Blaenoriaethau a Adolygwyd**

Mae amcanion allweddol y Grŵp Prosiect hwn yn rhan bwysig o'r gofyniad i BGC Ceredigion atal anghydraddoldeb parhaus a diffyg gwasanaethau cyffredinol er mwyn cynorthwyo plant. Bellach, mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar fodel cymorth pob oed sy'n manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer cydweithio ymarferol, ac sy'n ceisio gwella canlyniadau bywyd pawb. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae gofyn cydweithio ac ymyrryd. Cyflawnir y gwaith cychwynnol trwy bartneriaid BGC, gyda cham gweithredu hirdymor i sicrhau bod gwasanaethau cyffredinol yn cynnwys adnoddau da, a'u bod yn hygyrch i bawb ac yn cael eu defnyddio gan bawb.

**Camau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2020/21**

Ar gyfer 2020/21, roedd y camau gweithredu a gydgynhyrchwyd ar gyfer y Grŵp Prosiect hwn fel a ganlyn:

- Canolbwyntio ar raglenni, strategaethau a pholisïau sy'n anelu at gydgynhyrchu system integredig ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar.
- Cynorthwyo gwaith integredig i sefydlu'r canolfannau Llesiant.
- Ystyried ac ymchwilio i fodelau hybrid posibl er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau.

Mae creu'r amgylchedd er mwyn galluogi pob plentyn i gael y cychwyn gorau mewn bywyd yn hanfodol ac er mwyn ymdrechu i gyflawni'r amcan hwn, mae gwaith y Grŵp Prosiect hwn wedi cynorthwyo Prosiect Peilot Braenaru. Mae gwerthusiad o'r ddarpariaeth leol a gynhaliwyd gan gwmni Ymgynghorol Wavehill wedi cynnig y sylfaen ar gyfer darpariaeth barhaus y peilot, ac mae wedi cysylltu'r gwaith hwn gydag amcanion allweddol Strategaeth Ranbarthol y Blynyddoedd Cynnar hefyd.

Mae manteisio ar arbenigedd partneriaid a gwerthuso ymateb darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn allweddol, ac mae hyn wedi galluogi i wasanaethau gael eu darparu mewn ffordd ddi-dor ar draws Ceredigion. Daeth y gofyniad am ddarpariaeth ddi-dor gwasanaethau cymorth yn bwysicach fyth gyda dyfodiad COVID-19 ac mae partneriaid wedi cydweithio er mwyn sicrhau darpariaeth barhaus cymorth, er bod hyn mewn model a ddiwygiwyd ac a addaswyd rhyw ychydig er mwyn adlewyrchu sialensiau'r cyfnod clo. Mae pwysigrwydd cynnal cyswllt a darparu cymorth wedi cynnig sylfaen ar gyfer yr holl agweddau ar y gwaith ac mae'r

profiad a sicrhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei ddefnyddio nawr er mwyn cyfrannu at y ddarpariaeth yn y dyfodol.

Roedd sialensiau COVID-19 wedi cael effaith uniongyrchol ar ddarpariaeth gofal plant ar draws y Sir, wrth i leoedd gael eu colli pan welwyd darparwyr yn ei chael hi'n anodd cynnal y ddarpariaeth. Sianelwyd gwasanaethau cymorth er mwyn ymateb i'r her hon, ac er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gael wrth i ni symud i'r cyfnod adfer. Mae'r gwaith a wneir mewn partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddarparu gwasanaethau gofal plant yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyffredinol ar gael er budd teuluoedd yn y Sir.

Mae ail nod y Grŵp Prosiect hwn wedi canolbwyntio ar gynllun a sefydlu Canolfannau Lles, ac mae hyn wedi cael ei seilio ar y Model Darparu Gwasanaethau Integredig arloesol a gefnogwyd gan Gyngor Sir Ceredigion. Mae gweithgarwch ymgynghori gyda phartneriaid wedi cyfrannu at gynllun y Ganolfan Les gyntaf a leolir yng Nghanolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan, gan bod y nod yn canolbwyntio'n fawr ar ddatblygu cyfleusterau integredig er budd unigolion a chymunedau. Trwy fabwysiadu model sy'n seiliedig ar sicrhau cymaint o hyblygrwydd ag y bo modd, bydd modd darparu amrediad o wasanaethau ar gyfer y cyhoedd, er budd pawb. Mae gweithgarwch ychwanegol er mwyn ymgynghori gyda phartneriaid wedi cychwyn, gyda'r nod o ymwreiddio'r model yn y datrysiadau gwasanaeth a gefnogir gan bartneriaid. Mae partneriaid BGC yn ystyried y cyfleoedd a ddarparir gan y Ganolfan Les er mwyn darparu gwasanaethau estynedig ac maent yn ystyried cysyniad model "prif ganolfan a lloerennau" hefyd, a fyddai'n galluogi'r ganolfan i estyn allan i gymunedau cyfagos. Mae cyfleoedd yn croesi terfynau darpariaeth gwasanaethau gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r 3ydd sector er budd pawb trwy gyfrwng canolfannau sy'n rhai gwirioneddol gymunedol.

> *"…mae gweithgarwch ymgynghori gyda phartneriaid wedi cyfrannu at gynllun y Ganolfan Les gyntaf yn Llanbedr Pont Steffan, ac mae cysylltiadau yn cael eu hystyried dan y Gronfa Cydnerthedd Gwirfoddoli gyda ffocws uniongyrchol ar wasanaethau cymunedol."*

**<u>Camau arfaethedig yn y dyfodol</u>**

Wrth i ni symud i'r cyfnod adfer, mae'r Grŵp Prosiect hwn yn gynyddol ymwybodol o flaenoriaethau a nodir a'r cyfeiriad strategol a amlinellir gan Lywodraeth Cymru ynghylch sefydlu canolfannau cymunedol. Nod y Grŵp Prosiect fydd meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o uchelgais Llywodraeth Cymru, a bydd yn ceisio cyd-lunio datrysiadau ar draws Ceredigion.

> *"…yr uchelgais yw gweld tua 30% o'r gweithlu yng Nghymru yn aros gartref neu'n agos i'w cartref yn y tymor hir. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn dymuno*

*cynnig "mwy o hyblygrwydd i weithio o bell" i weithwyr, a honnodd y gallai hyn "ysgogi adfywio a gweithgarwch economaidd mewn cymunedau".*

Bydd y Grŵp Prosiect yn ystyried potensial a chwmpas datrysiadau newydd ymhellach, a bydd yn bwrw ymlaen gyda thrafodaethau gyda phartneriaid ac yn cynnwys gweithgarwch i fapio asedau partneriaid er mwyn cynorthwyo canolfannau gweithio cymunedol.

## Grŵp Prosiect Menter ac Arloesedd



## Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd.

### Gwella'r seilwaith ffisegol a digidol i gefnogi datblygiad economaidd, gan gynnwys cartrefi addas a fforddiadwy.

**<u>Blaenoriaethau a Adolygwyd</u>**

O ystyried natur wledig Ceredigion a'r ffaith ei bod yn bell i ffwrdd o ganolfannau economaidd mawr, mae'r Sir o reidrwydd yn ddibynnol iawn ar gyflogaeth y sector cyhoeddus. Mae gofyn cael mwy o gyfleoedd i ymestyn y gyflogaeth hon er mwyn lleihau'r risg i ffyniant hirdymor y Sir. Mae amcanion y Grŵp Prosiect hwn yn seiliedig ar bennu datrysiadau y byddant yn lleihau'r risg hwn, gan ehangu'r gyflogaeth trwy gyfrwng ymyriadau a mentrau sy'n ceisio datblygu'r economi sylfaenol a gwella'r seilwaith. Gyda chyswllt uniongyrchol partneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r 3ydd sector, caiff datrysiadau eu cynllunio i adlewyrchu eu persbectif a'u hawydd i greu busnesau arloesol a chynaliadwy sy'n manteisio ar sgiliau ac arbenigedd pobl leol.

Mae'r Grŵp Prosiect wedi bod yn ymwneud yn fawr gyda'r gwaith o siapio Strategaeth Economaidd 2020-35 a chytunwyd ar hon yn ystod cyfarfod y Cabinet ym mis Mawrth 2021. Mae'r ddogfen hollbwysig hon wedi helpu i bennu'r meysydd y mae angen canolbwyntio arnynt yn ystod 2021/22.

Pan ddechreuodd y Grŵp Prosiect gyfarfod unwaith eto yn ystod chwarter cyntaf 2021, ei dasg gyntaf oedd cynnal adolygiad ar y cyd o'r blaenoriaethau. Ystyriodd y Grŵp Prosiect y blaenoriaethau canlynol:

- Grŵp gorchwyl dadansoddi data – Beth mae'r data yn ei olygu ar gyfer menter ac arloesedd?
- Grŵp gorchwyl cyd-leoli ac arallgyfeirio busnes – A ddylai hyn fod yn sail i'r model datblygu busnes gofynnol?
- Ymyrraeth Menter – A ydym yn deall amrediad ac effeithiau posibl yr ymyriadau sy'n bodoli eisoes?
- Grŵp gorchwyl ar gyfer sector penodol – A ddylem ystyried gofynion sectorau unigol o bryd i'w gilydd?
- Ffocws ar le – Sut allwn siapio dyfodol canol trefi, beth sy'n bwysig ar gyfer eu bywiogrwydd yn y dyfodol?

Hefyd yn ystod 2020/21, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Geredigion arwain prosiect yng Nghanolbarth Cymru a fyddai'n ceisio Creu Cyfoeth yn yr Economi Sylfaenol trwy gyfrwng dulliau caffael blaengar. Fel rhan o hwn, mae ystod helaeth o bartneriaid wedi rhannu gwybodaeth ar draws sectorau allweddol gyda'r amcan o wella'r cyfleoedd sydd ar gael ar draws y rhanbarth i ehangu'r platfform busnes a chadw cyfoeth yn lleol.

Cyflawnir y gwaith hwn gan y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (C.L.E.S) ac mae ganddi y nodau penodol canlynol:-

- **Achosi newid systemig mewn economïau lleol** ar draws Cymru:
    - o trwy weithio gyda **sefydliadau angori** mewn **ardaloedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** dethol yng Nghymru er mwyn cyflwyno ac ymwreiddio cysyniad **creu cyfoeth cymunedol** yn yr ardaloedd hyn
    - o a lledaenu gwersi polisi ac arfer ar draws Cymru;
- Gyda ffocws penodol ar **ddulliau caffael blaengar**

**<u>Camau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2020/21</u>**

Yn ystod rhan helaeth o 2020/21, ataliwyd camau gweithredu y Grŵp Prosiect hwn wrth i'w aelodau frwydro i ymateb i sialensiau COVID-19. Bu aelodau'n gweithio gyda byd busnes er mwyn darparu cymorth mentrau Llywodraeth Cymru yn gyflym. Cynlluniwyd y rhain ar fyrder er mwyn cynorthwyo'r sector preifat lleol i oroesi. Rhoddwyd blaenoriaeth i ddarparu'r strwythurau cymorth yr oeddent yn angenrheidiol er mwyn galluogi busnesau ac unigolion i oroesi y tu hwnt i'r pandemig.

Mae llais y sector preifat yn allweddol i'r grŵp hwn ac yn ystod y cyfnod heriol hwn, mae hi wedi bod yn anodd iawn cynnal mewnbwn y sector preifat, ond mae'r grŵp yn rhoi sylw i'r mater hwn nawr wrth iddo fwrw ymlaen gyda meysydd gwaith penodol.

Wrth i'r cyfyngiadau lacio ac ar ôl ystyried y sefyllfa yn fanwl, mae'r Grŵp Prosiect wedi cytuno y bydd yn canolbwyntio ar ddwy elfen allweddol yn y dyfodol, sef ymyriadau cymorth a rhoi ffocws ar goleddu natur y stryd fawr sy'n newid, a'r cynhyrchion a gynigir arni, ac mewn trefi marchnad.

> *"… sefydlwyd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen er adolygu'r ymyriadau yr oeddent yn ceisio ehangu'r seilwaith cyflogaeth, er mwyn manteisio ar uchelgais y sector preifat ac er mwyn diffinio ffocws Lle ymhellach – Sut ydym yn siapio dyfodol canol trefi, beth sy'n bwysig i'w bywiogrwydd yn y dyfodol, eu gweithgarwch ymchwil a datblygu ar draws y Sir."*

Er mwyn cyd-fynd â'r gwaith hwn, cynhaliwyd sawl gweithdy fel rhan o'r prosiect caffael – 'Creu Cyfoeth yn yr Economi Sylfaenol' ac mae'r rhain wedi ystyried pum sector allweddol, sef:

- Gwella Cyfleoedd ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig Lleol
- Adeiladu ac Ôl-osod
- Caffael Bwyd
- Cymorth ar gyfer Cyflenwyr Cynhyrchiol
- Cychwyn Busnes Newydd.

Adolygwyd nodau'r prosiect hwn yn erbyn y sialensiau sy'n codi yn sgil COVID-19 hefyd, a gwnaethpwyd y diwygiadau allweddol canlynol i gynllun y prosiect:

- Yng ngoleuni COVID-19, mae'r gwaith yn cynnwys ffocws penodol ar **gynorthwyo busnesau lleol sydd mewn perygl neu sy'n agored i niwed** o ganlyniad i'r pandemig, a chynorthwyo twf **cyfleoedd cyflogaeth lleol.**
- Yn ogystal, rydym yn archwilio rhai agweddau ar **wariant asiantaethau cenedlaethol ar draws Cymru** (e.e. gwariant GIG Cymru sy'n gysylltiedig â bwyd).

> *"… cynhaliwyd sesiynau gweithdy er mwyn mapio gwerth sectorau unigol allweddol ac er mwyn nodi cyfleoedd pellach i leihau colli cyfoeth gan gymunedau lleol*."

**Camau arfaethedig yn y dyfodol**

Mae'r Grŵp Prosiect hwn yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod y tirlun yn newid yn ein trefi marchnad, ac mae'n dymuno canolbwyntio ei waith ar adnabod dulliau a chynhyrchion newydd. Rhoddir pwyslais ar ymchwil a datblygu a chynllunio datrysiadau arloesol. Ystyrir bod annog datblygiad sgiliau yn allweddol ar gyfer dyfodol busnesau yn yr ardal yn y tymor hir, a bernir bod manteisio ar botensial cudd yr Economi Sylfaenol yn ysgogydd allweddol yn y gwaith hwn.

O ystyried pwyslais sectorol y gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn, ystyrir ei bod yn ymarferol disgwyl gweld cyfraniad cynyddol i'r economi dros y blynyddoedd nesaf.

## Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd

## Galluogi pobl i greu ac i fanteisio ar gyfleoedd ac ymateb i heriau drwy gydol eu bywydau.

**Gwella sgiliau galwedigaethol a sgiliau bywyd, meithrin hyder a galluogi pobl i ymateb yn gadarnhaol i newid.**

**Blaenoriaethau a Adolygwyd:**

Gydag Egwyddorion Canllaw Cydnerthedd Cymunedol a Chydnerthedd Unigol yn sail i 6 Nod Llesiant y Cynllun Llesiant Lleol, nid yw sicrhau bod ein cyflogeion yn y sector cyhoeddus yn meddu ar y sgiliau a'r gallu i oresgyn cyfnodau pontio, sialensiau a wynebu newid fyth wedi bod yn bwysicach yng ngoleuni pandemig COVID-19. Nid yw ein cydnerthedd ar lefel gymunedol ac ar lefel unigol erioed wedi cael ei herio mewn ffordd mor eang ac amlweddog, wrth i gyflogeion orfod addasu i ffordd hollol newydd o weithio a chyfathrebu bron dros nos. Roedd gan Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd rôl hanfodol i'w gyflawni wrth sicrhau bod staff yn ein sefydliadau BGC yn teimlo'n hyderus ynghylch lefel y cymorth lles a ddarparwyd yn eu gweithleoedd priodol, a'u bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ymdopi yn unol â'r amgylchiadau. Cynhaliwyd adolygiad o'r blaenoriaethau cyfredol er mwyn sicrhau bod gwaith y Grŵp Prosiect yn bodloni anghenion sefydliadau partner yng ngoleuni'r pandemig, gan gydnabod y dylai'r rhaglen waith barhau i fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau pan fo hynny'n briodol.

Ar gyfer 2020/21, roedd y camau gweithredu a gydgynhyrchwyd ar gyfer y Grŵp Prosiect hwn fel a ganlyn:

- Sefydlu cofrestr o adnoddau ar gyfer holl sefydliadau BGC.
- Nodi unrhyw fylchau mewn hyfforddiant ac angen yn seiliedig ar ganfyddiadau'r daenlen adnoddau.
- Datblygu hyfforddiant ar y cyd ar gyfer sefydliadau BGC, yn seiliedig ar fylchau a'r angen.

**Camau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2020/21:**

1. **Cofrestr Adnodd Hyfforddiant Cydnerthedd**

Prif ffocws y Grŵp Prosiect yn ystod y cyfnod hwn oedd adolygu enghreifftiau o hyfforddiant perthnasol yn llawn, gan ganolbwyntio ar ddatblygu'r cydnerthedd a gynigir i staff ar hyn o bryd ar draws yr holl sefydliadau partner. Fel y soniwyd yn flaenorol, roedd yr ymarfer hwn yn arbennig o bwysig yn dilyn dyfodiad pandemig COVID-19, lle y mae sefydliadau wedi bod yn ymateb yn gyflym er mwyn sicrhau lles parhaus eu staff. Roedd un o'r prif sialensiau lle y ceisiwyd cael ystorfa o Hyfforddiant Cydnerthedd sefydliadol yn flaenorol, yn ymwneud â chadarnhau diffiniad o'r hyn a olygir gan Hyfforddiant Cydnerthedd, a chydnabyddiaeth ddilynol enghreifftiau sy'n

briodol i'w cynnwys yn yr adnodd hwn. Gydag ystod mor eang o ffynonellau cymorth yn cael eu cynnig ar draws sefydliadau, gan gynnwys gwasanaethau llinell gymorth a grwpiau cymorth, roedd hi'n hanfodol bod y diffiniad cytunedig yn amlinellu y dylid strwythuro unrhyw sesiynau a gydnabyddir fel hyfforddiant mewn ffordd a fyddai'n cynnwys darparu gwybodaeth a strategaethau gweithredol, gyda ffocws clir ar atal a / neu gymorth y byddai modd ei rannu ar draws sefydliadau pa bai gofyn gwneud hynny. O ystyried hyn, cytunodd y Grŵp Prosiect ar y diffiniad canlynol o Hyfforddiant Cydnerthedd mewn sefydliadau.

| |
|---|
| *"Yng nghyd-destun y Grŵp Prosiect hwn, bydd cyfeiriadau at hyfforddiant (unrhyw ffurf lles a / neu gydnerthedd) yn canolbwyntio ar sesiynau rhagweithiol sy'n cynnig cyfleoedd i gyflogeion glywed sut i wella eu lles, gan gynnig y wybodaeth iddynt a fydd yn eu galluogi i ymateb i sialensiau dyddiol mewn ffordd ymarferol ac wedi'i pharatoi, yn ogystal â dysgu pa fecanweithiau cymorth sy'n bodoli yn y sefydliad ac yn ehangach os bydd gofyn eu cael."* |

Prif nod creu catalog o adnoddau oedd helpu i hwyluso cyfleoedd dysgu ar y cyd, atal dyblygu, yn ogystal â nodi anghenion cyflogeion yn y dyfodol ar draws sefydliadau. Er mwyn cyflawni hyn, lluniwyd Cofrestr Hyfforddiant Cydnerthedd ar ffurf taenlen Excel ac fe'i lanlwythwyd yn ganolog ar wefan MS Teams y Grŵp Prosiect. Sefydlwyd y wefan Teams ar ôl i'r pandemig gychwyn er mwyn hwyluso cyfathrebu gwell rhwng cyfarfodydd ac fel storfa ar gyfer dogfennaeth y Grŵp, gan gynnwys templedi adroddiadau a dogfennaeth fyw. Roedd y storfa ganolog yn rhoi'r rhyddid i bartneriaid lenwi'r Gofrestr Hyfforddiant Cydnerthedd gyda chyfleoedd sydd eisoes ar gael i gyflogeion BGC trwy eu sefydliad pan fo hynny'n gyfleus. Mae'r Gofrestr yn amlinellu manylion hollbwysig megis cynnwys yr hyfforddiant, y costau posibl, manylion gwerthuso, yn ogystal â'r sawl y mae'r hyfforddiant yn addas ar eu cyfer. Mae aelodau'r Grŵp Prosiect yn parhau i ddiweddaru'r Gofrestr yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau bod y ddogfen fyw yn cael ei diweddaru a'i bod yn adlewyrchu darlun sy'n newid yn gyson.

## 2. Nodi Bylchau ac Angen

Mae darn o ymchwil yn mynd rhagddo gan Brifysgol Aberystwyth mewn partneriaeth â Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd BGC, sy'n ceisio archwilio dealltwriaeth staff gwasanaethau cyhoeddus o les a chydnerthedd, eu profiadau o unrhyw adnoddau neu hyfforddiant a gafwyd er mwyn cynorthwyo i feithrin cydnerthedd, ac er mwyn pennu sut y byddai modd cynorthwyo unigolion ymhellach i ddatblygu cydnerthedd a gwella'u lles. Fel y soniwyd yn flaenorol, bu'n rhaid i staff ymateb i newid ac ansicrwydd ar lefel nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, felly roedd y gwaith ymchwil yn ceisio canfod sut y mae profiad cyflogeion gwasanaethau cyhoeddus o COVID-19 wedi effeithio ar y capasiti ar gyfer cydnerthedd. Coladwyd gwybodaeth mewn sesiynau Grŵp Ffocws a gynhaliwyd gyda 3 sefydliad BGC, a bwriadir cynnal sesiynau ychwanegol ar gyfer 21-22. Mae rhai sgyrsiau cynnar yn awgrymu bod y canfyddiadau'n hynod o werthfawr wrth gyfrannu at gynnydd y Grŵp Prosiect wrth iddo symud ymlaen, er mwyn sicrhau bod yr angen a nodir gan gyflogeion yn cael ei fodloni. Mae prosiect pellach wedi cychwyn hefyd, sy'n ceisio ystyried y defnydd a wneir o leoedd adferol o fewn GIG, yn ogystal â chreu ystafelloedd ymneilltuo wedi'u seilio ar fyd natur, y byddant yn cynnig dirnadaeth o gydnerthedd. Er y bu recriwtio yn weithgarwch heriol yn ystod y pandemig, y gobaith yw y dylid bod

modd hyrwyddo'r prosiect hwn ymhellach, ac y byddai modd adrodd unrhyw ganfyddiadau yn ôl i'r Grŵp, gan gyfrannu at y camau nesaf i'w cymryd yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp Prosiect yn parhau i fonitro a oes cwmpas i rannu hyfforddiant sefydliadol gyda chymunedau a gwirfoddolwyr, gan sicrhau y caiff cysylltiadau eu creu gyda Grwpiau Prosiect Deall Ein Cymunedau BGC pan fo hynny'n briodol. Cafodd CAVO gyllid gan Lywodraeth Cymru a oedd yn canolbwyntio ar gynorthwyo gweithgarwch gwirfoddoli yn ystod y cyfnod adfer, ac roeddent yn awyddus i bennu a oedd cwmpas ar gyfer cynnig y cyfle i gymunedau lleol feithrin sgiliau ac ymwybyddiaeth benodol o hyfforddiant cymorth cyntaf, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o feithrin hyder. Anogwyd aelodau'r Grŵp Prosiect i gysylltu â CAVO pe byddai grwpiau neu sefydliadau yn dymuno gwneud cais i fod yn rhan o bortffolio o ddarparwyr sy'n gallu darparu sesiynau i wirfoddolwyr mewn cymunedau ar draws Ceredigion. Bydd y Grŵp Prosiect yn parhau i gwmpasu a nodi cyfleoedd i gydweithio gyda Grŵp Prosiect Deall Ein Cymunedau BGC yn y dyfodol, er mwyn rhannu adnoddau pan fo hynny'n briodol.

Fel y soniwyd yn flaenorol, y prif nod wrth sefydlu'r Gofrestr Hyfforddiant Cydnerthedd ar y cyd oedd helpu i hwyluso cyfleoedd dysgu ar y cyd, atal dyblygu, yn ogystal â nodi angen cyflogeion ar draws sefydliadau yn y dyfodol. Wrth i aelodau'r Grŵp Prosiect barhau i lenwi'r Gofrestr Hyfforddiant Cydnerthedd, ystyrir unrhyw fylchau y byddant yn dod i'r amlwg ar ôl sicrhau darlun llawn, gan fyfyrio am ganfyddiadau gwaith ymchwil y Grŵp Prosiect hefyd, a fydd yn amlygu ymhellach feysydd i ganolbwyntio arnynt wrth symud ymlaen.

> *"Mae darn o ymchwil yn mynd rhagddo mewn partneriaeth gyda Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd BGC, sy'n ceisio archwilio dealltwriaeth staff gwasanaethau cyhoeddus o les a chydnerthedd, eu profiadau o unrhyw adnoddau neu hyfforddiant a gafwyd er mwyn cynorthwyo i feithrin cydnerthedd, ac er mwyn pennu sut y byddai modd cynorthwyo unigolion ymhellach i ddatblygu cydnerthedd a gwella'u lles."*

### 3. Datblygu Hyfforddiant ar y Cyd ar gyfer Sefydliadau BGC

O ganlyniad i'r ffaith y bu angen ymateb ar fyrder er mwyn sicrhau lles cyflogeion dros y flwyddyn ddiwethaf, bydd aelodau'r Grŵp Prosiect a'r BGC ehangach yn ystyried a yw cyfleoedd i ddatblygu hyfforddiant ar y cyd ar gyfer sefydliadau BGC yn ymarferol o hyd ar yr adeg hon. Bydd canfyddiadau'r trafodaethau hyn, yn ogystal â'r llwybrau a amlygwyd uchod, yn cynorthwyo wrth ddylanwadu ar gyfeiriad y Grŵp Prosiect o hyn ymlaen.

**<u>Gweithredu Arfaethedig yn y Dyfodol:</u>**

Bydd y Grŵp Prosiect yn parhau i ddatblygu'r gwaith a wnaethpwyd yn barod, gan geisio sicrhau bod y Gofrestr Hyfforddiant Cydnerthedd yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y cyfleoedd a gynigir i staff ar draws pob sefydliad BGC. Yn benodol, ac ar ôl sicrhau darlun llawn o'r cyfleoedd a gyflawnwyd, bydd y Grŵp Prosiect yn myfyrio a oes cyfleoedd i rannu rhaglenni hyfforddiant ar draws sefydliadau neu gyda'n grwpiau cymunedol pan fo hynny'n briodol. Os bydd dymuniad o hyd i ddatblygu

rhaglen hyfforddiant ar y cyd ar draws sefydliadau BGC, bydd y Grŵp Prosiect yn ystyried y bylchau o ran yr angen a nodwyd fel rhan o'r broses fapio, gan ymateb mewn ffordd briodol er mwyn sicrhau bod y cymorth priodol yn cael ei gynnig i gyflogeion BGC yn unol â'r galw.

Bydd y Grŵp Prosiect yn parhau i gynorthwyo gwaith ymchwil y Grŵp Ffocws, gan gwmpasu cyfleoedd er mwyn cynnal sesiynau pellach gyda sefydliadau BGC nad ydynt wedi cymryd rhan eto. Bydd canfyddiadau gwaith ymchwil y Grŵp Ffocws yn cynorthwyo wrth nodi'r materion sy'n peri pryder i staff gwasanaethau cyhoeddus, gan ganiatáu i drafodaethau gael eu cynnal ynghylch y ffordd orau o fodloni'r anghenion hyn o ystyried adfer yn dilyn COVID-19. Wrth i'r cyfnod adfer fynd yn ei flaen, bydd Cynllun Gweithredu y Grŵp Prosiect yn parhau i fod yn hyblyg er mwyn sicrhau hylifedd yr ymateb yn unol â natur anwadal y pandemig. Gan ystyried lles, bydd y Grŵp Prosiect yn cynorthwyo proses yr Asesiad Llesiant Lleol hefyd, trwy gymryd rhan mewn gweithdy ymgysylltu wedi'i hwyluso, a fydd yn cynnwys trafodaethau a pholiau byrion, yn ogystal â sesiwn ddilynol a fydd yn cynnwys adborth am yr asesiad drafft yn dilyn ymgynghoriad.

Mae'r Grŵp Prosiect wedi parhau i gael diweddariadau ynghylch y datblygiadau gyda Chanolfan Tir Glas ar Gampws Llanbedr Pont Steffan Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Yng ngoleuni'r pandemig, mae'r Brifysgol a'r partneriaid yn mynd trwy'r broses o ailystyried potensial Llanbedr Pont Steffan yn y dyfodol, a rôl y Brifysgol wrth gynorthwyo gweledigaeth integredig ar gyfer y dref. Nod Canolfan Tir Glas yw hyrwyddo'r diwydiant bwyd lleol, cynaladwyedd lleol, cydnerthedd a menter o fewn cyd-destun gwledig, a bydd yn canolbwyntio ar gryfhau seilwaith economaidd Llanbedr Pont Steffan. Bydd y diweddariadau hyn yn parhau i fod ar agenda y Grŵp Prosiect, ac ystyrir cyfleoedd i gynorthwyo a chael cyswllt gyda'r maes gwaith hwn yn ôl yr angen.

> *"Os bydd dymuniad o hyd i ddatblygu rhaglen hyfforddiant ar y cyd ar draws sefydliadau BGC, bydd y Grŵp Prosiect yn ystyried y bylchau o ran yr angen a nodwyd fel rhan o'r broses fapio, gan ymateb mewn ffordd briodol."*

## Grŵp Prosiect Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd



## Galluogi pobl i fyw bywydau gweithgar, hapus ac iach.

### Cefnogi iechyd corfforol a meddyliol a gwella llesiant drwy hyrwyddo ffyrdd iach o fyw.

Nid yw'r Grŵp Prosiect hwn wedi cyfarfod yn ystod 2020/21 o ganlyniad i Bandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae partneriaid wedi ceisio sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf i'r graddau ag y bo hynny'n ymarferol bosibl trwy gydol y cyfnod, trwy feithrin cysylltiadau trwy blatfformau cenedlaethol fel Basecamp.

## Is-grwpiau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

Yn ogystal â'r 6 Grŵp Prosiect, ceir Is-Grwpiau sy'n adrodd i BGC Ceredigion. Isod, rhoddir crynodeb o waith yr Is-Grŵp Tlodi a'r Is-Grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid.

### Is-grŵp Tlodi BGC Ceredigion: Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22

Cyhoeddwyd Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 ym mis Awst 2020 fel olynydd i Strategaeth Brwydro yn erbyn Tlodi Ceredigion 2016-20. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu sy'n cyd-fynd â hi yn cynnig ymateb fel partneriaeth i effaith Covid-19 yng Ngheredigion. Caiff ei monitro gan Is-grŵp Tlodi BGC Ceredigion, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn craffu materion sy'n ymwneud â Thlodi Plant, ac mae hwn yn cyfarfod wythnos cyn y mae Is-grŵp Tlodi BGC yn cyfarfod, er mwyn gallu ymateb i faterion yn syth.
Mae Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 yn cynnwys tri amcan allweddol, fel y nodir isod, ac mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys 65 o gamau gweithredu, a gyflawnir gan amrediad o bartneriaid BGC:

| **Tri amcan allweddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion 2020-22** |
|---|
| Ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid, **dod i ddeall** effaith COVID-19, wrth iddi newid, ar y caledi y mae unigolion a theuluoedd yng Ngheredigion yn ei wynebu, a hynny drwy goladu a dadansoddi data. |
| Cydgysylltu ac **atgyfnerthu gwaith ar y cyd** ag asiantaethau sy'n bartneriaid i hyrwyddo a manteisio ar yr holl help a chymorth sydd ar gael. |
| **Pennu bylchau** o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran yr anghenion caledi wrth iddynt newid i lunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19. |

Rhennir y Cynllun Gweithredu yn 3 colofn ar wahân o ran y gwaith gweithredu, ac mae'r rhain fel a ganlyn:

| Tair colofn cynllun gweithredu Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi |
|---|
| Colofn 1 – help i'r rhai sy'n dioddef caledi ariannol |
| Colofn 2 – help i'r rhai sy'n dioddef blinder, straen a gofid |
| Colofn 3 – sicrhau bod pobl yn gallu manteisio ar wasanaethau |

Datblygwyd dangosfwrdd data er mwyn ein helpu i fonitro dangosyddion poblogaeth yr ydym yn rhagweld y byddant yn cael eu dylanwadu gan gyflawni Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 a Strategaeth Economaidd Ceredigion 2020-35, ac mae hyn yn helpu i sicrhau bod camau gweithredu y ddwy strategaeth bwysig hon yn cyd-fynd.

## Is-grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid BGC

Addawodd BGC Ceredigion y byddai'n adsefydlu 50 o ffoaduriaid yr oeddent yn ffoi rhag y gwrthdaro yn Syria erbyn mis Mawrth 2020. Hwn oedd ein cyfraniad ni i addewid Llywodraeth y DU i adsefydlu 20,000 o ffoaduriaid dan y Cynllun Adsefydlu Unigolion Agored i Niwed. Bodlonwyd ymrwymiad Ceredigion ym mis Tachwedd 2019 a bodlonwyd ymrwymiad Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2021.
Yn dilyn hyn, aeth y Swyddfa Gartref ati i ailddatgan ei hymrwymiad i adsefydlu ffoaduriaid trwy ddatblygu Cynllun Adsefydlu y DU, ac mae BGC Ceredigion wedi addo adsefydlu 2 deulu y flwyddyn am y cyfnod y bydd y Swyddfa Gartref yn cynnal y lefelau cyllid presennol ar gyfer y cynllun. Mae Is-grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid BGC yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn er mwyn cynorthwyo'r broses adsefydlu a monitro'r cynnydd integreiddio a gaiff ei sicrhau gan y rhai sydd wedi cyrraedd Ceredigion dan y cynllun.
O ganlyniad uniongyrchol i Covid-19, oedwyd y gweithgarwch adsefydlu Ffoaduriaid yn ystod 2020/21. Mae'r 10 teulu sy'n byw yma ar hyn o bryd yn parhau i gael eu cynorthwyo gan wasanaeth cymorth y Groes Goch, a gomisiynir gan y Cyngor. Darparwyd cymorth rhith parhaus dros y ffôn, trwy alwadau fideo a WhatsApp. Prynwyd gliniaduron ar gyfer y teuluoedd er mwyn iddynt allu parhau gyda'u gwersi Saesneg ar-lein; yn ogystal, ymunont â sesiynau sgwrsio Saesneg ar-lein gyda gwirfoddolwyr, boreau coffi rhith gyda Phrifysgol Aberystwyth a 'Zymraeg' (Zumba trwy gyfrwng y Gymraeg) gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Roedd y teuluoedd wedi cymryd rhan yng Nghyfrifiad 2021 ac roeddent yn ddiolchgar am yr help a dargedwyd ar eu cyfer gan swyddog y cyfrifiad. Ym mis Ebrill 2020, bu prosiect Cinio Syria, cwmni menter cymdeithasol a sefydlwyd gan aelodau o Syria yn

uniongyrchol, yn darparu prydau poeth i staff Ysbyty Bronglais. Pan ofynnwyd iddynt esbonio pam eu bod wedi rhoi'r rhodd hwn, atebodd un o'r menywod fel a ganlyn:

> *"Ers i ni gyrraedd y DU, rydym wedi cael croeso cynnes. Mae pawb yn y gymuned wedi bod yn ein helpu ni ac yn ein cynorthwyo. Roeddem yn teimlo mai ein teulu ni ydyn nhw nawr ac mai'r wlad hon yw ein hail gartref. Gan bod y pandemig wedi digwydd, roeddwn yn ceisio meddwl am ffyrdd y gallem ad-dalu'r bobl hyfryd sydd wedi ein helpu ni a'n cynorthwyo. Gan ein bod yn cynnal prosiect Syria yn barod, crdaf mai'r ffordd orau yw trwy baratoi bwyd ar gyfer staff GIG. Aethom ati i goginio reis gyda llysiau, dail gwinwydd wedi'u llenwi. Sicrhaom bod y bwyd yn cynnwys llawer iawn o lysiau, fel ei fod yn ysgafn ac yn iach. Rydym wrth ein bodd bod pobl wedi gwerthfawrogi ein bwyd. Mae staff GIG yn haeddu llawer ac rydym yn dangos iddynt ein bod yn ddiolchgar am eu holl waith caled. Rydym oll yn aros gartref ac yn dilyn canllawiau'r Coronafeirws pan fyddwn gartref ac yn mynd allan. Rydw i a'm plant yn gwneud gwaith ysgol a llawer iawn o weithgareddau hwyliog gartref. Rydw i'n gweld eisiau cyfarfod bob wythnos ar gyfer Iftar yn ystod Ramadan. Arferem rannu ein prydau gyda'r gymuned Fwslimaidd yn Aberystwyth bob dydd Sul."*

Dyma un enghraifft yn unig o'r ffordd y mae'r Is-grŵp hwn yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl sydd wedi setlo yn ein cymunedau. Bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i'r Is-grŵp geisio cynnal ei gyflawniad llwyddiannus parhaus, ar sail y trefniadau cyllido presennol i adsefydlu 2 deulu o ffoaduriaid y flwyddyn yng Ngheredigion.

## Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion

Un o werthoedd craidd y cynllun Llesiant Lleol yw ei ymrwymiad i sicrhau na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin mewn ffordd lai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae wedi cydnabod hefyd bod cyfrifoldeb i weithio'n galed i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg yn eu bywydau bob dydd. Yn ystod 2020/21, casglwyd tystiolaeth gan ystod helaeth o bartneriaid Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion ynghylch y pedwar maes allweddol canlynol:

- Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfnod clo.
- Y sialensiau neu'r rhwystrau.
- Cynllunio ar gyfer y cyfnod addasu, ynghyd â'r cyfnod adfer hirdymor.
- Ystyried yr hyn y gallwn ei wneud yn well er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Iaith Gymraeg.

O ystyried yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael, cydnabuwyd bod yr argyfwng wedi newid ein bywydau mewn ffyrdd dramatig. Mae hyn wedi cynnwys ein perthnasoedd gyda phobl eraill yn ein cymunedau, ein teuluoedd, ein cartrefi a'n gweithleoedd; yn ei dro, mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol. Daeth y cyfnod clo ar ein traws yn sydyn, a gweithredwyd datrysiadau digidol yn gyflym. Fodd bynnag, nodwyd bod y diffyg cymdeithasu diwylliannol wedi cael effaith ar ein defnydd o'r iaith Gymraeg, lle na fydd nifer o bobl yn gweld, yn clywed neu'n siarad Cymraeg am gyfnodau hir nawr. Bu'n

rhaid i sefydliadau ailystyried y ffyrdd y maent yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd mewn ffordd radical dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ar ôl casglu'r dystiolaeth gan bartneriaid, ystyriwyd yr adroddiad o'r enw "Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y Cyfnod Clo" gan BGC, gan ei fod yn cynnig cyfle euraid i rannu rhai o'r cyfleoedd newydd sydd wedi deillio o'r pandemig, gan geisio codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rhoi'r Iaith Gymraeg wrth wraidd unrhyw ddatblygiadau newydd.

## Ystyriaethau a Chyflwyniadau eraill

Yn ogystal â'r prosiectau, y mentrau a'r strategaethau a nodwyd yn yr adroddiad hwn, mae aelodau BGC Ceredigion wedi ystyried a thrafod y canlynol yn ystod 2020/21:

- Menter Ymgyrch Dawns Glaw – Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Adroddiad am y Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y Cyfnod Clo – Cyngor Sir Ceredigion
- Adroddiad Prosiect Cydnerthedd yr Hinsawdd Castellnewydd Emlyn – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ymateb ar y cyd gan BGC Ceredigion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch "Ailgydbwyso Gofal a Chymorth"

## Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 15/9/21 |
| **LLEOLIAD:** | Trwy gyfrwng fideogynadledda |
| **TEITL:** | *'Ceredigion Teg a Chyfartal'* - Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-21 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Sicrhau bod yr Awdurdod yn bodloni ei ofynion o ran Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011. |
| **RHESWM Y PWYLLGOR CRAFFU DROS OFYN AM YR WYBODAETH:** | Er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn addas i'r diben a'i fod yn adrodd yn gywir ar y modd mae'r Awdurdod yn bodloni ei Ddyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, a gwneud argymhellion fel y bo'n briodol pan gyflwynir yr adroddiad gerbron y Cabinet (5 Hydref 2021). |

**CEFNDIR:**
Mae Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cofnodi sut y gwnaeth Cyngor Sir Ceredigion gwrdd â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau cydraddoldeb rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021.

Yn sgil Deddf Cydraddoldeb 2010 mae'n ddyletswydd gyffredinol ar sefydliadau'r sector cyhoeddus i roi 'sylw dyledus' i'r angen i wneud y canlynol:

- Diddymu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig, drwy daclo rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.

Mae'r Ddeddf yn esbonio bod rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:
- Dileu neu leihau'r anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
- Cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau nodweddion gwarchodedig lle mae'r rheiny'n wahanol i rai pobl eraill.
- Annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn disgrifio meithrin perthnasoedd da fel taclo rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig. Gall cwrdd â'r ddyletswydd olygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill, cyhyd â bod hynny ddim yn mynd yn groes i ddarpariaethau eraill o fewn y Ddeddf.

Mae'r Nodweddion Gwarchodedig yn cynnwys y canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, (gan gynnwys diffyg cred)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Priodas a Phartneriaeth Sifil

**<u>Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Penodol i Gymru</u>**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru 'Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, gan osod y gofynion ar gyfer Cymru fel a ganlyn:

- Amcanion Cydraddoldeb
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am Gydraddoldeb
- Gwybodaeth Cyflogwyr
- Gwahaniaethau Cyflog
- Hyfforddiant Staff
- Caffael
- Adroddiadau Blynyddol
- Cyhoeddi
- Adolygu
- Hygyrchedd

**Y Sefyllfa Bresennol:**

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion gyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol ynglŷn â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2020-24) sef 'Ceredigion Teg a Chyfartal'. Mae angen i'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn 2020/21 gael ei gyhoeddi ar ein gwefan erbyn 31/3/22.

**Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Sir Ceredigion**

1. Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol
2. Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn
3. Ymgysylltu a Chyfranogi
4. Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau
5. Addysg Deg a Chynhwysol

Mae nifer o gamau gweithredu'n gysylltiedig â phob Amcan Cydraddoldeb Strategol. Ceir crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn ystod 2020-21 yn y tablau isod.

| **LLIW BRAG** | **Diffiniad** | **Y cynnydd a wnaed yn 2020-21 yn seiliedig ar y camau gweithredu a nodwyd** |
|---|---|---|
| Glas | Cam gweithredu wedi'i gwblhau | 1 |
| Gwyrdd | Cam gweithredu yn mynd rhagddo yn unol â'r cynllun | 39 |
| Oren | Cam gweithredu ychydig ar ei hôl hi | 14 |
| Coch | Cam gweithredu heb ddechrau / pryderon a fydd y cam gweithredu yn cael ei gwblhau | 0 |

| **Amcan** | **Glas** | **Gwyrdd** | **Oren** | **Coch** |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol | **0** | **4** | **4** | **0** |
| 2. Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn | **0** | **6** | **0** | **0** |
| 3. Ymgysylltu a Chyfranogi | **0** | **8** | **4** | **0** |
| 4. Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau | **1** | **12** | **4** | **0** |
| 5. Addysg Deg a Chynhwysol | **0** | **9** | **2** | **0** |

2020/21 oedd blwyddyn gyntaf *'Ceredigion Teg a Chyfartal 2020-24.'* Mae rhan fwyaf y camau gweithredu ar waith ac ar y trywydd cywir (h.y. mae 39 o'r camau gweithredu yn wyrdd). Nodwyd bod 14 o'r camau gweithredu yn oren sy'n golygu eu bod ychydig ar ei hôl hi. Gellir priodoli hyn yn rhannol i effaith pandemig Covid-19, ond yr amcan yw eu cyflawni yn ystod pedair blynedd y cynllun. Mae un o'r camau gweithredu yn las sy'n golygu ei fod wedi'i gwblhau. Nid oes yr un camau gweithredu sy'n goch am fod pob cam wedi dechrau ac nid oes dim pryderon ynghylch cyflawni'r camau.

**Uchafbwyntiau 2020-21**

Cafodd Cyngor Sir Ceredigion drafodaethau a chyfarfodydd parhaus gyda Fforwm Anabledd Ceredigion ynglŷn â'r Parthau Diogel yng nghanol trefi'r sir.

Cwblhawyd 514 o sesiynau e-ddysgu o ran yr hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Bu inni gymryd rhan yn yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb
(10 – 17 Hydref 2020).

Hefyd, bu inni gymryd rhan ym Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Cofio'r Holocost, Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a'r Wythnos Ffoaduriaid.

Cyflwynwyd 29 o Asesiadau Effaith Integredig gydag adroddiadau'r Cabinet yn 2020/21

Hefyd, gwnaeth Cyngor Sir Ceredigion lofnodi adduned Dim Hiliaeth Cymru a oedd wedi'i gydlynu gan Race Council Cymru.

Am fanylion pellach, gweler Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 sydd ynghlwm.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam**<br>**Crynodeb:** Ni chwblhawyd Asesiad Effaith Integredig am fod hwn yn adroddiad monitro ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac nid yw'n newid mewn polisi neu strategaeth. Fodd bynnag, cyflwynwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 sef' *Ceredigion Teg a Chyfartal*. | |
| | **Hirdymor:** | Bydd cyflawni'r Cynllun yn helpu i osod y seiliau ar gyfer dyfodol gwell dros yr hirdymor. |
| | **Integreiddio:** | Mae'r adroddiad monitro'n rhoi ystyriaeth i adeiladu perthnasoedd gwell, all adeiladu cysylltedd ac integreiddio rhwng pobl, yr economi a'r amgylchedd. |
| | **Cydweithio:** | Mae enghreifftiau o gydweithio wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. |
| | **Cynnwys:** | Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| **Atal:** | Mae enghreifftiau o waith ataliol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, gan gynnwys taclo troseddau casineb, bwlio a chaethwasiaeth fodern.<br>Mae'r adroddiad monitro blynyddol yn darparu tystiolaeth gadarn o'n gwaith o ran cyflawni'r Nodau Llesiant Cenedlaethol 'Cymru Fwy Cyfartal', a 'Cymru o Gymunedau Cydlynus.' |

**ARGYMHELLION:** Derbyn a chadarnhau Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, a gwneud argymhellion fel y bo'n briodol pan gyflwynir yr adroddiad gerbron y Cabinet ar 5/10/21.

**RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION:** Mae'n ofyniad dan y Ddeddf Cydraddoldeb ein bod yn paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-21 ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan erbyn 31/3/22.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Michael Smith |
| **Swydd:** | Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 6/8/21 |

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## Ebrill 2020 - Mawrth 2021



Awdur: Michael Smith, Polisi a Pherfformiad

Cymeradwywyd gan y Cabinet:

Dyddiad Cyhoeddi:

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan y Cyngor yn: http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/equality-diversity/strategic-equality-plan-objectives/

Os oes angen copi caled o'r adroddiad arnoch neu gopi mewn fformat gwahanol, er enghraifft print mawr, fersiwn sain neu fformat Word ar gyfer darllenwyr sgrin, cysylltwch â:

Michael Smith
Swyddog Cydraddoldeb ac Ymgysylltu
Cyngor Sir Ceredigion
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron SA46 OPA

Ebost: clic@ceredigion.gov.uk

Draft

## Rhagair

Croeso i adroddiad monitro blynyddol cyntaf ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020/24 sydd newydd ei ddiwygio, sef *'Ceredigion Teg a Chyfartal'.* Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod 2020/21 ac yn cyd-fynd â blwyddyn gyfan o fyw o dan reolau a chanllawiau Covid-19. Bu'n flwyddyn anodd a heriol, ond mae'r pandemig wedi dangos pa mor bwysig yw hi i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Bydd rhaid i gydraddoldeb gael lle blaenllaw yn ein cynlluniau adfer yn dilyn effeithiau Covid-19.

Mae'r adroddiad monitro blynyddol yn olrhain cynnydd i ddangos sut rydym wedi bodloni pum Amcan Cydraddoldeb *'Ceredigion Teg a Chyfartal'.*

1. Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol
2. Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn
3. Ymgysylltu a Chyfranogi
4. Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau
5. Addysg Deg a Chynhwysol

Mae cydraddoldeb wrth wraidd y gwasanaethau a ddarparwn a'n gwerthoedd yma yng Nghyngor Sir Ceredigion. Mae cydraddoldeb yn thema drawsbynciol yn ein Strategaeth Gorfforaethol. Rydym yn ystyried anghenion a materion cydraddoldeb yn ofalus wrth wneud penderfyniadau ac mae cydraddoldeb yn rhan annatod o'n Hasesiadau Effaith Integredig. Mae *'Ceredigion Teg a Chyfartal'* hefyd yn weithredol ar draws pob adran o'r Cyngor a phob un o'r gwasanaethau a ddarparwn. Byddwn yn ceisio gwneud Ceredigion yn lle mwy teg a mwy cyfartal wrth i ni ailadeiladu yn dilyn pandemig Covid-19.





Eifion Evans
Prif Weithredwr

Y Cyng. Ellen ap Gwynn
Arweinydd a Hyrwyddwr Gweithredol Cydraddoldeb

## Cynnwys:


| | | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| **1.** | **Cefndir** | 5 |
| 1.1 | Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol | 5 |
| 1.2 | Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru | 6 |
| | | |
| **2.** | **Sut rydym yn cyflawni'r Dyletswyddau Cydraddoldeb** | 7 |
| 2.1 | Llywodraethu Corfforaethol | 7 |
| 2.2 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion | 7 |
| 2.3 | Nodi, Casglu a Dadansoddi Gwybodaeth Cydraddoldeb | 9 |
| 2.4 | Ymgynghori ac Ymgysylltu | 10 |
| 2.5 | Asesu Effaith | 11 |
| 2.6 | Hyfforddiant Staff | 11 |
| 2.7 | Trefniadau Caffael | 11 |
| 2.8 | Hygyrchedd | 12 |
| | | |
| **3.** | **Cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb penodol 2020-21** | 12 |
| | | |
| | **Atodiad: Adroddiad Monitro Amcanion Cydraddoldeb y Cynllun Gweithredu** | 15 |
| | | |
| | | |
| | | |


Draft

## 1. Cefndir

### 1.1 Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd sector cyhoeddus ar Awdurdodau Lleol i ystyried anghenion pob unigolyn yn eu gwaith bob dydd, wrth ddatblygu polisïau, darparu gwasanaethau ac mewn perthynas â'r cyhoedd a'u gweithwyr eu hunain. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu'n anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn pobl sydd â 'nodwedd warchodedig'. Y nodweddion gwarchodedig yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

<u>Ymrwymiad i'r Gymraeg</u>

Nid yw'r modd y caiff y Gymraeg ei hybu a'i defnyddio yn rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb ac yn lle hynny mae'n cael sylw yn y gofynion a nodir ym Mesur y Gymraeg 2011. Fodd bynnag, yng Ngheredigion mae'n bwysig ystyried gofynion y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn hyrwyddo dull cyfannol at ystyried anghenion

pob cymuned wrth lunio a darparu gwasanaethau. O dan ofynion Mesur y Gymraeg 2011, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt (h.y. y cysyniad o'r cynnig gweithredol).

Wrth ystyried sut i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu, mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd feddwl am yr angen i wneud y canlynol:

- Dileu neu leihau effaith yr anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
- Cymryd camau i ateb anghenion pobl o grwpiau nodweddion gwarchodedig os ydynt yn wahanol i rai pobl eraill.
- Annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill os yw'r nifer sy'n cymryd rhan yn anghymesur o isel. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd roi sylw arbennig i'r modd y bydd yn mynd i'r afael â rhagfarn ac yn hyrwyddo dealltwriaeth a pharch at ei gilydd.

**1.2 Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru**

Mae'r Dyletswyddau Penodol yng Nghymru wedi eu hamlinellu yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2011, ac mae'n nodi y bydd y cyrff a restrir yn cyflawni'r gofynion canlynol:

- Adroddiad Monitro Blynyddol
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Gosod Amcanion
- Casglu a Dadansoddi Gwybodaeth am Gydraddoldeb
- Gwybodaeth Cydraddoldeb Defnyddwyr Gwasanaeth
- Gwybodaeth Cydraddoldeb y Gweithlu a Gwahaniaethau Tâl y Gweithlu
- Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Asesu Effaith
- Hyfforddiant Staff
- Caffael

- Hygyrchedd

## 2. Sut rydym yn cyflawni'r Dyletswyddau Cydraddoldeb

Mae'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb yn adeiladu ar ein gwaith blaenorol ar gydraddoldeb, gan gwmpasu ymrwymiad eang i fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r adroddiad yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd yn erbyn ei ddyletswyddau cydraddoldeb o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

### 2.1 Llywodraethu Corfforaethol

I ddangos ei ymrwymiad i'r agenda cydraddoldeb, mae'r Cyngor wedi enwebu'r Arweinydd fel yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg. Cafodd yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb ei gefnogi gan y Swyddog Cydraddoldeb ac Ymgysylltu o fewn yr Adran Polisi a Pherfformiad.

I gefnogi'r agenda cydraddoldeb, mae Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol wedi cael ei sefydlu. Mae aelodau'r grŵp yn cynrychioli swyddogion arweiniol ar draws meysydd gwasanaeth yr Awdurdod, gydag Arweinydd y Cyngor yn cadeirio'r cyfarfodydd. Mae'r Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol yn gyfrifol am gyfrannu at ddatblygiad strategol, monitro ac adolygu er mwyn gweithredu'r Cynllun Strategol Cydraddoldeb. Mae cydraddoldeb yn thema drawsbynciol yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.

### 2.2 Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion a Gosod Amcanion

Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020/21 yw'r adroddiad cyntaf ar gynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24, *'Ceredigion Teg a Chyfartal'.* Mae'r cynllun a'r dogfennau cysylltiedig i'w gweld yn http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/equality-diversity/strategic-equality-plan-objectives/

Er mwyn ysgogi gwelliannau cydraddoldeb, mae'n ofynnol i'r Cyngor osod Amcanion Cydraddoldeb fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Ymgysylltwyd ac ymgynghorwyd i lywio a chynhyrchu *'Ceredigion Teg a Chyfartal 2020-24'.* Roedd hyn wedi helpu i sicrhau ein bod yn bodloni anghenion cysylltiedig â chydraddoldeb a'r materion a wynebir gan bobl

Ceredigion. Gweithiom mewn partneriaeth ar yr ymgynghoriad â chyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal. Roedd yr ymgynghoriad wedi cynnwys arolwg rhanbarthol a digwyddiadau ymgysylltu lleol.

Trwy ddadansoddi adborth o'r ymgynghoriad a 'phwyso a mesur' y gwahanol fathau o ddata a thystiolaeth (gan gynnwys casgliadau o Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *'A yw Cymru'n Decach?)*, mae'r materion y barnwyd eu bod yn fwyaf perthnasol wedi cael eu dwyn ymlaen i'r Amcanion Cydraddoldeb terfynol.

Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb arfaethedig eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 14 Tachwedd 2019. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gwnaethpwyd argymhelliad i'r Cabinet gymeradwyo'r cynllun a'r amcanion cydraddoldeb; a gwireddwyd hyn ar 17 Mawrth 2020.

Mae *'Ceredigion Teg a Chyfarfod 2020-24'* yn cynnwys pum Amcan Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu i helpu i gyflenwi'r amcanion. Y pum Amcan Cydraddoldeb yw:-

1. **Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol**
   Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda staff sydd wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol o anghenion a materion cysylltiedig â chydraddoldeb. Parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
2. **Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn**
   Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu trwy adeiladu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhagfarn. Dylai pawb allu byw heb ofn trais a chamdriniaeth a chael eu trin â pharch.
3. **Ymgysylltu a Chyfranogi**
   Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau a chael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.
4. **Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau**
   Sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob gwasanaeth. Gwnawn hyn trwy sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin ag urddas a hefyd trwy ateb eu hanghenion os ydynt yn wahanol i anghenion pobl eraill.
5. **Addysg Deg a Chynhwysol**

Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial. Dylai'r hawl i addysg a hyfforddiant hefyd sicrhau hygyrchedd ac amgylchedd heb unrhyw fwlio neu aflonyddu. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgu gydol oes.
Gweler Atodiad 1 am wybodaeth ar sut y mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran bodloni'r Amcanion Cydraddoldeb yn ystod 2020/21.

## 2.3 Nodi, casglu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb

**Data Cydraddoldeb Defnyddwyr Gwasanaeth**

Mae gwybodaeth a data diweddar o safon dda ar grwpiau nodweddion gwarchodedig yng Ngheredigion yn hollbwysig wrth asesu anghenion, effeithiau a chynnydd cysylltiedig â chydraddoldeb.

Mae Tîm Ymchwil Cyngor Sir Ceredigion wedi datblygu'r ddogfen *'Data Cydraddoldeb Ceredigion',* sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ddemograffeg cydraddoldeb dinasyddion Ceredigion, ac mae ar gael i bob aelod o staff ei defnyddio trwy safle CeriNet. Mae staff yn cael eu hannog i ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth ddatblygu eu Hasesiad Effaith Integredig, yn ogystal ag unrhyw ddata lleol am ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi cael ei datblygu gan y Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol, a gofynnwyd i bob maes gwasanaeth ddefnyddio'r templedi hyn i gasglu data cydraddoldeb wrth ymgysylltu ac ymgynghori.

**Data Cydraddoldeb y Gweithlu**

Mae'r Awdurdod yn ymdrechu'n barhaus i gasglu a dadansoddi data staff ar y nodweddion gwarchodedig trwy ein system AD mewnol CeriNet, fodd bynnag, nid yw'n orfodol i weithwyr ddarparu'r data yma.

Mae ffurflen monitro cydraddoldeb wedi cael ei chynnwys ar system CeriNet a'i hyrwyddo'n eang trwy'r Bwletin Newyddion Corfforaethol.  Yn yr ymarfer monitro cydraddoldeb hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r nodweddion gwarchodedig statws priodasol, crefydd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, a thrawsrywioldeb, os cafodd yr wybodaeth honno ei datgelu i'r Awdurdod. Mae data oedran a rhyw yn cael eu dal o fewn systemau Adnoddau Dynol

eraill. Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau cynnal dadansoddiad o'r rhai sydd wedi gwneud cais am swyddi gwag o fewn yr Awdurdod. Mae Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb yn y Gweithlu a'r Adroddiad Blynyddol Bwlch Cyfog rhwng y Rhywiau yn cael eu cyhoeddi gan ein Hadran Pobl a Threfniadaeth ar wahân i'r adroddiad hwn. I weld yr adroddiadau, cliciwch ar y ddolen hon Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion - Cyngor Sir Ceredigion

### 2.4 Ymgynghori ac Ymgysylltu

O dan Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion ymgysylltu ac ymgynghori â phobl â nodweddion gwarchodedig pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol. Mae canllawiau ymgysylltu ac ymgynghori gan y Cyngor ar ei fewnrwyd. Rydym yn adolygu ein canllawiau ar ymgysylltu ac yn gweithio ar Bolisi Ymgysylltu newydd, *'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd.'.* Disgwylir ymgynghori a mabwysiadu'r polisi newydd hwn ar gyfer 2021/22.

Roedd yn flwyddyn anodd o ran ymgysylltu, gydag amrywiaeth o fesurau Covid-19 yn eu lle oedd wedi effeithio ar ymgysylltu. Fodd bynnag, cafodd nifer o ymarferion ymgysylltu eu cynnal, gan gynnwys Parthau Diogel Canol Trefi, ymgynghori ar y Strategaeth Economaidd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd yn Harbwr Aberaeron.

Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus, ceir rhwydwaith cynhwysfawr o fforymau a phartneriaethau yng Ngheredigion y bydd staff yn cyfrannu atynt a lle maent yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth, er enghraifft y Fforwm Gwasanaeth Ieuenctid, Fforwm y Gofalwyr a Fforwm Anabledd Ceredigion.

Cafodd cyfarfodydd Fforwm Anabledd Ceredigion eu heffeithio gan bandemig y coronafeirws ac maent wedi symud erbyn hyn i fideo-gynadledda ar-lein. Cyfarfu'r Fforwm Anabledd bedair gwaith yn ystod 2020/21 i drafod Parthau Diogel Canol Trefi. Rhoddodd aelodau'r Fforwm adborth dylanwadol ar y Parthau Diogel. Cynhaliwyd un cyfarfod cyffredinol o'r Fforwm hefyd.

### 2.5 Asesu ar gyfer Effaith

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion, fel corff rhestredig yng Nghymru o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, gynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys asesu effaith polisïau ac arferion newydd a newidiadau i bolisïau ac arferion sy'n bodoli ar nodweddion gwarchodedig.

Rydym wedi datblygu Offer Asesu Effaith Integredig. Yn ogystal ag asesu'r effeithiau ar Gydraddoldeb, mae'r offer hefyd yn asesu'r effeithiau ar egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Mesur y Gymraeg 2011 (Gofynion Safonau'r Gymraeg) a Rheoli Risg. Mae'r offer hefyd wedi cael eu diwygio i ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud penderfyniadau. Cafodd cyfanswm o 29 o Asesiadau Effaith Integredig eu cyflwyno gydag Adroddiadau'r Cabinet yn ystod 2020-21.

**2.6 Hyfforddiant Staff**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ddatblygiad gweithwyr ac aelodau etholedig er mwyn sicrhau bod y rhai a gyflogir ac sy'n gweithio i ni yn fedrus, wedi eu hyfforddi ac wedi eu hysgogi i fodloni anghenion amrywiol y gymuned.

- Cwblhaodd 514 o aelodau staff y rhaglen e-ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ystod 2020/21.
- Cafodd hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei ohirio oherwydd Covid a'i ailgychwyn yn ddiweddarach gyda 3 sesiwn wedi eu trefnu, gan gynnwys un trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cafodd hyfforddiant LGBT ei ohirio oherwydd Covid. Roedd 18 o aelodau staff wedi mynychu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Drawsrywioldeb.
- Cafodd rhaglen e-ddysgu Rhagfarn Ddiarwybod ei lansio i staff addysgu oedd yn cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**2.7 Trefniadau Caffael**

Mae'r tîm caffael yn sicrhau bod datganiad cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi ei gynnwys yn yr holl wasanaethau a gomisiynir neu dan gontract.

Yn ystod 2020/21, mae'r holl gontractau arwyddocaol yn cael eu tendro trwy ddefnyddio system e-dendro-Cymru ac mae gan 100% o'r rhain gwestiynau gofynion cydraddoldeb a'r gofynion ar gyfer y Gymraeg wedi eu cynnwys ynddynt fel rhan o broses safonedig. Roedd Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi hefyd wedi eu cynnwys yn y tendrau hynny fel elfen safonol.



Draft

**2.8 Hygyrchedd**

Mae'r Cyngor yn cynhyrchu gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o fformatau yn ôl angen ac ar gais. Mae'n ofynnol i bob dogfen gyhoeddus gynnwys yr arwyddair 'mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, neu mewn fformatau eraill ar gais'. Rydym wedi rhoi canllawiau ar fformatau hygyrch i staff ar ein rhyngrwyd mewnol.

Mae gwefan gyhoeddus y Cyngor yn cydymffurfio â'r safonau hygyrchedd AAA a byddwn yn parhau i ymateb i unrhyw safonau neu newidiadau newydd i dechnoleg.

Mae contract gennym gyda WITS (Gwasanaeth Cyfieithu Cymru) i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd pan fydd sgiliau Cymraeg neu Saesneg defnyddwyr gwasanaeth yn gyfyngedig neu nid oes sgiliau Cymraeg neu Saesneg ganddynt. Mae canllawiau a 'chyfarwyddiadau sut i gael gwasanaeth cyfieithu' wedi cael eu cyhoeddi, ac maent ar gael i bob aelod o staff ar y safle mewnol Cerinet.

# 3. Cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion penodol yn ystod 2018-19

I'n helpu i roi'r Amcanion Cydraddoldeb ar waith, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi datblygu cynllun gweithredu. Mae *'Ceredigion Teg a Chyfartal 2020*-24' yn strategaeth 4 mlynedd, fodd bynnag, mae adroddiad monitro yn cael ei lunio'n flynyddol er mwyn adrodd ar sut mae'r Cyngor yn llwyddo yn erbyn pob un o'r 5 Amcan Cydraddoldeb. Mae camau gweithredu penodol wedi cael eu nodi er mwyn cyflawni'r 5 Amcan Cydraddoldeb yng Ngheredigion. Gweler Atodiad 1 ar gyfer Adroddiad Monitro 2020-21 llawn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Er mwyn olrhain cynnydd Amcanion Cydraddoldeb Strategol ar draws yr Awdurdod, mae'r adroddiad hwn wedi defnyddio system BRAG. Mae system BRAG yn ceisio dangos pa mor dda y mae cam gweithredu yn perfformio neu'n cael ei ddarparu, neu nodi a yw'r cam

Drafft

gweithredu ar darged neu mewn perygl o beidio â chyflawni. Mae cyfansymiau statws BRAG ar gyfer arddodiad monitro 2020/21 i'w weld yn y tabl isod.

| **LLIW BRAG** | **DIFFINIAD** | Cynnydd yn 2020/21 ar y camau gweithredu a nodwyd |
|---|---|---|
| *GLAS* **(B)** | Cam gweithredu wedi ei gwblhau. | 1 |
| *GWYRDD* **(G)** | Cam gweithredu yn mynd rhagddo yn ôl y cynllun | 39 |
| OREN **(A)** | Cam gweithredu ychydig ar ei hôl hi | 14 |
| COCH **(R)** | Cam gweithredu heb ddechrau er y rhagwelwyd y byddai wedi dechrau/pryderon ynghylch cwblhau'r cam gweithredu | 0 |

1 cam gweithredu wedi ei gwblhau; 39 o gamau gweithredu yn mynd rhagddynt yn ôl y cynllun; 14 cam gweithredu ychydig ar eu hôl hi a dim camau gweithredu heb eu dechrau.

| **Nod:** | **Glas** | **Gwyrdd** | **Oren** | **Coch** |
|---|---|---|---|---|
| **1. Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol** | **0** | **4** | **4** | **0** |
| **2. Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn** | **0** | **6** | **0** | **0** |
| **3. Ymgysylltu a Chyfranogiad** | **0** | **8** | **4** | **0** |
| **4. Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau** | **1** | **12** | **4** | **0** |
| **5. Addysg Deg a Chynhwysol** | **0** | **9** | **2** | **0** |

2020/21 oedd blwyddyn gyntaf *'Ceredigion Teg a Chyfartal 2020-24'.* Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu ar y gweill ac yn mynd rhagddynt yn ôl y disgwyl (39 cam gweithredu gwyrdd). Mae 14 cam gweithredu yn oren ac ychydig ar eu hôl hi, yn rhannol oherwydd effeithiau pandemig Covid-19, ond y nod yw eu cyflawni dros gyfnod pedair blynedd y cynllun. Mae un cam gweithredu yn las ac wedi ei gwblhau. Nid oes unrhyw gamau gweithredu coch sydd heb eu dechrau neu lle mae pryderon na chânt eu cyflawni.



Draft

I gael manylion llawn am bob cam gweithredu unigol, cyfeiriwch isod at dempled Adroddiad Monitro 2020-21 llawn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Drafft

Drafft

# ATODIAD 1

# Adroddiad Monitro 2020-21 Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion

## Cynnydd tuag at gyflawni ein pum Amcan Cydraddoldeb

Draft

| **Amcan 1: Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol. Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda staff sydd wedi eu hyfforddi ac yn ymwybodol o anghenion a materion cysylltiedig â chydraddoldeb. Parhau i gau'r blwch cyflog rhwng y rhywiau.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1.1** | Byddwn yn monitro ac yn cau'r gwahaniaeth posibl yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.<br><br>Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Bwlch Cyflog yn y Gweithlu yn flynyddol. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Geraint Edwards Pobl a Threfniadaeth** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Parhau i gau'r blwch cyflog rhwng y rhywiau. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br>Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ar gyfer 2020/21 i'w gynhyrchu erbyn diwedd Gorffennaf 2021 a chaiff ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar ôl iddo gael ei gymeradwyo trwy'r broses ddemocrataidd. | | | |
| **Cam Gweithredu 1.2** | Byddwn yn parhau i gasglu data cydraddoldeb yn y gweithlu a sgiliau Cymraeg gan staff newydd a data gwirfoddol gan staff presennol.<br><br>Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu yn flynyddol. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Geraint Edwards Pobl a Threfniadaeth** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Cynnydd yn nifer y staff sy'n datgelu data cydraddoldeb a sgiliau Cymraeg. | | | |
| | | | |

**Cynnydd hyd yma:** Mae data cydraddoldeb yn y gweithlu a sgiliau Cymraeg yn cael eu casglu gan yr holl staff newydd sy'n ymuno â'r Cyngor ac mae staff presennol yn cael eu hatgoffa yn flynyddol i ddiweddaru eu data cydraddoldeb trwy hunanwasanaeth Ceri. Mae diweddaru data iaith Gymraeg wedi ei gynnwys yn y broses arfarnu flynyddol.
Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithle ar gyfer 2020/21 i'w gynhyrchu erbyn diwedd Gorffennaf 2021 a chaiff ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar ôl iddo gael ei gymeradwyo trwy'r broses ddemocrataidd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1.3** | Byddwn yn gwella ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus trwy hyfforddiant. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Debbie Ayriss Pobl a Threfniadaeth** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |

**Canlyniadau:** Mwy o staff yn cwblhau e-ddysgu gorfodol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Mwy o reolwyr yn cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Mwy o staff yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth LGBT.

**Cynnydd hyd yma:**

- 514 o aelodau staff wedi cwblhau'r rhaglen e-ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Cafodd hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei atal dros dro ohirio oherwydd Covid a'i ailgychwyn yn ddiweddarach gyda 3 sesiwn wedi eu trefnu, gan gynnwys un trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cafodd hyfforddiant LGBT ei atal dros dro oherwydd Covid ac mae 18 o aelodau staff wedi mynychu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Drawsrywioldeb.
- Cafodd rhaglen e-ddysgu Rhagfarn Ddiarwybod ei lansio i staff addysgu oedd yn cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1.4** | Byddwn yn parhau i hyrwyddo a gweithredu'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd (sy'n croesawu ceisiadau gan bobl anabl ac yn ymrwymo i wneud addasiadau yn y gweithle). | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Geraint Edwards Pobl a Threfniadaeth** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Mwy o benodiadau wedi eu cofnodi fel rhai sydd ag anabledd. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Mae'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd wedi cael ei weithredu ac yn rhan sefydledig o weithdrefnau recriwtio'r Cyngor ac wedi'i gynnwys ym modiwl gorfodol Hyfforddiant Rheolwyr Ceredigion - Recriwtio a Dethol. | | | |
| **Cam Gweithredu 1.5** | Byddwn yn cefnogi gweithwyr sy'n feichiog neu sydd newydd roi genedigaeth trwy fabwysiadu'r chwe maes gweithredu o dan yr adroddiad *'Gwahaniaethu yn erbyn Beichiogrwydd a Mamolaeth yn y Gweithlu*: *Argymhellion ar gyfer Newid.'* | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Geraint Edwards Pobl a Threfniadaeth** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** 6 maes gweithredu wedi eu mabwysiadu. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Gwnaethpwyd cynnydd cyfyngedig ar y cam gweithredu hwn o ganlyniad i bandemig Covid-19.<br><br>Mae asesiad risg diwygiedig wedi cael ei gyflwyno i adlewyrchu canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar fenywod beichiog a'r gweithle. | | | |

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Cam Gweithredu 1.6** | Byddwn yn cynnig, lle y bo'n briodol, gweithio'n hyblyg a rhan-amser i gefnogi rhieni a gofalwyr. Byddwn yn diwygio ein polisïau ar weithio'n hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Geraint Edwards Pobl a Threfniadaeth** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Polisïau gweithio'n hyblyg a gweithio ystwyth diwygiedig wedi eu gweithredu. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br>• Addasiadau dros dro wedi cael eu gwneud i'r cynllun gweithio'n hyblyg o ganlyniad i'r orfodaeth i weithio gartref yn ystod pandemig Coivd-19 i gefnogi rhieni a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu.<br>• Ymgynghorwyd â'r undebau llafur ar Bolisi Gofalwyr a chaiff y polisi ei gyflwyno i'w gymeradwyo ar ddechrau 2021/22.<br>• Bydd gwaith ar y Polisi Gweithio Ystwyth a dadgyfuno Polisi Cydbwysedd Rhwng Bywyd a Gwaith yn dechrau fel rhan o'r rhaglen dychwelyd i'r swyddfa ar ôl Covid. | | | |
| **Cam Gweithredu 1.7** | Byddwn yn gweithio tuag at leihau gwahaniaethu rhwng y rhywiau a diffyg cynrychiolaeth ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn prentisiaethau, gan gynnwys gweithio gyda'n contractwyr i gynnwys buddion cymunedol fel elfen graidd ym mhob contract caffael perthnasol y Cyngor. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Mark Gleeson Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**Oren** |
| **Canlyniadau:** Llai o wahaniaethu rhwng y rhywiau mewn prentisiaethau. Mwy o brentisiaid Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac anabl. | | | |

Draft

**Cynnydd hyd yma:** Mae polisi'r Cyngor ar fuddion cymunedol a chanllawiau i dendrwyr ar gyfer nodi buddion cymunedol yn eu cynigion yn datgan, "Wrth ddewis prentisiaethau/lleoliadau gwaith neu gyflenwi cynlluniau Buddion Cymunedol rhaid i gontractwyr beidio â gwahaniaethu ar sail oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, sipsiwn a theithwyr, crefydd neu gred, priodas a phartneriaeth sifil neu anabledd. At hynny, rhaid i gontractwyr roi sylw dyledus i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mewn perthynas â'r bobl a'r cynlluniau hyn.'

**Buddion cymunedol ehangach** (lle gall contractwyr gynnig darparu buddion cymdeithasol ac amgylcheddol ychwanegol yn uniongyrchol i'r gymuned lle mae eu prosiect yn gweithredu). Mae'r rhain wedi eu categoreiddio fel:

- Cymuned
- Addysg
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (h.y. cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant sy'n targedu grwpiau anodd eu cyrraedd (NEET hirdymor, anabl, lleiafrifoedd ethnig)
- Amgylcheddol

Gweler y gwerthusiadau tendro canlynol:

- Contract safle Gwastraff Cartrefi Cilmaenllwyd (Penparc, Aberteifi) - contract wedi dechrau 01/03/21 - contract wedi ei lunio gyda chyswllt Buddion Cymunedol. Y prif gynnig yw ar gyfer lleoliadau profiad gwaith sydd wedi eu hatal dros dro ar hyn o bryd oherwydd Covid.
- Fframwaith Ymgynghoriaeth Peirianneg Rhanbarthol (wedi ei gadeirio gan Gyngor Sir Caerfyrddin).
- Contract safle Gwastraff Cartrefi Glan Yr Afon (i ddechrau 01/05/21).
- Contract Gwastraff Deunyddiau Eildro Sych Cymysg (i ddechrau 01/06/21 yn amodol ar osod contract)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1.8** | Byddwn yn parhau i weithredu ein Polisi Caethwasiaeth Fodern. Mae hyn yn cynnwys ein hymrwymiad gyda'n cyflenwyr a'n contractwyr i ddilyn Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol a Thryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi, er enghraifft, gwarchod yn erbyn contractau cyflogaeth ansicr a sicrhau hawliau gweithwyr. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Debbie Ayriss Pobl a Threfniadaeth** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Canlyniadau:** Mwy o Sesiynau Caethwasiaeth Fodern wedi cael eu darparu, mwy o staff wedi eu mynychu.

Mwy o sesiynau Masnachu Plant a Phobl wedi cael eu darparu.

**Cynnydd hyd yma:** Cafodd hyfforddiant ei atal dros dro oherwydd Covid.

**Amcan 2: Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn.**

**Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu trwy adeiladu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhagfarn. Dylai pawb allu byw heb ofn trais a chamdriniaeth a chael eu trin â pharch.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 2.1** | Byddwn yn gweithio gyda'r Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gefnogi Ceredigion gyda chymunedau cydlynus. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Kay Howells Cydlyniant Cymunedol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Fframwaith Cydlyniant Cymunedol i'w ddatblygu a'r canlyniadau i'w cyflawni.

**Cynnydd hyd yma:**

Drafft

Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol yn un o 8 tîm rhanbarthol ar draws Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Y nod yw cynnig dull cyson ar gyfer cydlyniant ar draws Cymru. Mae'r tîm yn gweithio yn ôl cynllun gweithredu blynyddol ac wedi cwblhau'n foddhaol y camau gweithredu a sefydlwyd ar gyfer 2020/21.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 2.2** | Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a chyfeirio dioddefwyr posibl at wasanaethau adrodd a chymorth. | **Prif Swyddogion**<br><br>**Naomi McDonagh Polisi a Pherfformiad a Kay Howells Cydlyniant Cymunedol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**Gwyrdd** |

**Canlyniadau:** Mwy o sesiynau ymwybyddiaeth o droseddau casineb wedi cael eu darparu.

Mwy o staff wedi eu mynychu.

**Cynnydd hyd yma:**

**Mae'r tîm yn parhau i weithio gyda phartneriaid i annog pobl i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac adrodd amdanynt.**

Cafodd Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ei chynnal rhwng 10 a 17 Hydref 2020. Nod yr wythnos oedd codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ac annog pobl i adrodd am hyn os ydynt yn ei weld neu'n dyst iddo. Roedd y Tîm Cydlyniant yn rhan o weithgor rhanbarthol i sicrhau bod mentrau yn cael eu cydlynu a'u mapio ar galendr lleol. Roedd partneriaid yn cynnwys OPCC, Heddlu Dyfed Powys, Cymorth i Droseddwyr, Cyngor Hil Cymru a'r Tîm Cydlyniant. Cymerodd y Tîm Cydlyniant yr awenau ar sawl menter ranbarthol.

- Cystadleuaeth Celf ar gyfer Plant Ysgol Gynradd. Mae ysgolion ar draws y rhanbarth yn cael eu gwahodd i ddylunio baner yn dathlu amrywiaeth. Cafodd y manylion eu rhannu ar yr Hyb fel rhan o adnodd dysgu ar-lein wedi ei baratoi gan Gymorth i Ddioddefwyr.
- Ffilm Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb un funud. Cafodd y ffilm ei rhannu'n eang ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd aelodau'r cyhoedd eu gwahodd i wylio'r ffilm ac yna cymryd rhan mewn cwis byr ar droseddau casineb gyda chyfle i ennill iPad a thalebau siopa. Cafodd y prosiect ei ddatblygu gan dîm Canolbarth a Gorllewin Cymru a'i gyflwyno ar draws Cymru gan yr holl dimau Cydlyniant. Ymatebodd 516 o

bobl i'r cwis, a nododd 72 ohonynt eu bod yn dod o Geredigion. Roedd OPCC wedi rhedeg fforwm ieuenctid ar 13 Hydref, a chafodd ffilm y tîm Cydlyniant ei dangos yno hefyd. Cynhaliodd Cyngor Hil Cymru ddigwyddiad lansio ar ddydd Sadwrn 10 Hydref. Siaradodd y Cydlynydd am y gwaith sy'n cael ei wneud ar Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn Nyfed Powys gan fanteisio ar y cyfle i ddangos y ffilm un funud.

Hyrwyddodd y tîm ymgyrch *Mae Casineb yn Brifo Cymru* Llywodraeth Cymru i helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o droseddau casineb ac annog pobl i adrodd amdano. Mae'r ymgyrch wedi cael ei datblygu gyda mewnbwn gan randdeiliaid a phrofiadau go iawn o achosion o droseddau casineb a gafodd eu herlyn i ddangos yr effaith niweidiol y mae troseddau casineb yn ei chael ar unigolion ac ar ein cymdeithas yn gyffredinol. Mae'r ymgyrch yn cynnwys hysbysebu ar y teledu yn ogystal â'r sianeli digidol a'r cyfryngau cymdeithasol. Gweler gov.wales/hate-hurts-wales i gael rhagor o wybodaeth.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r tîm cydlyniad Cymunedol gydweithio â'r 4 awdurdod lleol a gefnogwn i ystyried ymuno ag Ymgyrch Dim Goddefgarwch tuag at Hiliaeth Cyngor Hil Cymru. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymuno a chynhaliwyd digwyddiad lansio ar ddydd Sul 21 Mawrth 2021 i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Dileu Gwahaniaethu ar sail Hil.

**Hyfforddiant Troseddau Casineb i Ysgolion**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyflwyno hyfforddiant wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i ysgolion. Caiff yr hyfforddiant ei ddarparu ar draws Cymru er mwyn i ysgolion ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol mewn perthynas â Throseddau Casineb. Ar ôl y saib oherwydd Covid bydd yr hyfforddiant bellach yn digwydd rhwng Mawrth 2021 - Mawrth 2022. Mae 6 ysgol wedi cael eu nodi yng Ngheredigion fel rhai a fydd yn derbyn yr hyfforddiant hwn gyda'r posibilrwydd y bydd 2 ysgol arall yn ymuno yn dilyn yr adnoddau ychwanegol a dderbyniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**Hyfforddiant Troseddau Casineb**

1 sesiwn wedi ei chanslo oherwydd amgylchiadau arbennig (Covid).

Cysylltu Cyngor Ceredigion a hyfforddiant Troseddau Casineb/Troseddau Cyfeillio sy'n cael ei ddarparu gan Gymorth i Ddioddefwyr. 27 aelod o staff wedi mynychu Hyfforddiant Troseddau Casineb/Troseddau Cyfeillio yn ystod y cyfnod hwn.

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 2.3** | Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith i gynyddu adroddiadau am gam-drin domestig i'r gwasanaeth Goleudy (Cymorth i Ddioddefwyr), | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Sian Howys Porth Cynnal / Amy Taylor Cydlynydd Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Mwy o staff wedi cwblhau e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.<br><br>Mwy o sesiynau Gofyn a Gweithredu wedi eu cwblhau. | | | |
| **Cynnydd hyd yma: 290 o aelodau staff wedi cael hyfforddiant Gofyn a Gweithredu.** | | | |
| **Cam Gweithredu 2.4** | Byddwn yn monitro ac yn ymateb i densiynau cymunedol sy'n gysylltiedig â phroses Brexit. | **Prif Swyddogion**<br><br>**Timothy Bray Polisi a Pherfformiad a Kay Howells Cydlyniant Cymunedol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Mwy o ymyraethau a leihau gwrthdaro. | | | |

**Cynnydd hyd yma:**

Rydym yn monitro tensiynau cymunedol yn gyffredinol ac mewn perthynas â phroses Brexit mewn sawl ffordd:

**Monitro Tensiynau** - Mae monitro tensiynau wythnosol yn parhau gyda phartneriaid yn ymuno â'r galwad gan Heddlu Dyfed Powys, Prifysgol Aberystwyth, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr, Cyngor Hil Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, adrannau gwahanol o fewn yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Rheolwr Diogelwch Cymunedol, tai a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r tîm Cydlyniant a phartneriaid wedi nodi a lleddfu'n llwyddiannus amrywiaeth o densiynau dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys cyfathrebu'n berthnasol ynghylch tanau gwyllt, rhannu cuddwybodaeth ynghylch symudiadau protestio a llunio datganiad i'r wasg ar y cynnydd mewn graffiti asgell dde/hiliol yn Aberystwyth.

**Ymchwil Cydlyniant Cymunedol -** Yn 2020 roedd y tîm wedi rhoi tendr i gwmni ymchwil gwblhau prosiect ymchwil wedi ei anelu i gychwyn ar yr effaith y gallai Brexit a Covid ei chael ar gymunedau yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys. Pwrpas hyn oedd darparu sylfaen dystiolaeth, gan nodi'r mannau problemus posibl yn y gymuned, tensiynau a phroblemau yn arbennig y rhai yn codi o refferendwm Brexit yn 2016 a'i effaith ddilyniannol ar gydlyniant cymunedol yn y blynyddoedd dilynol. Roedd y fethodoleg yn cynnwys adolygu llenyddiaeth a data, arolwg ar-lein gyda sefydliadau ac asiantaethau allweddol, cyfweliadau ffôn manwl â rhanddeiliaid allweddol, grwpiau ffocws gyda chymunedau â diddordeb megis BAME, Ffoaduriaid, LGBQT+, pobl ag anableddau, y gymuned sipsiwn a theithwyr, Dinasyddion yr UE, siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a rhai grwpiau cymysg. Mae'r argymhellion yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cydlyniant Cymunedol ar gyfer 2021-22.

Mae'r tîm Cydlyniant yn mynychu ac yn cyfrannu at gyfarfodydd chwarterol grŵp llywio'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE o fewn Cyngor Sir Ceredigion, CSP/CONTEST/SVOC, cyfarfod Adsefydlu Ffoaduriaid Ceredigion a chyfarfod o Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 2.5** | Byddwn yn cyfeirio dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yng Ngheredigion at Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd y Swyddfa Gartref a darparu'r lefel briodol o gymorth gan yr awdurdod lleol. | **Prif Swyddogion**<br><br>**Kay Howells Cydlyniad Cymunedol ac Arwyn Morris Cyswllt Cwsmeriaid** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Canlyniadau:** Mwy o ddinasyddion yr UE sy'n preswylio yng Ngheredigion ac yn gwneud cais i'r cynllun.

**Cynnydd hyd yma:**

Grŵp Cynllun Adsefydlu UE Ceredigion yn cydlynu'r gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod cynifer o Ddinasyddion yr UE â phosibl yng Ngheredigion yn gwneud cais i'r cynllun. Hyd at Fawrth 2021, cafodd 2,110 o geisiadau eu derbyn a'u cwblhau gan unigolion sy'n gweithio ac yn byw yng Ngheredigion, i fyny dros 500 ers y diweddariad chwarterol blaenorol.

Mae'r gwaith a sefydlwyd gan y tîm Cydlyniant yn cynnwys:

- Ymgyrchoedd radio naw mis ar draws 4 gorsaf radio
- Mae'r tîm wedi cael cyfarfodydd rheolaidd dros Skype â phartneriaid trydydd sector sy'n ymwneud â hyrwyddo a chefnogi EUSS. O hyn, cafodd hyfforddiant ar-lein ei ddatblygu i hyrwyddo'r cynllun (ei redeg yn rhithiol o Dachwedd 2020 - Mawrth 2021). Mae'r hyfforddiant wedi ei anelu at staff rheng-flaen sy'n gallu cyfeirio ymgeiswyr at gymorth trwy'r cynllun. O leiaf 15 o aelodau staff o Gyngor Ceredigion wedi mynychu.
- Neges fisol ar y cyfryngau cymdeithasol gan yr Awdurdod Lleol.
- Datganiad i'r wasg gan yr Awdurdod Lleol
- Cyswllt uniongyrchol trwy'r ebost â chyflogwyr lleol (cartrefi gofal, manwerthu, twristiaeth, amaethyddiaeth ac ati).
- Gohebiaeth â'r ysgolion (rhieni) trwy offer megis Parent Mail.
- Cyflwyniadau i grwpiau allweddol megis Rheolwyr Cartrefi Gofal a Chynghorau Cymuned.
- Swyddogion wedi gweithio gyda'r Tîm Troseddau Gwledig yn darparu sesiynau briffio EUSS trwy Skype, gan arwain at negeseuon allweddol yn cael eu hanfon trwy eu rhwydweithiau Facebook a Twitter i gymunedau ffermio penodol sy'n cyflogi gweithwyr o'r UE.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 2.6** | Byddwn yn parhau i weithredu'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus flynyddol yn y cyfryngau. Gallai enghreifftiau gynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, a Diwrnod Cofio'r Holocost. | **Prif Swyddogion**<br><br>**Tîm Cyfathrebu / Kay Howells** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd** |

Draft

| | | | GWYRDD |
|---|---|---|---|

**Canlyniadau:** Mwy o ymgyrchoedd wedi eu cynnal.

**Cynnydd hyd yma:**

Mae'r tîm Cyfathrebu wedi cynnal ystod eang o ymgyrchoedd yn ystod y flwyddyn. Cafodd dros 30 o ymgyrchoedd eu cefnogi mewn amrywiaeth o feysydd trwy ddatganiadau i'r wasg a Chynghorwyr, rhannu gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, a hefyd y tîm adnoddau dynol i'w rhannu'n fewnol gyda staff. Cafodd nifer yr ymgyrchoedd a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn ei effeithio gan bandemig y coronafeirws.

Mae'r tîm Cydlyniant yn cefnogi calendr blynyddol o ddiwrnodau ac ymgyrchoedd cenedlaethol, gan gydweithio'n agos â'r tîm Cyfathrebu i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dathlu amrywiaeth a nodi digwyddiadau hanesyddol penodol. Yn ystod 2020/21 hyrwyddodd a chefnogodd y tîm nifer o ymgyrchoedd gan gynnwys:

- Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb (gweler 2.2).
- Mis Hanes Pobl Dduon - rhannu cyfryngau cymdeithasol ar raglen ddogfen ITV yn archwilio sut beth yw hi i fod yn Gymro/Gymraes ac yn ddu.
- Diwrnod Cofio'r Holocost - negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a goleuo adeiladau cyhoeddus yn borffor.
- Mis Hanes LGBT - postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a goleuo adeiladau cyhoeddus yn borffor.
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod - rhannu cyfryngau cymdeithasol ar brosiect wedi ei ariannu gan y tîm Cydlyniant o'r enw Wynebau a Lleoedd.
- Wythnos Ffoaduriaid - cyfryngau cymdeithasol.

Mis Hanes Sipsiwn a Theithwyr - cystadleuaeth ffotograffiaeth yn edrych ar fywyd yn ystod y cyfnod clo (ar y cyd â Travelling Ahead).

## Amcan 3: Ymgysylltu a Chyfranogi

**Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau a chael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.**



Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 3.1** | Byddwn yn ymgysylltu â phobl Ceredigion, gan gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac yn cysylltu â grwpiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. | **Prif Swyddogion**<br><br>**Michael Smith Polisi a Pherfformiad a'r holl feysydd gwasanaeth i'w weithredu** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** Yr ymgysylltu yn ystyrlon. Pobl yn cymryd rhan ac yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau - Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Roedd yn flwyddyn anodd o ran ymgysylltu gydag amrywiaeth o fesurau Covid-19 yn eu lle oedd wedi effeithio ar ymgysylltu. Fodd bynnag, cafodd nifer o ymarferion ymgysylltu eu cynnal, gan gynnwys Parthau Diogel Canol Trefi, ymgynghori ar y Strategaeth Economaidd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd yn Harbwr Aberaeron.<br><br>Mae'n bosib y bydd adroddiadau blynyddol ymgysylltu yn dechrau'r flwyddyn nesaf os yw'r Polisi Ymgysylltu yn cael ei fabwysiadu. | | | |
| **Cam Gweithredu 3.2** | Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu ein Polisi Ymgysylltu. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Michael Smith Polisi a Pherfformiad** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Y Polisi Ymgysylltu yn cael ei gyhoeddi a'i weithredu. Cynnydd yn cael ei gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Disgwylir i'r Polisi Ymgysylltu drafft, 'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd' fynd trwy'r broses wleidyddol yn ystod 2021-22. Mae dogfen ddrafft gyntaf wedi cael ei gynhyrchu | | | |



Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 3.3** | Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ac yn rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud penderfyniadau. | **Prif Swyddogion**<br><br>**Nia Jones Gwasanaethau Democrataidd/ Gwion Bowen Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Targedau penodol wedi eu cyhoeddi mewn Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc 2018-21. Cynnydd yn cael ei gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.<br><br>Rhaglen e-ddysgu ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei datblygu, a disgwylir ei lansio i'r staff yn 2020 | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Rydym yn parhau i weithredu'r Strategaeth Plant a Phobl Ifanc ac e-ddysgu. Mae cynnydd wedi cael ei gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. | | | |
| **Cam Gweithredu 3.4** | Byddwn yn cefnogi'r rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau yn lleol, yn arbennig i fenywod, pobl anabl neu bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Glynis Davies Gwasanaethau Etholiadol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** Mwy o fenywod, pobl anabl a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli. | | | |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Rydym yn parhau i gefnogi rhaglenni a chynlluniau cenedlaethol i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau yn lleol. | | | |
| **Cam Gweithredu 3.5** | Byddwn yn cefnogi ymgysylltu â phobl ifanc 16 ac 17 oed os yw'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng yng Nghymru. | **Arweiniol Swyddogion**<br><br>**Glynis Davies Gwasanaethau Etholiadau / Gwion Bowen Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** Dull wedi ei dargedu at hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio Cyngor Ieuenctid Ceredigion, Chweched Dosbarth Ysgolion Uwchradd, sefydliadau Addysg Bellach, Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, Fforymau Plant a Phobl Ifanc a Chyfryngau Cymdeithasol Gwasanaethau Ieuenctid. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Rydym yn parhau i hyrwyddo cyfranogiad mewn democratiaeth leol i bobl ifanc, gan gysylltu â rhaglenni cenedlaethol. | | | |
| **Cam Gweithredu 3.6** | Byddwn yn parhau i gefnogi Fforwm Anabledd Ceredigion. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Michael Smith Polisi a Pherfformiad** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau:** 4 cyfarfod agored y flwyddyn a 4 cyfarfod â CSC. Mae llais pobl anabl yn cael ei glywed ac yn ddylanwadol. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Cafodd cyfarfodydd eu heffeithio gan bandemig y coronafeirws ac maent wedi symud erbyn hyn i fideo-gynadledda ar-lein. Cyfarfu'r Fforwm Anabledd bedair gwaith i drafod Parthau Diogel Canol Trefi. Rhoddodd aelodau'r Fforwm adborth dylanwadol ar y Parthau Diogel. Cynhaliwyd un cyfarfod cyffredinol o'r Fforwm hefyd. | | | |
| **Cam Gweithredu 3.7** | Byddwn yn cynnal y dudalen cydraddoldeb ar wefan y Cyngor i gyfeirio at wybodaeth berthnasol a chyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac adroddiadau. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Michael Smith Polisi a Pherfformiad** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Tudalen Cydraddoldeb wedi ei diweddaru ar wefan CSC. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Cafodd y dudalen Cydraddoldeb ei diweddaru gan gynnwys cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 ac Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-20. | | | |
| **Cam Gweithredu 3.8** | Byddwn yn monitro cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad monitro blynyddol. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Michael Smith Polisi a Pherfformiad a'r holl feysydd gwasanaeth i'w weithredu** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau:** Nifer y camau gweithredu glas a gwyrdd yn erbyn cyfanswm y camau gweithredu. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** 2020/21 oedd blwyddyn gyntaf *'Ceredigion Teg a Chyfartal 2020-24'.* Adlewyrchir hyn yng ngweithrediad y cynllun, gyda'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu ar y gweill ac ar y trywydd iawn (39 o gamau gweithredu gwyrdd). Mae 14 o gamau gweithredu yn oren ac ychydig ar eu hôl hi, yn rhannol oherwydd effeithiau pandemig Covid-19, ond y nod yw eu cyflenwi dros gyfnod pedair blynedd y cynllun. Mae un cam gweithredu yn las ac wedi ei gwblhau. Nid oes unrhyw gamau gweithredu coch sydd heb eu dechrau neu gyda phryderon na chânt eu cyflawni.<br><br>Camau gweithredu glas a gwyrdd = 1 +30<br><br>Cyfanswm camau gweithredu = 54.<br><br>Cynnydd = 40 / 54 x 100 = 74% | | | |
| **Cam Gweithredu 3.9** | Byddwn yn adolygu'r broses Asesiad Effaith Integredig. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Michael Smith Polisi a Pherfformiad** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Proses Asesiad Effaith Integredig ddiwygiedig wedi ei gweithredu. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Cafodd diwygiad dros dro i'r Asesiadau Effaith Integredig ei wneud er mwyn darparu ar gyfer dechrau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Disgwylir gwneud diwygiad cyffredinol yn 2021-22. | | | |

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 3.10** | Byddwn yn monitro ac yn cynghori ar Asesiadau Effaith Integredig. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Michael Smith Polisi a Pherfformiad** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**Oren** |

**Canlyniadau:** Nifer yr Asesiadau Effaith Integredig ar y safon ofynnol a gyflwynwyd gyda Phapurau Cabinet / cyfanswm yr Asesiadau Effaith Integredig sy'n ofynnol x 100 = A%.

**Cynnydd hyd yma:** Roedd llai o Asesiadau Effaith Integredig y flwyddyn hon oherwydd lleihad yn nifer y cynigion sy'n mynd i'r Cabinet oherwydd pandemig y coronafeirws. Cafodd 29 o Asesiadau Effaith Integredig eu cyflwyno, ac o'r rhain roedd 41% ar y safon ofynnol. Rhoddwyd adborth ar 59% o'r Asesiadau Effaith Integredig yr oedd angen rhoi sylw iddynt er mwyn i ddiwygiadau gael eu gwneud.

12 / 29 x 100 = 41%

Canlyniadau 2020-21: 41%

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 3.11** | Darparu cymorth ac arweiniad i holl wasanaethau'r Cyngor i sicrhau eu bod yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, a chynyddu argaeledd a safon y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Carys Morgan Gwasanaethau Democrataidd** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gael i siaradwyr Cymraeg.

**Cynnydd hyd yma:** Wedi darparu cymorth ac arweiniad i holl wasanaethau'r Cyngor i sicrhau eu bod yn gweithredu Safonau'r Gymraeg trwy fonitro a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.



Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 3.12** | Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion Siarter Anableddau Dysgu Dream Team. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Pob un** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Canlyniadau gwell i bobl ag anableddau dysgu. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Mabwysiadu'r Siarter yn parhau. | | | |



**Amcan 4: Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau.**

**Sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob gwasanaeth. Gwnawn hyn trwy sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin ag urddas a hefyd trwy ateb eu hanghenion os ydynt yn wahanol i anghenion pobl eraill.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.1** | Byddwn yn hwyluso mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth trwy'r Porth Cymorth Cynnar, gan gynnwys Dewis a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Byddwn hefyd yn darparu sesiynau technoleg hygyrch a chymunedau sy'n deall dementia. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Cyra Shimell / Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |

**Canlyniadau:** Mwy o bobl yn cael eu cynorthwyo.

Mwy o sesiynau deall dementia yn cael eu darparu.

**Cynnydd hyd yma:** Dim sesiynau deall dementia wedi eu cynnal ers y cyfnod clo cyntaf, fodd bynnag, rydym wedi cynnal nifer o sesiynau Cysylltu â Charedigrwydd ar-lein.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.2** | Byddwn yn darparu cymorth wedi ei dargedu megis y prosiectau "Cynllun Cyfeirio" ac "Ymuno" er mwyn i blant ag anghenion ychwanegol allu mynychu gweithgareddau prif ffrwd. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Porth Cymorth Cynnar / Cathryn Morgan** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Cynnal y gyfradd dychwelyd holiaduron ar 50%, a chynnal cyfradd gwasanaeth da neu uwch ar 84%.

**Cynnydd hyd yma:** Rydym yn talu am hyfforddiant, cymorth a staff ychwanegol er mwyn i blant ag anableddau neu anghenion ychwanegol allu mynychu lleoliadau plant prif ffrwd. Mae'r 'Cynllun Cyfeirio' yn cefnogi plant cyn-ysgol ac mae 'Ymuno' ar gyfer plant oedran ysgol. Gwelwyd lleihad yn nifer y ceisiadau am gymorth, yn rhannol oherwydd nad oedd pob lleoliad ar agor ac yn rhannol oherwydd bod rhieni am leihau'r cysylltiad yr oedd y plant mwy agored i niwed hyn yn ei gael ag eraill.

Cafodd 131 o blant cyn-ysgol eu cefnogi gan y Cynllun Cyfeirio y flwyddyn hon. Gadawodd 61 o blant y cynllun yn ystod y flwyddyn, gadawodd nifer yn sydyn yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym Mawrth 2020 ac yna aethant i'r ysgol ym mis Medi; ni chafodd ffurflen werthuso ei hanfon atynt. Roedd y darparwr (Mudiad Meithrin) wedi llwyddo i anfon y ffurflen trwy'r e-bost at 13 o rieni; dim ond 4 (31%) oedd wedi ymateb. Dywedodd 100% o'r rhain bod y cynllun wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plant/teulu a bod y cynllun yn cynnig modd i'r lleoliad gynnwys eu plentyn ym

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| mhob agwedd ar y Cylch. Fodd bynnag, dywedodd 25% nad oedd digon o gyfle ganddynt i drafod anghenion y plentyn gyda'r gweithwyr proffesiynol, ac nid oeddent yn teimlo bod yr wybodaeth a gawsant am ddatblygiad eu plentyn yn ddigonol.<br><br>Dim ond 1 plentyn gafodd cymorth gan gynllun Ymuno i fynychu lleoliad prif ffrwd y tu allan i'r ysgol. Dychwelodd y rhiant hwn yr holiadur (ymateb 100%) gan ddweud bod y ddarpariaeth wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r teulu, a bod ei blentyn wedi elwa o'i fynychu, ac ni fyddai wedi gallu mynychu heb y cymorth. Gweithiodd y darparwr (DASH Ceredigion) gyda'r Tîm Plant Anabl i ddarparu cymorth 1:1 a chynllun chwarae arbenigol i blant anabl sydd ag anghenion cymhleth. Roeddent wedi gweithio gyda'r Uned Gofal Plant hefyd i gynnig hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o anabledd cudd i staff mewn lleoliadau gofal plant prif ffrwd.<br><br>**Adborth gan rieni:**<br><br>Cael cymorth ychwanegol ar gyfer fy mhlentyn sydd â phroblemau ymddygiad, mae'r bobl hyn yn gallu rhoi yr hyn y mae ei angen ar fy mhlentyn ac maen nhw yn brofiadol. Mae ei addysg a'i ymddygiad wedi gwella ychydig bach ac rwy'n credu bod hyn oherwydd y cymorth ychwanegol y mae'n ei gael trwy'r feithrinfa. *(Cynllun Cyfeirio)*<br><br>Bues i'n ffodus iawn i ddewis y feithrinfa y mae fy mhlentyn yn mynd iddi, roedd yr Arweinydd wedi sylwi ar ymddygiad fy mhlentyn yn gyflym iawn ac wedi bod yn gefn i'r ddau ohonom, ond i'm plentyn yn bennaf. Mae'n cael yr addysg y mae'n haeddu ei chael ac sydd ei hangen arno. Rwy'n ddiolchgar iawn yn arbennig i Ms Jones am ei phrofiad a'r ffordd y mae wedi helpu fy nheulu. (*Cynllun Cyfeirio*)<br><br>Allwn ni ond diolch i chi am y cariad, y cymorth a'r anogaeth rydych wedi eu rhoi i'n plentyn. Rydym wedi teimlo ei bod yn cael y gofal gorau, yn enwedig gyda'i halergeddau a'i chroen, ac mae hyn i'w weld yn ei hapusrwydd yn yr Ysgol Feithrin. Mae wedi gwneud cymaint o gynnydd ac mae ei Chymraeg yn wych *(Cynllun Cyfeirio).* | | | |
| **Cam Gweithredu 4.3** | Byddwn yn rhoi cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau bywyd sy'n ateb eu hanghenion (Cyfathrebu Cyflawn, Creative Lifestyle Solutions, Llond Bol a Chanolfan Cymorth Cymunedol). | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Nerys Lewis Porth Gofal a Gillian Evans Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau:** Mwy o bobl wedi cael mynediad i'r gwasanaethau eiriolaeth. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Mae carfan gyntaf Camu 'Mlaen wrthi'n cwblhau eu blwyddyn gyntaf. Bydd adolygiad partneriaeth o'r flwyddyn yn cael ei gwblhau a bydd hyn yn cynnwys archwilio ymhellach mynediad a'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth gyda chynllun wedi ei ddatblygu i wella eiriolaeth ble a phan fydd ei angen. | | | |
| **Cam Gweithredu 4.4** | Byddwn yn datblygu manyleb a thendr ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth newydd ar gyfer anableddau dysgu, iechyd meddwl a phobl hŷn. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**George Ryley a DSS Contracts and Commissioning Porth Cynnal** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Mwy o bobl wedi cael mynediad i'r gwasanaethau eiriolaeth. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Cytunwyd y bydd contract rhanbarthol newydd ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth ac mae gwaith eisoes wedi dechrau ar baratoi'r tendr. Mae Cyngor Sir Penfro yn arwain y prosiect ac mae cynrychiolwyr o Gynghorau Sir Ceredigion a Chaerfyrddin hefyd ar y Grŵp Prosiect, ac yn rhoi mewnbwn ar ddatblygu'r fanyleb a dogfennau tendro eraill. Disgwylir i'r contract newydd fod yn ei le o Ionawr 2022. Yn ystod 2020/21 derbyniodd 48 o bobl newydd yng Ngheredigion wasanaethau eiriolaeth trwy drefniadau contract presennol Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol Ceredigion, gan gynnwys 8 yn ystod y chwarter diwethaf. Gall y ffigur hwn gael ei ddefnyddio fel mesur ar gyfer y flwyddyn nesaf a disgwylir i ffigurau'r chwarter olaf adlewyrchu'r contract rhanbarthol newydd. | | | |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.5** | Byddwn yn darparu amrywiaeth ddwyieithog o ddosbarthiadau ymyrraeth iechyd ym mhob ardal yn y sir, gan gynnwys cyflyrau cronig cymhleth ar gyfer clefydau'r galon, iechyd meddwl, rheoli poen, canser, atal cwymp, gan gynnwys y rhaglen hyfforddiant sadrwydd osgo o dan y Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Steve Jones Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Dros 200 o ddosbarthiadau ymyrraeth iechyd wedi eu cynnal bob mis, pob un o fewn amser teithio 20 munud i bob cleient.

36,000 o Unedau Gweithgareddau y flwyddyn

Y rhaglen wedi ei seilio ar y cleient er mwyn meithrin arferion newid bywyd o ran cadw'n actif a llesiant iechyd meddwl.

**Cynnydd hyd yma:**

Oherwydd y pandemig a'r cyfnod clo, mae'r Tîm Ymyrraeth Iechyd wedi bod yn cynnig cymorth trwy'r gwasanaeth Ffonio a Sgwrsio i fwy na 600 o gleientiaid sydd â phroblemau iechyd.

Mae dosbarthiadau rhithiol er mwyn i bobl barhau'n actif trwy sianeli'r cyfryngau cymdeithasol, yn fyw ac wedi eu recordio ymlaen llawn, wedi cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn gyda nifer da yn cymryd rhan.

Prosiectau Cerdded er budd Lles rhithiol wedi cael eu cynnal yn ystod y cyfnod clo gyda chyfranogwyr yn cerdded cannoedd ar filoedd o filltiroedd lle maen nhw'n byw.

Llwyddiannus iawn

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.6** | Prosiect Cylch Caron – byddwn yn sefydlu gofal yn y gymuned er mwyn ateb anghenion iechyd a thai sy'n addas i'r diben. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Nerys Lewis Porth Gofal** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** Nodi nifer y gwasanaethau ychwanegol sydd eu hangen fel rhan o Brosiect Cylch Caron. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Mae prosiect Cylch Caron yn parhau ar gam datblygu Achos Busnes Llawn. | | | |
| **Cam Gweithredu 4.7** | Byddwn yn datblygu Cofrestr Tai Hygyrch ac yn gweithio ar sicrhau bod cyngor a gwasanaethau Opsiynau Tai yn hygyrch. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Llyr Hughes / Cerys Purches-Phillips Porth Gofal** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Lefelau boddhad gwell ymysg pobl sy'n gwneud cais am dai hygyrch. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Mae'r Gofrestr Tai Hygyrch a'r Polisi Tai Hygyrch wedi bod yn eu lle ers Mehefin 2016. O ganlyniad, mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r gofrestr tai hygyrch ac yn derbyn cynigion yn dilyn hynny yn parhau i gynyddu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafodd nifer o dai eu rhoi i unigolion a theuluoedd sydd angen cartrefi hygyrch, gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, y datblygiad newydd Maes Arthur lle roedd 3 o'r 33 o fflatiau newydd yn | | | |

hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gwaith ar y gweill bellach i neilltuo 56 o fflatiau yng Nghynllun Gofal Maes y Môr a fydd hefyd yn gwbl hygyrch. Mae'r adroddiadau diweddaraf yn nodi bod 15% o geisiadau i'r Gofrestr Tai yn gofyn am ryw fath o eiddo hygyrch. Y categorïau a gafodd eu cynnwys yw: cadair olwyn lawn/cadair olwyn rannol/angen llawr gwaelod/cartrefi am oes/uchafswm 3 gris/dim grisiau.

Mae mynediad i'r Gwasanaeth Opsiynau Tai ar gael yn ddwyieithog ac er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i gwblhau ffurflenni cais ar-lein, mae cyfleusterau ar gael i dderbyn ceisiadau dros y ffôn. Mae gwefan Opsiynau Tai hefyd yn cynnig ieithoedd heblaw’r Gymraeg a'r Saesneg, ynghyd ag opsiynau hygyrchedd ychwanegol megis testun yn unig/ffurf graffigol/darllen yn uchel a'r dewis i gynyddu maint y testun. Dros yr wythnosau diweddar, mae gwaith wedi cael ei wneud gan y tîm i sicrhau bod gwefan Opsiynau Tai yn hollol gydnaws ac yn bodloni gofynion newydd Canllawiau Hygyrchedd WCAG 2.1 AA, sef cyfres o argymhellion a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n diffinio sut i wneud cynnwys gwe yn fwy hygyrch i bobl ag anableddau.

Er gwaethaf heriau Covid-19, mae gwasanaethau'r Gofrestr Tai a Digartrefedd wedi sicrhau y gall y gwasanaeth barhau i weithredu'n ddiogel gyda chyngor priodol yn cael ei ddarparu o bell, a sicrhau nad yw unrhyw unigolion yn cael eu cosbi gan y newid yn y dull gweithredu.

Er na all y gwasanaeth gofnodi adborth trwy'r system TG ar hyn o bryd, mae adborth llafar yn cael ei gofnodi. Fodd bynnag, nid yw hwn yn gyfleuster adroddadwy. Bydd cyfle yn y dyfodol i ddatblygu proses er mwyn monitro lefelau boddhad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.8** | Byddwn yn ystyried darparu mynediad i'r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl, pobl hŷn a theuluoedd sydd â phlant ifanc fel ran o unrhyw waith cynnal a chadw neu wella a wneir. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Gerwyn Jones Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i wella cysodfannau ac arosfannau bysiau ar hyd y llwybr T2/T5.

Rydym yn parhau i gefnogi a hwyluso menter Llywodraeth Cymru sy'n cynnig teithio am ddim i bawb ar y penwythnos ar rwydwaith TrawsCymru.

Mae'r ddwy fenter yn gwella hygyrchedd trwy gyfrwng gwella'r seilwaith a'r gwasanaeth.

**Cynnydd hyd yma:** Mae pandemig byd-eang Covid-19 wedi cael effaith fawr ar y rhan fwyaf o agweddau ar fywyd. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir yn achos y gofynion a'r galw am deithio sy'n cynnwys yr effeithiau sy'n codi o gyfyngiadau teithio a ffyrdd newydd neu wahanol o weithio a byw yn gyffredinol. Mae'r effeithiau hyn yn dilyn ac yn gysylltiedig â theithio rhyngwladol i deithio ar lefel leol.

Mae'r Cyngor Sir wedi cydweithio'n agos â gweithredwyr bysiau llesol trwy gydol pandemig Covid-19 i gefnogi'r diwydiant a chynnal lefel graidd o wasanaethau gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yr un pryd. Mae hyn wedi cynnwys datblygu asesiadau risg Covid-19 a gweithredu mesurau lleddfu rheolaeth gysylltiedig. Mae natur integredig rhwydweithiau bysiau yng Ngheredigion yn golygu bod y dull gweithredu hwn wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer cludiant dysgwyr yn ogystal â'r gwasanaethau a'r cyfleoedd teithio sydd ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol. Bu angen bod yn ddeinamig ac yn hyblyg yn ein hymateb i'r sefyllfa sy'n newid yn gyflym oherwydd Covid-19. Mewn hinsawdd gweithredu heriol o'r fath mae manteision mabwysiadu dull o weithio mewn partneriaeth a chydweithredu wedi dod i'r amlwg ac yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n gyffredinol.

Mae gwaith wedi parhau ar welliannau i gysodfannau ac arosfannau bysiau ar hyd llwybr T2/T5, gan gynnwys yr wybodaeth a ddarperir mewn cyfnewidfeydd allweddol gan gynnwys Porth Aberystwyth, Sgwâr Alban Aberaeron a Sgwâr Finch Aberteifi.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r gweithredwyr bysiau i weinyddu a rheoli'r cyllid Cynllun Brys ar gyfer Bysiau sy'n esblygu. Cafodd hyn ei roi ar waith i gefnogi gweithredwyr a gwasanaethau yn ystod y pandemig ond hefyd wrth i ni symud tuag at fodel newydd ar gyfer y modd y darperir ac y rheolir gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru wedi dechrau adolygu ac ailwampio rhwydweithiau bysiau Cymru.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.9** | Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella troetffyrdd a cherbytffyrdd (er enghraifft, cyrbiau is). | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Phil Jones Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Canlyniadau:** Mwy o welliannau i droetffyrdd sy'n rhoi sylw i faterion hygyrchedd. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Mae hwn yn weithgarwch blynyddol parhaus. Mae mynediad i'r anabl (neu ddiffyg mynediad i'r anabl) yn faen prawf ar gyfer sgorio/asesu gwaith wrth lunio'r rhestr wedi ei blaenoriaethu o gynlluniau cynnal a chadw a/neu wella. | | | |
| **Cam Gweithredu 4.10** | Byddwn yn parhau i weithredu ymgyrch Cymhennu Ceredigion i godi ymwybyddiaeth a lleihau nifer y rhwystrau ar droetffyrdd yn ein trefi megis byrddau hysbysebu ffrâm A biniau ar olwynion. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Gerwyn Jones Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol a phartneriaid** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** Mae Cyhoeddiadau Ceredigion Dim Sbwriel yn cael eu rhannu/eu cyhoeddi ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn rheolaidd sy'n darparu ar gyfer codi ymwybyddiaeth barhaus. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Byddai sbwriel 'preifat' anghyfreithlon (nid dodrefn stryd) yn cael ei ystyried yn drosedd rhwystro oni bai ei fod wedi ei drwyddedu/ei gymeradwyo. | | | |

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.11** | Byddwn yn cynnal archwiliadau hygyrchedd i sicrhau bod pob aelod o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Lyndon Griffiths Economi ac Adfywio** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Mwy o adolygiadau hygyrchedd wedi eu cwblhau a gwelliannau a argymhellir yn cael sylw. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Rydym yn parhau i gynnal archwiliadau hygyrchedd ar gyfer adeiladau'r Cyngor a datblygiadau mawr. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r Strategaeth Toiledau o ran hygyrchedd a gwaith parhaus i gynyddu nifer y toiledau gyda lleoedd newid yn y sir. | | | |
| **Cam Gweithredu 4.12** | Rydym wedi ennill safon hygyrchedd AA ar gyfer ein gwefan a byddwn yn gweithio tuag at ennill safon AAA, gan gynnwys darparu bar offer darllenadwyedd. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Arwyn Morris Cyswllt Cwsmeriaid** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GLAS** |
| **Canlyniadau:** Cynyddu lefelau boddhad cwsmeriaid. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Bydd y cam gweithredu hwn yn un parhaus er mwyn bodloni unrhyw safonau newydd - rydym wedi bodloni'r holl safonau sylfaen angenrheidiol ar gyfer hygyrchedd. Mae'r cam gweithredu hwn yn las - wedi ei gyflawni ond bydd yn parhau i esblygu wrth i dechnoleg newid. | | | |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.13** | Byddwn yn parhau i reoli llwybr yr arfordir i sicrhau bod y llwybr yn bodloni disgwyliadau ymwelwyr, gan gynnwys parhau i ddilyn egwyddorion *'Mynediad Lleiaf Rhwystrol'* lle y bo'n bosibl. Byddwn yn ystyried anghenion pobl ag anableddau wrth gynnal a chadw neu wella hawliau tramwy cyhoeddus. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Eifion Jones Economi ac Adfywio** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol wedi eu cynnwys o fewn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

**Cynnydd hyd yma:**

Cafwyd £45k o gyllid cyfalaf y Cyngor i newid pontydd troed sy'n helpu i gydymffurfio â lled 1.2m sydd wedi eu cynnwys o fewn y canllawiau "trwy bob dull rhesymol" ar fynediad lleiaf rhwystrol.

Mae nodi'r rhwystrau i fynediad wedi ei gynnwys bellach ym mhob taflen llwybrau a hyrwyddir, h.y. camfeydd, gatiau, gosod wyneb a graddiant llwybrau ac ati.

Cafwyd grant o £160k gan Lywodraeth Cymru i greu llwybrau pren i bob gallu ar hyd afon Teifi yng Nghenarth (prosiect 3 blynedd)

Cafwyd £25k i uwchraddio wyneb llwybr troed yn Aberaeron - llenyddiaeth hyrwyddo llwybr mynediad i bob gallu wedi ei baratoi fel rhan o'r prosiect.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.14** | Byddwn yn rhoi sylw i fynediad cyfartal i fannau chwarae gan gefnogi'r cynllun gweithredu cyfleoedd chwarae digonol. | **Swyddog Arweiniol** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Cathryn Morgan Polisi a Pherfformiad** | |
| **Canlyniadau:** Mwy o geisiadau grant i CSC ar gyfer gwelliannau i fannau chwarae a gefnogir gan bolisi/cynlluniau i ddarparu lleoedd chwarae hygyrch. | | | |

**Cynnydd hyd yma:** Erbyn hyn mae ffurflen gais Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan Ceredigion yn gofyn i'r grwpiau amlinellu eu cynlluniau neu bolisi i sicrhau fod y man chwarae yn hygyrch i blant ac oedolion anabl. 9 cais grant wedi eu derbyn, 100% wedi ateb y cwestiwn penodol hwn (rhai atebion wedi eu dangos isod). Mae'n ymddangos y byddai peth hyfforddiant ychwanegol yn ddefnyddiol. Bydd gweminar 'man chwarae cynhwysol' ar-lein yn cael ei ddatblygu a'i gynnig yn ystod 2021/22. Ymatebion

1. Mae polisi darpariaeth chwarae gan y Cyngor Cymuned ac mae'n ymwybodol o sicrhau bod meysydd chwarae yn hygyrch er nad oes llawer o offer chwarae arbenigol ar gael, ac mae'n cael ei ystyried wrth brynu offer newydd.
2. Y bwriad yw edrych ar hyn yn fwy manwl, i gychwyn trwy ddarganfod beth yw'r galw am barc chwarae hygyrch yn yr ardal hon. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar anghenion y gymuned ac yn ceisio rhoi sylw i unrhyw rwystrau.
3. Wedi ei gynnwys yn y dyfynbris hwn yw siglen fasged sy'n addas i blant anabl. Nid oes unrhyw risiau ym mynedfa'r maes chwarae ac mae'r gât yn addas i gadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio. Mae maes parcio ceir am ddim wrth ochr y safle.
4. Mae'r maes chwarae wedi cael ei gynllunio i'w wneud mor hygyrch â phosibl yn wyneb y ffaith bod y safle ar lethr. Ceir llwybrau igam-ogam yn agos at y maes chwarae ac ar y safle yn hwyluso mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Bydd ramp mynediad concrid a mynedfa newydd ar gyfer y Pafiliwn Pren i'w darparu erbyn gwanwyn 2021.
5. Ceir mynediad rhwydd i'r parc o'r ffordd sy'n rhedeg trwy'r pentref; mae cilfan eithaf mawr (lle parcio i 2-3 car) a gallwch agor y gât fetel pum bar a gyrru trwyddo i gael mynediad agosach i'r cyfleusterau (os oes angen). Mae arwyneb solet rhwng y gilfan a'r maes chwarae ac o ymyl y maes chwarae ceir llwybr tarmac (tua 1.5m ar led) sy'n arwain at y maes chwarae. Nid oes unrhyw lwybrau rhwng ardal yr offer chwarae ar hyn o bryd ond mae'r porfa yn cael ei gadw'n fyr a'i gynnal yn dda. Mae'r holl offer chwarae wedi eu hamgylchynu gan fatiau diogelwch a fyddai'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ar wahân i'r sleid. Nid oes unrhyw gyfleusterau toiledau cyhoeddus yn y parc

Draft

neu yn y pentref. Rydym yn gobeithio gwneud y parc yn fwy hygyrch a chynhwysol yn y dyfodol i bobl â galluoedd gwahanol trwy ychwanegu offer chwarae priodol gan ei bod hi'n bwysig bod pob plentyn ac oedolyn yn gallu mwynhau chwarae beth bynnag fo'i allu.

Rydym wedi gweithio â thîm Iaith a Lleferydd Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gael 15 x Bwrdd Cyfathrebu wedi eu gosod mewn 15 o feysydd chwarae cymunedol. Bydd y rhain yn gwella'r profiad chwarae ar gyfer plant nad ydynt yn cyfathrebu ac yn helpu i gynyddu sgiliau iaith a chyfathrebu.

Draft


Bwrdd cyfathrebu
Communication board
Pwyntiwch at y symbol wrth ddweud y gair e.e. "Wyt ti eisiau bwyd?"
Cofiwch hefyd roi cyfle i'r plentyn bwyntio at yr hyn mae eisiau dweud.
Point to the symbol as you say the word to the child e.g. "Do you want food?"
Give the child opportunities to point to what they want too.
fi I
eisiau want
cyflym fast
da good
i ffwrdd off
wedi blino tired
hapus happy
dail leaves
ti you
dere come
araf slow
drwg bad
ar ben on
trist sad
cyffrous excited
brigau sticks
mwy more
gweld see
hoffi like
gorffen finish
rhedeg run
tŷ bach toilet
diod drink
aderyn bird
mynd go
chwarae play
ddim yn hoffi don't like
help help
aros wait
adref home
bwyd food
blodyn flower
ddim not
siglen swing
cylchdro roundabout
si-so see-saw
mainc bench
llithren slide
car car

Tudalen 141

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 4.15** | Byddwn yn sicrhau bod ein polisi caffael a manyleb contract yn cynnwys cydraddoldeb a'r Gymraeg fel gwybodaeth safonol. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**George Ryley Cyllid a Chaffael a Carys Morgan Gwasanaethau Democrataidd** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Canran y manylebau contract a gyhoeddwyd gyda gofynion ar gyfer Cydraddoldeb a'r Gymraeg. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Mae'r holl gontractau mawr yn cael eu tendro trwy ddefnyddio system e-dendro-Cymru ac mae gan 100% o'r rhain gwestiynau ynghylch gofynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi eu cynnwys ynddynt fel rhan o broses safonedig. Roedd Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi hefyd wedi eu cynnwys yn y tendrau hynny fel gwybodaeth safonol. | | | |
| **Cam Gweithredu 4.16** | Byddwn yn parhau i helpu clybiau chwaraeon cymunedol i ennill Gwobr Anabledd Insport. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Steve Jones Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** Mwy o wirfoddolwyr/prosiectau cymunedol i hyfforddi ac addysgu pobl i fod yn fwy hyderus a datblygu cyfleoedd mwy cynhwysol yn ein cymunedau. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Mae Clybiau Chwaraeon yn cael eu hannog i gwblhau Achrediad Insport. Mae'r clwb beicio addasedig Wheel Together yn Aberystwyth wedi ennill statws Rhuban eleni.<br><br>Oherwydd y pandemig a newidiadau staff, nid yw rhaglen achredu Insport wedi bod yn weithredol. | | | |
| **Cam Gweithredu 4.17** | Byddwn yn datblygu gweledigaeth ar gyfer Ceredigion Actif gan ennill safon Aur Insport. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Steve Jones Dysgu Gydol Oes a Diwylliant** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Parhau â'r daith a'r broses ddysgu i staff, partneriaid a gwasanaethau o statws Rhuban i Aur.<br><br>Bod yn wasanaeth cynhwysol sydd â gweledigaeth ar gyfer pob safon. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Mae ymrwymiad i gyflawni Achrediad Aur Insport wedi ei gynnwys yng Nghynllun Busnes Gwasanaeth Canolfan Llesiant L2 ar gyfer 2021-22. Mae gwaith ar y gweill i fynychu Panel Cyn Dyfarnu Statws Aur Insport Chwaraeon Anabl Cymru ym Mehefin 2021. | | | |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 5: Addysg Deg a Chynhwysol.**<br><br>**Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial. Dylai'r hawl i addysg a hyfforddiant hefyd sicrhau hygyrchedd ac amgylchedd heb unrhyw fwlio neu aflonyddu. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgu gydol oes.** | | | |
| **Cam Gweithredu 5.1** | Byddwn yn helpu ysgolion i sicrhau eu bod yn adolygu ac yn diweddaru eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Nia James Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Pob ysgol yn adrodd ac yn cadarnhau eu bod wedi cwblhau cynlluniau cydraddoldeb strategol unigol yn ystod Tymor yr Haf yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu.<br><br>Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ei le yn yr ysgolion. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Pob ysgol wedi cwblhau ei Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn ystod tymor yr haf. | | | |
| **Cam Gweithredu 5.2** | Byddwn yn helpu ysgolion i fynd i'r afael â bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth a gweithredu Pecyn Cymorth a Chanllawiau Gwrth-fwlio arfaethedig Llywodraeth Cymru pan gânt eu lansio yng ngwanwyn 2020. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Laurie Hughes / Kizzie Garner-Hughes Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Canlyniadau:** Mae pob ysgol wedi adolygu ei pholisi gwrth-fwlio.

Polisi drafft wedi ei greu ar gyfer ysgolion o'r canllawiau gwrth-fwlio newydd.  Copi drafft wedi ei anfon i'w ymgynghori arno a cheisio cymeradwyaeth uwch staff addysg cyn cael ei gylchredeg i'r ysgolion.

**Cynnydd hyd yma:**

Mae ysgolion wedi cael canllawiau gwrth-fwlio.  Cymeradwyaeth wedi ei cheisio gan uwch staff addysg; canllawiau wedi eu cyflwyno i'r Cabinet ar 18/05/21 a chael eu cymeradwyo fel polisi.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 5.3** | Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant heb Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r rhai sydd ag ADY | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Gillian Evans Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Pob disgybl ag ADY wedi gwneud cynnydd priodol yn unol â'u hanghenion.

Hyn wedi ei dystio gan ddata ar gyflawniad plant ag ADY ym mhob cyfnod allweddol.

- **Cynnydd hyd yma:** Mae perfformiad disgyblion AAA Ceredigion yn dda. Ceir cynnydd yn nifer y disgyblion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth ddifrifol yn y blynyddoedd cynnar. Mae Ceredigion wedi parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant i gynyddu gallu'r gweithlu i ateb anghenion disgyblion prif ffrwd. Mae hyn yn cynnwys ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person er mwyn adlewyrchu anghenion y Cod ADY newydd, hyfforddiant awtistiaeth, hyfforddiant Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol a hyfforddiant iechyd meddwl. Mae 70% o

Drafft

ysgolion Ceredigion wedi cael eu hachredu bellach fel ysgolion sy'n deall awtistiaeth. Mae 79% o'n hysgolion hefyd wedi cael cynorthwyydd addysgu wedi ei hyfforddi fel hyrwyddwr awtistiaeth.  Mae 451 o bobl wedi cwblhau modiwl e-ddysgu ar gydnabod anawsterau iechyd meddwl mewn pobl ifanc.  Darpariaeth Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol yn parhau i ddatblygu'n dda ac ysgolion wedi gwneud cais am hyfforddiant pellach ar gyfer staff.  Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol wedi cael hyfforddiant pellach cyn i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol ym Mehefin 2020.  Ysgolion wedi gwneud defnydd da o'r grant iechyd meddwl i ddarparu sesiynau Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol ychwanegol i bobl ifanc sy'n agored i niwed.  Mae 49 o gynorthwywyd addysgu wedi ennill cymhwyster Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion agored i niwed yng Ngheredigion yn parhau i gael ei monitro. Oherwydd Covid-19 ni chaiff data diwedd cyfnod allweddol eu casglu yn ystod tymor yr haf. Bydd data ysgol mewnol yn cael eu monitro i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd adeg mynediad.

Mae tystiolaeth o'r nifer ar y gofrestr AAA/ADY yn dangos effaith yr ymyrraeth o fewn ysgolion. Dros amser mae'r nifer ar y gofrestr wedi newid yn sylweddol. Mae'r symud rheolaidd rhwng cyfnodau AAA / ADY yn dangos bod ymyrraeth yn cael effaith gadarnhaol. Cafwyd lleihad yn nifer y datganiadau a nifer y disgyblion ar y gofrestr ADY. Ceir cynnydd yn nifer y disgyblion ar y cam Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy/Cytundeb Adnoddau Gweithredol gan yr Ysgol a Mwy (SAP/SAPRA) sy'n adlewyrchu nifer y disgyblion sydd ag anghenion dwysach a mwy cymhleth sy'n dechrau yn ein hysgolion, a hefyd effaith Covid ar allu ysgolion i sicrhau ymateb graddedig ac ymyrraeth a darpariaeth AAA lawn yn ystod y flwyddyn.

| | Gweithredu gan yr Ysgol | | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy / Cytundeb Adnoddau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | | Datganiad | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blynyddoedd | 0-6 | 7-11 | 0-6 | 7-11 | 0-6 | 7-11 |
| 2021 | 849 | 739 | 473 | 289 | 7 | 71 |
| | 1588 | | 762 | | 78 | |
| 2020 | 792 | 839 | 274 | 176 | 7 | 62 |
| | 1788 | | 717 | | 72 | |
| 2019 | 940 | 861 | 384 | 229 | 21 | 68 |

Drafft

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1,801 | | 613 | | 89 | |
| 2018 | 1,078 | 850 | 360 | 195 | 25 | 77 |

| **Cam Gweithredu 5.4** | Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn lleihau'r bylchau a nodwyd mewn cyrhaeddiad. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Catrin Petche Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
|---|---|---|---|

**Canlyniadau:** Pob plentyn sy'n Derbyn Gofal wedi gwneud cynnydd priodol yn unol â'i anghenion.

Hyn wedi ei dystio gan ddata ar gyflawniad plant sy'n derbyn gofal ym mhob cyfnod allweddol.

**Cynnydd hyd yma:** At ei gilydd, mae perfformiad plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion yn dda. Mae tystiolaeth monitro fewnol yn dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd o ran eu mynediad.
Ni fydd unrhyw adrodd ar ddata diwedd Cyfnod Allweddol oherwydd Covid-19.

Ar hyn o bryd mae 91 o blant mewn gofal ar y gofrestr, ac mae gan 55% o'r rhain ADY, ac mae gan 36% ohonynt Gytundeb Adnoddau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ddatganiad. Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal y tu allan i'r sir a leolir yng Ngheredigion o awdurdodau eraill wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae 42% o ddisgyblion Ceredigion sydd mewn gofal yn dod o'r tu allan i'r Awdurdod, mae gan 58% o'r rhain ADY sy'n golygu bod angen lefel ychwanegol o gymorth arnynt. Caiff y disgyblion eu haddysgu o fewn ein hysgolion prif ffrwd, fodd bynnag mewn rhai achosion mae angen darparu pecyn cwricwlwm amgen er mwyn ateb anghenion y disgybl. Bu hon yn her fawr dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd rheoliadau Covid.

Mae hyfforddiant chwarae'n seiliedig ar ymlyniad a pherthnasoedd ac ymarferion seiliedig ar drawma wedi cael eu datblygu ymhellach. Bu ffocws ychwanegol hefyd ar lesiant disgyblion. Mae pob ysgol wedi cael holiadur llesiant yr Awdurdod Lleol a phecyn cymorth llesiant. Mae hyn wedi

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| cynyddu gallu staff ysgol i ddeall ac ateb anghenion nifer fwy o ddisgyblion. Caiff effaith hyn ei monitro dros y flwyddyn nesaf. Mae hyfforddiant pellach wedi cael ei neilltuo ar gyfer 2021. | | | |
| **Cam Gweithredu 5.5** | Byddwn yn helpu dysgwyr o leiafrifoedd ethnig i gael mynediad i'r cwricwlwm er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial ac yn gwella eu cyrhaeddiad. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Carole Price Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Darparu cymorth peripatetig parhaus a/neu ymyrraeth ar gyfer ysgolion a dargedwyd a gweithredu wedi ei gydlynu rhwng rhanddeiliaid o fewn yr Awdurdod Lleol.<br><br>5% o ddisgyblion wedi symud i fyny lefel o ran cynnydd Saesneg fel Iaith Ychwanegol, gydag 1% yn gwneud cynnydd o 2 lefel neu fwy.<br><br>64% o ddisgyblion ar god C-E, ac o'r rhain mae 61% yn (D) cymwys neu (E) rhugl. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** | | | |
| **Cam Gweithredu 5.6** | Byddwn yn datblygu ymyraethau wedi eu targedu i blant sy'n cael prydau ysgol am ddim. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Vanessa Bowen / Gwion Dafydd Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau:** Hyfforddiant a dargedwyd wedi ei ddarparu ar gyfer ymyraethau e.e. rhifedd, iaith, ADY, sgiliau meddwl. Hyfforddiant hefyd yn cefnogi'r defnydd effeithiol o Hafan a Phrydau Ysgol Am Ddim o fewn Asesiad Proffil.<br><br>Cynadleddau yn hyrwyddo dealltwriaeth ac ymyrraeth ar Fwlio, Llais y Plentyn, Iechyd a Llesiant. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Cynhaliwyd yr hyfforddiant ar-lein, bydd mwy i ddilyn gyda dyfodiad Cwricwlwm i Gymru Mehefin-Medi 2021. Hyfforddiant ADY yn cael ei ddiweddaru oherwydd newidiadau cyson i'r Mesur newydd. Hafan ar gau hyd yn hyn, gobeithio ail agor y ddarpariaeth ar ôl Mehefin 7fed. | | | |
| **Cam Gweithredu 5.7** | Byddwn yn gwella adeiladau ysgol yn ôl yr angen ar y cyd â chynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Nia James Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |
| **Canlyniadau:** Byddwn yn gwella adeiladau ysgol yn ôl yr angen ar y cyd â chynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:**<br><br>Dim diweddariadau wedi eu cwblhau yn ystod y cyfnod adrodd oherwydd ni thynnwyd sylw at unrhyw broblemau yn y cynlluniau hygyrchedd ysgolion. | | | |

Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 5.8** | Byddwn yn gweithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Silyn Roberts Ysgolion** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ei le ac yn parhau tan 2021 hyd nes y cyhoeddir Cynllun Strategol 2021-2031.

Cynllun wedi ei weithredu a'r canlyniadau wedi eu monitro.

**Cynnydd hyd yma:**

O ganlyniad i Covid-19 a'r oedi a fu yn ei sgil, caiff Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 ei gyflwyno bellach i Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2022 ac os caiff ei gymeradwyo, bydd yn weithredol ym Medi 2022. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg cyfredol yn weithredol dros dro a chaiff cynnydd ar hwnnw ei adrodd arno yn Rhagfyr bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru ar draws y saith canlyniad disgwyliedig.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 5.9** | NEET (nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) – byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd a'r darpariaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed a gefnogir gan gwricwlwm amgen.<br><br>NEET – byddwn yn sicrhau bod buddion cymunedol yn cael eu cynnwys fel gofyniad craidd mewn pob contract caffael y Cyngor a bod canran y cyfleoedd Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant a grëir yn cynyddu o'r flwyddyn flaenorol. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Mark Gleeson Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

**Canlyniadau:** Mae dau gwrs newydd wedi cael eu hychwanegu at y ddarpariaeth cwricwlwm amgen ers Medi 2019.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud, mae holl gontractau caffael CSC yn cynnwys buddion cymunedol fel gofyniad craidd.

Caiff cynnydd ei fesur pan fydd data blynyddol NEET ar gael.

**Cynnydd hyd yma:** Ar yr adeg hon o'r flwyddyn rydym yn canolbwyntio ar gasglu data ar ymadawyr Blwyddyn 11. Mae Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gweithio ar y cyd â Gyrfa Cymru, ysgolion a'r Gwasanaeth Ieuenctid i dargedu ymadawyr sydd heb benderfynu ar yrfa. Bydd HCT yn rhedeg nifer o sesiynau blasu ar gyfer dysgwyr cwricwlwm amgen ar ôl hanner tymor. Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau i gynnal diwrnodau blasu ar gyfer ymadawyr Blwyddyn 11.

Mae polisi'r Cyngor ar fuddion cymunedol a chanllawiau i dendrwyr ar gyfer nodi buddion cymunedol yn eu cynigion yn datgan, "Wrth ddewis prentisiaethau/lleoliadau gwaith neu gyflenwi cynlluniau Buddion Cymunedol rhaid i gontractwyr beidio â gwahaniaethu ar sail oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, sipsiwn a theithwyr, crefydd neu gred, priodas a phartneriaeth sifil neu anabledd. At hynny, rhaid i gontractwyr roi sylw dyledus i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mewn perthynas â'r bobl a'r cynlluniau hyn.'

**Buddion cymunedol ehangach** (lle mae contractwyr yn gallu cynnig darparu buddion cymdeithasol ac amgylcheddol ychwanegol yn uniongyrchol i'r Gymuned lle mae eu prosiect yn gweithredu). Mae'r rhain wedi eu categoreiddio fel:

- Cymuned
- Addysg
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (h.y. cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant sy'n targedu grwpiau anodd eu cyrraedd (NEET hirdymor, anabl, lleiafrifoedd ethnig)
- Amgylcheddol

Gweler y gwerthusiadau tendro canlynol:

- Contract safle Gwastraff Cartrefi Cilmaenllwyd (Penparc, Aberteifi) - contract wedi dechrau 01/03/21 - contract wedi ei arwyddo gyda chyswllt Buddion Cymunedol. Y prif gynnig yw ar gyfer lleoliadau profiad gwaith sydd wedi eu hatal dros dro ar hyn o bryd oherwydd Covid.
- Fframwaith Ymgynghoriaeth Peirianneg Rhanbarthol (wedi ei gadeirio gan Gyngor Sir Caerfyrddin)
- Contract safle Gwastraff Cartrefi Glan Yr Afon (i ddechrau 01/05/21)
- Contract Gwastraff Deunyddiau Eildro Sych Cymysg (disgwylir iddo ddechrau 01/06/21, yn aros i gontract gael ei ddyfarnu)

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 5.10** | Byddwn yn helpu pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol a chydnabod buddion bod ar-lein. | **Swyddog Arweiniol**<br><br>**Denise Owen Dysgu gydol Oes Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**OREN** |
| **Canlyniadau:** Cynnydd yn nifer y cofrestriadau Dysgu Bro dros 50 oed.<br><br>Mwy o bobl dros 50 oed wedi cofrestru ar ddosbarthiadau llythrennedd digidol.<br><br>Mwy o bobl dros 50 oed wedi cofrestru ar ddosbarthiadau llythrennedd digidol gydag anabledd neu Anghenion Dysgu Ychwanegol. | | | |
| **Cynnydd hyd yma:** Gyda dyfodiad y pandemig a chyfyngiadau'r cyfnod clo yn effeithio ar ddosbarthiadau, ni chyrhaeddwyd y targedau hyn. Yn ystod cyfyngiadau'r cyfnod clo rydym wedi darparu dosbarthiadau ar-lein i bobl, gan gynnwys dosbarth o bobl dros 65 oed. Lle nad yw dysgwyr wedi cael mynediad i brofiad digidol, rydym wedi gallu darparu gliniaduron ar eu cyfer i'w defnyddio gartref, ac mae hyn wedi bod o fantais i nifer o ddysgwyr ar draws amrywiaeth o bynciau, ac rydym hefyd wedi rhoi sesiynau i nifer o ddysgwyr ar sut i ddefnyddio Zoom neu Teams er mwyn cael mynediad i'r dosbarthiadau. | | | |
| **Cam Gweithredu 5.11** | Byddwn yn cynnig cyrsiau 'Chwarae Gyda'n Gilydd' (Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd) i ddisgyblion ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o namau a sut i gynnwys ffrindiau mewn gweithgareddau corfforol cynhwysol. | **Swyddogion Arweiniol**<br><br>**Steve Jones Porth Cymorth Cynnar** | **BRAG Glas, Coch, Oren, Gwyrdd**<br><br>**GWYRDD** |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Canlyniadau:** Mewn partneriaeth ag AYP a Chwaraeon Cymru byddwn yn hyfforddi disgyblion ysgol a gwirfoddolwyr i ddysgu sut i addasu/cynnwys eraill mewn gweithgareddau chwaraeon a chorfforol.

**Cynnydd hyd yma:**

Mae modiwl Mini DIT (Chwarae Gyda'n Gilydd) wedi cael ei gynnwys yn hyfforddiant pob Llysgennad Ifanc. Rydym wedi hyfforddi dros 100 o Lysgenhadon Ifanc Efydd eleni gyda'r uned hon wedi ei chynnwys.

Draft

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Cyngor Sir CEREDIGION

**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

**DYDDIAD:** 15 Medi 2021

**LLEOLIAD:** Ar-lein

**TEITL:** Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2021 ac Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2021

**DIBEN YR ADRODDIAD:** Er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn bodloni ei ofynion mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011 i gyhoeddi gwybodaeth am y gweithlu yn flynyddol.

**Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** Er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn addas i'r diben ac er mwyn gwneud argymhellion i'r Cabinet fel y bo'n briodol.

**CEFNDIR:**
Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'r holl awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru, adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chyhoeddi gwybodaeth am y gweithlu yn flynyddol.

**Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2021**
Mae'r gofyniad i adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i wneud chwe chyfrifiad ynglŷn â'r gweithlu ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddata a gymerwyd am y gweithle ar 31 Mawrth 2021.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cymedr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau | Y gwahaniaeth rhwng enillion fesul awr cyfartalog gweithwyr gwryw perthnasol ar gyflog llawn a gweithwyr benyw perthnasol ar gyflog llawn. |
| 2 | Canolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau | Y gwahaniaeth rhwng canolrif enillion fesul awr gweithwyr gwryw perthnasol ar gyflog llawn a gweithwyr benyw perthnasol ar gyflog llawn. |
| 3 | Cymedr bonws y bwlch cyflog rhwng y rhywiau | Y gwahaniaeth rhwng cymedr y tâl bonws a delir i weithwyr gwryw perthnasol a'r hynny a delir i weithwyr benyw perthnasol. |
| 4 | Canolrif bonws y bwlch cyflog rhwng y rhywiau | Y gwahaniaeth rhwng canolrif y tâl bonws a delir i weithwyr gwryw perthnasol a'r hynny a delir i weithwyr benyw perthnasol. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Y cyfrannau sy'n derbyn taliadau bonws | Cyfran y gweithwyr gwryw a benyw perthnasol a dderbyniodd daliadau bonws yn ystod y cyfnod perthnasol. |
| 6 | Bandiau cyflog chwartel | Cyfran y gweithwyr gwryw a benyw perthnasol ar gyflog llawn sydd yn y chwartel isaf, y chwartel canol isaf, y chwartel canol uchaf a'r chwartel uchaf. |

Fodd bynnag, yn sgil cyflwyno'r Cytundeb Statws Sengl yn 2012, nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud taliadau bonws (perfformiad neu benodol) felly ni chyhoeddir ffigurau ar gyfer pwyntiau 3, 4 a 5 yn y tabl uchod.

Ar 31 Mawrth 2021, cymedr y bwlch cyflog oedd -5.3% a chanolrif y bwlch cyflog oedd -3.9% rhwng dynion a menywod. Mae hyn yn welliant o 31 Mawrth 2020, lle -7.6% oedd cymedr y bwlch cyflog a -4.5% oedd canolrif y bwlch cyflog. Ymdrinnir â'r rheswm pam fod y bwlch yn bodoli yn yr adroddiad ynghyd â'r mesurau yr ydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng cyflogau.

**Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2021**
Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011, sy'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi amrywiaeth o ddata am ein gweithlu o dan bob un o'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred (gan gynnwys dim cred)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Priodas a Phartneriaeth Sifil

Mae'r data a gasglwyd yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 ac mae'n adrodd ar bob nodwedd warchodedig yn y canlynol:

- ein gweithlu presennol ar 31 Mawrth 2021;
- y rhai a wnaeth gais am swyddi yn ystod y cyfnod
- y rhai a adawodd ein cyflogaeth yn ystod y cyfnod

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam**<br><br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:** | Ddim yn ofynnol |

**Atal:**

**ARGYMHELLION:** (1) Derbyn Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2021
(2) Derbyn Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2021

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

**Enw Cyswllt:** Geraint Edwards
**Swydd:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth (Dros Dro)
**Dyddiad yr Adroddiad:** 20/08/2021

**Acronymau:**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

*"Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl"*



# Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

2021

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

## Cyngor Sir Ceredigion

Mae'n **ofynnol** i Gyngor Sir Ceredigion ynghyd â'r holl awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru lunio Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017.

Mae hyn yn cynnwys gwneud chwe chyfrifiad sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog dynion a menywod yn ein sefydliad, ond ni chyhoeddir data am weithwyr unigol.

1. Cymedr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
2. Canolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
3. Cymedr bonws y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
4. Canolrif bonws y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
5. Cyfran y gwrywod a benywod sy'n cael taliadau bonws
6. Cyfran y gwrywod a benywod ym mand pob chwartel


Bydd yr adroddiad hwn sy'n cynnwys yr wybodaeth a'r camau gweithredu gofynnol y bydd y Cyngor yn ymgymryd â nhw er mwyn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd hefyd ar gael i staff ar y safle mewnrwyd Ceri Net.

## Cyd-destun

Ar 31 Mawrth 2021 roedd gweithlu’r Cyngor yn cynnwys 66% o weithwyr benyw a 34% o weithwyr gwryw.



## Ffigurau bwlch cyflog rhwng y rhywiau




Diffinnir y bwlch cyflog rhwng y rhywiau fel y gwahaniaeth rhwng cyfradd tâl fesul awr cymedr neu ganolrif staff gwryw a benyw.

**Cymedr y bwlch cyflog** yw'r gwahaniaeth rhwng enillion fesul awr cyfartalog dynion a menywod.

**Canolrif y bwlch cyflog** yw'r gwahaniaeth rhwng mannau canol yn yr amrediadau o enillion fesul awr dynion a menywod. Mae'n cymryd yr holl gyflogau yn y sampl, yn eu trefnu o'r cyflog isaf i'r cyflog uchaf, ac yn dewis y cyflog mwyaf canolig.


Mae'r wybodaeth a roddir yn y siartiau yn seiliedig ar y gyfradd tâl fesul awr ar 31 Mawrth 2021.

**Mae'r gyfradd hon yn ostyngiad ar y flwyddyn ddiwethaf (2020): canolrif y bwlch cyflog oedd -7.6% a chymedr y bwlch cyflog oedd -4.5%**
**ond mae'n gynnydd ar 2019: canolrif y bwlch cyflog oedd -2.8% a chymedr y bwlch cyflog oedd -4.5%**

Yn sgil cyflwyno'r Cytundeb Statws Sengl yn 2012, nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud taliadau bonws (perfformiad neu benodol) felly ni chyhoeddir ffigurau ar gyfer pwyntiau 3, 4 a 5 uchod.

## Cyfran y gweithwyr gwryw a benyw ym mhob chwartel tâl

Mae'r siart yn dangos y rhaniad rhwng y rhywiau pan fyddwn yn trefnu tâl fesul awr o'r tâl uchaf i'r tâl isaf a'i grwpio yn bedwar chwartel cyfartal.




## Pam bod bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Er ein bod yn hyderus bod dynion a menywod yn cael tâl cyfartal am wneud swyddi tebyg ar draws y Cyngor, y prif reswm dros y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ein sefydliad yw'r anghydbwysedd rhwng gweithwyr gwryw a benyw ar draws y sefydliad. Ar hyn o bryd mae llai o fenywod mewn swyddi uwch na dynion, ac mae cyfran uwch o fenywod o'i gymharu â dynion hefyd mewn swyddi graddfa is.

## Sut y byddwn yn parhau i roi sylw i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau

**Recriwtio -** Byddwn yn denu'r bobl iawn.

- Ceisiwn recriwtio o'r gronfa dalent ehangaf bosibl. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwefan Gyrfaoedd er mwyn denu cynifer o ymgeiswyr â phosibl i weithio i Gyngor Sir Ceredigion.
- Byddwn yn sicrhau bod yr iaith mewn hysbysebion swyddi yn niwtral o ran y rhywiau.
- Byddwn yn parhau i archwilio llwyfannau pellach i hyrwyddo proffil recriwtio’r Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn denu cynifer o ymgeiswyr â phosibl, a byddwn yn monitro’r rhain i werthuso’r effaith ar nifer yr ymgeiswyr.
- Byddwn yn parhau i gynyddu nifer y lleoliadau profiad gwaith a chyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc gan eu galluogi i ddatgloi eu potensial drwy ennill a dysgu yr un pryd.

**Cadw staff** - Unwaith y bydd gennym y bobl iawn, rydym am iddynt aros gyda ni.

- Byddwn yn parhau i gynnig amrywiaeth o drefniadau gweithio oriau hyblyg ar bob lefel, ac ar hyn o bryd mae 49% o'n staff (ac eithrio staff ysgolion) yn gweithio'n rhan-amser. Byddwn yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o orfod gweithio gartref yn ystod pandemig Covid-19 i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio.

- Byddwn yn adolygu ein polisïau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a bod yn ystyriol o'r teulu i sicrhau eu bod nhw'n cynnig y cyfleoedd gorau i gadw staff sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol i ddarparu ein gwasanaethau.
- Rydym wedi cyflwyno ‘Polisi Gofalwyr’ i gefnogi’r aelodau hynny o staff sydd â chyfrifoldebau gofalu ochr yn ochr â’u gwaith cyflogedig.
- Cyflwynwyd Rhaglen Rheolwyr Ceredigion yn 2018 sy’n ei gwneud hi'n ofynnol i bob Rheolwr ddilyn hyfforddiant ym maes Recriwtio a Dewis a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth. Byddwn yn parhau i ddatblygu’r rhaglen a chadw golwg i sicrhau bod pob Rheolwr yn mynd i’r hyfforddiant a ddarperir.
- Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu hyfforddiant i staff ar ‘Ragfarn ddiarwybod’ gan sicrhau bod Rheolwyr yn deall beth yw ‘rhagfarn ddiarwybod’ a’i effaith ar benderfyniadau’r rheolwyr yn y gweithle.

**Datblygu –** Rhaid inni sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd datblygu

- Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd i wneud cymwysterau’r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) yn y gweithle.
- Rydym wedi cyflwyno Panel Cymwysterau Corfforaethol i sicrhau bod yr holl staff â chyfle cyfartal i ymgeisio am gymorth i wneud cymwysterau a fydd yn hybu eu gyrfa yng Nghyngor Sir Ceredigion.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

*"Grymuso ein pobl i wireddu eu potensial"*



# Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu

2021

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

# Cyflwyniad

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi dwyn ynghyd a disodli'r holl gyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol o dan un Ddeddf. Cyn hynny roedd dyletswyddau ar wahân gan gyrff sector cyhoeddus o ran hil, anabledd a chydraddoldeb rhyw. Fodd bynnag, roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cydgrynhoi'r rhain o dan ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus newydd (y ddyletswydd gyffredinol) gan gwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – gan gynnwys dim cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Statws priodasol – mae'n gymwys i briodasau a phartneriaethau sifil, ond dim ond mewn perthynas â'r gofyniad i roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu.

Yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol nod y ddyletswydd gyffredinol yw "sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau bob dydd." Mae hyn yn golygu ei bod hi'n ofynnol i ni roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl â nodwedd warchodedig berthnasol a phobl heb nodwedd o'r fath
- meithrin perthynas dda rhwng pobl â nodwedd warchodedig berthnasol a phobl heb nodwedd o'r fath

Yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol, fel awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru, mae amrywiaeth o ddyletswyddau penodol gan Gyngor Sir Ceredigion, ac un o'r rhain yw casglu a chyhoeddi amrywiaeth o ddata am ein gweithlu yn flynyddol; y rhai a wnaeth gais am swyddi yn yr Awdurdod; y rhai a adawodd yn ystod y flwyddyn ac unrhyw wahaniaeth mewn cyflog a hyfforddiant staff.

Cwblhawyd y gwaith o weithredu system Adnoddau Dynol / Cyflogres integredig (Ceri) ym mis Ebrill 2018. Mae'r system yn golygu bod modd casglu mwy o ddata nag erioed o'r blaen.


Er bod yr Awdurdod yn cydnabod nad oes unrhyw rwymedigaeth i staff ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â'u nodweddion gwarchodedig, rydym wedi annog staff i gwblhau eu proffil monitro cydraddoldeb yn yr adran hunanwasanaeth ar y system AD/Cyflogres. Cysylltwyd â staff i esbonio ymrwymiad yr Awdurdod at gydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth ym mhob un o'i rolau, a'r dyletswyddau a roddir arnom gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cafodd staff wybod sut y byddai'r wybodaeth yn cael ei dal yn ddiogel a'i defnyddio at ddibenion monitro yn unig.

**Sylwch:**

- Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys staff a gyflogir yn ganolog gan Gyngor Sir Ceredigion yn unig, ac felly nid yw'n cynnwys y staff hynny (athrawon a staff cymorth) a gyflogir yn uniongyrchol gan Gyrff Llywodraethu ysgolion.

# Y Gweithlu Presennol

Proffil rhyw gweithlu Cyngor Sir Ceredigion ar 31 Mawrth 2021





## Graddfa a Thâl

Mae'r tablau isod yn dangos y categori swydd fel y nodir gan amodau gwasanaeth, graddfeydd ac amrediadau cyflog wedi'i ddadansoddi yn ôl gweithwyr gwryw a benyw ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion.


Mae'r data wedi'i goladu i ddangos y grwpiau canlynol o weithwyr: Prif Swyddog, y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC – Llyfr Gwyrdd), Soulbury ac Athrawon a Gyflogir yn Ganolog.

### Rhyw yn ôl Gwasanaeth




## Rhyw yn ôl Graddfa


## Prif Swyddogion





## NJC




## Soulbury





## Athrawon a Gyflogir yn Ganolog




## Rhyw yn ôl Tâl




## Rhyw yn ôl Math o Gontract



**Rhyw yn ôl Patrwm Gweithio (Cyfwerth ag Amser Llawn)**




# Oedran

Mae proffil gweithlu presennol yr Awdurdod yn cynnwys 57.0% o weithwyr dros 44 oed. Y grŵp sengl mwyaf yw'r categori 45 – 54 oed (28.0%), wedi'i ddilyn gan y categori 55 – 64 oed (25.2%), 35 – 44 oed (19.3%), 25 – 34 oed (16.6%), 16 – 24 oed (7.1%), 65 – 74 oed (3.6%), a 75 oed a hŷn (0.2%).

Mewn cyferbyniad, roedd 68.1% o ymgeiswyr o dan 45 oed. Y grŵp sengl mwyaf o ymgeiswyr oedd y categori 25 – 34 oed ar 29.0%, wedi'i ddilyn gan y categori 16 – 24 oed (21.4%), 35 – 44 oed (17.7%), 45 – 54 oed (17.5%) a 55 – 64 oed (12.1%), 65 – 74 oed (1.1%), 75 oed a hŷn (0.1%), ac roedd 1.1% heb ddweud.

Mae'r data ar gyfer staff sy'n gadael Cyngor Sir Ceredigion yn dangos mai'r categori 55 – 64 oed oedd â'r canran uchaf o ymadawyr, sef 32.0%, wedi'i ddilyn gan y categori 16 – 24  oed ar 17.7%, yna’r categori 45 – 54 oed ar 16.8%. Roedd gweddill y categorïau'n dangos lledaeniad gweddol wastad ar draws y grwpiau oedran. Roedd y categori 65 – 74  oed yn cyfrif am 12.3% o'r holl ymadawyr, roedd y categori 25 - 34 oed yn cyfrif am 11.8% ac roedd y categori 35 – 44 yn cyfrif am 8.4%.Roedd y categori 75 oed a hŷn yn cyfrif am 1.0%.




# Anabledd

Yng ngweithlu presennol yr Awdurdod, mae 2.2% yn dweud bod anabledd ganddynt ac mae 66.7% yn dweud nad oes anabledd ganddynt. Ni wyddys statws y 31.1% sy'n weddill.

Dywedodd 3.3% o ymgeiswyr fod anabledd ganddynt, a dywedodd 84.4% nad oedd anabledd ganddynt. Ni wyddys statws y 12.3% sy'n weddill.

Mae'r data ar gyfer staff sy'n gadael Cyngor Sir Ceredigion yn dangos bod 2.5% wedi dweud bod anabledd ganddynt, 58.9% wedi dweud nad oedd anabledd ganddynt, ac ni wyddys statws y 38.6% sy'n weddill.




## Ailbennu Rhywedd

Ni chyhoeddwyd gwybodaeth benodol ynghylch y nodwedd warchodedig hon oherwydd y posibilrwydd o adnabod unigolion gan fod llai na phum unigolyn wedi dweud nad oedd eu rhyw yr un fath â'u rhyw a bennwyd adeg geni.


# Beichiogrwydd a Mamolaeth

Roedd 22 o weithwyr wedi dechrau cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn cynrychioli 1.7% o'r cyfrif pennau benyw.


## Oedran





## Hil




## Crefydd




## Cyfeiriadedd rhywiol




## **Hil –** gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd

Mae gweithlu presennol yr Awdurdod yn cynnwys 76.9% a ddewisodd y categori Gwyn fel eu tras ethnig, wedi'i ddilyn gan Grŵp ethnig arall (0.4%), Du/Affricanaidd/Caribïaidd (0.2%), Cymysg (0.2%), ac Asiaidd (0.2%). Roedd 22.0% o'r gweithlu wedi dewis peidio â dweud.

Roedd y gyfran fwyaf o ymgeiswyr yn y categori Gwyn (85.6%), wedi'i ddilyn gan Asiaidd (2.1%), ethnigrwydd Cymysg (1.0%), Du/Affricanaidd/Caribïaidd (1.0%), Grŵp ethnig arall (0.6%), a Sipsiwn – Teithwyr (0.1%). Roedd 9.6% o'r ymgeiswyr wedi dewis peidio â dweud.

Mae'r data ar gyfer staff a adawodd Cyngor Sir Ceredigion yn dangos bod 67.8% yn y categori Gwyn, wedi'i ddilyn gan Du/Affricanaidd/Caribïaidd (1.0%), Asiaidd (0.5%), ac ethnigrwydd Cymysg (0.5%), tro bo'r 30.2% sy'n weddill wedi dewis peidio â dweud.




# Crefydd neu Gred

O'r rheini a ddewisodd grefydd neu gred, Cristion (pob enwad) sy'n ffurfio'r grŵp mwyaf o'r gweithlu presennol ar 38.4%, wedi'i ddilyn gan Dim crefydd (22.7%), Anffyddiwr (4.4%), Arall (2.2%), Moslem (0.3%), Bwdhydd (0.2%), a Hindŵ (0.1%) gyda 31.7% yn dewis peidio â dweud.

O ran y broses ymgeisio roedd llai o bobl (13.2%) wedi dewis peidio â dweud o'i gymharu â'r grŵp gweithlu presennol neu'r rhai a adawodd y sefydliad. Roedd y gyfran fwyaf o ymgeiswyr wedi dewis ‘Dim crefydd’ (40.3%), wedi'i ddilyn gan y categori ‘Cristion’ (35.3%), Anffyddiwr (7.2%), Arall (1.6%), Moslem (1.3%), Bwdhydd (0.6%) a Hindŵ (0.5%).

Yn debyg i'r gweithlu presennol, mae'r data ar gyfer staff a adawodd Cyngor Sir Ceredigion yn dangos bod nifer fawr wedi dewis peidio â dweud ar 37.7%, wedi'i ddilyn gan y categori Cristion (30.7%), Dim crefydd (23.3%), Anffyddiwr (4.5%), Arall (3.5%) a Bwdhydd (0.5%).




# Rhyw

Roedd Cyngor Sir Ceredigion yn cyflogi 2,003 o staff ar 31 Mawrth 2021. Roedd y gweithlu yn cynnwys 1,327 (66%) o fenywod a 676 (34%) o wrywod.

Adlewyrchwyd hyn hefyd yn y canran o wrywod oedd yn gwneud cais am swyddi, sef 34% o ymgeiswyr gwrywaidd, er bod cyfradd yr ymgeiswyr benyw ychydig yn is sef 65%. Roedd yr 1% o ymgeiswyr oedd yn weddill heb nodi eu rhyw.

Roedd y data ar gyfer staff a adawodd Cyngor Sir Ceredigion yn ystod y flwyddyn ychydig yn wahanol o gymharu â chyfradd y gweithlu presennol, gyda 69% o fenywod a 31% o wrywod.




# Cyfeiriadedd Rhywiol

O'r rheini yn y gweithlu presennol a ddewisodd gyfeiriadedd rhywiol, y ffigurau yw 68.5% heterorywiol, 0.6% deurywiol, 0.6% dyn hoyw, 0.3% menyw hoyw, 0.3% arall, ac roedd 29.7% wedi dewis peidio â dweud.

O ran y broses ymgeisio mae llai o bobl (13.5%) wedi dewis peidio â dweud o'i gymharu â'r grŵp gweithlu presennol neu'r rhai a adawodd y sefydliad. Roedd y gyfran fwyaf o ymgeiswyr yn heterorywiol (81.0%), wedi'i ddilyn gan ddeurywiol (2.9 %), dyn hoyw (1.4%), menyw hoyw (0.6%), ac Arall (0.6%).

Mae'r data ar gyfer staff a adawodd Cyngor Sir Ceredigion yn dangos bod y mwyafrif yn heterorywiol ar 57.9%, wedi'i ddilyn gan staff deurywiol ar 2.5%, dyn hoyw ar 0.5%, menyw hoyw ar 0.5%, Arall ar 0.5%, ac roedd 38.1% wedi dewis peidio â dweud.



# Hyfforddiant

**Gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant, a faint oedd wedi gwneud cais llwyddiannus**

Mae nodi'r angen am hyfforddiant, dysgu a datblygu yn cael ei wneud trwy systemau adolygu cynllunio a pherfformiad gweithlu'r Cyngor.

Yn ystod cyfweliadau datblygiad personol, bydd Rheolwyr yn trafod â'u gweithwyr eu hanghenion hyfforddi, dysgu a datblygu sy'n cyfateb â'r adolygiad perfformiad a chymwyseddau'r swydd. Mae'r canlyniadau yn bwydo i mewn i Gynllun Hyfforddi Gwasanaeth.

Nid yw'r Cyngor yn monitro llwyddiant ceisiadau hyfforddi ar hyn o bryd gan nad yw'r broses a ddefnyddir i nodi'r hyfforddant yn addas ar gyfer y math hwn o fonitro. Rydym wrthi'n ystyried a oes prosesau a fyddai'n caniatáu i'r data hwn gael ei ddal, ei ddadansoddi a'i adrodd arno.

**Gweithwyr a gwblhaodd hyfforddiant yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021.**

Ar hyn o bryd ni allwn ddarparu adroddiad ar y gweithwyr hynny sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn. Mae modiwl Dysgu a Datblygu'r system AD/Cyflogres wedi cael ei gyflwyno, a disgwylir iddo ddarparu'r data gofynnol. Rydym wrthi'n ystyried a oes prosesau a fyddai'n cynnig modd i'r data hwn gael ei ddal, ei ddadansoddi a'i adrodd arno.


# Cwyno

**Gweithwyr sy'n destun i'r drefn gwyno naill ai fel achwynydd neu fel rywun y gwnaethpwyd cwyn yn ei erbyn.**


**Sylwch:** Oherwydd y nifer fach o unigolion oedd yn destun i'r drefn gwyno (cyfanswm o bump) mae'r data a ddangosir isod yn ymwneud â dwy nodwedd warchodedig yn unig, sef ethnigrwydd a chyfeiriadedd rhywiol. Ni chyhoeddwyd y data ynghylch crefydd ac oedran oherwydd y posibilrwydd o adnabod unigolion. Ni chafodd unrhyw nodweddion gwarchodedig eraill eu cynnwys yn y set ddata hon.

Cyfanswm y gweithwyr oedd yn destun i'r drefn gwyno oedd 5, ac roedd pob un yn weithiwr benyw.

## Ethnigrwydd




## Cyfeiriadedd Rhywiol




# Disgyblu

**Gweithwyr oedd yn destun i'r drefn ddisgyblu**


**Sylwch:** Oherwydd y nifer fach o unigolion oedd yn destun i'r drefn ddisgyblu (cyfanswm o 8) mae'r data a ddangosir isod yn ymwneud â dwy nodwedd warchodedig yn unig, sef oedran a rhyw. Ni chyhoeddwyd y data ynghylch anabledd a chrefydd oherwydd y posibilrwydd o adnabod unigolion. Ni chafodd unrhyw nodweddion gwarchodedig eraill eu cynnwys yn y set ddata hon.

Cyfanswm y gweithwyr oedd yn destun i'r drefn ddisgyblu oedd 8. O'r rhain roedd 3 yn weithiwr gwryw a 5 yn weithiwr benyw.

**Rhyw**




**Oedran**



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **15 Medi 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Cyfarfod Zoom** |
| **TEITL:** | **Drafft ar yr Adroddiad Blynyddol 2020/21 yr Amcanion Llesiant a Gwella** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Drafft 2020/21 yr Amcanion Llesiant a Gwella |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Ystyried yr adroddiad drafft cyn ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol. |

**CEFNDIR:**

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod rhwymedigaeth ar y Cyngor Sir i gyhoeddi cynllun gwella er mwyn nodi ein hamcanion a'n perfformiad. Mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau gwelliannau ar draws ystod o swyddogaethau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor Sir i nodi a chyhoeddi Amcanion Llesiant sy'n cael eu llunio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan greu'r Gymru yr ydym am fyw ynddi yn awr ac yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni gymryd yr holl gamau rhesymol tuag at gyflawni'r Amcanion. Llesiant ac mae'n rhaid inni gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n amlinellu'r cynnydd a wnawn wrth gyflawni'r amcanion hynny. Mae'r canllawiau yn nodi y dylid cynnwys hefyd adolygiad o'r amcanion llesiant yn yr adroddiad.

Mae'r Cyngor yn cyfuno'r gofynion hyn mewn un adroddiad – yr "Adroddiad Blynyddol ar Amcanion Llesiant a Gwella" y mae'n rhaid ei gyhoeddi erbyn 31ain Hydref 2021. Er gwaethaf pandemig Covid-19, mae'r gofyniad i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn parhau ar waith. Fodd bynnag, hwn fydd yr Adroddiad Blynyddol olaf yn y fformat hwn gan fod y Mesur Llywodraeth Leol yn cael ei ddisodli gan Ran 6 y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau sy'n cyflwyno'r drefn berfformiad Hunanasesu newydd o 2021 ymlaen.

**Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

Cynhaliwyd adolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant ym mis Mehefin 2021, gan ystyried effaith barhaus pandemig COVID-19 ar ddarparu gwasanaethau. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y set bresennol o Amcanion yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn rhoi ymateb â mwy o ffocws i COVID-19 i ddiogelu a gwella llesiant pawb nawr ac yn y tymor hwy.

Cymeradwywyd y dull gweithredu hwn gan y Grŵp Arweiniol ar 16eg Mehefin a bydd yn parhau yn 2022/23. (Mae'r rhestr o Amcanion Llesiant i'w gweld yn Atodiad A).

Mae'r Adroddiad Blynyddol drafft wedi'i atodi fel Atodiad B. Mae fformat yr adroddiad wedi'i ddiwygio yn dilyn adborth o'r llynedd a diweddarwyd ei ddiwyg. Mae'r ddogfen yn adolygu perfformiad yn ystod y flwyddyn 2020-21 ac o ganlyniad mae ganddi thema Covid gref sy'n rhedeg drwyddi draw ac wrth asesu perfformiad am y flwyddyn.

Mae'n bwysig nodi, er y bydd Archwilio Cymru yn gwirio hyn i weld a yw'n cydymffurfio ac yn cyhoeddi Tystysgrif Cydymffurfiaeth, ni fyddant yn ei archwilio'n fanwl eleni oherwydd diwedd y gofyniad statudol i gynhyrchu'r adroddiad.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**<br><br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:**<br>**Integreiddio:** | Ni chwblhawyd asesiad gan nad yw'r adroddiad yn golygu newid o ran polisi na gwasanaeth. |

**ARGYMHELLION:** Bod yr Aelodau yn ystyried ac yn cytuno ar Adroddiad Blynyddol drafft 2020-21 yr Amcanion Llesiant a Gwella cyn i'r Cabinet a'r Cyngor ei ystyried.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:** Symud ymlaen â chyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2020-21 yr Amcanion Llesiant a Gwella.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Rob Starr |
| **Swydd:** | Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 3 Medi 2021 |
| **Acronymau:** | |

# Atodiad A: Adolygiad o'r Amcanion Llesiant a Gwella

Mae'r Amcanion Lles a Gwella yn canolbwyntio ar ymateb sy'n cynnwys mwy o ffocws yn y tymor byr ac adfer yn dilyn pandemig COVID-19 er mwyn diogelu a gwella lles pawb nawr ac yn y dyfodol. Fe'u nodwyd ac maent yn parhau i gyd-fynd â'n holl Flaenoriaethau Corfforaethol, ac maent yn ystyried y Cynllun Llesiant ac Asesiad Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rydym wedi adolygu'r Amcanion Lles a Gwella presennol, gan ddod i'r casgliad y dylent barhau i fod mewn grym er mwyn cynorthwyo gwaith adfer parhaus y Cyngor a'i bartneriaid.

Felly, ar gyfer blwyddyn 2022/23, byddwn yn canolbwyntio ein sylw ar gynorthwyo anghenion dinasyddion wrth iddynt adfer o'r pandemig, gan gyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor ar yr un pryd.

| Amcan | Blaenoriaethau Corfforaethol | 2020/21 Amcanion Llesiant Gwella | Amcanion Llesiant Gwella 2021/22 & 2022/23 |
|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | 1. Hybu'r Economi | 1.1 Cynorthwyo busnesau i ymateb i effeithiau COVID-19 | 1.1 Cynorthwyo busnesau i ymateb i effeithiau COVID-19 |
| Cymru lewyrchus<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | 2. Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl | 2.1 Cynorthwyo dysgwyr o bob oedran a chefndir i ddychwelyd yn ddiogel i addysg a hyfforddiant, a gwella mynediad at ddysgu a chyflogaeth.<br>2.2 Diogelu pobl rhag tlodi<br>2.3 Hybu a hwyluso diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion | 2.1 Cynorthwyo dysgwyr o bob oedran a chefndir i ddychwelyd yn ddiogel i addysg a hyfforddiant, a gwella mynediad at ddysgu a chyflogaeth.<br>2.2 Diogelu pobl rhag tlodi<br>2.3 Hybu a hwyluso diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion |
| Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | 3. Galluogi cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd | 3.1 Cynorthwyo dinasyddion sydd wedi'u heffeithio'n anghymesur gan COVID-19 i wella'u lles corfforol ac emosiynol<br>3.2 Hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau o fewn cartrefi diogel, fforddiadwy a hygyrch | 3.1 Cynorthwyo dinasyddion sydd wedi'u heffeithio'n anghymesur gan COVID-19 i wella'u lles corfforol ac emosiynol<br>3.2 Hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau o fewn cartrefi diogel, fforddiadwy a hygyrch |
| Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | 4. Hyrwyddo cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol | 4.1 Cefnogi teithio llesol, dulliau eraill o deithio, a ffyrdd o weithio sy'n adeiladu ar ein huchelgais dim carbon.<br>4.2 Cefnogi'n cymunedau i fod yn gryf, gyda chysylltiadau da, er mwyn iddyn nhw allu ffynnu er gwaethaf COVID-19 | 4.1 Cefnogi teithio llesol, dulliau eraill o deithio, a ffyrdd o weithio sy'n adeiladu ar ein huchelgais dim carbon.<br>4.2 Cefnogi'n cymunedau i fod yn gryf, gyda chysylltiadau da, er mwyn iddyn nhw allu ffynnu er gwaethaf COVID-19 |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol


# ADRODDIAD BLYNYDDOL
## 2020-21



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Amcanion Llesiant a Gwella**

**Adroddiad Blynyddol**







Caru·Love Ceredigion

## Cysylltwch â ni

**Trwy'r Post:**

Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Dros y ffôn :**

01545 570881

Mae **fersiwn Testun Plaen** neu **ferwsin Hawdd ei ddarllen** o'r ddogfen hon ar gael gan Gyngor Sir Ceredigion

**Statws:** Fersiwn Derfynol
**Cymeradwyo gan y Cabinet:**
**Cymeradwyo gan y Cyngor:**
**Dyddiad Cyhoeddi:**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

**Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion 2020-21**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Crynodeb Gweithredol | 5 |
| Ein Sir mewn Rhifau | 6 |
| Ein Blaenoriaethau | 7 |
| Cyflawni'r Blaenoriaethau | 8 |
| Ble mae'r Arian yn Mynd? | 9 |
| Hybu'r Economi | 10 |
| Buddsoddi yn Nyfodol Pobl | 14 |
| Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd | 18 |
| Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylchedd a Chymunedol | 22 |
| Themâu Trawsbynciol | 26 |
| Gwreiddio'r Hadau Newid | 28 |
| Adolygiad o'r Amcanion Llesiant | 32 |
| Meincnodi ein Perfformiad | 36 |

# Rhagair

## Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2020/21. Mae'r ddogfen hon yn dangos ein llwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf, gan nodi ein hymrwymiadau i breswylwyr lleol dros y deuddeg mis nesaf. Rydym yn ei defnyddio i fonitro ein perfformiad a hysbysu preswylwyr o'n cynnydd.

Wrth i ni fynd i'r wasg, mae Ceredigion, fel gweddill Cymru, yn parhau i adfer yn dilyn pandemig iechyd Covid-19. Mae'n anochel bod hyn wedi effeithio ar ran fwyaf y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, gan amlygu rhai ohonynt. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon, mae'r Cyngor wedi cael cyswllt agosach nag erioed o'r blaen gyda'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu – mae Cynghorwyr, staff, grwpiau cymunedol a'n partneriaid oll wedi cyd-dynnu er mwyn cynorthwyo ein cymunedau a'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Rydym yn falch ac yn ddiolchgar am yr ymateb gan ein gwasanaethau rheng flaen, staff y Cyngor a'r gwirfoddolwyr niferus sydd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor er mwyn sicrhau bod preswylwyr Ceredigion yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt.

O ystyried y sialensiau hyn, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cadarn a chydnerth sy'n wirioneddol ymateb i anghenion ein preswylwyr a busnesau lleol. Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn canolbwyntio ar adfer o bandemig COVID-19, a byddwn yn parhau i ymgysylltu gyda preswylwyr a busnesau ar draws y Sir a'u cynorthwyo. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau adferiad economaidd a llwyddiant i Geredigion, gan gynorthwyo'r rhai mwyaf agored i niwed, gan sicrhau hefyd bod popeth a wnawn yn cael ei seilio ar y newid yn yr hinsawdd wrth i ni geisio diogelu ein hamgylchedd prydferth.

Er gwaethaf effaith arwyddocaol COVID-19, mae'n bwysig ein bod yn myfyrio am ein perfformiad ar ran ein preswylwyr, ac yn ei werthuso. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i fod yn ymhlith yr awdurdodau sy'n sicrhau'r perfformiad gorau yng Nghymru. Er enghraifft, yn ystod 2020/21:

- Rhannwyd ein gweledigaeth ar gyfer economi Canolbarth Cymru ac er mwyn symud Bargen Twf Canolbarth Cymru yn ei blaen gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn cynorthwyo buddsoddiad y mae cryn angen ei wneud yng nghymunedau'r rhanbarth.
- Gweinyddwyd 18,835 o daliadau Grant Busnes a oedd yn werth £49m at ei gilydd, er mwyn cynorthwyo busnesau lleol yn ystod y pandemig.
- Dosbarthwyd dros 15,000 o barseli bwyd i drigolion a oedd yn fregus yn feddygol, gan sicrhau eu bod yn cael cyflenwadau hanfodol.
- Cynorthwywyd ysgolion Ceredigion i ailagor yn llwyddiannus trwy gyfrwng ymweliadau safle, canllawiau gweithredol, asesiadau risg a chyflenwadau PPE.
- Cafodd Strategaeth Economaidd a Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi newydd i'w cyhoeddi yn ystod y flwyddyn.

Yn 2021/22, mae ein Blaenoriaethau Corfforaethol yr un fath sef Rhoi Hwb i'r Economi, Buddsoddi yn Nyfodol Pobl, Galluogi Cydnerthedd Unigol a Theuluol a Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol. Byddwn yn cyfeirio ein hadnoddau i'r meysydd hyn er mwyn adfywio'r economi leol a chynnig amgylchedd ffyniannus, iach, diogel a fforddiadwy lle y gall dinasyddion Ceredigion fyw a gweithio, ac a fydd yn ceisio cadw ein pobl ifanc mewn swyddi sy'n talu'n dda. Trwy wneud hyn, byddwn yn parhau i weithredu ac ymwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyfrannu at y saith Nod Llesiant Cenedlaethol.



Mawr obeithiaf y byddwch yn mwynhau darllen am y rhain ac am weithgareddau eraill yn yr adroddiad hwn.

***Cynghorydd Ellen ap Gwynn***

Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion

## Crynodeb Gweithredol




1. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus lunio adroddiad am y cynnydd a wnaed ganddynt o ran eu hamcanion llesiant a gwella.

2. Yn eu hadroddiadau, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dweud bod disgwyl i gyrff cyhoeddus roi newidiadau ar waith mewn saith maes craidd i wireddu newid ar hyd a lled eu sefydliadau. Mae'r adran 'Hau Hadau Newid' yn dangos sut yr ydym yn rhoi'r newidiadau hyn ar waith.

3. Rydym bellach ym mlwyddyn olaf y Strategaeth Gorfforaethol sy'n amlinellu ein Blaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2017-2022. Y rhain yw Hybu'r Economi, Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl, Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd, a Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol. Asesir bod y cynnydd ym mhob un o'r pedair blaenoriaeth yn "Wyrdd". (Gwyrdd = wedi dechrau ac yn unol â'r targed; Amber = wedi dechrau ond ar ei hôl hi o ran y targed; Coch = heb ddechrau). Mae gwybodaeth lawn am y cynnydd a wneir gyda blaenoriaethau'r Cyngor i'w chael ar dudalennau 10-25.

4. Rydym hefyd yn asesu cynnydd gan ddefnyddio 'Gwiriwr Taith' Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n nodi ar ba gam y mae'r cynnydd - Asesir bod Hybu'r Economi a Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl ar gam "Perchnogi ein Huchelgais", ac asesir bod Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd a Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol yn "Arwain y Ffordd".

5. Asesir bod y cynnydd a wneir mewn saith allan o wyth Blaenoriaeth Llesiant y Cyngor yn "Wyrdd", hynny yw, wedi dechrau ac yn unol â'r targed. (Gwyrdd = wedi dechrau ac yn unol â'r targed; Amber = wedi dechrau ond ar ei hôl hi o ran y targed; Coch = heb ddechrau).

6. Arweiniodd adolygiad o'r Amcanion Llesiant a Gwella yn 2020 at gyfres ddiwygiedig a oedd yn canolbwyntio ar ymateb ac adfer yn y tymor byr yn sgil pandemig COVID-19. Roedd hyn er mwyn diogelu a gwella lles pawb ar y pryd ac yn y dyfodol, yn enwedig trigolion mwyaf bregus Ceredigion.

7. Roedd yr adolygiad diwethaf o'r Amcanion Llesiant, ym mis Mehefin 2021, wedi dod i'r casgliad y byddai'r Amcanion hyn yn parhau i mewn i 2022/23 wrth i Geredigion, ynghyd â gweddill Cymru, barhau i gael ei gwynt ati yn dilyn y pandemig. Mae adolygiad llawn o'r Amcanion Llesiant i'w gael ar dudalennau 32-33.

# Ein Sir mewn Rhifau

## EIN POBLOGAETH

**72,895**
Pobl

**25.6%**
65+ oed

**4%**
Poblogaeth BAME*

**10%**
Gydag Anabledd

**7,700**
Myfyrwyr Prifysgol

**46.8 Years**
Oedran Cyfartalog

**47%**
Siaradwyr Cymraeg

**31,246**
Cartref

*BAME = Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

**33,434**
Annedd

**2,835**
Menterau Actif

**8,800**
Pobl hunangyflogedig

**42**
Cynghorwyr a 40 gwarchodaeth

**43**
Ysgol a 9,590 disgybl

**6**
Canolfan Hamdden

6 llyfrgell ac 1 ysbyty cyffredin

**2,265km**
o ffyrdd a 2,500km o lwybrau ceffylau a llwybrau cerdded

**74**
Man chwarae awyr agored gydag offer


## TWRISTIAETH YNG NGHEREDIGION

**96km**
**o arfordir**

**£403m**
**cyfraniad i'r economi**

**2.94m**
**ymwelwyr blynyddol**

**5,854**
**swydd**






# Ein Blaenoriaethau

Mae'r Cyngor wedi sefydlu meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella drwy brosesau hunanwerthuso parhaus, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac amrywiaeth eang o ddigwyddiadau ymgynghori, ffurfiol ac anffurfiol.  Mae polisïau a blaenoriaethau cenedlaethol hefyd yn sail i'w ddealltwriaeth.

Mae'r Asesiad o Lesiant Lleol hefyd wedi dylanwadu ar ddatblygiad y Blaenoriaethau Corfforaethol y bydd y Cyngor yn canolbwyntio arnynt hyd at 2022.

Bydd y Blaenoriaethau'n caniatáu inni ddarparu gwasanaethau a fydd yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion Ceredigion.







# Cyflawni'r Blaenoriaethau

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys Cynllun Gweithredu a llinell amser i gyflawni'r Blaenoriaethau. Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r perfformiad o ran ein Blaenoriaethau a'n Hamcanion Llesiant gan ddefnyddio gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed gennym hyd yma.

Mae'r diagram isod yn darlunio'r strwythurau llywodraethu sydd ar waith.




## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

STRWYTHUR RHEOLI:

**EIFION EVANS**
Prif Weithredwr

**BARRY REES**
Cyfarwyddwr Corfforaethol

**MEINIR EBBSWORTH**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Ysgolion

**ELIN PRYSOR**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Gwasanaethau Corfforaethol & Llywodraethu

**STEVE JOHNSON**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Cyllid & Chaffael

**ALUN WILLIAMS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Polisi, Perfformiad & Diogelu'r Cyhoedd

**RHODRI LLWYD**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

**RUSSELL HUGHES-PICKERING**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Economi ac Adfywio

# Ble mae'r Arian yn mynd?


Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi sut y mae'r Cyngor yn cynllunio ei gyllideb bob blwyddyn a thros y tair blynedd nesaf. Mae'r Strategaeth yn cefnogi'r camau cyffredinol i re-oli prif adnoddau'r Cyngor er mwyn iddo gyflawni ei amcanion.

Mae gwariant y Cyngor yn cefnogi cyflawni ei Strategaeth Gorfforaethol a'i amcanion llesiant a gwella. Er gwaethaf pandemig Covid-19 yn ystod 2020, mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ddangos awydd agored i wella gwasanaethau a buddsoddi mewn gwell adnoddau a chyfleusterau.

Er mwyn cwrdd â'r heriau cyllidebol mae'n wynebu, mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ef-feithlonrwydd wrth gefn, datblygu dulliau cyflenwi amgen tra hefyd yn cynnal gwasanaethau.

Mae'r siart a ganlyn yn nodi'r gwariant a ragwelir ar wasanaethau yn 2021/22:

## Gwariant Gwasanaethau 2021/22



| | | |
|---|---|---|
| Ysgolion | **32%** | £48.86m |
| Porth Cynnal | **15%** | £21.95m |
| Cyllid a Chaffael | **14%** | £20.86m |
| Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol | **11%** | £16.31m |
| Porth Gofal | **7%** | £10.24m |
| Grŵp Arweiniol | **5%** | £6.94m |
| Cyswllt Cwsmer | **4%** | £5.45m |
| Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd Wrth Gefn | **3%** | £4.48m |
| Gwasanaethau Democrataidd | **3%** | £3.96m |
| Economi ac Adfywio | **2%** | £3.28m |
| Porth Cymorth Cynnar | **2%** | £3.16m |
| Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd | **1%** | £2.18m |
| Pobl a Threfniadaeth | **1%** | £2.01m |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | **1%** | £1.48m |

**CAROLINE LEWIS**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro**

**DONNA PRITCHARD**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Porth Gofal

**ELEN JAMES**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Porth Cymorth

**SIAN HOWYS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Porth Cynnal

**ARWYN MORRIS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Cyswllt Cwsmer

**LOWRI EDWARDS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Gwasanaethau Democrataidd

**GERAINT EDWARDS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Pobl & Threfnidiaeth

# Hybu'r Economi

Mae Ceredigion yn sir hyderus, ddeniadol, lle mae llawer o'n pobl yn ffynnu ac yn datblygu, lle mae nifer wedi sefydlu busnesau llewyrchus a llwyddiannus, a lle sy'n denu nifer fawr o ymwelwyr. Mae gennym aer glân, lefelau gwych o fioamrywiaeth, a thirwedd naturiol sy'n destun edmygedd.

Mae ein maint a'n lleoliad yn golygu ein bod yn wynebu heriau o ran tyfu'r economi leol, ond ar yr un pryd, mae llawer o gyfleoedd y gallwn fanteisio'n llawn arnynt o ran rhoi'r sir mewn sefyllfa i addasu i ddyfodol carbon isel a digideiddio cynyddol.

Un o'r heriau hyn yw'r nifer o bobl ifanc sy'n gadael y sir, yn rhannol oherwydd y gostyngiad yn y nifer o swyddi sector cyhoeddus, sydd bob amser wedi bod yn rhan bwysig o economi Ceredigion.

Oherwydd hyn, her arall yw cynyddu maint, amrywiaeth a chydnerthedd y sector preifat yng Ngheredigion. Mae angen inni weld mwy o fusnesau'n cael eu sefydlu, a mwy o'n busnesau micro a bychan yn tyfu.

Ar ben hynny, mae angen i economi Ceredigion addasu i heriau allweddol yng ngoleuni penderfyniad y DU i adael yr UE, ac yn dilyn hynny, pandemig COVID-19 sy'n parhau i gael effaith sylweddol ar ein heconomi ac effaith ariannol ar ein dinasyddion. Wrth i'n hymdrechion adfer i gefnogi busnesau barhau, bydd ein hamcan Llesiant ar gyfer y Flaenoriaeth Gorfforaethol hon am weddill 2021/22 ac i mewn i 2022/23 yn parhau i fod:

> ***“ Cynorthwyo busnesau i ymateb i effeithiau COVID-19 ”***

## Gweledigaeth ar y Cyd Tyfu Canolbarth Cymru


Llwyddodd Bargen Twf Canolbarth Cymru, a ddatblygwyd o'r Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, i gyflawni carreg filltir arwyddocaol ym mis Rhagfyr 2020 wrth i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Chynghorau Ceredigion a Phowys lofnodi Penawdau'r Telerau. Cytunodd y ddwy lywodraeth ddarparu £55m yr un dros gyfnod o 15 mlynedd ar gyfer rhanbarth cyfan Tyfu Canolbarth Cymru.

Bydd partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn symud ymlaen i'r cynigion manylach nawr ar ffurf Achos Busnes Portffolio, a gaiff ei gwmpasu o wyth maes blaenoriaeth: Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod, Cysylltedd Digidol, Ymchwil Gymhwysol ac Arloesi, Ynni, Hunaniaeth Twristiaeth wedi'i Chryfhau, Cefnogi Menter, Trafnidiaeth, Sgiliau a Chyflogaeth. Mae'r Fargen Twf yn cynnig cyfle allweddol er mwyn helpu i roi Hwb i Economi Ceredigion.

Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol gan y Cyngor dros y 15 mlynedd, a disgwylir elw o'r buddsoddiad hwnnw. Mae gan y Fargen Twf y potensial i gyflawni rôl sylfaenol yn adferiad economaidd rhanbarth Canolbarth Cymru ar ôl COVID, a llwyddwyd i sicrhau cynnydd da tuag at gyflawni hyn yn ystod 2020/21, ac ynghyd â datblygiad prosiect i greu swyddi a thwf economaidd yn ein Sir, bydd yn amser cyffroes i ddatblygiad economeg y rhanbarth.

| Hirdymor | Atal | Cydweithio | Cynnwys | Integreiddio |
|---|---|---|---|---|
| • Cyfeirio at gwendiadau strwythurol i elwa yn yr hirdymor<br>• Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn gosod gweledigaeth ar gyfer amserlen 15+ mlynedd<br>• Dadansoddi tueddiadau'r dyfodol i wneud cynlluniau | • Cynyddu cyfleoedd economaidd i osgoi allfudo pellach o bobl ifanc medrus<br>• Twf economaidd er mwyn osgoi effeithiau negyddol batrymau mudo ar ddiwylliant ac ar yr iaith Gymraeg<br>• Ymyriadau i atal twf pellach yn y bwlch cynhyrchiant | • Mae partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn dod â'r sectorau cyhoeddus, preifat ac academaidd at ei gilydd er mwyn cyflawni nodau cyfrannol<br>• Gweithio gyda Chyngor Sir Powys a Llywodraethau Cymru a'r DU er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a manteisio ar gyfleoedd | • Mae busnesau'r sector preifat a gyrwyr twf economaidd y dyfodol yn ymwneud â nodi blaenoriaethau a strategaethau<br>• Sectorau preifat, cyhoeddus a trydydd sydd yn ymwneud â llunio'r rhaglen 'Bargen Twf' | • Strategaethau tyfiant economaidd sydd wedi integreiddio â gwasanaethau darpariaeth arall, yn cynnwys addysg, sgiliau, cynllunio ac isadeiledd |

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**




Mae ein Blaenoriaeth Gorfforaethol yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y nodau llesiant a amlygwyd

## Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yma

Mae'r cynnydd o ran cwrdd â'r flaenoriaeth hon yn **Dda** ac mae'r rhagolygon ar gyfer gwelliant yn **Dda**. Mae'r camau tuag at ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a datblygu cynlluniau partneriaeth cydweithredol ac ar-loesol yn symud ymlaen yn dda.

Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru'n enghraifft o Geredigion yn **perchnogi ei dyhead** i sicrhau ei bod yn cryfhau'r economi leol a rhanbarthol fel rhan o Gymru ffyniannus a chydnerth ar ôl COVID-19.

**Perchnogi ein huchelgais**

**Da**







## Ymateb i COVID-19 a'r Prif Gyflawniadau:

- Cyhoeddwyd **Strategaeth Economaidd newydd Ceredigion** ym mis Mawrth 2021, a oedd yn nodi sut y byddwn yn cydweithio er mwyn sicrhau twf economaidd cadarn, cynaliadwy a mwy cydnerth i Geredigion, a gaiff ei greu a'i rannu gan bawb. Mae dogfen y strategaeth yn nodi'r camau a fydd yn rhoi sylw i'r sialensiau a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn yr economi leol. Mae'n canolbwyntio ar bedwar prif faes blaenoriaeth – Pobl, Menter, Lle a Chysylltedd, gyda phob adran yn amlinellu rhai o'r ymyriadau cynnar a ystyrir. Bydd gwaith yn parhau ar ddatblygu'r cynlluniau gweithredu manwl yn ystod 2021/22.
- Cyflwynwyd cais i **Gronfa Codi'r Gwastad** er mwyn buddsoddi mewn seilwaith a fydd yn gwella bywyd bob dydd ar draws Ceredigion. Cyhoeddwyd Cronfa Codi'r Gwastad yn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, ac mae'n cynorthwyo gweithgarwch adfywio mewn canol trefi ac ar y stryd fawr, prosiectau trafnidiaeth lleol, ac asedau diwylliannol a threftadaeth, a bydd yn cyflawni rôl allweddol yn y broses adfer yn dilyn pandemig Covid-19.
- Crëwyd gwefan bwrpasol ar gyfer **Cymorth Busnes** i gefnogi economi Ceredigion a bydd yn sicrhau bod busnesau, cyflogwyr a gweithwyr y sir yn gallu cael gafael ar y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth diweddaraf i'w helpu i addasu a chael eu gwynt atynt yn dilyn y pandemig.
- Rheolwyd 8,900 **o ymholiadau a oedd yn ymwneud â COVID** gan Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid Ceredigion, 'CLIC', yn ystod blwyddyn 2020/21, gan gynnwys ymholiadau a oedd yn ymwneud â Grantiau Busnes, y Gronfa Adferiad Diwylliannol a'r Cynllun Grant Cyfalaf i Fusnesau Bychain. Roedd dros 2,000 o'r rhain yn ymwneud â help y Grant Ardrethi Annomestig ar gyfer busnesau yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth, hamdden a manwerthu dianghenraid.

### Mesuriadau Ymateb COVID-19

**3,700**
Ymweliadau i sicrhau bod adeiladau busnes yn cydymffurfio â rheolau COVID-19

**138**
Aelod staff wedi adleoli i rolau eraill i helpu i gefnogi ymateb COVID-19

**8,835**
Taliadau Grant Busnes a weinyddir ar draws Ceredigion

**£49m**
O'r cyllid Grant Busnes a weinyddir ar draws Ceredigion



Ym mis Gorffennaf 2020, crëwyd "Parthau diogel" yng nghanol trefi Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Cheinewydd er mwyn creu trefi diogel a deniadol i bobl ddod i siopa a mwynhau er gwaethaf y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys ehangu llwybrau troed, gosod cyrbiau isel, cau ffyrdd, addasu lleoedd parcio a safleoedd i fusnesau allu masnachu er mwyn caniatáu i bobl gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr bob amser.

Cafwyd dros 2,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad am y parthau diogel yn ystod 2020 a gwnaethpwyd addasiadau. Er bod nifer yr achosion COVID yn parhau i fod yn isel yng Ngheredigion, mae'r risg i iechyd y cyhoedd yn parhau, a bydd y parthau diogel yn parhau i fod yn eu lle am yr hyn a ragwelir a fydd yn dymor prysur iawn yn ystod yr haf 2021. Bydd hyn yn helpu pobl i ymweld â siopau a gwasanaethau yn ein trefi mewn ffordd ddiogel, gan gadw nifer yr achosion yn isel.

## Cynnydd yn ein Hamcanion Llesiant Hybu’r Economi

| **Amcan Llesiant y Cyngor** | **Statws** |
| --- | --- |
| • Cynorthwyo busnesau i ymateb i effeithiau COVID-19 | 🟢 |

✔ Wedi ei gwblhau 🟢 Wedi cychwyn ac ar targed 🟠 Wedi dechrau ond tu ôl y targed 🔴 Heb cychwyn

# Gweithffyrdd+ yn cynnig cyfleoedd newydd yn 2020/21

Gwasanaeth yw Gweithffyrdd+ Ceredigion i helpu pobl nad ydynt mewn cyflogaeth i gael hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein, ynghyd â phrofiad gwaith, cyfleoedd gwirfoddoli a swyddi. Caiff y cynllun ei staffio gan swyddogion o Gyngor Sir Ceredigion ac mae'n cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Mae cymorth ar gael i helpu pobl sydd â chyflyrau iechyd neu anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio; gofalwyr; y rhai sydd heb fawr o gymwysterau neu ddim cymwysterau; pobl â chyfrifoldebau gofal plant; rhai dros 54 oed; pobl mewn aelwyd un oedolyn neu aelwyd ddi-waith; neu Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Un o drigolion Ceredigion sy'n elwa o'r cynllun yw Mary, a roddodd y gorau i'w busnes glanhau domestig oherwydd ei chyfrifoldebau gofalu yn y teulu. Yr oedd wastad yn cynllunio at y dyfodol, a chysylltodd Mary â Gweithffyrdd+ am gymorth. Cafodd fentor i weithio gyda hi ar sail un i un, i nodi ei hanghenion hyfforddiant er mwyn iddi ymgyfarwyddo’n gyflym â defnyddio cyfrifiaduron a chyfryngau digidol.

Daeth y tîm Gweithffyrdd+ o hyd i gwrs hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth a oedd yn lleol i Mary ac yn un yr oeddent yn gallu ei ariannu. Roedd y cwrs ‘Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd’ (ECDL) a gyflwynwyd gan Dysgu Bro, sef un o wasanaethau Cyngor Sir Ceredigion, wedi gwneud argraff dda ar Mary - “Roedd y cwrs ECDL yn fuddiol ar sawl lefel. Dysgodd sgiliau pwysig newydd imi a thrwy orfod bod mewn man yn brydlon a chymysgu â phobl newydd, rhoddodd fi mewn amgylchedd a oedd yn debyg i fyd gwaith. Dechreuais ymlacio, rheoli straen a magu hyder am fy nyfodol.” Nod Mary yw defnyddio’i sgiliau TG newydd i’w helpu i ddysgu Saesneg o gartref, ac mae Gweithffyrdd+ yn parhau i’w chefnogi.



# Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl

System addysg Ceredigion yw un o'r rhai mwyaf llwyddiannus yng Nghymru, ond mae problemau'r economi leol a lleihad mewn cyfleoedd gwaith wedi arwain at nifer fawr o'n hoedolion iau yn gadael y sir.

Mae Ceredigion yn economi incwm isel gydag incwm y cartref sydd ymysg yr isaf yng Nghymru, er gwaetha'r lefelau cymwysterau gweddol uchel yn y gweithlu. Mae tlodi mewn gwaith yn arwyddocaol ac yn effeithio ar gyfran uwch o ddinasyddion yn ein sir ni nag yn ardaloedd difreintiedig cydnabyddedig y Cymoedd a Dwyrain Cymru.

Bydd Buddsoddi yn Nyfodol Pobl yn sicrhau'r rhaglenni hyfforddiant priodol a fydd yn galluogi dysgwyr i gwrdd ag anghenion cyflogaeth busnesau presennol a busnesau'r dyfodol yng Ngheredigion. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dysgwyr ôl-16 ac oedolion sy'n ddysgwyr yn meddu ar y set sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i fod yn weithwyr hyblyg, dwyieithog, all addasu i gwrdd â gofynion cyflogaeth y dyfodol.

Er bod y Sir bellach yn dod i'r amlwg o fesurau cloi, mae peryglon amrywiadau pellach o COVID-19 yn golygu bod yn rhaid i ni aros yn wyliadwrus, a bydd yr adferiad yn parhau i mewn i 2022/23. O ganlyniad, bydd ein hamcanion Llesiant ar gyfer gweddill 2021/22 ac i mewn i 2022/23 yn aros:

***“Cynorthwyo dysgwyr o bob oedran a chefndir i ddychwelyd yn ddiogel i addysg a hyfforddiant, a gwella mynediad at ddysgu a chyflogaeth”***

***“Diogelu pobl rhag tlodi”***

***“Hybu a hwyluso diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion”***

## Cefnogi Pobl Ifanc yn ystod y Cyfnod Clo


Mae'r tîm Pobl Ifanc Egnïol (PIE) yng Ngheredigion wedi bod yn gweithio mewn ffordd rith ers y cyfnod clo er mwyn ymateb i anghenion plant a phobl ifanc dros y misoedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod clo, pan na fu modd i bobl ifanc gyfarfod, aeth y tîm PIE ati i ymgysylltu â'i gynulleidfaoedd trwy gyfrwng nifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn yn sicrhau y cynigiwyd cyfleoedd a negeseuon cynhwysol pwysig, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les corfforol a meddyliol.

Defnyddiwyd dolen cyfryngau cymdeithasol @CeredigionActif yn rheolaidd ar Facebook, Twitter, Instagram a YouTube er mwyn rhyddhau fideos gan arweinwyr ifanc, gwersi AG, gemau, gweithgareddau a negeseuon ysbrydoledig, a defnyddir nifer o wahanol blatfformau er mwyn cyrraedd cymaint o bobl ifanc a theuluoedd ag y bo modd. Mae'r tîm wedi cynhyrchu 110 o fideos a oedd yn ceisio sicrhau bod pobl ifanc yn eu harddegau, disgyblion cynradd a phlant bach nad ydynt wedi dechrau mynychu'r ysgol eto, yn egnïol yn ystod y cyfnod pan oeddent gartref.

Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys 27 o gemau rhaglen haf yn ystod gwyliau haf 2020, 40 o wersi AG i ysgolion gan gynnwys diwrnodau chwaraeon ar-lein a 4 fideo ffitrwydd gan genhadon ifanc ar gyfer yr Wythnos Gwirfoddolwyr Ifanc.

| Hirdymor | Atal | Cydweithio | Cynnwys | Integreiddio |
|---|---|---|---|---|
| • 10 mlynedd +<br>• Gweithlu i gwrdd ag anghenion cyflogwyr yn y dyfodol<br>• Dadansoddi tueddiadau'r dyfodol | • Ffyrdd iachach o fyw yn atal problemau iechyd yn y dyfodol<br>• **Atal** tlodi mewn gwaith drwy gynyddu lefelau incwm<br>• Dealltwriaeth glir o atal a'r strategaethau cysylltiedig | • Dull aml asiantaeth o ddarparu gwasanaethau wedi'i deilwra | • Dysgwyr a chyflogwyr yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau | • Mae gwell sgiliau a gwell swyddi yn cynyddu lefelau incwm ac felly'n caniatáu i'r economi leol dyfi |

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**




Mae ein Blaenoriaeth Gorfforaethol yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y nodau llesiant a amlygwyd

## Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yma

Mae'r cynnydd a wneir wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon yn Dda ac mae'r rhagolygon o ran gwella yn Dda. Mae'r amcanion o gefnogi dysgwyr i ddychwelyd yn ddiogel i fyd addysg ac o amddiffyn pobl rhag tlodi yn unol â'r targed.

Er enghraifft, cyhoeddwyd y Strategaeth newydd Mynd i'r Afael â Chaledi ac mae'n cael ei gweithredu drwy Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dyma enghraifft o Geredigion yn perchnogi ein huchelgais.

**Perchnogi ein huchelgais**

**Da**



# Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl

## Ymateb i COVID-19 a'r Prif Gyflawniadau:

- Sicrhawyd cyllid o £5.8m i adnewyddu ac adeiladu estyniad yn Ysgol Uwchradd Aberteifi trwy'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Gweithredwyd tâl rhieni yn llwyddiannus ym mhob ysgol sydd wedi arwain at leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â disgyblion ar brydau ysgol am ddim ac arwain at arbedion o tua £100k.
- Hwb gofal plant a ddarperir ar gyfer plant gweithwyr allweddol a dysgwyr agored i niwed yn ystod y cyfnod clo.
- Parhaodd 42 o ddisgyblion i dderbyn trochiad iaith trwy'r Ganolfan Iaith rhithwir.
- Sefydlu'r coronafirws - Cynllun Cymorth Gofal Plant (C-CAS) i gymryd lle y Cynnig Gofal Plant yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Roedd hyn er mwyn sicrhau cefnogaeth ariannol i ofal plant i weithwyr allweddol - gyda 2 ganolbwynt gofal plant i blant dan 4 oed wedi'u sefydlu yn Aberystwyth ac Aberteifi rhwng Ebrill ac Awst 2020.
- Dysgu o bell ar waith ar gyfer pob disgybl yn ystod y cyfnodau clo ac amrywiaeth eang o adnoddau dal i fyny a ddarperir i staff a disgyblion trwy'r athrawon Cynghori.
- Darparwyd dros 1,000 o liniaduron/tabledi a dyfeisiau MiFi i ddisgyblion er mwyn Dysgu o Bell yn ystod y cyfnod clo.
- Cefnogodd ysgolion yn llwyddiannus i ailagor trwy ymweliadau safle, canllawiau gweithredol, asesiadau risg a darpariaeth PPE.
- Roedd adnoddau e-lyfrgell ar gael yn ehangach, ac adleolwyd faniau llyfrgell y Cyngor i ddarparu pecynnau gofal ledled y Sir.
- Roedd rhestr o grantiau a chymorth ar gael i'r unigolion oedd yn wynebu caledi yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys grantiau megis y Gronfa Cymorth Ddewisol, sydd yn cefnogi costau angenrheidiol mewn argyfwng i grwpiau cymorth lleol sydd yn darparu dillad, cewynnau a thywelion i rieni efo babanod, sydd yn agored i niwed.
- Cwblhau estyniad i Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid yn llwyddiannus, fel rhan o'r grant lleihau maint dosbarthiadau.


**600**
O ddisgyblion wedi parhâi i dderbyn gwersi cerddoriaeth offerynnol yn ystod 2020/21

**£131,000**
O gyllid wedi'i derbyn i Amgueddfa Ceredigion

**2,400**
Unigolyn wedi mynychu Gwyl yr Enfys digidol

**6**
Prentisiaethau newydd wedi lansio yn y Cyngor yn 2020

## Diogelu Dinasyddion Ceredigion rhag Tlodi




◀ Cyhoeddwyd **Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi** newydd ym mis Gorffennaf 2020, sy'n cynnig fframwaith cadarn a fydd yn galluogi dealltwriaeth ar y cyd o'r sefyllfa ac a fydd yn datblygu amrediad o fentrau er mwyn lleihau risgiau tlodi gymaint ag y bo modd, a chymryd camau ataliol. Mae COVID-19 wedi cael effaith nid yn unig ar les cymdeithasol ac economaidd pobl, ond hefyd, mae wedi peri risg uwch i unigolion a theuluoedd sy'n dioddef caledi. Bu 23 o sefydliadau yn ymwneud â'r broses o ddatblygu'r strategaeth, a chaiff ei chynnydd ei fonitro yn rheolaidd trwy gyfrwng Is-grŵp Tlodi y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynnydd yn ein Hamcanian Llesiant Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl

| Amcan Llesiant y Cyngor | Statws |
|---|---|
| • Cefnogi dysgwyr o bob oed a chefndir, i ddychwelyd yn ddiogel i addysg a hyfforddiant a gwella mynediad at ddysgu a chyflogaeth | Gwyrdd |
| • Amddiffyn pobl rhag tlodi | Gwyrdd |
| • Hyrwyddo a hwyluso diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion | Oren |

✓ Wedi ei gwblhau | ● (gwyrdd) Wedi cychwyn ac ar targed | ● (oren) Wedi dechrau ond tu ôl y targed | ● (coch) Heb cychwyn

**110**
O fideos Pobl ifanc Actif wedi'i cyhoeddi yn ystod y cyfnod clo

**£160,000**
Wedi derbyn mewn Cymorthdaliadau Busnes a Chronfa Cadernid

**30**
Gwersi AG ysgolion wedi cael eu cyflwyno ar-lein yn ystod y cyfnod clo

**600**
Pobl ifanc a theuluoedd wedi'i chefnogi trwy 3,000 o alwadau

**15,000+**
O barseli bwyd wedi danfon i breswylwyr sydd yn agored i niwed

**50+**
Grwpiau a rhaglenni rhieni wedi'i cyflwyno ar-lein

**250**
O bobl ifanc wedi derbyn cymorth yn yr ysgol

**£30,000**
Cronfa Gofalwyr wedi'i dyrannu

## Hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth unigryw Ceredigion yn ystod 2020/21

- Mae darpariaeth ddigidol wedi galluogi **Cered (menter iaith Gymraeg)** i barhau i hyrwyddo'r Gymraeg mewn cymunedau er cyfyngiadau Covid 19. Mae rhaglen wythnosol o ddigwyddiadau a gweithgareddau wedi'i phostio ar wefannau cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys prosiectau ymgysylltu newydd ac arloesol fel Theatr Soffa, Hwyl i Blant a Cefn y Rhwyd darllediadau radio ar y cyd â Radio Aber.
- Cyflwynodd **Theatr Felinfach** sawl rhaglen celfyddydau digidol trwy gydol y cyfnod clo e.e. Sesiynau 'beat box' efo Ed holden (Mr Phormula), gwersi dawns rhithwir, pantomeim digidol a sawl sesiwn ddychmygus i blant o bob oed. Hefyd, derbyniodd y Theatr enwebiad ar gyfer Gwobr Dyniaethau Achates 2020 am amrywiaeth a safon ei ddarpariaeth ddigidol gyfranogol.




- Enwebwyd **Amgueddfa Ceredigion** ar gyfer Gwobr Amgueddfeydd a Threftadaeth am yr Arddangosfa Dros Dro neu Deithiol Orau 2020 mewn perthynas â'i harddangosfa Defaid. Mae'r arddangosfa ddefaid hefyd wedi'i defnyddio fel astudiaeth achos gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n tynnu sylw at sut mae amgueddfeydd lleol yn helpu i gyflawni'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.

# Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod gofyniad cyfreithiol ar y gwasanaeth i ddatblygu amrywiaeth o strategaethau ymyrryd yn gynnar ac atal, sy'n cynnwys trefniadau cydweithredol â chymunedau a'r sector gwirfoddol i gefnogi byw'n annibynnol.

Yn ogystal, mae'r lefelau diweithdra ynghyd â'r lefelau incwm isel wedi ei gwneud hi'n fwy anodd i bobl cael tai diogel a fforddiadwy.

Bydd Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd yn gwella llesiant drwy wella mynediad i dai fforddiadwy, gan atal problemau yn y dyfodol a chynnal annibyniaeth.

Mae achos COVID-19 wedi cael effaith sylfaenol ar ddarparu gwasanaethau i'r dinasyddion mwyaf bregus gan gynnwys yr henoed, y rhai heb fynediad at band llydan a'r rhai a wynebodd unigedd yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol yn 2020. Mewn ymateb, ein hamcanion Lles ar gyfer gweddill 2021-22 ac i mewn i 2022-23 yw i parhau i gefnogi ein dinasyddion sydd mwyaf agored i niwed:

***“ Cynorthwyo dinasyddion sydd wedi'u heffeithio'n anghymesur gan COVID-19 i wella'u lles corfforol ac emosiynol ”***

***“ Hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau o fewn cartrefi diogel, fforddiadwy a hygyrch ”***

Yn Fehefin 2020, dyfarnwyd £99,000 i Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i ddatblygu darpariaeth symudol i blant a phobl ifanc. Mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi'i leoli o fewn Porth Cymorth Cynnar, sef gwasanaeth cymorth cynnar, cefnogaeth ac ymyriad Cyngor Sir Ceredigion, sydd yn cefnogi cymunedau, plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd yn agor i niwed. Nod y prosiect yma yw sefydlu canolfannau ieuenctid symudol, a fydd yn ymestyn darpariaeth i ardaloedd gwledig yng Ngheredigion.

## Porth y Gymuned – Cynorthwyo Lles Preswylwyr


Cychwynnodd gwasanaeth Porth y Gymuned ym mis Mai 2018 ac mae'n cynorthwyo preswylwyr o bob oed yng Ngheredigion trwy eu helpu i ffurfio cysylltiadau er mwyn manteisio ar gyfleoedd cymorth yn eu hardal, y gallent gynnal a gwella eu lles.

Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn arbennig o bwysig wrth gynorthwyo ein preswylwyr yn ystod pandemig COVID-19. Fel arfer, bydd yr ymholiadau a gaiff Porth y Gymuned yn amrywiol iawn, o ymyriadau ar lefel isel i gyfeirio a chynorthwyo unigolion y bydd angen iddynt fanteisio ar wasanaethau statudol neu ddwys efallai. Rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Ionawr 2021, gwnaethpwyd 419 o gyfeiriadau i Borth y Gymuned yn ystod anterth y pandemig. Yn ogystal, aeth y gwasanaeth ati i lunio rhestr gynhwysfawr o wasanaethau dosbarthu bwyd, banciau bwyd ac adnoddau ar gyfer ystod eang o gymorth megis help ariannol, grantiau a chyngor ynghylch dyled er mwyn cynorthwyo preswylwyr yn ystod y cyfnod arbennig o anodd hwn.

Mae Porth y Gymuned yn galluogi unigolion i gael sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig' gyda Chysylltydd Cymunedol, sy'n gallu eu helpu i nodi datrysiadau wedi'u targedu sy'n bodloni eu hanghenion. Mae'r Cysylltwyr Cymunedol yn cynorthwyo pobl a'u teuluoedd i fanteisio ar gyngor a chymorth a ddarparir gan y trydydd sector, yn ogystal â nodi gwasanaethau a grwpiau priodol o fewn eu cymunedau eu hunain, megis grwpiau cymdeithasol y gallent helpu i gyfrannu at eu lles.

| Hirdymor | Atal | Cydweithio | Cynnwys | Integreiddio |
|---|---|---|---|---|
| • Model gwasanaethau integredig i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y 15 + mlynedd nesaf<br>• Dadansoddi tueddiadau'r dyfodol | • Gofal gydlynus i atal materion rhag datblygu ymhellach | • Y Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol a phartneriaid y trydydd sector yn bwriadu **cydweithio** i weithredu rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar draws Gorllewin Cymru | • Y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r Model Gwasanaethau Integredig<br>• Unigolion yn ymwneud â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt | • Y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cydweithio i gyfrannu cymaint â phosibl at Gymru iachach a nodau arall |

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**




Mae ein Blaenoriaeth Gorfforaethol yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y nodau llesiant a amlygwyd

## Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yma

Mae'r cynnydd wrth gyflawni'r amcan hwn yn **Dda** ac mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn **Dda**. Er gwaethaf yr heriau o ran cefnogi dinasyddion sydd wedi cael ei effeithio gan COVID-19 i wella eu lles corfforol ac emosiynol, a hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau mewn cartrefi diogel a hygyrch, mae'r ddau wedi'u hasesu fel rhai gwyrdd ac yn unol â'r targed.

Mae Porth Gofal yn enghraifft o Ceredigion yn **Arwain y Ffordd** i ddarparu Gwasanaethau Integredig nawr ac yn y dyfodol.

**Arwain y ffordd**

**Da**





# Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd

## Ymateb i COVID-19 a’r Prif Gyflawniadau

- Cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda trwy sefydlu dau ysbyty maes dros dro yn y sir mewn ymateb i COVID-19.
- Ceredigion oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth olrhain cysylltiadau ac wedi hynny fe'i dewiswyd gan Lywodraeth Cymru yn ardal beilot, cyn sefydlu'r cynllun cenedlaethol. Roedd y Tîm Olrhain Cysylltiadau, a oedd yn cynnwys dros 50 o aelodau staff a adleolwyd o rolau eraill ar draws yr awdurdod, wedi rhoi cyngor i unigolion ar gynnal profion coronafeirws ac ar hunan-ynysu neu ar gamau gweithredu eraill fel rhan o'r ymdrechion parhaus i atal y feirws rhag lledaenu ymhellach ac i gadw pawb yn ddiogel.
- Cefnogwyd tua 2,900 o drigolion, o bobl ifanc i deuluoedd i ofalwyr, yn ystod y pandemig trwy alwadau rheolaidd ‘Cadw mewn Cysylltiad’ gan staff y Cyngor yn Porth Cymorth Cynnar i wirio eu lles a rhoi cyfle i siarad â rhywun yn ystod y cyfnod clo.
- Ym mis Gorffennaf 2020, lansiodd Ceredigion ei hymgyrch Cysylltu â Charedigrwydd, sy'n ceisio creu mwy o ddealltwriaeth o fudd ac effaith caredigrwydd arnon ni ac eraill yn ein cymuned. Mae'n seiliedig ar ddull pontio'r cenedlaethau, sy'n meithrin cysylltiadau er mwyn lleddfu'r unigrwydd ac arwahanrwydd sy'n gyffredin mewn nifer o'n cymunedau.
- Ym mis Rhagfyr 2020 cymeradwywyd cynnig Ceredigion i ddatblygu Canolfan Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan ac mae’r cynlluniau'n mynd rhagddynt yn ystod 2021. Bydd yr Hwb Llesiant yn cynnal 'Canolfan Llesiant' – cyfleuster a fydd nid yn unig yn cynnig ei darpariaeth graidd, sef Hamdden, ond hefyd yn cynnig mannau i gyfarfod, ymgynghori a thrin pobl, i gyfrannu at wella lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol trigolion y Sir. Sefydlir hybiau hefyd yng Ngogledd, Canolbarth a De Ceredigion yn ogystal â darpariaeth dros dro mewn llefydd eraill yn y Sir.
- Gan ymateb i'r pandemig, darparodd tîm Cam Nesa Ceredigion becynnau lles i gynorthwyo pobl ifanc y gallent fod yn profi unigrwydd, arwahanrwydd neu faterion eraill sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Mae prosiect Cam Nesa yn rhan o Raglen Weithredol Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF) ac mae'n gweithio gyda phobl ifanc rhwng 16 a 24 oed trwy gynnig dewisiadau iddynt i fanteisio ar amrediad o gymorth personol wedi'i deilwra a chyfleoedd sy'n ymwneud â gwaith er mwyn bodloni eu hanghenion a'u huchelgais.

**31** Cymorthdaliadau diogel, cynnes a diogel wedi’i gwblhau

**32** Ymgeiswyr digartref potensial wedi'u cefnogi â materion ariannol

**900** O preswylwyr oedd yn cysgodi yng Ngheredigion wedi derbyn parsekli bwyd wythnosol

**1,650** O becynnau lles wedi’i chynhyrchu i ofalwyr di-dâl ac oedolion arunig



◀ Yn ystod y cyfnod clo yn 2020, cydnabu Cyngor Sir Ceredigion mor bwysig oedd cadw mewn cysylltiad yn ystod y cyfnod heriol o hunan-ynysu. Deallai ei bod hi’n anodd ar deuluoedd nad oedd yn gallu ymweld â'u hanwyliaid mewn cartrefi gofal.

Mae staff y Cyngor yn cefnogi ac yn gofalu am ein preswylwyr ac er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol iddynt, gosodwyd cyfleusterau fideo-gynadledda ym mhob un o'n cartrefi gofal i sicrhau cyswllt gydag aelodau'r teulu yn ystod y cyfnod anodd hwnnw.

## Cynnydd yn ein Hamcanion Llesiant Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd

| Amcan Llesiant y Cyngor | Statws |
|---|---|
| • Cefnogi dinasyddion sydd wedi cael ei effaithio yn anghymesur gan COVID-19 i wella eu lles corfforol ac emosiynol | Wedi cychwyn ac ar |
| • Hyrwyddo lles unigolion a chymunedau mewn cartrefi diogel a hygyrch | Wedi cychwyn ac ar |

Wedi ei gwblhau · Wedi cychwyn ac ar · Wedi dechrau ond tu ôl y targed · Heb cychwyn

**35,000**
O deunyddiau wedi postio allan i cefnogi'r rhaglen brechu

**11.4m**
Dosbarthwyd eitemau o Offer Amddiffynnol Personol

**160**
Datganiadau i'r wasg gyda newyddion a chyngor ar COVID-19

**7,400**
Pobl a atgyfeiriwyd am olrhain cyswllt i helpu pawb i gadw'n ddiogel

**1,040**
Te prynhawn Cymraeg / 'seibiant mewn bocs' wedi dosbarthu

**195**
O fagiau Teulu Actif wedi'i dosbarthu gan wasanaethau Dechrau'n Deg

**100+**
O gardiau hunaniaeth gofalwyr a 10 cerdyn gofalwyr ifanc wedi cynhyrchu

**50, 000**
O ymrwymiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, i roi'r wybodaeth fwyaf diweddar i bobl

# Dosbarthu Parseli Bwyd i Breswylwyr Ceredigion

Bob wythnos yn ystod anterth y cyfnod clo ym mis Ebrill / Mai 2020, dosbarthwyd parseli yr oeddent yn cynnwys cynnyrch bwyd lleol i 900 o breswylwyr a oedd yn gwarchod yng Ngheredigion, er mwyn sicrhau bod y rhai yr oeddent yn arbennig o agored i niwed yn gallu cael bwyd ac eitemau hanfodol o hyd.

Ceredigion oedd y sir gyntaf yng Nghymru i sicrhau cymeradwyaeth i gydlynu'r Cynllun Gwarchod yn lleol yn llwyr – menter oedd hon gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cynnig y dewis i breswylwyr a oedd yn gwarchod i gael parseli bwyd wythnosol os nad oedd ganddynt deulu neu ffrindiau yr oeddent yn gallu eu cynorthwyo i siopa yn ystod y pandemig.

Llwyddodd Ceredigion i sicrhau perchnogaeth lawn dros gynnwys ac ansawdd y parseli bwyd, er mwyn sicrhau bod y cynnyrch yn cael ei gyflenwi gan gyflenwyr lleol, a threfnwyd bod y parseli yn cael eu pacio a'u dosbarthu i gymunedau gan yrwyr Cyngor Sir Ceredigion.



Sicrhawyd y cynnwys gan gyflenwyr lleol ac roedd eu cynnwys yn amrywiol, er mwyn cynnig gwerth maethol o ansawdd uchel i'r rhai mewn angen.

# Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol

Mae gan y Cyngor rôl arweiniol i’w chwarae o ran amddiffyn a gwella adnoddau naturiol y Sir, gan ymdrechu hefyd i ddiogelu ansawdd yr aer, y tir a’r dŵr.  Mae’n chwarae rôl allweddol hefyd yn hyrwyddo, diogelu a gwella bio-amrywiaeth.  Mae cyfrifoldeb y Cyngor o ran stiwardiaeth amgylcheddol hefyd yn cynnwys yr amgylchedd adeiledig, ac mae rheolaeth bositif o waith datblygu a defnydd o dir yn y dyfodol yn hanfodol er mwyn cyflawni’r nodau hyn.

Mae’r Cyngor am wella a datblygu gallu cymunedau i ymateb i fygythiadau a digwyddiadau amgylcheddol, drwy hyrwyddo gwydnwch unigolion a grwpiau, a harnesu’r ewyllys da sy’n bodoli yn ein cymunedau i gefnogi’n gilydd.

Mae Covid-19 wedi gosod prawf ar ein cryfderau a’n gallu i ymateb i argyfwng, ond rydym wedi dangos sut y gall ein cymunedau ymateb i’r her, er mwyn amddiffyn lles ein cymunedau a’n hamgylchedd.  Yn sgil y pandemig Covid-19, ein Hamcanion Llesiant diwygiedig ar gyfer gweddill 2021-22 ac i mewn i 2022-23 yw:

> ***“ Cefnogi teithio lledol, dulliau eraill o deithio, a ffyrdd o weithio sy’n adeiladu ar ein huchelgais dim carbon ”***
>
> ***a***
>
> ***“ Cefnogi’n cymunedau i fod yn gryf, gyda chysylltiadau da, er mwyn iddyn nhw allu ffynnu er gwaethaf Covid-19 ”***

## Sicrhau bod Lleoliadau Cymunedol yn Agor yn Ddiogel


Sefydlwyd panel amlasiantaethol i sicrhau bod lleoliadau cymunedol yn ailagor yn ddiogel ac yn gymesur ledled Ceredigion wrth i'r cyfnod clo godi. Y nod yw cefnogi a rhoi cyngor i grwpiau cymunedol sy'n paratoi i ailagor. Gwneir hyn drwy ddarparu cyfres o sesiynau briffio i unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n gyfrifol am ganolfannau cymunedol amlbwrpas, gan ganolbwyntio ar adeiladau, pobl a gweithgareddau. Mae'r panel hefyd wedi creu pecyn adnoddau i helpu i ailagor lleoliadau cymunedol yn ddiogel.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn annog y rhai sy'n rheoli canolfannau i roi gwybod i’w hawdurdod lleol os ydynt yn bwriadu ailagor cyfleusterau cymunedol.

Crëwyd y panel o dan Is-grŵp Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Deall ein Cymunedau. Datblygwyd y grŵp dan arweiniad Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) a Chyngor Sir Ceredigion ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd Iechyd a Diogelwch, Iechyd yr Amgylchedd a Diogelwch Cymunedol.

| Hirdymor | Atal | Cydweithio | Cynnwys | Integreiddio |
|---|---|---|---|---|
| • Cynaliadwyedd hirdymor tirwedd Ceredigion 15 mlynedd +<br>• Dadansoddi tueddiadau'r dyfodol | • Atal dirywiad economaidd pellach<br>• Dealltwriaeth glir o atal a'r strategaethau cysylltiedig | • Drwy **weithio ar y cyd** i sicrhau bod effaith newid yn yr hinsawdd yn cael ei leihau, mae'n siapio'r dyfodol trydan yng Ngheredigion ac yn cyfrannu tuag at y cynaliadwyedd hwnnw | • Pawb yn cymryd rhan ac yn cael eu hannog i neud dewisiadau a fydd yn lleihau costau yn awr ac yn diogelu'r amgylchedd ar gyfer y dyfodol | • Mae i hyrwyddo cydnerthedd amgylcheddol a chymunedol fanteision amlwg o ran sicrhau ein bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at yr holl nodau llesiant |

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**




Mae ein Blaenoriaeth Gorfforaethol yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y nodau llesiant a amlygwyd

## Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yma

Mae'r cynnydd o ran bodloni'r flaenoriaeth hon yn **Dda** ac mae'r rhagolygon gwella yn **Dda**. Mae pob cam i leihau'r cyfraniad at newid hinsawdd, gwella isadeiledd i hwyluso datblygiadau i gyrraedd anghenion y gymuned a chynorthwyo cymunedau i fod yn fwy hydwyth ar darged gyda gwelliannau pellach wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae cynllun Carbon y Cyngor yn enghraifft o Ceredigion yn **Arwain y Ffordd** er mwyn lleihau ein hôl troed carbon a lleihau ein cyfraniad at newid hinsawdd.

**Arwain y ffordd**

**Da**







# Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol

## Ymateb i COVID-19 a'r Prif Gyflawniadau:

- Darparwyd gwasanaethau rheng flaen craidd yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19 ac rydym yn parhau i ymateb i faterion sy'n newid yn barhaus yn sgil y pandemig.
- Cefnogwyd y Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'r ymateb corfforaethol ehangach a oedd yn cynnwys dosbarthu blychau bwyd i grwpiau bregus, cymorth logistaidd wrth ddosbarthu deunyddiau i ysgolion, a darparu cymorth gweithredol i sefydlu canolfannau profi a brechu torfol.
- Cefnogwyd cyflenwyr lleol drwy gydol y pandemig a hynny ar adeg lleihau neu ohirio'r gwasanaeth gwastraff a thrafnidiaeth.
- Parhawyd i ddatblygu cynlluniau lliniaru'r arfordir a llifogydd yng Ngheredigion gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru.
- Cyflawnwyd nifer o welliannau Teithio Llesol, gan gynnwys adnewyddu Pont-yr-Odyn, Trefechan yn sylweddol ac adeiladu llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Gogerddan a Phenrhyn-coch.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n amlinellu sut y mae'n bwriadu rheoli'r risgiau a'r anawsterau a ragwelir o ran 'Clefyd Coed Ynn' yng Ngheredigion. Mae'r Cynllun ar waith i sicrhau bod y sir yn barod ac â digon o adnoddau i ymateb i effaith y clefyd a hefyd i leihau'r effeithiau andwyol yn yr hirdymor drwy hybu gwytnwch.
- Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu newydd Carbon Sero-Net gan Gyngor Ceredigion i nodi ei ymateb i'r argyfwng hinsawdd ledled y sir. Hefyd, i esbonio pam mae angen inni gymryd y camau hyn a pham mae targed 2030 mor bwysig i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi buddsoddi dros £5 miliwn mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon, ac mae'r buddsoddiad hwn wedi arbed £2.8m hyd yma.
- Ym mis Mehefin 2020 dathlodd Cyngor Sir Ceredigion Wythnos Ffoaduriaid drwy gydnabod y gwaith cadarnhaol a wnaed wrth groesawu 74 o ffoaduriaid o Syria i'n sir.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i feddu ar un o'r cyfraddau ailgylchu gorau yn y wlad, sef 70.2% yn 2020/21.

**70.2%**
o wastraff wedi'i ailgylchu, compostio neu ailddefnyddio

**29,271**
tunnell o wastraff trefol caled wedi'i chasglu

**2.53**
diwrnod ar gyfartaledd i glirio tomenni anghyfreithlon ledled y Sir

**52%**
o ostyngiad mewn allyriadau carbon ers 2007, sy'n arbed £6m i'w ail-fuddsoddi



## Cynnydd yn ein Hamcanion Llesiant Hyrwyddo Chydnerthedd Amgylcheddol a Cymunedol

| Amcan Llesiant y Cyngor | Statws |
|---|---|
| • Cefnogi teithio actif, gwahanol fathau o deithio a ffyrdd o weithio sy'n adeiladu ar ein huchelgais di-garbon | Gwyrdd (Wedi cychwyn ac ar y trywydd) |
| • Cefnogi ein cymunedau i fod yn gryf ac efo cysylltiad da fel eu bod yn gallu ffynnu er gwaethaf COVID-19 | Gwyrdd (Wedi cychwyn ac ar y trywydd) |

Wedi ei gwblhau · Wedi cychwyn ac ar · Wedi dechrau ond tu ôl y targed · Heb cychwyn

## Gwella Cysylltedd yn ystod cyfnod COVID-19 ac ar ôl COVID-19

Nid yw'r galw am gysylltedd rhyngrwyd cyflym a dibynadwy erioed wedi bod yn fwy amlwg nag y bu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – mae nifer ohonom yn dibynnu'n fwy ar wasanaethau ar-lein ac mae nifer o bobl yn parhau i weithio gartref. Ym mis Awst 2020, dewiswyd Ceredigion i fod yn ardal a fyddai'n treialu menter gan Lywodraeth y DU a fyddai'n ceisio cynyddu band eang ffeibr mewn ardaloedd gwledig.

Mae ymchwil yn dangos y gall band eang dibynadwy gyflawni rôl allweddol wrth gysylltu pobl yn ystod Covid-19. Dywedodd bron i chwech o bob deg (58%) o breswylwyr Ceredigion sy'n defnyddio band eang bod y rhyngrwyd wedi cyflawni rôl pwysig wrth helpu i oresgyn teimladau arwahanrwydd neu unigrwydd yn ystod y cyfnod clo. Roedd dau o bob tri (67%) o'r holl ymatebwyr yng Ngheredigion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ac sy'n gweithio yn gweithio gartref yr holl amser neu ran fwyaf o'r amser, ond roedd bron i hanner (46%) yn teimlo'n rhwystredig ar brydiau am gysylltiad rhyngrwyd annibynadwy.

Nod cynllun peilot o'r enw y "Gronfa Uwchraddio Band Eang" yw cynorthwyo busnesau, cyflogeion a chymunedau gwledig i fanteisio ar yr holl fuddion sy'n gysylltiedig gyda chysylltiadau rhyngrwyd cyflymach a mwy dibynadwy. Gan gynnwys cronfa 'Atodol' ychwanegol Llywodraeth Cymru, mae preswylwyr yng Ngheredigion yn gymwys i hawlio hyd at £3,000 a gall busnesau bach i ganolig hawlio hyd at £7,000 er mwyn uwchraddio i fand eang gigabit, sy'n gallu cynnig cyflymder lawrlwytho o 1 gigabit (1,000 megabit) yr eiliad, ac sy'n llawer cyflymach na'r cyflymder presennol a brofir ar draws Ceredigion.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i weithio mewn ffordd ragweithiol gyda chyflenwyr masnachol a'r ddwy Lywodraeth er mwyn sicrhau cysylltedd gwell ar gyfer y Sir.



*Dyluniwyd gan Freepik*

# Themâu Trawsbynciol

Fel Cyngor rydym yn ymrwymedig i gyflenwi amrywiaeth o themâu trawsbynciol a fydd yn gwella perfformiad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, meant yn cynnwys:

- **Dwyieithrwydd** - Rydym yn sicrhau bod pob maes gwasanaeth yn darparu gwasanaeth hollol ddwyieithog a bod pob aelod o staff yn cael ei annog i ddatblygu ei sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.
- **Addas i'r diben** - Mae ein strwythurau staffio yn hyblyg ac yn effeithiol.  Fodd bynnag, byddwn yn parhau â'r rhaglen ad-drefnu corfforaethol i ganoli'r holl dimau gwasanaeth cymorth.
- **Cynaliadwyedd** - Mae llwyddiant y pum mlynedd flaenorol wedi sicrhau bod y Cyngor yn arwain y sector o ran rheoli carbon ac ailgylchu.  Ein bwriad yw parhau yn ein hymdrechion i fod yn awdurdod glân a gwyrdd sy'n darparu amgylchedd i'n preswylwyr sy'n ddeniadol ac yn apelio at y diwydiant twristiaeth.
- **Ymgysylltu** - Bydd ein polisïau ar gyfer y dyfodol yn annog cydweithrediad a gweithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb. Rydym yn gweld bod rhyngweithiol effeithiol â'n cymunedau yn gydran hanfodol wrth sicrhau cymdeithas iach a bywiog.
- **Cydraddoldeb** - Sicrhau bod cyfle cyfartal gan bawb i gyfrannu at wneud Ceredigion yn lle gwell i fyw, gweithio a mwynhau. Rydym yn ymrwymedig i drin pob dinesydd â pharch, a darparu gwasanaethau a chynnig cyfleoedd cyflogaeth sy'n ymateb i anghenion amrywiol pobl.

## Ein Cyflawniadau yn ystod 2020/21:

**1000**
Aelod staff wedi mynychu Hyfforddiant Diogelwch Oedolion neu Ddiogelwch Plant

**£47m**
O arbedion effeithlonrwydd ar draws y Cyngor ers 2012

**272**
Aelod staff wedi cwblhau Hyfforddiant Trais yn erbyn menywod a Hyfforddiant Camdriniaeth Ddomestig

**416**
Aelod staff wedi ymgymryd ag hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ystod 2020/21

**62%**
o weithwyr Cyngor Sir Ceredigion yn siaradwyr Cymraeg

**70**
aelod staff yn dysgu neu yn gwella eu sgiliau Cymraeg

**15**
Aelod staff Cyngor Sir Ceredigion yn astudio Cymraeg lefel uwch

**476**
Aelod staff wedi cwblhau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth yr Iaith Gymraeg

## Ymgysylltu a Chydraddoldeb

Dros y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi parhau i ymwreiddio cydraddoldeb, cyflawni dull gweithredu corfforaethol tuag at ymgysylltu a darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar draws y Cyngor.

Bu rhai o'n cyflawniadau yn ystod y cyfnod hwn fel a ganlyn:

- Gweithredwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) ac rydym yn monitro cynnydd yn erbyn sicrhau bod ein gweithredoedd yn deg i bawb.
- Ymateb i a gweithredu'r Ddyletswydd Cymdeithasol-Economaidd, sy'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn asesu sut y gellir defnyddio eu strategaethau a'u polisïau er mwyn lleihau anghydraddoldebau sy'n deillio o wahaniaethau mewn statws cymdeithasol-economaidd.
- Diweddaru ein Proses Asesu Effaith Integredig.
- Cyflawni treial rhanbarthol o blatfform ymgysylltu ar-lein a ddarparwyd gan Engagement HQ o'r enw “Dweud eich Dweud Ceredigion” a fydd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol a ffyrdd mwy unigryw o ymgysylltu gyda'r Cyngor a mynegi eich safbwyntiau i ni.

Yn ystod 2020/21, ymgysylltom yn helaeth ynghylch cyflwyno Parthau Diogel yn ein trefi, a gynlluniwyd i gadw pawb yn ddiogel a chadw pellter cymdeithasol yn ystod pandemig COVID-19. Cafwyd dros 2,000 o ymatebion i'r ymarfer a gynhaliwyd ym mis Awst 2020, a dilynwyd hyn gan weithgarwch ymgysylltu ehangach ym mis Ionawr 2020 er mwyn deall effaith y parthau yn well.

Mae cydraddoldeb yn parhau i fod yn elfen flaenllaw iawn yn yr adferiad yn dilyn pandemig COVID-19, gan bod rhai grwpiau yn ein cymunedau wedi cael eu heffeithio mewn ffordd anghymesur gan y feirws, megis pobl iau, pobl hŷn a'r rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol (BAME).




Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

| Hirdymor | Atal | Cydweithio | Cynnwys | Integreiddio |
|---|---|---|---|---|
| • Mwy o ymwybyddiaeth o nodweddion gwarchodedig ar draws y sefydliad | • Sicrhau bod nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried wrth osod darpariaeth polisiau a gwasanaethau | • Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff sector cyhoeddus arall er mwyn cyrraedd ein Hamcanion Cydraddoldeb | • Grwpiau Cydraddoldeb Corfforaethol yn parhau i ddatblygu, monitro ac adolygu'r Cynllun | • Bydd y Cyngor yn ymladd yn erbyn rhagfarn ac yn hyrwyddo dealltwriaeth yn ein cymunedau |





# Gweiriddio'r Hadau Newid

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r pum ffordd o weithio (yr egwyddor datblygu cynaliadwy) ac ystyried sut y gallant gyfrannu at bob un o'r saith Nod Llesiant Cenedlaethol.

Yn ôl y canllawiau, mae'n debygol mai rhoi gofynion y Ddeddf ar waith ar draws saith maes craidd lle mae angen newid fydd y ffordd fwyaf effeithiol o wireddu'r newid sydd ei angen.

Cafodd Grŵp Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cyngor Sir Ceredigion ei sefydlu i fonitro sut y dylid gwneud newidiadau yn y meysydd craidd i wireddu'r newid.




## Cynllunio Corfforaethol

- Sefydlwyd Grŵp Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gydag arweinydd strategol i fonitro cynnydd yn y saith maes craidd lle mae angen newid. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Adroddiadau Blynyddol yn cynnwys y cynnydd a wnaed.
- Lluniwyd templedi sy'n cynnwys y pum ffordd o weithio ar gyfer y rheini sy'n paratoi adroddiadau'r Cabinet, adroddiadau'r pwyllgorau a chynlluniau busnes.
- Cyflwynwyd Offeryn Asesu Effaith Integredig sy'n cynnwys y pum ffordd o weithio a'r saith nod llesiant cenedlaethol.
- Cafodd amserlenni eu diwygio i sicrhau bod modd rhoi sylw dyledus i oblygiadau'r Asesiadau Effaith Integredig.
- Cafodd y Cyfansoddiad ei ddiwygio i sicrhau bod prosesau penderfynu'n rhoi sylw i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

## Rheoli Asedau

- Mae adolygiad o Gynllun Rheoli Asedau Eiddo'r Cyngor yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i asesu'r asedau y bydd eu hangen ar wasanaethau dros y tymor canolig i'r tymor hir.
- Cafodd y Policy Rheoli Asedau diwygiedig i'w cyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Mawrth 2020 ac mae hyn yn gosod allan dull y Cyngor i wella eu Hasedau trwy brydlesu, gwaredu a chaffaeliad.
- Sefydlwyd Grŵp Cydweithio Asedau Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru i helpu i ymgymryd â mentrau a gwaith sy'n ymwneud â gweithgareddau rheoli asedau cydweithredol sy'n bodloni'r arferion gorau.

# Trawsnewid Cyswllt Cwsmer

## Harneisio technoleg newydd i wella profiad ein cwsmeriaid

Tîm CLIC yw wyneb a llais Cyngor Sir Ceredigion. Os yw'r cwsmer yn ffonio'r ganolfan Gyswllt neu'n ymweld â Swyddfa Ariannol gydag ymholiad ynghylch biniau, er mwyn archwilio Treth Gyngor neu gyflwyno cais i'r Tîm Tai, byddant yn cael cyswllt gyda CLIC.

Mae ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid yn enghraifft o'r ffordd yr ydym yn trawsnewid ein gwasanaethau ac yn manteisio ar dechnoleg newydd er mwyn cynnig profiad gwell i'r cwsmer. Bydd y Ganolfan Gyswllt yn cael ac yn olrhain pob cyswllt cychwynnol â'r Cyngor trwy gyfrwng y system Rheoli Perthynas â'r Cwsmer (CRM). Mae hyn yn cynnig amrediad o fanteision i'n cwsmeriaid:

- Mae'n haws cael cyswllt cychwynnol – dim ond un rhif ffôn ac un cyfeiriad e-bost.
- Mae ein cynghorwyr wedi cael eu hyfforddi i ddelio ag ystod eang o ymholiadau – felly pan fo modd, caiff ymholiadau eu datrys yn ystod y cyswllt cyntaf.
- Ni fydd angen ailddweud yr un stori ychwaith bob tro y bydd cwsmer yn ffonio – bydd eu gwybodaeth ar gael trwy'r system CRM, gan gynnig ymateb cyflymach a mwy pwrpasol er mwyn datrys eu hymholiad.

I'r Cyngor, mae hyn yn cynnig ffordd ymarferol iawn hefyd o reoli nifer gynyddol y cysylltiadau yr ydym yn eu cael, darparu gwasanaeth o ansawdd uwch a mwy pwrpasol a gwella'r profiad i'r cwsmer, gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd oherwydd y caiff llai o amser ei dreulio gan swyddogaethau cefn swyddfa yn rheoli ymholiadau arferol. Yn ystod 2020/21, cofnodom dros 57,000 o ymholiadau trwy CLIC, a cheisiadau am Fathodyn Glas, ceisiadau gofal plant ac ymholiadau ynghylch casglu sbwriel oedd rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin a ofynnwyd.

Yn ystod 2020/21, gwelwyd pandemig iechyd COVID-19 yn cyrraedd Ceredigion, gan arwain at dros 8,900 ymholiad ynghylch y feirws yn unig. Roedd y rhain yn cynnwys ymholiadau ynghylch gofal plant, ysgolion, y parthau diogel yn nhrefi Ceredigion a nifer a oedd yn gofyn am gyngor ynghylch manteisio ar gymorth ariannol yn ystod y cyfnod clo. Mae'r gwasanaeth wedi cyflawni rôl hanfodol wrth hysbysu preswylwyr o'r datblygiadau diweddaraf ynghylch y pandemig, ac mae'n parhau i wneud hynny. O ganlyniad i'r buddsoddiad yn y systemau teleffoni newydd, bu modd i CLIC drosglwyddo i drefniadau gweithio gartref ar unwaith pan ddechreuodd y cyfnod clo, heb unrhyw amhariad i'w wasanaeth i gwsmeriaid.

Gan edrych i'r dyfodol, ein nod yw datblygu'r gwasanaeth ymhellach trwy fanteisio ar ddatblygiadau technolegol newydd er mwyn gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid, megis uwchraddio'r system CRM

## Ein Gwasanaeth Mewn Rhifau yn ystod 2020/21

**106,650**
O alwadau ffôn a gafodd eu trin gan CLIC yn ystod y flwyddyn 2020/21

**18%**
O alwadau ffôn (neu 16,256) yn Gymraeg

**15,600**
O E-byst a atebwyd yn ystod y flwyddyn 2020/21 gan CLIC

**57,306**
O ymholiadau wedi nodi gan CLIC yn ystod y flwyddyn 2020/21

## Rheoli Perfformiad

- Mae system Rheoli Perfformiad y Cyngor (Perfformiad Teifi) yn parhau i ddatblygu a mewnosod.
- Yn 2020/21 cafodd proses Cynllunio Busnes diwygiedig i'w cymeradwyo er mwyn gwella'r proses a chefnogi gwasanaethau i ddatblygu cynlluniau busnes effeithiol ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Dechreuodd y gwaith i ddatblygu set ddiwygiedig o'r mesuriadau perfformio er mwyn cadarnhau bod gan y Cyngor y wybodaeth monitro angenrheidiol er mwyn cefnogi gwelliant perfformiad yn gyson yn y dyfodol.
- Mae gwaith ar y gweill i baratoi ar gyfer cyflwyno trefn perfformiad hunan asesu newydd, sydd wedi'i chynnwys fel rhan 6 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Rheoli Risg

- Yn ystod 2020/21, cymerwyd nifer o gamau i leddfu risgiau COVID-19 a sicrhau parhad gwaith y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys y strwythur Grwpiau Aur ac Arian i reoli'r ymateb i'r pandemig, ynghyd â diweddaru'r holl Gynlluniau Parhau Busnes, a chyflwyno Cynlluniau Addasu Gwasanaeth, gan amlinellu sut y bydd gwasanaethau'n addasu i'r pandemig ac yn dod â gwasanaethau yn ôl ar ôl y pandemig.
- Cafodd hyfforddiant rheoli risg ei darparu i bob rheolwr a swyddogion allweddol yn 2020.
- Cafodd gweithdy gydag yswiriwr a holl reolwyr y Cyngor i'w gynnal yn Hydref 2020 er mwyn adolygu risgiau'r Cyngor yng ngoleuni

## Cynllunio Ariannol

- Cafodd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ei llunio a'i chymeradwyo.
- Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon 2020/21 yn cynnwys manylion amcanion llesiant a gwella'r Cyngor ac yn amlinellu sut byddwn yn cwrdd a nhw.
- Cyflwynir pob prosiect cyfalaf newydd drwy'r Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol.

## Caffael

- Lluniwyd Strategaeth Gaffael 2018-2022 yn benodol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei nodau a’i amcanion o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ei weithgarwch caffael.
- Mae Fforwm Caffael Ceredigion yn cynnwys cynrychiolwyr o’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd nai llai wedi leoli yn y Cyngor neu sydd efo presenoldeb lleol.
- Y System Prynu Ddynamig Peirianneg Sifil, sydd yn cynnwys pum contractwr sydd yn gweithio yn y sir. Mae’r fath yma o fframwaith yn darparu buddion i’r Cyngor ac i’r cyflenwr ac meant yn addas i weithio gyda busnesau lleol bach - gall cyflenwyr newydd uno a’r system trwy gydol ei bywyd, meant yn gost effeithiol ac yn darparu’r opsiwn o weithio gyda chyflenwyr newydd i gyrchu arloesedd.
- Mae prosesau caffael yn dal i fod yn agored a tryloyw ac yn seiliedig ar ddulliau safonol a defnydd o systemau cyffredin sydd yn lleihau cymhlethdod, cost, amser a gofynion cyflenwyr.
- Mae’r Fframwaith Mân Weithio yn darparu sicrwydd i gontractwyr lleol ar argaeledd ffrydiau gweithio tymor hir posibl ac mae’n sicrhau bod busnesau newydd a phresennol yn medru cynllunio am dyfiant a buddsoddiad yn y dyfodol.
- Mae’n ofynnol I bob contractwr cofrestru gyda ‘Construction Line’ er mwyn rhoi sicrwydd eu bod yn dal yswriiant perthnasol, tanysgrifiadau proffesiynol ac yn cwrdd â’r meini prawf cymhwyster gofynnol.

## Cynllunio Gweithlu

- Lluniwyd Pecyn Cymorth Strategol ar gyfer Cynllunio’r Gweithlu, ar sail pecyn cymorth Swyddfa Archwilio Cymru. Mae’n gydnaws ag egwyddor cynaliadwyedd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (y pum ffordd o weithio) a’r nodau llesiant.
- Cafodd proses gwerthuso dan arweiniad rheolwr ei chyflwyno yn 2020 i weithwyr a’i rheolwyr, fel cyfle i adolygu cynnydd dros y flwyddyn flaenorol, cytuno ar amcanion ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac er mwyn adnabod unrhyw anghenion dysgu a datblygiad, a hefyd ystyried dyfodol y gwasanaeth.

# Adolygiad o’r Amcanion Llesiant

Mae'r **Amcanion Lles a Gwella** yn canolbwyntio ar ymateb sy'n cynnwys mwy o ffocws yn y tymor byr ac adfer yn dilyn pandemig COVID-19 er mwyn diogelu a gwella lles pawb nawr ac yn y dyfodol. Fe'u nodwyd ac maent yn parhau i gyd-fynd â'n holl Flaenoriaethau Corfforaethol, ac maent yn ystyried y Cynllun Llesiant ac Asesiad Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rydym wedi adolygu'r Amcanion Lles a Gwella presennol, gan ddod i'r casgliad y dylent barhau i fod mewn grym er mwyn cynorthwyo gwaith adfer parhaus y Cyngor a'i bartneriaid.

Felly, ar gyfer blwyddyn 2022/23, byddwn yn canolbwyntio ein sylw ar gynorthwyo anghenion dinasyddion wrth iddynt adfer o'r pandemig, gan gyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor ar yr un pryd.

## Hybi’r Economi

- Cefnogi busnesau wrth iddynt ymateb i effaithiau Covid-19

## Buddsoddi yn Nyfofol y Bobl

- Cefnogi dysgwyr o bob oedran ac o bob cefndir i ddychwelid yn ddiogel yn ôl i addysg a hyfforddiant a hefyd gwella mynediad i ddysgu a chyflogaeth
- Diogelu pobl rhag tlodi
- Hybu a hwyluso diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion

## Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd

- Cefnogi dinasyddion sydd wedi cael i’w effeithio gan Covid-19 i wella eu llesiant corfforol ac emosiynnol
- Hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau o fewn cartrefi diogel, fforddiadwy a hygyrch

## Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol

- Cefnogi teithio lledol, dulliau eraill o deithio, a ffyrdd o weithio sy’n adeiladu ar ein huchelgais dim carbon.
- Cefnogi’n cymunedau i fod yn gryf, gyda chysylltiadau da, er mwyn iddyn nhw allu ffynnu er gwaethaf Covid-19

| Nod | Sut y bydd Blaenoriaethau ac Amcanion Llesiant y Cyngor yn cwrdd â'r nodau Llesiant? |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Mae pob un o'n blaenoriaethau'n nodi pwysigrwydd datblygu economi Ceredigion. Bydd cyflogaeth, datblygu sgiliau, tai, yr amgylchedd, cymorth busnes ac adfywio'n cyfrannu at greu Cymru lewyrchus. Bydd cynorthwyo busnesau i ymateb i effeithiau Covid-19 yn helpu i sicrhau bod gennym Gymru ffyniannus, nawr ac yn y dyfodol. |
| Cymru gydnerth | Mae'r flaenoriaeth 'Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol' yn canolbwyntio ar ddiogelu ein hamgylchedd naturiol ac yn cynnwys mentrau i wella ac i ddatblygu gallu cymunedau i ymateb i drychinebau amgylcheddol. Bydd cynorthwyo'n cymunedau i fod yn gryf, gyda chysylltiadau da, fel eu bod yn ffynnu er gwaethaf Covid-19 yn cyfrannu tuag at Gymru gydnerth, sy'n gallu ymateb i unrhyw argyfwng naturiol neu o waith dyn. |
| Cymru iachach | Mae'r flaenoriaeth 'Buddsoddi yn y Nyfodol y Bobl' yn canolbwyntio ar ddiogelu teuluoedd, plant ac oedolion rhag tlodi ac ar hyrwyddo ffyrdd mwy iach ac actif o fyw, ac mae'r flaenoriaeth 'Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd' yn ceisio gwella tai, galluogi pobl i fyw'n annibynnol, a darparu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed. Bydd cynorthwyo dinasyddion sydd wedi'u heffeithio'n anghymesur gan Covid-19 i wella'u lles corfforol ac emosiynol yn helpu mentrau eraill i sicrhau Cymru iachach. |
| Cymru sy'n fwy cy-fartal | Mae pob un o'n blaenoriaethau'n ceisio creu Cymru sy'n fwy cyfartal drwy sicrhau cyfle cyfartal o ran cyflogaeth, tai, addysg, ffyrdd iachach o fyw a chymunedau cynaliadwy. |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Mae adeiladu cryfder ein cymunedau yn nodwedd bwysig o dair o'n blaenoriaethau. Bydd cynorthwyo'n cymunedau i fod yn gryf, gyda chysylltiadau da, fel eu bod yn ffynnu er gwaethaf COVID-19 yn arwain at Gymru sydd â chymunedau cydlynus. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae'r Cyngor wedi cytuno i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg ac mae ein hamcanion yn cynnwys mesurau pellach i hyrwyddo dwyieithrwydd a'r Gymraeg. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Wrth ystyried ein Hamcanion Llesiant a Gwella, rydym wedi ystyried yr asesiad llesiant a'n gwaith ymgysylltu i sicrhau bod modd inni wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. Mae cefnogi teithio llesol, dulliau eraill o deithio a ffyrdd o weithio sy'n adeiladu ar ein huchelgais dim carbon yn parhau â'n gwaith yn y maes hwn. |

# Gosod ein Hamcanion Llesiant

Wrth osod ei Amcanion Llesiant a Gwella, mae'r Cyngor wedi rhoi'r Egwyddor Datblygu Gynaliadwy ar waith fel a ganlyn:

| Ffyrdd o weithio | Sut y mae'r Cyngor wedi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith? |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Edrych ar yr hirdymor fel nad ydym yn effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu'u hanghenion eu hunain | • Mae Cynllunio Ariannol Tymor Canolig yn sicrhau bod penderfyniadau yn ystyried yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol.<br>• Drwy gynllunio'r gweithlu, bydd yn sicrhau ein bod yn datblygu sgiliau'r gweithlu ar gyfer y dyfodol.<br>• Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn ceisio datblygu a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Ceredigion dros y pum mlynedd nesaf a thu hwnt. |
| **Integredig**<br>Mabwysiadu dulliau integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu Hamcanion Llesiant | • Mae Blaenoriaethau ac Amcanion Llesiant y Cyngor wedi'u rhyng-gysylltu mewn sawl ffordd a bydd gwasanaethau'n cryfhau cydweithredu er mwyn gweithio tuag at gyflawni cyfres o nodau llesiant cyffredin. |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys sectorau amrywiol o'r boblogaeth yn y penderfyni-adau sy'n effeithio arnynt | • Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2017-2022 wedi ystyried Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a luniwyd yn dilyn cyfres o ymarferion ymgysylltu â dinasyddion, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.<br>• Bydd y Cyngor yn ymgynghori'n flynyddol â dinasyddion a'i grwpiau ymgysylltu i adolygu ac i dod i ben a'i Amcanion Llesiant a Gwella blynyddol. |
| **Cydweithio**<br>Gweithio ar y cyd ag eraill i rannu atebion cynaliadwy | Mae'r Cyngor yn cefnogi, ymysg pethau eraill, y partneriaethau a ganlyn:<br>• Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion<br>• Y Bwrdd Diogelu Plant<br>• Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol<br><br>Rydym hefyd yn croesawu cyfleoedd i gydweithio i ddarparu gwasanaethau ym mhob rhan o'r awdurdod. |
| **Atal**<br>Deall beth sydd wrth wraidd problemau er mwyn ceisio'u hosgoi | • Pennwyd Amcanion Llesiant a Gwella'r Cyngor er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu, ac maent yn rhoi sylw i effeithiau tlodi, materion sy'n ymwneud â bywyd gwledig a gwella llesiant pobl o bob oed o'r blynyddoedd cynnar hyd at oedran hŷn.<br>• Mae digartrefedd yn canolbwyntio ar yr agenda atal.<br>• Mae'r Model Gwasanaethau Cymdeithasol yn hyrwyddo gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar. |

Mae Blaenoriaethau Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion yn alinio gyda Chynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, fel a nodir yn y tabl isod.

| Blaenoriaeth Gorfforaethol y Cyngor 2017-2022 | Amcanion Llesiant y Cyngor 2022-2023 | Nod Cynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2018-2023 |
|---|---|---|
| **Hybu'r Econo-mi** | • Cefnogi busnesau wrth iddynt ymateb i effaithiau Covid-19 | • Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig drwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd<br>• Galluogi pobl i greu ac i fanteisio ar gyfleoedd ac ymateb i heriau drwy gydol eu bywydau |
| **Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl** | • Cefnogi dysgwyr o bob oedran ac o bob cefndir i ddychwelid yn ddiogel yn ôl i addysg a hyfforddiant a hefyd gwella mynediad i ddysgu a chyflogaeth | • Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig drwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd<br>• Galluogi pobl i greu ac i fanteisio ar gyfleoedd ac ymateb i heriau drwy gydol eu bywydau<br>• Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn |
| **Galluogi cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd** | • Cefnogi dinasyddion sydd wedi cael i'w effeithio gan Covid-19 i wella eu llesiant corfforol ac emosiynnol. | • Galluogi pob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd<br>• Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn<br>• Galluogi pobl i fyw bywydau gweithgar, hapus ac iach<br>• Galluogi pobl i greu ac i fanteisio ar gyfleoedd ac ymateb i heriau drwy gydol eu bywydau |
| **Hyrwyddo cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol** | • Cefnogi teithio lledol, dulliau eraill o deithio, a ffyrdd o weithio sy'n adeiladu ar ein huchelgais dim carbon.<br>• Cefnogi'n cymunedau i fod yn gryf, gyda chysylltiadau da, er mwyn iddyn nhw allu ffynnu er gwaethaf Covid-19. | • Creu cymunedau amgylcheddol gyfrifol a diogel sy'n medru addasu ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd<br>• Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn<br>• Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig drwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagoly-gon economaidd |

# Meincnodi ein Perfformiad


## 2020/21 Mesurau Atebolrwydd Perfformiad

Mae'r Cyngor yn monitro ac yn meincnodi ei berfformiad yn rheolaidd fel rhan o'i drefniadau rheoli perfformiad. Fodd bynnag, oddi ar fis Mawrth 2020 ataliwyd yr adroddiadau ar y Mesurau Atebolrwydd Perfformiad ar gyfer 2020/21 a hynny yn sgil ail-flaenoriaethu gwasanaethau er mwyn ymateb i bandemig Covid-19. Dim ond nifer fach a gasglwyd yn ystod y flwyddyn a dangosir y rhain isod:

- **70.2 %** — Canran gwastraff a ailgylchwyd, gompostio neu ei ailddefnyddio
- **2.53 days** — Cyfartaledd o ddiwrnodau a gymerir i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon
- **134 incidents** — Digwyddiadau tipio anghyfreithlon
- **119.48 kgs** — Kg o wastraff gweddilliol a gynhyrchir y pen
- **7.9 days** — Absenoldeb salwch i bob gweithwyr Cyfwerth ag Amser Llawn

2019/20 oedd y flwyddyn lawn ddiwethaf ar gyfer adrodd ar y Mesurau Atebolrwydd Perfformiad, a dangosir y canlyniadau diweddaraf ar y tudalennau canlynol.


**Mesuriadau Atebolrwydd Perfformiad 2019/20 i gymharu â'r targed**



| | % | Rhif. |
|---|---|---|
| Ar targed | 67% | 14 |
| Oddi ar y targed (<=5%) | 14% | 3 |
| Oddi ar y targed (>5%) | 19% | 4 |

*21 PAMs methu asesu yn erbyn y targed*

**Mesuriadau Atebolrwydd Perfformiad 2019/20 Tuedd i gymharu â 2018/19**



| | % | Rhif. |
|---|---|---|
| Gwella | 67% | 14 |
| Yr un peth | 0% | 0 |
| Gostwng | 33% | 7 |


*20 PAMs methu asesu yn erbyn y flwyddyn flaenorol*

## Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Sgôr Cap 9**


**Sgôr pwyntiau Cap 9 i ddysgwyr yn flwyddyn 11**

▼ Nifer




## Presenoldeb: Ysgol Gynradd

**Canran presenoldeb disgyblion yn ysgol gynradd**





## Presenoldeb: Ysgol Uwchradd

**Canran presenoldeb disgyblion yn Ysgol Uwchradd**




## Sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth

**Canran y rhai sydd yn gadael blwyddyn 11 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (NEET)**




## Tai a Digartrefedd

### Rhwystradau Digartref

**% o gartrefi sydd wedi'i rhwystro yn llwyddiannus o fod yn ddigartref**


▼ Canran




### Briodweddau Gwag

**Canran o briodweddau preifat gwag sydd wedi dod yn ôl mewn i ddefnydd**


▼ Canran




### Grant Cyfleusterau i'r Anabl

**Diwrnodau ar gyfartaledd mae'n cymryd i gyflwyno Grant Cyfleusterau i'r Anabl**

▼ Nifer




## Priffyrdd

### Cyflwr Ffyrdd 'A'

**Canran o ffyrdd A mewn cyflwr gwael**


▼ Canran




### Cyflwr Ffyrdd 'B'

**Canran o ffyrdd B mewn cyflwr gwael**


▼ Canran




### Cyflwr Ffyrdd 'C'


**Canran o ffyrdd C mewn cyflwr gwael**

▼ Canran




## Cynllunio

### Geisiadau Cynllunio





### Apeliadau Cynllunio




## Gwasanaethau Amgylcheddol


### Casgliad Gwastraff



## Ailgylchu

**% o wastraff a gafodd i'w ail-ddefnyddio, ailgylchu neu gompostio**


▼ Canran




## Glendid Strydoedd

**Y % o strydoedd sydd yn lân**


▼Canran




## Tipio Anghyfreithlon

**Diwrnodau gweithio ar gyfartaledd mae'n cymryd i glirio achosion tipio anghyfreithlon**

▼ Nifer



Yn dilyn ataliad y Mesurau Atebolrwydd Perfformiad oherwydd pandemig COVID-19, roedd y casgliad llawn ddiwethaf yn 2019/20. Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb o'r perfformiad rhwng 2017/18 a 2019/20, ynghyd a'r gymhariaeth yn erbyn ein targedau.

| Cyfeirnod | Disgrifiad | 2017/18 Canlyniad | 2018/19 Canlyniad | 2018/19 Safle Chwartel | 2018/19 Cymru i gyd | 2018/19 Tuedd | 2019/20 Canlyniad | 2019/20 Targed | 2019/20 Tuedd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | | | | | | | | | | |
| PAM/032 | Sgôr Cap 9 | 380.08 | 373.73 | 1 | 349.5 | ▼ | 382.78 | 350.00 | ▲ | ★ |
| PAM/007 | Canran o bresenoldeb disgyblion yn ysgol gynradd | 95.3% | 95% | 1 | 94.6% | ▼ | 95.25% | 95.0% | ▲ | ★ |
| PAM/008 | Canran o bresenoldeb disgyblion yn ysgol uwchradd | 94.9% | 94.53% | 1 | 93.9% | ▼ | 94.31% | 94.80% | ▼ | ● |
| PAM/009 | Canran y rhai sydd yn gadael blwyddyn 11 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (NEET) | 0.8% | 0.8% | 1 | 1.6% | ◀▶ | - | - | - | - |
| PAM/033 | Canran y disgyblion ac aseswyr yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen | - | 57.45% | - | - | - | 74.79% | 74.00% | ▲ | ★ |
| PAM/034 | Canran disgyblion 11 sydd yn astudio Cymraeg (iaith gyntaf) | - | 62.92% | - | - | - | 63.43% | 62.00% | ▲ | ★ |
| **Gwasanaethau Amgylcheddol** | | | | | | | | | | |
| PAM/010 | Canran y strydoedd sydd yn lân | 89.2% | 94.9% | 3 | 93.9% | ▲ | 90.6% | 95.0% | ▼ | ● |
| PAM/035 | Diwrnodau gweithio ar gyfartaledd mae'n cymryd i glirio achosion tipio anghyfreithlon | 2.29 | 2.03 | 2 | 2.20 | - | 2.51 | 5.00 | ▼ | ★ |
| **Tai** | | | | | | | | | | |
| PAM/012 | Canran o gartrefi sydd wedi'i rhwystro yn llwyddiannus o fod yn ddigartref | 71.5% | 57.9% | 3 | 67.9% | ▼ | 69.44% | 65.00% | ▲ | ★ |
| PAM/013 | Canran o briodweddau preifat gwag sydd wedi dod yn ôl mewn i ddefnydd | 1.9% | 1.2% | 4 | 4.6% | ▼ | 0.57% | 0.02% | ▼ | ★ |
| PAM/015 | Diwrnodau ar gyfartaledd mae'n cymryd i gyflwyno Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 228 | 220 | 3 | 207 | ▲ | 311.87 | 250.00 | ▼ | ▲ |
| **Hamdden a Diwylliant** | | | | | | | | | | |
| PAM/040 | Canran y Dangosyddion Ansawdd (gyda thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaethau llyfrgell | 77.5% | 97.50% | 2 | 80.3% | ▲ | N/A | 95.00% | - | - |
| PAM/017 | Nifer yr ymweliadau a chanolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth | 6,986 | 5,201 | 4 | 9,116 | ▼ | 6,689 | 1,300.0 | ▲ | ★ |
| PAM/041 | Canran y cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | - | 65.27 | - | - | - | 88.89% | 65.00% | ▲ | ★ |
| PAM/042 | Canran y cleientiaid NERS oedd wedi gweld gwella yn eu hiechyd ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff | - | 97.84% | - | - | - | N/A | 95.00% | - | - |

# *Meincnodi ein Perfformiad (parhad)*

| Cyfeirnod | Disgrifiad | 2017/18 Canlyniad | 2018/19 Canlyniad | 2018/19 Safle Chwartel | 2018/19 Cymru i gyd | 2018/19 Tuedd | 2019/20 Canlyniad | 2019/20 Targed | 2019/20 Tuedd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | |
| PAM/018 | Canran yr holl geisiadau cynllunio a bennir mewn pryd | 71.0% | 72.9% | 4 | 88.0% | ▲ | 65.34% | 75.00% | ▼ | ● |
| PAM/019 | Canran o apeliadau cynllunio a chafodd i'w wrthod | 83.3% | 50.0% | 4 | 67.6% | ▼ | 100.0% | 75.0% | ▲ | ★ |
| **Gwasanaethau Priffyrdd** | | | | | | | | | | |
| PAM/020 | Canran o ffyrdd A mewn cyflwr gwael | 4.4% | 4.7% | 4 | 3.9% | ▼ | 4.2% | 3.5% | ▲ | ▲ |
| PAM/021 | Canran o ffyrdd B mewn cyflwr gwael | 3.1% | 3.5% | 1 | 4.5% | ▼ | 3.0% | 3.5% | ▲ | ★ |
| PAM/022 | Canran o ffyrdd C mewn cyflwr gwael | 17.5% | 17.3% | 4 | 14.0% | ▲ | 17.1% | 16.0% | ▲ | ▲ |
| **Diogelu'r Cyhoedd** | | | | | | | | | | |
| PAM/023 | Canran y sefydliadau bwyd sydd yn cyrraedd y safonau hylendid bwyd | 92.93% | 94.83% | 3 | 95.69% | ▲ | N/A | 90.0% | - | - |
| **Gofal Cymdeithasol** | | | | | | | | | | |
| PAM/025 | Cyfradd y bobl sydd yn cael eu cadw yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ | - | 3.75 | - | 4.9 | - | 11.87 | 4.00 | ▼ | ▲ |
| PAM/028 | Canran o asesiadau plant sy'n cael i'w gwblhau ar amser | - | 87.04% | - | 88.9% | - | 87.68% | 75.00 | ▲ | ★ |
| **Gwasanaeth Gwastraff** | | | | | | | | | | |
| PAM/030 | Canran o wastraff a gafodd i'w ail-ddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | 63.7% | 60.34% | 4 | 62.79% | ▼ | 71.6% | 58.00% | ▲ | ★ |
| PAM/043 | Cilogramau o wastraff dros ben cartrefi a gynyrchwyd y pen | 240 | 186 | 4 | 180 | ▲ | 130 | 185 | ▲ | ★ |

## Allwedd i Statws Symboldau:

- ★ Targed wedi'i chyrraedd neu ragori arno
- ● Ychydig yn fyr o'r targed (<=5%)
- ▲ O dan y targed (>5%)

- ▲ Perfformiad wedi gwella i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- ◀▶ Perfformiad yr un peth a'r flwyddyn flaenorol
- ▼ Perfformiad wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol

*Chwartel:*

1 Perfformiad ymhlith y 25% uchaf o Gynghorau
2 Perfformiad ymhlith yr 2il 25% uchaf o Gynghorau
3 Perfformiad ymhlith y 3ydd 25% uchaf o Gynghorau
4 Perfformiad ymhlith y 25% isaf o Gynghorau

Caru·Love Ceredigion

Cynhyrchwyd gan Dîm Perfformiad ac Ymchwil Cyngor Sir Ceredigion

Eitem Agenda 7

## Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **15 Medi 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **O bell drwy gynhadledd fideo** |
| **TEITL:** | **Adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA')** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Gwybodaeth ac Argymhelliad** |
| **Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | **Er mwyn cynnal ei adolygiad chwe misol o ddefnydd y Cyngor o RIPA, ystyried a yw RIPA'n cael ei defnyddio'n unol â Pholisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnau RIPA RHAN II Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol a Data Cyfathrebu'r Cyngor, sicrhau cydymffurfiaeth ag argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO), ystyried newidiadau i Bolisi RIPA'r Cyngor ac ystyried Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA drafft y Cyngor.** |

**CEFNDIR:**

Daethpwyd ag adroddiad gerbron y Pwyllgor ddiwethaf ar 20 Ionawr 2021 (gweler adroddiad Ionawr 2021 gyda'r Polisi RIPA drafft wedi'i atodi ar https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/councillors-committees/committees/coordinating/?year=2021&date=20%2F01%2F2021).

**Monitro gan Aelodau**

Rôl y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yw adolygu defnydd y Cyngor o RIPA ac ystyried adroddiadau mewnol ar y defnydd o RIPA i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n gyson â Pholisi'r Cyngor, ac na ddylai Aelodau gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau ar awdurdodiadau penodol. Argymhellodd Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref y dylid cynnal adolygiadau o'r fath bob chwarter o leiaf.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL**

**1) Gweithgarwch RIPA**

Ni fu unrhyw weithgarwch RIPA gan unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor rhwng 1 Rhagfyr 2020 a 12 Awst 2021. Mae Swyddogion Awdurdodi wedi cadarnhau nad ydynt wedi ystyried unrhyw geisiadau RIPA yn ystod y cyfnod hwn.

**2) Mesurau diogelu trin a chadw data**

Fel y cadarnhawyd yn Adroddiad Pwyllgor 20 Ionawr 2021 (gweler uchod), wrth ystyried llythyr gan IPCO o fis Ebrill 2020 yn ymwneud â sicrhau mesurau diogelu wrth drin a chadw data, mae adolygiad yn mynd rhagddo sy'n ymwneud â gweithdrefnau storio, cadw a gwaredu, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion IPCO, ac yn benodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion y Cyngor: https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/2725/information-and-records-management-policy-v20.pdf

Mae archwiliad data gan y Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth ac Archifau hefyd yn mynd rhagddo, a bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i helpu i ddatblygu Atodlen Gadw Gorfforaethol a fydd yn cynnwys manylion y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n defnyddio RIPA. Mae'r archwiliad data yn cael ei gynnal dros gyfnod o 4 mis rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2021, mae hyfforddiant staff ar gyfer Swyddogion perthnasol yn cael ei ddarparu yn ystod mis Awst 2021 ac mae dogfen ganllaw ar yr Archwiliad Data hefyd wedi'i pharatoi.

**3) Polisi a Gweithdrefnau RIPA Corfforaethol**

Fel y nodwyd uchod, cyflwynwyd Polisi RIPA drafft (gyda 'newidiadau wedi'u holrhain' yn tynnu sylw at ddiwygiadau arfaethedig) i'r Pwyllgor ar 20 Ionawr 2021. Ers hynny, mae'r Polisi RIPA wedi'i ddiweddaru ymhellach i gyfeirio at y gofynion sydd wedi'u cynnwys mewn llythyr gan IPCO o fis Ebrill 2020 (gweler **Atodiad 3**) sy'n ymwneud â sicrhau mesurau diogelu wrth drin a chadw data.

Mae manylion y diwygiadau arfaethedig i'r Polisi, a wnaed gan ystyried y llythyr gan IPCO ac argymhellion gan ddarparwyr hyfforddiant a'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN), wedi'u cynnwys yn fersiwn ddiwygiedig Polisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnau RIPA (gweler **Atodiad 1**).

Ystyriwyd hefyd ei bod yn angenrheidiol, oherwydd y newidiadau sylweddol mewn deddfwriaeth a Chodau perthnasol cysylltiedig, i adolygu fformat y Polisi RIPA.
Rhestrir y prif newidiadau a wnaed isod:

a) Ailstrwythuro'r Polisi RIPA drwy grwpio'r adrannau perthnasol sy'n ymwneud â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a Data Cyfathrebu yn thematig er hwylustod, fel a ganlyn:
   - Datganiad Polisi'r Cyngor
   - Rhan 1 – Cyflwyniad i'r wyliadwriaeth a reoleiddir gan Bennod 2 o RIPA
   - Rhan 2 – Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig
   - Rhan 3 – Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol
   - Rhan 4 – Cofnodion, Trin Data, Mesurau Diogelu wrth Gadw Data, Gwallau a Chwynion
   - Rhan 5 – Data Cyfathrebu
   - Rhan 6 – Gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA
   - Atodiad 1 – Deddfwriaeth berthnasol

b) Diweddaru cyfeiriadau at y Codau a'r deddfwriaethau perthnasol

c) Cynnwys cyfeiriad at Bolisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA newydd y Cyngor (**Atodiad 2**) a symud canllawiau perthnasol o'r Polisi RIPA i'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA;
d) Cynnwys cyfeiriad at y wybodaeth y gofynnwyd amdani gan Swyddogion ynglŷn â Gwyliadwriaeth Gudd, y Cyfryngau Cymdeithasol a Phersona ar-lein, cofnod o'r wybodaeth a'r weithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth;
e) Diweddaru manylion Swyddogion perthnasol, gan gynnwys manylion y Swyddog Awdurdodi a'r Swyddog ar Reng Gymeradwy;
f) Dileu'r ffurflenni, cadw'r ffurflenni sampl fel dogfennau ar wahân a diweddaru'r canllawiau yn y ffurflenni sampl. Diweddariad i nodi bod ffurflenni ar gael ar CeriNet, sef mewnrwyd y Cyngor, a gan yr Uwch Swyddog Cyfrifol/cynrychiolydd yr Uwch Swyddog Cyfrifol (Swyddog Llywodraethu);
g) Diweddaru'r pwynt cyswllt ar gyfer gweithdrefnau/canllawiau perthnasol e.e. cyfeiriad at yr Uwch Swyddog Cyfrifol a Chynrychiolydd yr Uwch Swyddog Cyfrifol;
h) Diweddaru'r cyfeiriad at yr Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro;
i) Datblygu Rhan 4 - cofnodion, trin data, mesurau diogelu wrth gadw data, gwallau a chwynion, gan gynnwys cyfeiriad at y gofrestr ganolog o awdurdodiadau;
j) Diweddaru'r Adran ar Ddata Cyfathrebu (Rhan 5) ymhellach i gynnwys cyngor gan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN) e.e. pwyslais ar rôl Un Pwynt Cyswllt NAFN; a
k) Newidiadau mewn arddull a fformatio.

**4) Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA a defnyddio'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol**

Ymdriniwyd â defnyddio'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol yn gynhwysfawr yn y Polisi RIPA (gweler **Atodiad 1**). Mae adran ychwanegol wedi'i hychwanegu sy'n ymwneud â phersona ar-lein neu ffugenwau.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw wasanaethau sy'n ymgymryd â gwyliadwriaeth agored neu gudd gan ddefnyddio persona/ffugenwau. Mae sawl proffil agored yn cael eu defnyddio at ddibenion cyfathrebu ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Ystyriwyd bod angen drafftio Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn gwyliadwriaeth fel dogfen annibynnol.
Mae'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA drafft wedi'i atodi (gweler **Atodiad 2**). Mae hon yn ddogfen ar wahân i'w darllen ar y cyd â'r Polisi RIPA ac mae'n cynnwys:

- Eglurhad o dermau, gan gynnwys Gwyliadwriaeth ('agored' a 'chudd') a'r Cyfryngau Cymdeithasol
- Gwybodaeth am Osodiadau Preifatrwydd;
- Manylion Gweithdrefnau Gwyliadwriaeth (gan gynnwys senarios enghreifftiol);
- Manylion am Gofnodi Gwybodaeth, Mesurau Diogelu wrth Drin a Chadw Data; a
- Rhestr o ddeddfwriaethau, codau ymarfer, polisïau a chanllawiau perthnasol.

Cadarnhawyd canlyniad arolygiad diwethaf IPCO ar 30 Awst 2019 i'r Pwyllgor ar 14 Tachwedd 2019 (http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/PapurC.EnclosureC.14.11.2019.pdf). Nododd IPCO:

'*Mae gwylio presenoldeb rhywun ar-lein – yn gudd ac mewn modd systematig a rheolaidd – yn gallu codi ystyriaethau preifatrwydd ac felly byddai angen ystyried cael awdurdodiad RIPA.'*

*Defnyddio persona ar-lein:*

*Y canllawiau allweddol gan IPCO yw os caniateir i ffugenwau/persona ar-lein gael eu defnyddio'n gorfforaethol, bydd angen enwebu person penodol i gynnal cofrestr o'r ffugenwau, gan gynnwys manylion y gwasanaethau a'r unigolion sy'n gallu eu defnyddio/eu cymeradwyo. Dylid gwirio unrhyw ddefnydd o'r fath yn rheolaidd, gan gynnwys adolygu pa safleoedd ar y cyfryngau yr ymwelwyd â nhw, pryd, i ba ddiben, a beth a wnaed â'r cynnyrch a ddaeth yn sgil hynny.*

Anfonwyd e-bost gan Uwch Swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer RIPA at wasanaethau perthnasol yn cadarnhau gofynion y dyfodol, yn unol ag argymhellion IPCO (gweler hefyd lythyr yn cynnwys argymhellion IPCO o fis Ebrill 2020 yn **Atodiad 3**), yn ogystal â'r canlynol:

a) y gofyniad i ddilyn gweithdrefnau'r Polisi RIPA (gan gynnwys y gofyniad i Swyddogion ystyried a oes angen Awdurdodiad RIPA, llenwi'r ffurflen/ffurflenni priodol a chael yr Awdurdodiad perthnasol); ac

b) yr angen i fonitro gwyliadwriaeth gudd ar-lein/ar y cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol, pan fydd y wyliadwriaeth honno'n debygol o gaffael gwybodaeth breifat unigolyn (p'un a yw'r wyliadwriaeth gudd yn wyliadwriaeth RIPA neu'n wyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA)

Y gofynion yw, o 1 Gorffennaf 2021, bydd yn ofynnol i bob Gwasanaeth perthnasol wneud y canlynol:

1. Cofnodi gwybodaeth/data perthnasol;
2. Nodi Swyddog Dynodedig yn y Gwasanaeth i gasglu'r wybodaeth;
3. Darparu'r data hwn i'r Swyddog Dynodedig; a
4. Bydd y Swyddog Dynodedig yn darparu'r wybodaeth hon i'r Uwch Swyddog Cyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch Swyddog Cyfrifol bob 4 mis.

Mae'r Wybodaeth am Wyliadwriaeth Gudd, Cyfryngau Cymdeithasol a Phersona Ar-lein y gofynnwyd amdani gan Swyddogion hefyd wedi'i chynnwys ym Mholisi RIPA'r Cyngor.

Bydd y cais cyntaf am wybodaeth/data, ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf 2021-31 Hydref 2021, yn cael ei wneud ar 1 Tachwedd 2021.

**5) Hyfforddiant**

Ar 9 Chwefror, cynigiwyd Gweithdy Hyfforddi 1/2 diwrnod cynhwysfawr o bell ar RIPA i Swyddogion perthnasol (25 yn bresennol), a ddarparwyd gan ddarparwyr allanol ac a oedd yn cynnwys hyfforddiant ar y canlynol:

- Deddfwriaeth RIPA;
- Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol;
- Cadw Gwyliadwriaeth ar Gyflogai;
- Gwyliadwriaeth/Monitro;
- Materion Hawliau Dynol;
- Ymyrraeth Anuniongyrchol a chymesuredd;
- Y ffurflenni a’r ceisiadau;
- Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r holl Swyddogion Awdurdodi (gweler 6)(a) isod) wedi mynychu Hyfforddiant RIPA yn ddiweddar ac mae hyfforddiant pellach hefyd yn cael ei gynnig. Mae hyfforddiant hefyd yn cael ei gynnig i'r Prif Swyddog Awdurdodi (gweler 6)(b) isod).

**6) Swyddogion Awdurdodi/Swyddogion ar Reng Gymeradwy**

(a) Dyma’r Swyddogion Awdurdodi presennol ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, awdurdodiadau Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ac awdurdodiadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan RIPA:

- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad, a Diogelu’r Cyhoedd;
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth;
- Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal

(b) Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Awdurdodi i roi awdurdodiadau mewn perthynas â gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig, sy'n ymwneud â ffilmio unrhyw Aelod Etholedig, Cyfarwyddwr Corfforaethol neu Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn gudd, neu sy'n ymwneud â chadw gwyliadwriaeth ar bobl ifanc neu bobl sy'n agored i niwed.

(c) Y Swyddog ar Reng Gymeradwy presennol ar gyfer Data Cyfathrebu yw:

1. Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu’r Cyhoedd;

Y dirprwyon amgen (os nad yw’r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn 1. uchod ar gael) yw:

- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth; a
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?** Na
**Os na, nodwch pam**
***Crynodeb:*** *Darperir yr adroddiad hwn at ddibenion gwybodaeth ac nid yw'n cynrychioli newid mewn polisi na strategaeth*

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Hirdymor:** | Cynllunio hirdymor sy'n cydymffurfio â gofynion statudol a datblygiad polisïau hirdymor er budd staff a'r Awdurdod Lleol. Ystyriaeth i atebolrwydd a nodau llesiant (e.e. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – gwelliannau i lesiant economaidd/ cymdeithasol, a chymuned gydlynus – cymuned ddiogel gyda chysylltiadau da) a buddiannau cael Polisi RIPA a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA cadarn ar gyfer staff; |
| | **Integreiddio:** | Mae'r diwygiadau'n ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau |
| | **Cydweithio:** | Cysylltu â darparwyr hyfforddiant. |
| | **Cynnwys:** | Sicrhau bod pob gweithiwr yn cael mynediad at Bolisi RIPA a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA'r Cyngor, a sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu mewn ffordd glir ac agored. |
| | **Atal:** | Sicrhau bod y Polisi RIPA yn parhau i gael ei ddiweddaru ac yn parhau i fod yn addas i'r diben, a chymeradwyo Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA'r Cyngor i sicrhau bod rheolau a chanllawiau priodol ar waith i Swyddogion. |

**ARGYMHELLION:**
Bod y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:
1) Nodi cynnwys yr Adroddiad;
2) Nodi na fu unrhyw weithgarwch RIPA gan unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor rhwng 1 Rhagfyr 2020 a 12 Awst 2021; a
3) Nodi cynnwys fersiwn ddiwygiedig ddrafft y Polisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnau RIPA (**Atodiad 1**) a'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA drafft (**Atodiad 2**), ac yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r dogfennau hyn.

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

Mae'r argymhellion yn angenrheidiol i adlewyrchu newidiadau i'r canllawiau statudol a'r ddeddfwriaeth, a gofynion rheoleiddwyr.

**1. POLISI:**
Hyrwyddo llesiant dinasyddion Ceredigion a'i hyrwyddo fel lle y gall pobl fyw ynddo mewn amgylchedd diogel o ansawdd uchel.
**2. CYLLIDEB:**
Dim cyfyngiadau cyllidebol.
**3. DEDDF HAWLIAU DYNOL:**
Yn cydymffurfio
**4. STATUDOL**
1) Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA')

2) Cod Ymarfer Diwygiedig Gwyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 (Cod Ymarfer)

**ATODIADAU:**

- **Atodiad 1**- Fersiwn ddiwygiedig Polisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnau RIPA
- **Atodiad 2** - Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA drafft;
- **Atodiad 3** –Y llythyr gan IPCO o fis Ebrill 2020

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Elin Prysor |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro) |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 12 Awst 2021 |
| **Acronymau:** | Amherthnasol |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

DRAFT

# CYNGOR SIR CEREDIGION

# CEREDIGION COUNTY COUNCIL

## DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 (‘RIPA’) RHAN II

## Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol a Data Cyfathrebu

## POLISI CORFFORAETHOL A DOGFEN WEITHDREFNAU

- **Mabwysiadwyd gan y Cyngor – 5 Mawrth 2020**
- **Adolygwyd gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol Gorffennaf 2021**

**MYNEGAI**

**Cynnwys** **Tudalen(au)**

Gwyliadwriaeth Gudd – Datganiad Polisi ........................................................ 6

**RHAN 1 – Cyflwyniad i Weithgareddau Gwyliadwriaeth a Reoleiddir gan Bennod 2 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) ........................................ 8**

**RHAN 2 – Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ........................................................ 12**

Ystyr 'Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig': ........................................................ 12

Y prif bwyntiau i'w nodi: ........................................................ 13

Siart lif 1 – A ydych yn cadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig? ........................................ 20

Ystyr 'Gwyliadwriaeth Ymwthiol': ........................................................ 21

Siart lif 2 – A ydych yn cadw Gwyliadwriaeth Ymwthiol? ........................................ 23

Cyfyngiadau ar ddefnyddio Gwyliadwriaeth Gudd Gyfeiriedig ........................................ 24

Uwch lefelau awdurdodi ........................................................ 24

Achosion brys – (Paragraff 4.42 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018) ........................................................ 25

Y Drefn o Wneud Cais Am Ganiatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ........................................ 26

Rôl y Swyddog Ymchwilio – yr Ymgeisydd ........................................................ 26

Llenwi'r ffurflenni ........................................................ 26

Rôl y Swyddog Awdurdodi ........................................................ 27

Adnewyddu caniatâd ........................................................ 28

Adolygu caniatâd ........................................................ 29

Canslo caniatâd ........................................................ 29

Siart lif 3 – Cylch oes sylfaenol Caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig (cylch oes Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn debyg) ........................................ 30

Canllawiau i Swyddogion Awdurdodi ar Ganiatáu Ceisiadau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ........................................................ 31

Terfynau Amser ........................................................ 31

Ystyriaethau'r Swyddog Awdurdodi ........................................................ 31

Siart lif 4 – Caniatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ........................................ 35

DRAFT

Gofyn Am Gymeradwyaeth Ynad (Cymeradwyaeth Farnwrol) Ar Gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig....36

Siart lif 5 – Proses Gymeradwyo'r Ynadon....38

**RHAN 3 – Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ('CHIS')....39**

Ystyr Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol....39

Gwerthu i rai o dan oedran....39

Y prif bwyntiau i'w nodi:....39

Siart lif 6 – A ydych yn defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol (CHIS)?....42

Y drefn o wneud cais am ganiatâd i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol o dan RIPA....43

Defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol Ifanc....43

Gweithgarwch Cudd Ar-lein – Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA....43

Llenwi'r Ffurflenni....43

Cylch oes caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol....45

Canllawiau i Swyddogion Awdurdodi sy'n Caniatáu Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol: Rheolau a Meini Prawf....45

Y Swyddog Awdurdodi....45

Ystyriaethau'r Swyddog Awdurdodi....46

Siart lif 7 – Caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol....49

Gofyn Am Gymeradwyaeth Ynad Ar Gyfer Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol (Cymeradwyaeth Farnwrol)....50

Cefndir....50

Canllawiau'r Swyddfa Gartref....50

Proses Gymeradwyo'r Ynadon (gweler hefyd Siart Lif 8 isod)....50

Dewisiadau'r Ynad....51

Apeliadau....51

Siart lif 8 – Proses Gymeradwyo'r Ynadon....52

Terfynau Amser....53

**RHAN 4 – Cofnodion, Trin Data, Trefniadau Diogelwch Wrth Gadw Gwybodaeth, Gwallau a Chwynion....54**

COFRESTR GANOLOG O'R CANIATADAU ....................................................................54

Sicrwydd wrth Drin Data a Threfniadau Diogelwch wrth Gadw Gwybodaeth .....................55

Rhannu gwybodaeth .....................................................................................................57

Copïo ............................................................................................................................58

Storio ............................................................................................................................58

Dileu a Dinistrio.............................................................................................................58

Deunydd Cyfrinachol a Deunydd sy'n Meddu ar Fraint Gyfreithiol.................................59

Marcio ...........................................................................................................................59

Gwallau .............................................................................................................................59

CWYNION..........................................................................................................................63

**RHAN 5 – Data Cyfathrebu ....................................................................................64**

Ystyr 'Data Cyfathrebu'......................................................................................................64

Ymyrryd â Data Cyfathrebu ...............................................................................................69

Cael gafael ar ddata cyfathrebu drwy Un Pwynt Cyswllt (SPOC) y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN) .........................................................................................70

Asiantaeth Awdurdodi: Y Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu ('OCDA') .........................72

Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer Data Cyfathrebu................................................73

Gwallau Data Cyfathrebu ...................................................................................................74

Gwallau Difrifol ..................................................................................................................75

Caniatáu Caffael Data Cyfathrebu......................................................................................75

Terfynau Amser..................................................................................................................76

Swyddog ar Reng Gymeradwy............................................................................................77

Cofrestr Ganolog o'r Caniatadau – Data Cyfathrebu .........................................................77

Cwynion.............................................................................................................................79

**RHAN 6 – Gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA' ...............................81**

Ystyr 'gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA' ............................................81

Pam cynnal gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA? .................................82

Troseddau nad ydynt yn cael eu cosbi drwy chwe mis o garchar ..................................82

Cadw Gwyliadwriaeth ar Gyflogeion ....................................................................82

Gweithgarwch cudd ar-lein – y Rhyngrwyd a Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol ('SNS')............................................................................................................................83

Cydymffurfio â Deddfwriaeth Hawliau Dynol .........................................................83

Cydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data............................................................84

Y Cod Ymarfer ar Arferion Cyflogaeth o ran Diogelu Data ....................................84

Swyddogion Awdurdodi ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA ...85

Ffurflen caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA ...........................85

Cylch oes caniatâd gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA........................86

Siart lif 9 - Caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA ......................87

Siart lif 10 – Gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA – Cylch oes sylfaenol Caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig.....................................................87

**Atodlen 1 – Deddfwriaeth, Codau Ymarfer, Polisïau a Chanllawiau Perthnasol ............89**

DRAFT

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**GWYLIADWRIAETH GUDD – DATGANIAD POLISI**

**Cyflwyniad**

1. Mae Cyngor Sir Ceredigion ('y Cyngor') wedi ymrwymo i greu cymuned deg a diogel i bawb drwy sicrhau bod y deddfau a wnaed i amddiffyn unigolion, busnesau, yr amgylchedd ac adnoddau cyhoeddus yn effeithiol.

2. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod sefydliadau ac unigolion gan mwyaf yn deall pwysigrwydd y deddfau hyn ac yn cydymffurfio â nhw. Bydd y Cyngor yn gwneud ei orau glas i'w helpu i gyflawni'u rhwymedigaethau cyfreithiol heb iddynt fynd i gostau diangen na wynebu biwrocratiaeth ddiangen.

3. Ar yr un pryd, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i sicrhau bod y rheini sy'n ceisio diystyru'r gyfraith yn wynebu camau gorfodi sy'n gadarn ond sydd hefyd yn deg. Cyn iddo gymryd camau o'r fath, gall fod angen i'r Cyngor gadw gwyliadwriaeth gudd ar unigolion a/neu safleoedd i gasglu gwybodaeth am weithgarwch anghyfreithlon.

**Gweithdrefn**

4. Rhaid cadw gwyliadwriaeth gudd yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y ddogfen hon.

5. Rhaid i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau mai dim ond pan fydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl ddeddfau perthnasol y bydd gwyliadwriaeth gudd yn cael ei chadw, ac yn enwedig:

- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA');
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012;
- Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 ('IPA 2016')
- Deddf Diogelu Data 2018

6. Rhaid i'r Cyngor hefyd roi sylw dyledus i'r holl is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys Rheoliadau a Gorchmynion), canllawiau swyddogol a chodau ymarfer, yn enwedig y rheini a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth, y Comisiynydd Camerâu Diogelwch a'r Comisiynydd Gwybodaeth.

7. Yn arbennig, os bydd y Cyngor yn cadw gwyliadwriaeth gudd, rhaid iddo sicrhau ei bod yn seiliedig ar yr egwyddorion arweiniol a ganlyn:

- Ni chaiff gwyliadwriaeth gudd ond ei chadw pan fo hynny'n hollol angenrheidiol i gyflawni'r nodau gofynnol;
- Ni chaiff gwyliadwriaeth gudd ond ei chadw pan fo'n gymesur gwneud hynny ac mewn modd sy'n gymesur;
- Rhaid rhoi sylw digonol i hawliau a rhyddidau'r rheini nad yw'r wyliadwriaeth gudd yn eu targedu;
- Rhaid i unrhyw ganiatâd i gadw gwyliadwriaeth gudd gael ei roi gan Swyddogion Awdurdodi sydd wedi'u hyfforddi a'u dynodi'n briodol; a
- Dim ond ar ôl cael cymeradwyaeth ynad y caniateir cadw gwyliadwriaeth gudd (sy'n cael ei rheoleiddio gan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA').

**Hyfforddiant ac adolygiadau**

8. Rhaid i bob un o swyddogion y Cyngor sy'n cadw gwyliadwriaeth gudd gael hyfforddiant priodol i sicrhau ei fod yn deall ei rwymedigaethau cyfreithiol a gweithredol. Dylai'r swyddogion fod yn gymwys ac yn hyderus i gyflawni'u swyddogaethau o dan RIPA. Dylid darparu hyfforddiant atgoffa a dylai'r swyddogion ei gyflawni yn ôl y gofyn. Dylai'r hyfforddiant gynnwys ymarferion a thrafod unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Dylai'r hyfforddiant hefyd gynnwys cyfarwyddyd ynghylch sut i lenwi'r ffurflenni cais.

9. Rhaid cyflawni archwiliadau'n rheolaidd i sicrhau bod y Swyddogion yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

10. Dylid adolygu'r polisi hwn o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas at y diben.

11. Rhaid i Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'r Cyngor oruchwylio a monitro'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni gweithgareddau RIPA, a hynny drwy gael adroddiadau bob chwe mis.

**Casgliad**

12. Bydd pob dinesydd yn elwa ar y Polisi hwn oherwydd bydd y ddeddfwriaeth droseddol a rheoleiddiol yn cael ei gorfodi'n effeithiol gan ddiogelu'r dinasyddion.

13. O lynu wrth y Polisi hwn, bydd yn sicrhau bod y Cyngor yn ymyrryd cyn lleied â phosibl â bywydau'r dinasyddion, a bydd yn sicrhau nad yw'r Cyngor yn agored i unrhyw her gyfreithiol yn sgil cadw gwyliadwriaeth gudd.

14. Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch y polisi hwn at y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (y Swyddog Monitro a'r Uwch-swyddog Cyfrifol).

Dyddiad ………………………………..

DRAFT

# RHAN 1 – Cyflwyniad i Weithgareddau Gwyliadwriaeth a Reoleiddir gan Bennod 2 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)

Mae Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (‘RIPA’) yn rheoleiddio’r modd y mae nifer o gyrff, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn cyflawni ymchwiliadau cudd. Fe’i cyflwynwyd i ddiogelu hawliau unigolion ac i sicrhau ar yr un pryd fod gan asiantaethau diogelwch ac asiantaethau sy’n gorfodi’r gyfraith y pwerau sydd eu hangen arnynt i gyflawni’u gwaith yn effeithiol.

Felly, mae Cyngor Sir Ceredigion (‘y Cyngor’) yn rhan o’r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer caniatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig, defnyddio ffynonellau cuddwybodaeth ddynol a chael gafael ar ddata cyfathrebu.

Mae rhai adrannau o RIPA wedi’u diddymu a’u disodli gan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (‘IPA 2016’). Yn ogystal â’r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) ei hun, gwnaed sawl set o Reoliadau, ac mae’r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi tri Chod Ymarfer.

Mae’r Cyngor wedi rhoi sylw i’r Codau Ymarfer a baratowyd gan y Swyddfa Gartref, y gweithdrefnau a’r canllawiau a baratowyd gan Swyddfa’r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth a’r Codau Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynwyr Gwybodaeth wrth baratoi’r canllawiau hyn. Dylai fod gan bob Adran gopïau y gall staff gyfeirio atynt.

## Amcanion y ddogfen hon

Amcan y ddogfen hon yw sicrhau bod yr holl wyliadwriaeth gudd (fel y’i diffinnir gan RIPA a deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig) a gedwir gan Swyddogion y Cyngor yn cael ei gynnal yn briodol ac yn gyfreithlon. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Chod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018, Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol, Cod Ymarfer Camerâu a Gweithdrefnau a Chanllawiau Swyddfa’r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (Swyddfa’r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth gynt). Mae Atodlen 1 (isod) yn rhestru deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol y mae’n rhaid eu darllen ar y cyd â’r ddogfen hon, ond nid yw’r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Os na chaiff y gweithdrefnau a nodir yn y Polisi hwn eu dilyn, gall unrhyw dystiolaeth a gesglir yn sgil cadw gwyliadwriaeth fod yn agored i her ar sail hawliau dynol. Felly, mae’n bosibl na fydd y Llys yn ei derbyn, ac nid yw’n debygol y bydd y Cyngor yn dwyn achos ar sail tystiolaeth o’r fath. Gallai unigolion sy’n honni bod eu hawliau dynol i breifatrwydd a pharch at fywyd teuluol wedi’u niweidio hefyd ddwyn achos yn erbyn y Cyngor. Gweler ‘Delio â chwynion gan y cyhoedd’ isod.

## Cwmpas y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn egluro cyfrifoldeb statudol y Cyngor i gydymffurfio â RIPA a deddfwriaeth gysylltiedig. Mae’n darparu canllawiau ac yn amlinellu gweithdrefnau’r Cyngor a’r materion iddo eu hystyried mewn perthynas â’r canlynol:

- Gwyliadwriaeth gyfeiriedig – gweler Rhan 2 isod;
- Ffynhonnell Cudd-wybodaeth Ddynol (‘CHIS’) – gweler Rhan 3 isod; a
- Cael Gafael ar Ddata Cyfathrebu (drwy Un Pwynt Cyswllt (SPOC) y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN)) – gweler Rhan 5 isod.

Dim ond i waith gwyliadwriaeth gudd a chyfeiriedig y mae Rhannau 1 – 3 o’r Polisi hwn yn berthnasol h.y. lle nad yw’r unigolyn neu’r unigolion yn gwybod ar yr adeg y mae’r

wyliadwriaeth yn cael ei chadw ei bod yn digwydd. Diben y rhannau hyn yw helpu swyddogion i benderfynu pa fath o wyliadwriaeth y maent yn ei chadw ac a yw Pennod 2 RIPA'n rheoleiddio'r gwaith hwnnw, cadarnhau'r gweithdrefnau perthnasol a darparu arweiniad

Mae Rhan 4 yn delio â chadw cofnodion, trin data, trefniadau diogelu cadw gwybodaeth ac ymdrin â chwynion a gwallau.

Mae canllawiau wyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA hefyd wedi'u nodi (gweler Rhan 6 isod) isod ar gyfer arsylwi neu wyliadwriaeth sydd heb fod yn gudd.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi Cod Ymarfer ar wahân ynghylch cadw gwyliadwriaeth gan ddefnyddio camerâu teledu cylch cyfyng (ar gael yn: https://ico.org.uk/media/1542/cctv-code-of-practice.pdf).

**Cyfrifoldeb statudol Cyngor Sir Ceredigion**

Mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998, sy'n cynnwys Erthyglau a Phrotocolau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Ddiogelu Hawliau Dynol ('ECHR') y bernir eu bod yn berthnasol yn y DU. Ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, mae adolygiad yn cael ei wneud mewn perthynas â Deddf Hawliau Dynol 1998, ond erys mewn grym ar hyn o bryd.

O dan adran 6 o'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998, nid yw'n gyfreithlon i'r Cyngor weithredu mewn unrhyw ffordd nad yw'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn darparu:

- Bod gan bob unigolyn hawl i barch at ei fywyd preifat a'i fywyd teuluol, ei gartref a'i ohebiaeth; ac
- Na chaiff unrhyw awdurdod cyhoeddus ymyrryd â'r hawl hon ac eithrio mewn ffordd sydd:
    a) Yn unol â'r gyfraith;
    b) Yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er mwyn diogelu'r cyhoedd, atal anhrefn neu drosedd, amddiffyn iechyd neu foesau a diogelu hawliau a rhyddidau eraill.

Felly, bydd gwyliadwriaeth yn mynd yn groes i hawliau dynol unigolyn oni bai iddi gael ei chaniatáu o dan RIPA. Mae RIPA'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer ymyrraeth gyfreithlon.

Drwy gael caniatâd i gadw gwyliadwriaeth yn unol â RIPA, bydd yn helpu i ddiogelu'r Cyngor a'i swyddogion rhag cwynion eu bod wedi ymyrryd â'r hawliau a ddiogelir gan Erthygl 6 ac Erthygl 8 (1) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sydd bellach wedi'i ymgorffori yng nghyfraith y DU drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw ymyrraeth â bywydau preifat y dinasyddion *'yn unol â'r gyfraith'.*

Ar yr amod bod y gweithgareddau hefyd '*yn angenrheidiol ac yn gymesur'* (gweler rhannau dilynol y ddogfen hon i gael mwy o fanylion), ni fyddant yn torri'r ddeddfwriaeth Hawliau Dynol.

Tybir bod gwybodaeth yn wybodaeth breifat os yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â bywyd preifat neu fywyd teuluol yr unigolyn o dan sylw neu fywyd preifat neu fywyd teuluol unrhyw unigolyn arall. Mae hyn yn cynnwys unrhyw agwedd ar berthynas

breifat neu bersonol yr unigolyn ag eraill, gan gynnwys perthynas deuluol, perthynas broffesiynol neu berthynas busnes. Gall gwybodaeth breifat gynnwys data personol, er enghraifft, enwau, rhifau ffôn a chyfeiriadau.

Er enghraifft, os bydd dau unigolyn yn cael sgwrs ar y stryd, gall fod yn rhesymol iddynt ddisgwyl bod cynnwys y sgwrs honno'n breifat. Fodd bynnag, gall fod angen caniatâd i gadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig os bydd awdurdod cyhoeddus yn cofnodi'r sgwrs neu'n gwrando arni fel rhan o ymchwiliad neu ymgyrch.

Felly, gellir caffael *'gwybodaeth breifat'* drwy gadw gwyliadwriaeth gudd gyfeiriedig â chaniatâd hyd yn oed os yw'r unigolyn mewn man cyhoeddus lle y gall fod yn disgwyl llai o breifatrwydd.

Ymhellach, gellir cael gafael ar wybodaeth sy'n ymwneud â bywyd preifat unigolyn pan fydd nifer o gofnodion yn cael eu dadansoddi gyda'i gilydd, neu pan fydd sawl darn o wybodaeth wedi dod i law, yn gudd, er mwyn creu cofnod am unigolyn neu er mwyn prosesu data i gynhyrchu mwy o wybodaeth.

Gall y wybodaeth yn ei chyfanrwydd fod yn gyfystyr â gwybodaeth breifat, hyd yn oed os nad yw'r cofnodion unigol yn gyfystyr â gwybodaeth o'r fath. Er enghraifft, gall swyddogion gorfodi dynnu llun o'r tu allan i safle busnes ar gyfer eu cofnodion heb fod angen caniatâd RIPA arnynt. Fodd bynnag, os bydd y swyddogion am bennu'r patrwm o ran y modd y mae unigolyn yn defnyddio'r safle hwnnw a'u bod yn tynnu lluniau ar sawl achlysur, mae'n debygol y bydd hynny'n arwain at gaffael gwybodaeth breifat. Felly, bydd angen iddynt gydymffurfio â gofynion RIPA.

**<u>Rôl yr Aelodau Etholedig</u>**

Mae'r Codau Ymarfer statudol a gyhoeddwyd mewn perthynas â RIPA, sef Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018, yn datgan y dylai Aelodau etholedig adolygu'r modd y mae'r Cyngor yn defnyddio RIPA a phennu'r Polisi o leiaf unwaith y flwyddyn.

Dylai Aelodau hefyd ystyried adroddiadau mewnol ynghylch y modd y mae RIPA'n cael ei defnyddio yn rheolaidd, a hynny i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio mewn ffordd sy'n gyson â pholisi'r Cyngor a bod y polisi hwnnw'n dal i fod yn addas at y diben.

**<u>Rôl yr Uwch-swyddog Cyfrifol</u>**

Mae'r Codau Ymarfer statudol a gyhoeddwyd mewn perthynas â RIPA, sef Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018, yn dweud y dylai'r cynghorau benodi Uwch-swyddog Cyfrifol.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro yw Uwch-swyddog Cyfrifol Cyngor Sir Ceredigion. Dylai fod modd i'r Uwch-swyddog Cyfrifol roi cyngor i'r Swyddogion am y weithdrefn RIPA a dylai fod yn gyfrifol am:

1. Uniondeb y broses sydd ar waith yn yr awdurdod cyhoeddus i ganiatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig, defnyddio ffynonellau cuddwybodaeth ddynol ac ymyrryd ag eiddo neu delegraffiaeth ddiwifr;

2. Cydymffurfio â Phennod 2 o RIPA a'r codau perthnasol; ac

3. Ymgysylltu â'r Comisiynwyr a'r arolygwyr pan fyddant yn cyflawni'u harolygiadau, a lle bo angen, goruchwylio'r camau i gyflawni unrhyw gynlluniau gweithredu yn sgil arolygiad a argymhellir neu a gymeradwyir gan Gomisiynydd.

Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol hefyd yn gyfrifol am oruchwylio a chydgysylltu:

1. Cyflwyno adroddiadau chwarterol sy'n rhoi manylion am weithgarwch RIPA i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu:

2. Adolygiad blynyddol y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu o'r Polisi hwn

3. Pennu materion sy'n codi yn y broses oruchwylio i sicrhau bod modd dadansoddi'r materion, darparu tystiolaeth o'r canlyniadau, a bwydo'r wybodaeth yn ei hôl i'r hyfforddiant RIPA i sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw corfforaethol;

4. Goruchwylio'r broses RIPA'n ffurfiol o fewn y Cyngor, gan gynnwys pennu anghenion hyfforddi unigol a chorfforaethol a rhannu gwybodaeth a

5. Chynnal cofrestr o ffugenwau/persona ar-lein gan gynnwys manylion y gwasanaethau/unigolion sy'n gallu eu defnyddio/eu cymeradwyo.

**<u>Rôl Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('IPCO')</u>**

Mae Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn darparu ar gyfer Comisiynydd Pwerau Ymchwilio *('y Comisiynydd')*, y mae ei gylch gwaith yn cynnwys darparu goruchwyliaeth gynhwysfawr o'r defnydd o'r pwerau y mae'r cod hwn yn berthnasol iddynt, a glynu wrth yr arferion a'r prosesau a ddisgrifir ynddo.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn gweithredu fel corff rheoleiddio o ran yr agweddau hynny o RIPA a Data Cyfathrebu sy'n ymwneud â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Y Swyddfa hon sy'n arolygu'r awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â RIPA o ran caniatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig a defnyddio ffynonellau cuddwybodaeth ddynol. Nid yw Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn rhoi cyngor cyfreithiol, ond gall roi arweiniad, lle bo'n briodol, ar gais Uwch-swyddog Cyfrifol awdurdod cyhoeddus.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio, ei swyddfa a'I waith yn: www.ipco.org.uk.

**<u>Rôl Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ('ICO')</u>**

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw'r awdurdod annibynnol a sefydlwyd yn y DU i amddiffyn hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, gan hybu arferion da, annog cyrff cyhoeddus i fod yn agored, sicrhau bod data unigolion yn cael eu cadw'n breifat a rhoi cyngor am safonau. Mae ei harchwiliadau hefyd yn ystyried y modd y mae sefydliadau'n ymdrin â cheisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

# RHAN 2 – Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig

Ym Mhennod 2 RIPA, nodir fframwaith rheoleiddio'r technegau ymchwilio cudd a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthygl 8, (yr hawl i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol).

Y mater cyntaf i unrhyw swyddog awdurdod lleol sy'n ystyried cadw gwyliadwriaeth gudd yw pa fath o wyliadwriaeth y mae'n ei gadw, ac **a yw'n rhywbeth y gellir ei ganiatáu o dan RIPA.** Mae Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig yn un o'r ddwy dechneg wyliadwriaeth sydd ar gael i'r Cyngor o dan Ran 2 o Bennod 2 o RIPA. Yr ail dechneg sydd ar gael yw Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, ond ni all y Cyngor ganiatáu'r drydedd dechneg, sef Gwyliadwriaeth Agored.

Mae Cod Ymarfer Diwygiedig Gwyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn cadarnhau ym mharagraff 2.2 a 2.3:

'*Surveillance, for the purpose of the 2000 Act, includes monitoring, observing or listening to persons, their movements, conversations or other activities and communications. It may be conducted with or without the assistance of a surveillance device and includes the recording of any information obtained*

*Surveillance is covert if, and only if, it is carried out in a manner calculated to ensure that any persons who are subject to the surveillance are unaware that it is or may be taking place.'*

**<u>Ystyr 'Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig':</u>**

Diffinnir Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig yn A.26(2) o'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio.

*'Subject to subsection (6), surveillance is directed for the purposes of this Part if it is covert but not intrusive and is undertaken -*

*(a) for the purposes of a specific investigation or a specific operation;*
*(b) in such a manner as is likely to result in the obtaining of private information about a person (whether or not one specifically identified for the purposes of the investigation or operation); and*
*(c) otherwise than by way of an immediate response to events or circumstances the nature of which is such that it would not be reasonably practicable for an authorisation under this Part to be sought for the carrying out of the surveillance.'*

Fel rheol, bydd awdurdodau lleol yn defnyddio Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig pan fyddant yn ymchwilio i dwyll budd-daliadau, troseddau safonau masnach neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. I wneud hyn, gallant ffilmio unigolyn yn gudd neu ddilyn unigolyn neu fonitro gweithgareddau unigolyn drwy ddulliau eraill.

Cyn cadw gwyliadwriaeth gudd, rhaid i'r swyddog ymchwilio ofyn pum cwestiwn (a chael atebion cadarnhaol i bob un ohonynt), a hynny cyn bod modd pennu bod y gweithgareddau'n gyfystyr â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig:

- A yw'r wyliadwriaeth mewn gwirionedd yn "wyliadwriaeth" *("surveillance")* fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)?
- A fydd yn gudd?
- A yw'n cael ei chyflawni ar gyfer ymchwiliad penodol neu ymgyrch benodol?
- A yw'n debygol o arwain at gaffael gwybodaeth breifat am unigolyn?
- A fydd yn cael ei chyflawni ac eithrio mewn ymateb uniongyrchol i ddigwyddiadau?

*Gweler **Siart lif 1 isod** i asesu a yw'n wyliadwriaeth gyfeiriedig.*

**<u>Y prif bwyntiau i'w nodi:</u>**

A. Nid yw **arsylwadau cyffredinol** yn gyfystyr â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig. Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn datgan (ym Mharagraff 3.33):

> *'The general observation duties of many law enforcement officers and other public authorities do not require authorisation under the 2000 Act, whether covert or overt. Such general observation duties frequently form part of the legislative functions of public authorities, as opposed to the pre-planned surveillance of a specific person or group of people. General observation duties may include monitoring of publicly accessible areas of the internet in circumstances where it is not part of a specific investigation or operation'*

B. Dim ond os yw'n **gudd** y mae gwyliadwriaeth yn gyfeiriedig. Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn datgan (ym Mharagraff 2.3) (yn unol â 26(9)a) RIPA):

> *'Surveillance is covert if, and only if, it is carried out in a manner that is calculated to ensure that persons who are subject to the surveillance are unaware that it is or may be taking place'*

> Yn unol â hyn, mae'n ofynnol i swyddogion ymchwilio ystyried y modd y byddant yn cadw gwyliadwriaeth. Os byddant yn ei wneud yn agored, heb geisio'i gelu, neu os byddant yn anfon llythyr at y targed i'w rybuddio cyn cadw gwyliadwriaeth, ni fydd yn wyliadwriaeth gudd.

C. Mae'r diffiniad o ***'wybodaeth breifat'*** *('private information')* yn eang iawn. Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 diwygiedig yn datgan:

> *'3.3 The 2000 Act states that private information includes any information relating to a person's private or family life. Private information should be taken generally to include any aspect of a person's private or personal relationship with others, including family and professional or business relationships. Information which is non-private may include publicly available information such as books, newspapers, journals, TV and radio broadcasts, newswires, web sites, mapping imagery, academic articles, conference proceedings, business reports, and more. Such information may also include commercially available data where a fee may be charged, and any data which is available on request or made at a meeting to a member of the public. Non-private data will also include the attributes of inanimate objects such as the class to which a cargo ship belongs.*

> *3.4 Whilst a person may have a reduced expectation of privacy when in a public place, covert surveillance of that person's activities in public may still result in the obtaining of private information. This is likely to be the case where that person has a reasonable expectation of privacy even though acting in public and where a record is being made by a public authority of that person's activities for future consideration or analysis. Surveillance of publicly accessible areas of the internet should be treated in a similar way, recognising that there may be an expectation of privacy over information*

DRAFT

*which is on the internet, particularly where accessing information on social media websites'*

Yn aml, bydd swyddogion ymchwilio'n tybio'n anghywir nad ydynt yn debygol o gaffael gwybodaeth breifat os ydynt yn gwylio rhywun yn gudd mewn man cyhoeddus neu'n arsylwi ar weithgareddau mewn swyddfa neu ar safle busnes. Nid ydynt yn credu eu bod yn cadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig. Serch hynny, mae'r rhannau uchod o'r cod yn golygu ei bod yn annhebygol iawn y bydd modd i awdurdod cyhoeddus ddadlau'n llwyddiannus na fydd gwyliadwriaeth fyth yn arwain at gaffael gwybodaeth breifat.

D. Pan fydd angen cadw gwyliadwriaeth gudd mewn **argyfwng** a phan na fydd amser i ganiatáu'r gweithgarwch (h.y. ymateb brys i ddigwyddiadau), gellir cadw gwyliadwriaeth ond ni fydd angen caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig. Serch hynny, mae'n bwysig nodi na fyddai'r amgylchiadau hyn yn debygol o fod yn berthnasol i'r Cyngor, oherwydd, pe bai'n cael ei herio, byddai'n ofynnol i'r Cyngor ddangos ei fod yn ymateb i ddigwyddiadau ar fryd ac nad oedd yn rhesymol ymarferol i geisio caniatâd. Ni argymhellir gweithredu fel hyn ac os ystyrir bod sefyllfa o argyfwng, dylid ceisio cyngor gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar unwaith.

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 diwygiedig yn datgan (ym Mharagraff 3.32):

*'Covert surveillance that is likely to reveal private information about a person but is carried out by way of an immediate response to events such that it is not reasonably practicable to obtain an authorisation under the 2000 Act, would not require a directed surveillance authorisation. The 2000 Act is not intended to prevent law enforcement officers fulfilling their legislative functions. To this end section 26(2)(c) of the 2000 Act provides that surveillance is not directed surveillance when it is carried out by way of an immediate response to events or circumstances the nature of which is such that it is not reasonably practicable for an authorisation to be sought for the carrying out of the surveillance.'*

Mae Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn rhoi enghraifft o ganiatâd o dan RIPA and yw'n briodol lle mae swyddogion heddlu yn cuddio eu hunain i arsylwi ar bobl amheus y dônt ar eu traws yn ystod patrôl arferol neu fonitro cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ystod digwyddiad trefn gyhoeddus.

**E. Gweithgarwch Cudd Ar-lein**

Mae Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA y Cyngor (ar gael yn [nodwch y ddolen]) yn amlinellu'r hyn y mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo yn ei nodi ynghylch gweithgarwch cudd ar-lein, a'i gyngor perthnasol i helpu Swyddogion i ddeall pryd y gallai fod angen caniatâd RIPA. Gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA y Cyngor i gael gofynion a chanllawiau'r Cyngor ynghylch personâu ar-lein.

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn datgan (ym Mharagraff 3.10):

*"The growth of the internet and the extent of the information that is now available online, presents new opportunities for public authorities to view or gather information which may assist them in preventing or detecting crime or carrying out other statutory functions, as well as in understanding and engaging with the public they serve. It is important that public authorities are able to make full and lawful use of this information for their statutory purposes. Much of it can be accessed without the need for RIPA*

*authorisations; use of the internet prior to an investigation should not normally engage privacy considerations. But if the study of an individual's online presence becomes persistent, or where material obtained from any check is to be extracted and recorded and may engage privacy considerations, RIPA authorisations may need to be considered. The following guidance is intended to assist public authorities in identifying when such authorisations may be appropriate."*

Mae Paragraffau 3.11 – 3.17 o'r Cod hefyd yn cynnwys cyngor perthnasol a fydd yn helpu Swyddogion i ddeall pryd y byddai angen caniatâd RIPA:-

3.11 *"The internet may be used for intelligence gathering and/or as a surveillance tool. Where online monitoring or investigation is conducted covertly for the purpose of a specific investigation or operation and is likely to result in the obtaining of private information about a person or group, an authorisation for directed surveillance should be considered, as set out elsewhere in this code. Where a person acting on behalf of a public authority is intending to engage with others online without disclosing his or her identity, a CHIS authorisation may be needed (paragraphs 4.10 to 4.16 of the Covert Human Intelligence Sources code of practice provide detail on where a CHIS authorisation may be available for online activity).*

3.12 *In deciding whether online surveillance should be regarded as covert, consideration should be given to the likelihood of the subject(s) knowing that the surveillance is or may be taking place. Use of the internet itself may be considered as adopting a surveillance technique calculated to ensure that the subject is unaware of it, even if no further steps are taken to conceal the activity. Conversely, where a public authority has taken reasonable steps to inform the public or particular individuals that the surveillance is or may be taking place, the activity may be regarded as overt and a directed surveillance authorisation will not normally be available.*

*3.13 As set out in paragraph 3.14 below, depending on the nature of the online platform, there may be a reduced expectation of privacy where information relating to a person or group of people is made openly available within the public domain, however in some circumstances privacy implications still apply. This is because the intention when making such information available was not for it to be used for a covert purpose such as investigative activity. This is regardless of whether a user of a website or social media platform has sought to protect such information by restricting its access by activating privacy settings.*

*3.14 Where information about an individual is placed on a publicly accessible database, for example the telephone directory or Companies House, which is commonly used and known to be accessible to all, they are unlikely to have any reasonable expectation of privacy over the monitoring by public authorities of that information. Individuals who post information on social media networks and other websites whose purpose is to communicate messages to a wide audience are also less likely to hold a reasonable expectation of privacy in relation to that information.*

*3.15 Whether a public authority interferes with a person's private life includes a consideration of the nature of the public authority's activity in relation to that information. Simple reconnaissance of such sites (i.e. preliminary examination with a view to establishing whether the site or its contents are of interest) is unlikely to interfere with a person's reasonably held expectation of privacy and therefore is not likely to require a directed surveillance authorisation. But where a public authority is systematically collecting and recording information about a particular person or group,*

*a directed surveillance authorisation should be considered. These considerations apply regardless of when the information was shared online. See also paragraph 3.6.*

***Example 1:*** *A police officer undertakes a simple internet search on a name, address or telephone number to find out whether a subject of interest has an online presence. This is unlikely to need an authorisation. However, if having found an individual's social media profile or identity, it is decided to monitor it or extract information from it for retention in a record because it is relevant to an investigation or operation, authorisation should then be considered.*

***Example 2:*** *A customs officer makes an initial examination of an individual's online profile to establish whether they are of relevance to an investigation. This is unlikely to need an authorisation. However, if during that visit it is intended to extract and record information to establish a profile including information such as identity, pattern of life, habits, intentions or associations, it may be advisable to have in place an authorisation even for that single visit. (As set out in the following paragraph, the purpose of the visit may be relevant as to whether an authorisation should be sought.)*

***Example 3:*** *A public authority undertakes general monitoring of the internet in circumstances where it is not part of a specific, ongoing investigation or operation to identify themes, trends, possible indicators of criminality or other factors that may influence operational strategies or deployments. This activity does not require RIPA authorisation. However, when this activity leads to the discovery of previously unknown subjects of interest, once it is decided to monitor those individuals as part of an ongoing operation or investigation, authorisation should be considered.*

*3.16 In order to determine whether a directed surveillance authorisation should be sought for accessing information on a website as part of a covert investigation or operation, it is necessary to look at the intended purpose and scope of the online activity it is proposed to undertake. Factors that should be considered in establishing whether a directed surveillance authorisation is required include:*

*Whether the investigation or research is directed towards an individual or organisation;*

*Whether it is likely to result in obtaining private information about a person or group of people (taking account of the guidance at paragraph 3.6 above);*

*Whether it is likely to involve visiting internet sites to build up an intelligence picture or profile;*

*Whether the information obtained will be recorded and retained;*

*Whether the information is likely to provide an observer with a pattern of lifestyle;*

*Whether the information is being combined with other sources of information or intelligence, which amounts to information relating to a person's private life;*

*Whether the investigation or research is part of an ongoing piece of work involving repeated viewing of the subject(s);*

*Whether it is likely to involve identifying and recording information about third parties, such as friends and family members of the subject of interest, or information posted by third parties, that may include private information and therefore constitute collateral intrusion into the privacy of these third parties.*

*3.17 Internet searches carried out by a third party on behalf of a public authority, or with the use of a search tool, may still require a directed surveillance authorisation (see paragraph 4.32).*

***Example:*** *Researchers within a public authority using automated monitoring tools to search for common terminology used online for illegal purposes will not normally require a directed surveillance authorisation. Similarly, general analysis of data by public authorities either directly or through a third party for predictive purposes (e.g. identifying crime hotspots or analysing trends) is not usually directed surveillance. In such cases, the focus on individuals or groups is likely to be sufficiently cursory that it would not meet the definition of surveillance. But officers should be aware of the possibility that the broad thematic research may evolve, and that authorisation may be appropriate at the point where it begins to focus on specific individuals or groups. If specific names or other identifiers of an individual or group are applied to the search or analysis, an authorisation should be considered."*

Mae gwylio presenoldeb rhywun ar-lein – yn gudd ac mewn modd systemataidd a rheolaidd – yn gallu codi ystyriaethau preifatrwydd ac felly byddai angen ystyried cael caniatâd RIPA

Yn unol â Pharagraff 4.16 o'r Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo, pan fydd awdurdod cyhoeddus yn bwriadu cael mynediad i gyfrif cyfryngau cymdeithasol neu gyfrif ar-lein arall y rhoddwyd mynediad i'r awdurdod drwy ganiatâd y perchennog, bydd dal angen i'r Awdurdod ystyried a fydd y cyfrif yn cynnwys gwybodaeth am eraill nad ydynt wedi rhoi eu caniatâd ac, os felly, a oes angen cael caniatâd ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig.

Pan fydd sawl asiantaeth yn gweithio ynghyd, dim ond un ohonynt fyddai angen cael caniatâd am weithgarwch cuddwylio, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau.

**Personâu ar-lein**

Pan ganiateir defnyddio'r rhain yn gorfforaethol, bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cadw cofrestr ganolog o'r ffugenwau, proffiliau/cyfrifon hyn, ynghyd â manylion y gwasanaethau neu'r swyddogion unigol sydd wedi cael yr hawl i'w defnyddio/i roi caniatâd i'w defnyddio.

**Gwybodaeth Gwyliadwriaeth Gudd ar y Cyfryngau Cymdeithasol a Phersonâu Ar-lein**

Mae'n ofynnol i Wasanaethau perthnasol y Cyngor wneud y canlynol:

- cofnodi gwybodaeth/data sy'n ymwneud â gwyliadwriaeth gudd ar y cyfryngau cymdeithasol/ar-lein, gan gynnwys personâu ar-lein (* gweler isod)
- nodi Swyddog Dynodedig
- rhoi'r data hwn i'r Swyddog Dynodedig; a
- rhaid i'r Swyddog Dynodedig ddarparu'r wybodaeth i'r Uwch-swyddog Cyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol (Swyddog Llywodraethu) bob 4 mis.

*Bydd yn rhaid i'r Swyddog Dynodedig gadw'r wybodaeth ganlynol:

- pa safleoedd cyfryngol/broffiliau ar-lein yr ymwelwyd â hwy;
- a oedd mynediad I safle(oedd0 cyfryngol/broffil(iau) ar-lein wedi'i gyfyngu (rhowch fanylion);
- pryd ymwelwyd â'r safle(oedd) cyfryngau/proffil(iau) ar-lein;
- gan bwy (Swyddog/Defnyddiwr);

- ar gais pwy;
- pwy roddodd ganiatâd;
- manylion yr wyliadwriaeth e.e. cyfeirnod yr achos, ymgyrch, ymchwiliad;
- dyddiad y cais;
- dyddiad mynediad;
- ar ba broffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol;
- a ddefnyddiwyd persona ar-lein/proffil ffug/hunaniaeth ffug? Os felly, pa un?
- a ddefnyddiwyd proffil corfforaethol swyddogol? Os felly, pa un?
- sawl gwaith;
- hyd y gwylio;
- at ba ddiben/ar ba sail resymegol yr ymwelwyd â'r safle(oedd) cyfryngol/proffil(iau) ar-lein;
- cadarnhad bod yr unigolyn y mae ei hunaniaeth yn cael ei defnyddio wedi rhoi ei ganiatâd penodol yn ysgrifenedig, a bod ei ddiogelwch wedi'i ystyried, a manylion yr hyn a'r hyn na fydd yn cael ei wneud;
- nod/gwybodaeth a geisir;
- oedd yr unigolyn dan sylw yn ymwybodol o hyn;
- pa ddata gafodd eu caffael (gan gynnwys gwybodaeth anuniongyrchol);
- beth wnaethpwyd ag unrhyw gynnyrch a ddaeth yn sgil hynny;
- manylion y cyfryngau cymdeithasol sy'n berthnasol i'r cais;
- esboniad pam bod angen persona ar-lein a bod dulliau gwahanol yn cael eu hystyried;
- cadarnhau a yw asesiad risg wedi cael ei ystyried/ei gynnal;
- unrhyw ganlyniad, gan gynnwys unrhyw risg i'r Swyddog (ac os nad oes, pam).

Rhaid i swyddogion sy'n defnyddio safleoedd o'r fath hefyd ddilyn y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Corfforaethol (2016) (ar gael ar fewnrwyd y Cyngor (CeriNet).

- *'5.6 Yn ystod oriau gwaith, ni chaiff cyflogeion ond fynd i wefannau cyfryngau cymdeithasol cymeradwy sy'n ofynnol ar gyfer eu swyddi ac edrych ar dudalennau o'r fath.*

- *Rhaid bod modd cyfiawnhau defnyddio gwefannau o'r fath a rhaid i'w rheolwr llinell gymeradwyo gwneud hynny cyn iddynt fynd i wefannau o'r fath.*

- *6.3 Rhaid i staff sy'n gweithio mewn amgylchedd diogelu sylweddoli eu bod yn cyflawni swyddi sensitif. Cyn iddynt ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, dylent ystyried a allai eu gweithredoedd arwain at unrhyw bryderon posibl o ran diogelu.*

- *Gwnewch yn siŵr nad yw eich cyfrif Facebook personol yn niweidio eich rôl broffesiynol, dylech sicrhau bod eich gosodiadau preifatrwydd yn briodol.*

- *Peidiwch â defnyddio eich manylion cyswllt yn y gwaith fel rhan o'ch proffil personol*

- *Peidiwch â defnyddio eich proffil personol mewn unrhyw ffordd ar gyfer busnes swyddogol y Cyngor*

- *Ar eich proffil personol – peidiwch â derbyn cais i fod yn ffrind gan aelod o'r cyhoedd os yw'ch perthynas â'r unigolyn hwnnw'n gysylltiedig â'ch gwaith yn bennaf.*


DRAFT

- *Ar eich proffil personol – peidiwch â derbyn ceisiadau i fod yn ffrind gan ddisgyblion (na'u rhieni) nac oedolion sy'n agored i niwed yr ydych yn gweithio gyda nhw.'*

Mae Polisi Cyfryngau Cymdeithasu RIPA y Cyngor yn berthnasol i bob un o weithwyr y Cyngor ac mae'n amlinellu safle'r Cyngor ynghylch defnyddio'r rhyngrwyd, pori ar y we ar ddyfeisiau symudol ac yn benodol gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol, wrth ymwneud â gwyliadwriaeth, a allai gynnwys ymchwiliad, yn unol â RIPA. Dylid darllen Polisi'r Cyngor ar Gyfryngau Cymdeithasol at ddibenion RIPA ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

DRAFFT

## Siart lif 1 – A ydych yn cadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig?




DRAFT

**Ystyr 'Gwyliadwriaeth Ymwthiol':**

*Mae A.26(3) RIPA yn datgan:*

> *'Subject to subsections (4) to (6), surveillance is intrusive for the purposes of this Part if, and only if, it is covert surveillance that—*
> *(a)* is carried out in relation to anything taking place on any residential premises or in any private vehicle; and
> *(b)* involves the presence of an individual on the premises or in the vehicle or is carried out by means of a surveillance device.'

Fel y mae'r enw yn ei awgrymu, mae'r math hwn o wyliadwriaeth yn llawer mwy ymwthiol ac felly mae'r ddeddfwriaeth wedi'i llunio mewn modd sy'n diogelu'r dinesydd i raddau mwy helaeth. Dim ond Uwch-swyddog Awdurdodi yn yr awdurdodau cyhoeddus hynny a restrir yn A.32(6) RIPA neu a ychwanegwyd ati, neu aelod neu swyddog o'r awdurdodau cyhoeddus hynny a restrir yn adran 41(l) neu a ychwanegwyd ati a gaiff wneud cais i gadw Gwyliadwriaeth Ymwthiol. **Ni chaiff** awdurdodau lleol **ganiatáu gwyliadwriaeth ymwthiol.**

Mae'n dal i fod yn bwysig deall diffiniad Gwyliadwriaeth Ymwthiol oherwydd weithiau gall swyddogion sy'n or-awyddus groesi'r ffin a chadw gwyliadwriaeth o'r fath yn y pen draw. Rhaid gofyn y cwestiynau a ganlyn:

- A yw'n wyliadwriaeth gudd fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)?
- A yw'n cael ei chyflawni mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n digwydd ar unrhyw safle preswyl neu mewn unrhyw gerbyd preifat?
- A yw'n ymwneud â phresenoldeb unigolyn ar y safle neu yn y cerbyd? ac
- A yw'n cael ei chyflawni drwy gyfrwng dyfais wyliadwriaeth ar y safle neu yn y cerbyd?

*Gweler **Siart lif 2** i asesu a yw'r wyliadwriaeth yn ymwthiol.*

**Y prif bwyntiau i'w nodi:**

A. Pan fyddwch yn cadw gwyliadwriaeth gudd ar safle, ni all ond fod yn 'ymwthiol' os yw'n cael ei chyflawni mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n digwydd ar safle preswyl. Fe'i diffinnir yn A.48(1) RIPA:

   *'residential premises" means (subject to subsection (7)(b)) so much of any premises as is for the time being occupied or used by any person, however temporarily, for residential purposes or otherwise as living accommodation (including hotel or prison accommodation that is so occupied or used);'*

   Ni ystyrir bod cadw gwyliadwriaeth gudd ar safle busnes yn wyliadwriaeth ymwthiol e.e. lle bo swyddog yn cadw golwg ar ystad ddiwydiannol lle credir bod busnes bwyd yn cynhyrchu fodca 'ffug', neu lle bo siop yn cael ei hamau o werthu tybaco i rai dan ddeunaw, ac ati.

   Serch hynny, rhaid bod yn ofalus os yw'r busnes mewn adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel man byw e.e. rhywun sy'n cael ei amau o gynhyrchu DVDs ffug o garafán sydd hefyd yn annedd breifat i'r person. Ni chaniateir cadw gwyliadwriaeth (sy'n cynnwys ffilmio neu dynnu llun) o bobl mewn mannau byw preifat oherwydd byddai hyn yn cael ei ystyried yn wyliadwriaeth ymwthiol.

B. Nid yw pob math o wyliadwriaeth ar gerbydau'n 'ymwthiol'; rhaid bod y targed yn gerbyd preifat fel y'i diffinnir yn A.48(1):

*'private vehicle" means (subject to subsection (7)(a)) any vehicle which is used primarily for the private purposes of the person who owns it or of a person otherwise having the right to use it;'*

Gall y cerbyd fod yn gerbyd y mae'r unigolyn yn berchen arno neu'n gerbyd y mae wedi'i fenthyg, ei hurio neu'i brydlesu. Fodd bynnag (yn rhinwedd A.48(7)(a)) nid yw'r wyliadwriaeth yn ymwthiol os yw'r cerbyd targed yn dacsi neu'n gerbyd sy'n cael ei yrru gan *chauffeur,* fel gwasanaeth bws cyhoeddus.

C. Er mwyn i'r wyliadwriaeth fod yn ymwthiol yn hytrach na chyfeiriedig, rhaid iddi gael ei chyflawni pan fydd unigolyn yn bresennol ar y safle neu yn y cerbyd.

Mae'n eithriadol o annhebygol y bydd awdurdodau lleol yn caniatáu i'w staff gadw gwyliadwriaeth drwy fynd i mewn i gerbyd preifat yn gudd. Fodd bynnag, gall swyddog fod wedi'i leoli ar safle preswyl i arsylwi'n gudd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Er mai'r heddlu sydd fel rheol yn cyflawni gwaith o'r fath, rhaid bod yn ofalus. Er enghraifft, gall ymchwilydd brwdfrydig sy'n tynnu lluniau cudd o'r tu allan i dŷ benderfynu symud i safle neu leoliad mwy cudd i gael lluniau cliriach.

D. Gall gwyliadwriaeth fod yn ymwthiol hyd yn oed os nad yw'r swyddog ymchwilio ar safle neu tu mewn i gerbyd ond ei fod yn defnyddio dyfais wyliadwriaeth fel camera, dyfais wrando, peiriant recordio neu hyd yn oed finocwlars.

Fodd bynnag, dylid sylwi ar eiriad A.26 (5):


*'For the purposes of this Part surveillance which -*

*(a) is carried out by means of a surveillance device in relation to anything taking place on any residential premises or in any private vehicle, but*

*(b) is carried out without that device being present on the premises or in the vehicle, is not intrusive unless <u>the device is such that it consistently provides information of the same quality and detail as might be expected to be obtained from a device actually present on the premises or in the vehicle</u>.'*

DRAFT

## Siart lif 2 – A ydych yn cadw Gwyliadwriaeth Ymwthiol?




DRAFT

**Cyfyngiadau ar ddefnyddio Gwyliadwriaeth Gudd Gyfeiriedig**

Cyflwynwyd rhagor o gyfyngiadau o ran y modd y mae'r awdurdodau lleol yn defnyddio RIPA yng Ngorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) 2012 (OS rhif 1500) (gweler paragraff 4.44 o God Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo 2018).

Mae'n rhwystro Swyddogion Awdurdodi awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, rhag caniatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig oni bai ei bod yn angenrheidiol er mwyn atal neu ganfod trosedd a'i bod yn bodloni'r amodau a ganlyn:

- Bod modd cosbi'r drosedd i'w hatal neu'i chanfod drwy uchafswm o chwe mis o garchar o leiaf neu
- Ei bod yn drosedd o dan adrannau 146, 147 neu 147A o Ddeddf Trwyddedu 2003 (gwerthu alcohol i blant) neu adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (gwerthu tybaco i blant o dan 18 oed).

Nid yw'r '*trothwy trosedd'* hwn yn berthnasol i'r broses o ganiatáu i'r awdurdod lleol ddefnyddio ffynonellau cuddwybodaeth ddynol neu gaffael data cyfathrebu.

Mae'r diwygiadau i'r ddeddfwriaeth yn dal i ganiatáu i'r Cyngor ganiatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig, ond dim ond mewn achosion mwy difrifol, cyhyd â'i bod yn bodloni'r profion eraill h.y. ei bod yn *'angenrheidiol'* ac yn '*gymesur'* ac os yw Ynad Heddwch (Ynad) wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw.

Felly, mae'n hanfodol bod swyddogion ymchwilio'n ystyried y gosb sy'n gysylltiedig â'r drosedd y maent yn ymchwilio iddi **CYN** iddynt ystyried a fydd yn bosibl cael caniatâd i gadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig.

Os nad yw Swyddog Awdurdodi'n sicr a ddylai ganiatáu gwyliadwriaeth, dylai ofyn am gyngor gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol.

**Uwch lefelau awdurdodi**

Dim ond swyddogion awdurdodi â'r hawl ganddynt i roi caniatadau yn ymwneud â gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig gaiff awdurdodi gwyliadwriaeth gyfeiriedig sy'n debygol o arwain neu y bwriedir iddi arwain at gaffael gwybodaeth am ddeunydd cyfrinachol neu freintiedig. Mae'r math hwn o wybodaeth yn cynnwys:-

- Deunydd sy'n rhwym wrth fraint gyfreithiol;
- Gwybodaeth bersonol gyfrinachol;
- Gwybodaeth gyfansoddiadol gyfrinachol; a
- Deunydd newyddiadurol cyfrinachol a ffynonellau newyddiadurwyr.

Yn y Cyngor, y Swyddogion Awdurdodi sydd â'r hawl i ddyfarnu awdurdodau o ran gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig yw'r Prif Weithredwr neu (yn ei absenoldeb) yr unigolyn sy'n gweithredu fel y Prif Weithredwr (h.y. Cyfarwyddwr Corfforaethol).

Rhaid bod yn ofalus lle, drwy ddefnyddio gwyliadwriaeth, y byddai'n bosibl caffael gwybodaeth am drafodaethau rhwng gweinidog yr efengyl ac unigolyn sy'n ymwneud â lles ysbrydol yr olaf, neu lle gallai materion cyfrinachedd meddygol neu newyddiadurol godi.

Pan fydd deunydd o'r fath wedi'i gaffael a'i gadw, rhaid hysbysu Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor cyn gynted â phosibl, gan y dylid rhoi gwybod I Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) am y mater yn ystod ei harolygiad nesaf, a dylai'r deunydd fod ar gael i'r IPCO, os gofynnir amdano.

DRAFT

**Sylwch nad yw RIPA'n galluogi'r awdurdod lleol i ganiatáu gwyliadwriaeth ymwthiol** (i gael mwy o fanylion, gweler Rhan 2 isod).

**Achosion brys – (Paragraff 4.42 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018)**

Mae Paragraff 4.42 o'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn datgan:

> *'The Protection of Freedoms Act 2012 amended the 2000 Act to make local authority authorisations subject to judicial approval. The change means that local authorities need to obtain an order approving the grant or renewal of an authorisation from a judicial authority, before it can take effect. In England and Wales an application for such an order must be made to a Justice of the Peace (JP). If the JP is satisfied that the statutory tests have been met and that the use of the technique is necessary and proportionate, he or she will issue an order approving the grant or renewal for the use of the technique as described in the application. The amendment means that* ***local authorities are no longer able to orally authorise the use of RIPA techniques.*** *All 37 The senior responsible officer should be a person holding the office, rank or position of an authorising officer within the relevant public authority.* ***authorisations must be made in writing and require JP approval. The authorisation cannot commence until this has been obtained.****'*

Mae hyn yn golygu nad yw Awdurdodau Lleol bellach yn gallu awdurdodi ar lafar y defnydd o dechnegau RIPA. Rhaid i bob caniatâd gael ei wneud yn ysgrifenedig a gyda chymeradwyaeth Ynad. Ni fydd y caniatâd yn dechrau hyd nes bydd y gymeradwyaeth hon wedi'i chael. Dylai'r Uwch-swyddog Cyfrifol fod yn unigolyn sy'n dal swydd, rheng neu radd Swyddog Awdurdodi o fewn yr awdurdod cyhoeddus perthnasol.

Fel arfer, nid ystyrir bod achos yn achos brys oni bai fod yr amser a fyddai'n mynd heibio, ym marn y Swyddog Awdurdodi, yn debygol o beryglu bywyd neu beryglu'r ymchwiliad y rhoddwyd y caniatâd ar ei gyfer.

Ni ddylid ystyried bod angen caniatâd ar frys oherwydd bod swyddog wedi anghofio gwneud cais am ganiatâd neu oherwydd gweithredoedd y Swyddog Awdurdodi neu'r ymgeisydd.

DRAFT

**Y DREFN O WNEUD CAIS AM GANIATÂD GWYLIADWRIAETH GYFEIRIEDIG**

Os yw Swyddog y Cyngor credu bod y camau y mae'n bwriadu'u cymryd yn cydweddu â'r diffiniad o wyliadwriaeth gudd gyfeiriedig, bydd angen iddo wneud cais am ganiatâd gwyliadwriaeth gyfeiriedig RIPA.

Tair prif elfen unrhyw ganiatâd RIPA yw **rheidrwydd, cymesuredd** ac a oes unrhyw risg o **ymyrraeth anuniongyrchol**.

Cyn i'r Swyddog Awdurdodi ganiatáu'r cais RIPA, bydd angen iddo fod yn siŵr bod y caniatâd yn **angenrheidiol** er mwyn atal neu ganfod trosedd, bod y wyliadwriaeth yn gymesur â'r canlyniad gofynnol, a bod unrhyw risg o ymyrraeth anuniongyrchol wedi'i nodi a'i lleihau.

Ni fydd y gweithgarwch gwyliadwriaeth yn **gymesur** os yw'n ormodol o ystyried amgylchiadau'r achos neu os yw'n rhesymol cael gafael ar y wybodaeth drwy ddulliau llai ymwthiol.

**Dim ond y Prif Weithredwr sy'n meddu ar y pŵer i ganiatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig sy'n cynnwys ffilmio unrhyw Aelod Etholedig, unrhyw Gyfarwyddwr Corfforaethol neu unrhyw Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn gudd.**

**Pan fydd sawl asiantaeth yn gweithio ynghyd, dim ond un ohonynt fyddai angen cael caniatâd am weithgarwch cuddwylio.**

Os bydd y gweithgareddau'n newid yn ystod yr ymgyrch, bydd angen gwneud cais i adolygu'r caniatâd.

**Rôl y Swyddog Ymchwilio – yr Ymgeisydd**

Rôl yr Ymgeisydd yw cyflwyno ffeithiau'r cais i gadw gwyliadwriaeth gudd, gan gynnwys:

- Y drosedd y bydd yn ymchwilio iddi;
- Y rheswm y bwriedir cyflawni'r ymchwiliad yn gudd;
- Y tactegau cudd y gwneir cais i'w defnyddio;
- Y rhesymau dros wneud cais i ddefnyddio'r tactegau cudd hynny;
- Y sawl y bydd y gwaith gwyliadwriaeth gudd yn canolbwyntio arno;
- Y bobl eraill y bydd yn effeithio arnynt;
- Y ffordd y bwriedir cadw gwyliadwriaeth gudd; a
- Darparu ffeithiau a thystiolaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Ymgeisydd haeru bod y camau i'w cymryd yn angenrheidiol ac yn gymesur – cyfrifoldeb statudol y Swyddog Awdurdodi yw hwnnw.

**Llenwi'r ffurflenni**

Bydd angen i Swyddogion y Cyngor wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol. Gallwch lawrlwytho'r ffurflenni o wefan y Swyddfa Gartref:
https://www.gov.uk/government/collections/ripa-forms--2

Ar y ffurflenni cais ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig, bydd angen rhoi'r wybodaeth a ganlyn:

- Y gweithgaredd y mae angen ei ganiatáu;
- Enwau'r bobl a fydd yn destun gwyliadwriaeth gyfeiriedig, os yw'r wybodaeth honno ar gael;
- Crynodeb o'r ymchwiliad;

- Eglurhad o'r technegau yr ydych yn bwriadu'u defnyddio;
- Cadarnhad mai amcan y weithred arfaethedig yw atal neu ganfod trosedd;
- Eglurhad o'r rhesymau yr ydych yn credu bod gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn gymesur â'r canlyniad yr ydych yn ceisio'i gyflawni;
- Eglurhad o'r wybodaeth yr ydych yn gobeithio cael gafael arni;
- Asesiad o'r posibilrwydd o ymyrraeth anuniongyrchol (h.y. i ba raddau y bydd yn ymyrryd â phreifatrwydd unigolion ac eithrio'r rheini y mae'r gweithgaredd yn eu targedu);
- A fydd unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn cael ei chaffael;
- Os oes angen caniatâd ar fyrder, y rhesymau dros hynny;
- Cyfeirnod Unigryw a geir gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ac a nodir ar y ffurflen; ac
- Ar y ffurflen, dylech nodi'r math o 'drosedd' o dan sylw – dylai'r ffurflenni cais fod yn benodol. Nid yw defnyddio'r gair 'trosedd' yn ddigonol. Nid yw'n briodol cyflawni ymchwiliad heb reswm penodol gan obeithio cael hyd i wybodaeth.

Mae ffurflenni enghreifftiol (gydag arweiniad ar lenwi'r ffurflenni) ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn [nodwch y ddolen we]). Bydd **Siart lif 3** o gymorth i chi hefyd.

**Dylai'r swyddogion sy'n gwneud cais a'r Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau eu bod yn gwybod am y dogfennau a ganlyn a'u bod yn rhoi sylw iddynt:**

- **Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo**
- **Gweithdrefnau a Dogfennau Cyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth**
- **Y polisi RIPA hwn; a**
- **Phecyn adnoddau ACT NOW**

**Sylwch:** Ni ddylech ddefnyddio testun safonol pan fyddwch yn llenwi cais am ganiatâd. Rhaid i'r esboniad a'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen fod yn berthnasol i ffeithiau'r achos a rhaid iddynt ddatgan amcanion y wyliadwriaeth yn glir.

**Rôl y Swyddog Awdurdodi**

Pan fydd caniatâd wedi'i roi, bydd y Swyddog Awdurdodi'n ystyried hyd y caniatâd, adnewyddu'r caniatâd a chanslo'r caniatâd.

Sylwch: **Nid yw unrhyw hysbysiad na chaniatâd yn dod i rym hyd nes i Ynad ei gymeradwyo**. Gweler isod i weld y weithdrefn ar gyfer cael cymeradwyaeth o'r fath.

Mae caniatadau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig yn peidio â bod yn weithredol 3 mis o ddyddiad y gymeradwyaeth.

Pan fydd y Cyngor yn cadw *"gwyliadwriaeth gyfeiriedig*", yn defnyddio *"ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol"* neu'n cael gafael ar ddata cyfathrebu, mae RIPA a'r Codau cysylltiedig yn mynnu mai dim ond swyddog â phwerau dirprwyedig a gaiff ganiatáu'r gweithgareddau hyn, a hynny pan fydd y meini prawf perthnasol wedi'u bodloni.

Mae Gorchymyn Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010 (OS 2010 Rhif 521) yn datgan y gall Swyddog Awdurdodi'r awdurdod lleol fod yn Gyfarwyddwr, yn Bennaeth Gwasanaeth, yn Rheolwr Gwasanaeth neu'n unigolyn mewn swydd gyfatebol.

Felly, ar hyn o bryd, gall gwasanaethau enwebu swyddogion sy'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol neu'n uwch. Bydd y swyddogion hyn yn gallu caniatáu'r gweithgareddau hyn,

naill ai fel “Swyddog Awdurdodi” at ddibenion gwyliadwriaeth gyfeiriedig gudd nei Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Yn unol â strwythur corfforaethol y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau i’r dyfodol, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018, ac yn sgil Penderfyniad y Cyngor ar 21 Mehefin 2018, caniateir i’r swyddogion a ganlyn weithredu fel Swyddogion Awdurdodi:

- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth;**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu’r Cyhoedd; a**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.**

Os yw’n debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei chaffael fel rhan o’r wyliadwriaeth neu ddefnyddio pobl ifanc neu bobl sy’n agored i niwed (gweler isod), **rhaid** gofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr neu, yn ei absenoldeb, y Prif Weithredwr dros dro.

Os nad ydych yn sicr eich bod yn gofyn am ganiatâd gan swyddog ar lefel ddigon uchel, dylech gysylltu â’r Uwch-swyddog Cyfrifol (y Swyddog Monitro/Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu) i gael cyngor.

Rhaid bod yn ofalus lle, drwy ddefnyddio gwyliadwriaeth, y byddai’n bosibl caffael gwybodaeth am drafodaethau rhwng gweinidog yr efengyl ac unigolyn sy’n ymwneud â lles ysbrydol yr olaf, neu lle gallai materion cyfrinachedd meddygol neu newyddiadurol godi.

Pan fydd deunydd o’r fath wedi’i gaffael a’i gadw, rhaid hysbysu Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor cyn gynted â phosibl, gan y dylid rhoi gwybod I Swyddfa’r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) am y mater yn ystod ei harolygiad nesaf, a dylai’r deunydd fod ar gael i’r IPCO, os gofynnir amdano.

Wrth ganiatáu unrhyw geisiadau am wyliadwriaeth gyfeiriedig, ac wrth ystyried adnewyddu, adolygu a chanslo unrhyw ganiatâd, dylai’r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried:

(a) am ba hyd y cedwir y data?; a

(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

(gweler Rhan 4 isod).

**<u>Adnewyddu caniatâd</u>**

Gall y Swyddog Awdurdodi adnewyddu caniatâd cyn iddo ddod i ben os yw’n angenrheidiol i’r caniatâd barhau at y diben gwreiddiol.

Ni chaniateir gwneud cais i adnewyddu caniatâd fwy na 7 diwrnod gwaith cyn i’r caniatâd ddod i ben, a hynny i sicrhau bod angen ei adnewyddu

Gellir adnewyddu caniatâd fwy nag unwaith ar yr amod ei fod yn dal i fodloni’r meini prawf. Rhaid gwneud cais i adnewyddu caniatâd gan ddefnyddio ffurflen arall y gellir ei lawrlwytho o wefan y Swyddfa Gartref (ffurflenni enghreifftiol gydag arweiniad ar sut i lenwi’r ffurflenni) ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn [nodwch y ddolen we]), a gweler paragraffau 5.1621 Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo 2018.

**Sylwch: Ni fydd caniatâd yn cael ei adnewyddu hyd nes i Ynad ei gymeradwyo.**

**Adolygu caniatâd**

Pan fydd caniatâd yn cael ei roi, bydd Swyddog Awdurdodi'n pennu pa mor aml y dylid ei adolygu. Bydd adolygiad yn ystyried a yw'r caniatâd yn dal i fod yn angenrheidiol h.y. a ddylai'r wyliadwriaeth barhau.

Nid oes angen i ynad gymeradwyo adolygiad, a gellir ei gynnal yn fewnol (gweler Paragraffau 9.11-13 Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo).

Dylai'r Swyddog Awdurdodi ystyried y modd y cafodd y tactegau'u defnyddio hyd yma, ynghyd â'u heffaith ac unrhyw gynnyrch, i sicrhau bod pob tacteg ychwanegol yn ofynnol, a oes modd cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth anuniongyrchol, ac a yw effaith gronnus y tactegau'n gymesur yng ngoleuni'r cynnydd a wnaed.

Rhaid i unrhyw newid fod yn benodol, ac ni chaniateir defnyddio unrhyw dacteg hyd nes i'r Swyddog Awdurdodi'i chaniatáu.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi nodi'n glir pa weithgaredd neu gyfarpar gwyliadwriaeth a ganiateir i sicrhau bod y rheini sy'n cadw gwyliadwriaeth yn gwybod yn union beth sydd wedi'i ganiatáu ym mhob cam o'r broses ganiatáu.

Dylid cadw trywydd archwilio o'r meini prawf adolygu.

**Canslo caniatâd**


Bydd caniatâd yn cael ei ganslo pan fydd y Swyddog Awdurdodi'n fodlon nad yw meini prawf y caniatâd yn cael eu bodloni mwyach. I ganslo caniatâd, dylai'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad lenwi ffurflen ganslo (a geir ar wefan y Swyddfa Gartref ac yn yr Atodiadau i'r ddogfen hon). Yna, dylai rheolwr y swyddog fwrw golwg dros y ffurflen cyn ei hanfon at y Swyddog Awdurdodi. Rhaid nodi dyddiad canslo'r caniatâd ar y ffurflen gais. Bydd hefyd angen esbonio'r rhesymau dros ganslo'r caniatâd a gwerth y wyliadwriaeth. Bydd angen datganiad gan y Swyddog Awdurdodi (gan gynnwys cyfarwyddiadau ynghylch rheoli a storio'r cynnyrch).

Gweler Paragraffau 5.22-27 o'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo 2018.

Nid oes angen cymeradwyaeth ynad i ganslo caniatâd.

DRAFT

**Siart lif 3 – Cylch oes sylfaenol Caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig (cylch oes Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn debyg)**



**Canllawiau i Swyddogion Awdurdodi ar Ganiatáu Ceisiadau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig**

Mae Adran 27 o RIPA yn darparu amddiffyniad os caiff gwyliadwriaeth gudd ei herio:

*'(1) Conduct to which this Part applies shall be lawful for all purposes if -*
> *(a) an authorisation under this Part confers an entitlement to engage in that conduct on the person whose conduct it is; and*
> *(b) His conduct is in accordance with the authorisation.'*

I fanteisio ar yr amddiffyniad hwn, mae angen caniatáu'r wyliadwriaeth yn briodol. Mae Adran 28 yn nodi'r meini prawf ar gyfer caniatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ac mae Adran 29 yn trafod Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol.

**Terfynau Amser**

Ar hyn o bryd, tri mis yw terfyn amser caniatâd i gadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig.

Rhaid caniatáu i'r caniatâd gwreiddiol gael ei adnewyddu cyn iddo ddod i ben, ond bydd yn dod i rym ar y dyddiad a'r amser y bydd y caniatâd gwreiddiol yn dod i ben. Gellir adnewyddu caniatâd fwy nag unwaith os tybir ei fod yn dal i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur ac os caiff ei gymeradwyo gan Ynad.

Ni chaniateir gwneud cais i adnewyddu caniatâd fwy na 7 diwrnod gwaith cyn i'r caniatâd ddod i ben, a hynny i sicrhau bod angen ei adnewyddu. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol ystyried ffactorau a allai beri oedi yn y broses adnewyddu (e.e. penwythnosau neu a yw swyddog awdurdodi perthnasol yr awdurdod lleol ac Ynad ar gael i ystyried y cais).

**Ystyriaethau'r Swyddog Awdurdodi**

Mae Adran 28(2) o RIPA yn datgan:

> *'A person shall not grant an authorisation for the carrying out of directed surveillance unless he believes -*
>
> *(a) that the authorisation is necessary on grounds falling within subsection (3); and*
> *(b) that the authorised surveillance is proportionate to what is sought to be achieved by carrying it out.'*

*Gweler **Siart lif 4** i asesu a ddylid caniatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig.*

Rôl y Swyddog Awdurdodi yw ystyried y ffactorau a ganlyn.

**A. A yw'r wyliadwriaeth yn angenrheidiol?**

Rhaid ei bod yn angenrheidiol cadw gwyliadwriaeth ar un o'r seiliau a nodir yn A.28(3). Yn flaenorol, gallai awdurdodau lleol ganiatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig pan oedd yn angenrheidiol er mwyn atal neu ganfod trosedd neu atal anhrefn:

> *'for the purpose of preventing or detecting crime or of preventing disorder.'*
> *A.28(3)(b))*

Yn adroddiad Adolygiad y Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011, gwnaed argymhelliad na ddylai awdurdodau lleol sydd am gadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ond wneud hynny pan fo'r drosedd y maent yn ymchwilio iddi'n drosedd ddifrifol.

Rhoddwyd yr argymhelliad hwn ar waith gan Orchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) 2012, OS 2012/1500 a wnaed ym mis Mehefin 2012 ac a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2012. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010, OS 2010/521 ("Gorchymyn 2010"), sy'n pennu pa rai o swyddogion awdurdodau cyhoeddus sy'n meddu ar y pŵer i roi caniatâd i gadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a'r seiliau, o dan Adran 28(3), dros roi caniatâd.

**Ni** chaiff Swyddogion Awdurdodi'r Cyngor ganiatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ac eithrio er mwyn atal neu ganfod ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd, neu sy'n drosedd, ac sy'n bodloni'r amodau a nodir yn yr erthygl newydd, erthygl 7A(3)(a) neu (b) o Orchymyn 2010. Dyma'r amodau:

a) Bod modd **cosbi'r drosedd i'w hatal neu'i chanfod, o gael collfarn ddiannod neu dditiad, drwy uchafswm o chwe mis o garchar o leiaf** neu

b) Ei bod yn drosedd o dan adrannau 146, 147 neu 147A o Ddeddf Trwyddedu 2003 neu adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Mae'r ddwy drosedd hyn yn ymwneud â gwerthu tybaco ac alcohol i blant o dan oedran.

Bellach, ni ellir caniatáu cadw gwyliadwriaeth i fynd i'r afael ag anhrefn (e.e. ymddygiad gwrthgymdeithasol) fel Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, oni bai fod yr anhrefn yn cynnwys troseddau sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

Nid oes angen caniatâd RIPA ar gyfer yr hyn a ganlyn:

- Ymateb ar unwaith;
- Gweithgareddau arsylwi cyffredinol;
- Systemau CCTV/APNR agored;
- Faniau canfod teledu;
- Recordio cudd o niwsans sŵn
- Cyfweld ag aelodau o'r cyhoedd;
- Gwneud recordiadau cudd ar gyfer niwsans sŵn pan fo'r recordiadau hynny ar ffurf desibel neu os yw'n sŵn heb eiriau, neu os yw'r cynnwys geiriol ar lefel nad yw'n uwch nag y byddai modd ei glywed â'r glust heb gymorth dyfais (gweler Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2019, para 3.40); na
- Gwneud recordiadau agored a chudd o gyfweliadau gwirfoddol ag aelodau o'r cyhoedd.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi nodi'n glir pa weithgaredd neu gyfarpar gwyliadwriaeth a ganiateir i sicrhau bod y rheini sy'n cadw gwyliadwriaeth yn gwybod yn union beth sydd wedi'i ganiatáu ym mhob cam o'r broses ganiatáu. Sylweddolir nad yw bob amser yn bosibl rhagweld, ar ddechrau ymchwiliad, sut y bydd yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, ni ddylai'r ymgeiswyr ddefnyddio hyn fel rheswm dros wneud cais i ddefnyddio nifer fawr o dactegau / dechnegau 'rhag ofn' y bydd eu hangen yn ddiweddarach.

Ni chaiff y Swyddog Awdurdodi ganiatáu mwy nag y gellir ei gyfiawnhau ar adeg y penderfyniad caniatáu, a dylai arddangos rheolaeth, a dealltwriaeth briodol o reidrwydd, ymyrraeth anuniongyrchol a chymesuredd, mewn perthynas â phob techneg/tacteg y gofynnir

am ganiatâd i'w defnyddio. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi sicrhau bod y gofynion cyfreithiol yn cael sylw drwy gydol cyfnod y caniatâd.

**B. <u>A yw'r wyliadwriaeth yn gymesur â'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni?</u>**

Ystyr cymesuredd yw sicrhau mai'r wyliadwriaeth yw'r dull lleiaf ymwthiol o gael gafael ar y wybodaeth ofynnol, a hynny ar ôl ystyried yr holl ddulliau amgen rhesymol. Yn ogystal ag ystyried a yw'r wyliadwriaeth yn briodol, rhaid hefyd ystyried y dull a ddefnyddir, am ba mor hir y bydd gwyliadwriaeth yn cael ei chadw, a'r cyfarpar a gaiff ei ddefnyddio.

Mae angen taro cydbwysedd rhwng yr ymyrraeth a'r budd. Rhaid ystyried pob cais yn ôl ei rinwedd ei hun.

Nid yw'n dderbyniol ystyried a oes angen caniatâd ar sail disgrifiad o'r wyliadwriaeth yn unig. Rhaid ystyried y ffeithiau penodol ar sail egwyddorion cyfreithiol. Mater o farn ydyw.

Rhaid nodi a rhoi disgrifiad clir o'r ymddygiad y bwriedir ei atal/ganfod, a rhaid esbonio pam ei bod yn angenrheidiol defnyddio'r technegau cudd y gofynnir am ganiatâd i'w defnyddio.

Ni chaiff y Swyddog Awdurdodi ganiatáu mwy nag y gellir ei gyfiawnhau ar adeg y penderfyniad caniatáu, a dylai arddangos rheolaeth, a dealltwriaeth briodol o reidrwydd, ymyrraeth anuniongyrchol a chymesuredd, mewn perthynas â phob tacteg y gofynnir am ganiatâd i'w defnyddio.

Yn ei hadroddiadau arolygu, mae Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio yn aml yn datgan nad yw'r swyddogion wedi deall cysyniad cymesuredd yn iawn neu nad ydynt wedi dangos ar y ffurflen gais eu bod yn cydymffurfio. Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 (Para 4.7) yn mynnu y dylid rhoi sylw i bedair agwedd ar y ffurflen gais:

1. Taro cydbwysedd rhwng maint a chwmpas y gweithgaredd arfaethedig a difrifoldeb a hyd a lled y drosedd neu'r dramgwydd dybiedig;
2. Egluro sut a pham y bydd y dulliau a ddefnyddir yn ymyrryd cyn lleied â phosibl â tharged y wyliadwriaeth ac eraill;
3. Ystyried a yw'r gweithgaredd yn gwneud defnydd priodol o'r ddeddfwriaeth a'i fod yn ffordd resymol o gyflawni'r canlyniad angenrheidiol, ar ôl ystyried yr holl opsiynau rhesymol eraill;
4. Rhoi tystiolaeth, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, o'r dulliau eraill a gafodd eu hystyried a'r rheswm dros eu diystyru.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi ystyried y modd y cafodd y tactegau'u defnyddio hyd yma, ynghyd â'u heffaith ac unrhyw gynnyrch, i sicrhau bod pob tacteg ychwanegol yn ofynnol, a oes modd cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth anuniongyrchol, ac a yw effaith gronnus y tactegau'n gymesur.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi nodi yn ei eiriau ei hun pam y mae'n credu bod y gweithgarwch (RIPA) yn angenrheidiol ac yn gymesur. Nid yw haeriad moel yn ddigon.

**C. <u>A ellir atal neu leihau ymyrraeth anuniongyrchol?</u>**

Bydd angen i'r Swyddog Awdurdodi ystyried yn ofalus pa mor debygol yw hi y bydd ymyrraeth anuniongyrchol yn digwydd. Ystyr ymyrraeth anuniongyrchol yw ymyrraeth â phreifatrwydd unigolion ac eithrio'r rheini y mae'r ymchwiliad neu'r ymgyrch yn ymwneud â

nhw'n uniongyrchol. Os yw'r risg yn fawr, dylid cymryd camau, lle bynnag y bo'n ymarferol, i atal neu i leihau unrhyw ymyrraeth ddiangen.

Bydd angen i'r Swyddogion Ymchwilio a'r Swyddogion Awdurdodi ofyn y cwestiynau a ganlyn iddyn nhw eu hunain:

i. Beth yw'r effaith ar unrhyw drydydd parti? A yw'n fawr? A ellir ei chyfiawnhau?
ii. Os yw'n fawr, beth y gellir ei wneud i'w hatal neu'i lleihau?
iii. Ydy'r canlynol wedi cael eu hystyried:
    - Newid amseriad y wyliadwriaeth;
    - Cadw llai o wyliadwriaeth;
    - Newid y dull o gadw gwyliadwriaeth;
    - Natur y wybodaeth breifat sy'n debygol o'i chael;
    - Sensitifrwydd y gymuned leol a'r
    - Dulliau o gadw gwyliadwriaeth a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus eraill?

Yr angen i gael gafael ar y dystiolaeth orau i ymchwilio i'r drosedd fydd y brif ystyriaeth bob amser.

**Y cam nesaf:** Pan fydd y wyliadwriaeth wedi'i chaniatáu, y cam nesaf fydd gofyn am gymeradwyaeth Ynad (gweler isod)


Rhaid i Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau, drwy eu Rheolydd Data, eu bod yn cydymffurfio â gofynion priodol diogelu data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 ac unrhyw drefniadau mewnol perthnasol a gynhyrchwyd gan y Cyngor sy'n ymwneud â thrafod a storio deunydd (gweler Paragraffau 9.1.4 i 9.2.2 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 a Rhan 7 isod). O fewn y Cyngor, y Swyddog Diogelu Data yw hwn a bydd ef/hi yn adrodd i'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO).

Fel y nodir uchod (a Rhan 4 isod), wrth ganiatáu unrhyw geisiadau am wyliadwriaeth gyfeiriedig, ac wrth ystyried adnewyddu, adolygu a chanslo unrhyw ganiatâd, dylai'r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried:

(a) am ba hyd y cedwir y data?; a

(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

## Siart lif 4 – Caniatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig



**GOFYN AM GYMERADWYAETH YNAD (CYMERADWYAETH FARNWROL) AR GYFER GWYLIADWRIAETH GYFEIRIEDIG**

## Cefndir

Daeth Pennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (adrannau 37 a 38) i rym ar 1 Tachwedd 2012. Bu i hyn newid y weithdrefn ar gyfer caniatáu gweithgareddau cadw gwyliadwriaeth gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) a rhaid cael cymeradwyaeth Ynad i ddefnyddio Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig

Mae angen cymeradwyaeth hefyd os yw caniatâd i ddefnyddio technegau o'r fath yn cael ei adnewyddu. Ym mhob achos, rôl yr Ynad yw sicrhau bod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn a bod y ffactorau perthnasol wedi'u hystyried. Nid oes angen i'r Ynad ystyried penderfyniadau i ganslo caniatâd nac adolygiadau mewnol.

## Canllawiau'r Swyddfa Gartref

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch proses gymeradwyo'r Ynad, a hynny ar gyfer yr awdurdodau lleol a'r Llysoedd Ynadon:
http://www.homeoffice.gov.uk/publications/counter-terrorism/ripa-forms/local-authority-ripa-guidance/

Nid yw'r canllawiau hyn yn rhai statudol, ond maent yn rhoi cyngor ynghylch y ffordd orau y gall yr awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r newidiadau i'r gyfraith a'r trefniadau newydd y dylid eu cyflwyno i roi'r newidiadau ar waith yn effeithiol. Mae'r canllawiau'n ategu'r ddeddfwriaeth a'r ddau God Ymarfer a wnaed o dan RIPA.

***Gweler Siart lif 5 i gael crynodeb o broses gymeradwyo'r Ynad***

## Proses Gymeradwyo'r Ynad

1. Y cam cyntaf fydd gwneud cais am ganiatâd mewnol yn y ffordd arferol. Pan fydd hwn wedi'i roi, bydd angen i'r awdurdod lleol gysylltu â'r Llys Ynadon lleol i drefnu gwrandawiad.

2. Bydd y gwrandawiad yn achos cyfreithiol. Felly, bydd angen i swyddogion yr awdurdod lleol gael eu dynodi'n ffurfiol i ymddangos gerbron yr ynad, tyngu llw, a chyflwyno tystiolaeth neu ddarparu gwybodaeth, yn ôl y gofyn, i gefnogi'r cais. Bydd angen i'r Cyngor ddynodi swyddogion yn ffurfiol at y diben hwn o dan adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn iddynt gynrychioli'r Cyngor yn yr achos.

3. Mae'r Swyddfa Gartref yn awgrymu mai'r Swyddog Ymchwilio fydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r rôl hon, ond gall y Swyddog Awdurdodi hefyd fod yn awyddus i fynd i'r gwrandawiad i ateb cwestiynau.

4. Bydd yr awdurdod lleol yn rhoi copi i'r Ynad o'r caniatâd RIPA gwreiddiol. Hwn fydd sail y cais i'r Ynad a dylai gynnwys yr holl wybodaeth y bydd yn dibynnu arni. Yn ogystal, bydd yr awdurdod lleol yn darparu i'r Ynad ddau gopi o'r ffurflen gais/gorchymyn barnwrol wedi'i llenwi'n rhannol sydd ar gael yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref (mae ffurflenni enghreifftiol (gyda chanllawiau ar lenwi'r ffurflenni) ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn [nodwch y ddolen we]).

5. Cynhelir y gwrandawiad yn breifat a bydd un Ynad yn gwrando ar yr achos, drwy ddarllen ac ystyried y caniatâd RIPA a'r ffurflen gais/gorchymyn barnwrol. Gall fod gan

yr Ynad gwestiynau er mwyn egluro pwyntiau neu gael sicrwydd ynghylch materion penodol. Rhaid i'r ffurflenni a'r papurau ategol ddadlau'r achos o'u rhan eu hunain. **Nid yw'n ddigonol i'r awdurdod lleol ddarparu tystiolaeth lafar os nad yw'r papurau a ddarperir yn adlewyrchu neu'n cefnogi'r dystiolaeth honno.**

6. Bydd yr Ynad yn ystyried a yw'n fodlon bod sail resymol dros gredu, ar yr adeg y cafodd y caniatâd ei roi neu'i adnewyddu, fod y caniatâd yn angenrheidiol ac yn gymesur. Byddant hefyd yn ystyried a yw'r sail resymol yn parhau. Yn ogystal, rhaid i'r Ynad fod yn fodlon bod y Swyddog Awdurdodi mewn swydd briodol o fewn yr awdurdod lleol a bod y caniatâd wedi'i roi yn unol ag unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol perthnasol (e.e. ei fod yn bodloni'r Prawf Trosedd Ddifrifol ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig).

7. Bydd yr Ynad yn cwblhau'r gorchymyn sy'n rhan o'r ffurflen a enwir uchod. Hwn fydd cofnod swyddogol ei benderfyniad. Bydd angen i'r Cyngor gadw copi o'r ffurflen ar ôl i'r Ynad ei llofnodi.

**<u>Dewisiadau'r Ynad</u>**

Gall yr Ynad benderfynu fel a ganlyn -

- ***Cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd***

  Bydd y caniatâd a roddwyd/adnewyddwyd yn dod i rym a chaiff y Cyngor fwrw ymlaen i ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth a enwir ynddo.

- ***Gwrthod cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd ar bwynt technegol***

  Ni fydd y caniatâd RIPA'n dod i rym ac <u>ni</u> chaiff y Cyngor ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth yn yr achos hwn. Bydd angen i'r Cyngor ystyried y rhesymau dros wrthod cymeradwyaeth. Gellir cywiro gwall technegol ar y ffurflen heb fod angen mynd drwy'r broses ganiatáu fewnol eto. Yna, gall y Cyngor wneud cais arall am gymeradwyaeth Ynad.

- ***Gwrthod cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd a dileu'r caniatâd***

  Gall Ynad wrthod cymeradwyo rhoi neu adnewyddu caniatâd a phenderfynu dileu'r caniatâd gwreiddiol. Gall wneud hyn oherwydd ei fod yn credu nad yw'n angenrheidiol neu'n gymesur. Ni fydd y caniatâd RIPA'n dod i rym ac <u>ni</u> chaiff y Cyngor ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth yn yr achos hwn. Ni chaniateir i'r Ynad ddefnyddio'i bŵer i ddileu'r caniatâd oni bai fod yr awdurdod lleol wedi cael o leiaf ddau ddiwrnod gwaith o'r dyddiad y gwrthodwyd cymeradwyaeth i baratoi sylwadau pellach a'u cyflwyno i'r llys.

**<u>Apeliadau</u>**

Nid oes modd cwyno am benderfyniad barnwrol oni bai iddo gael ei wneud yn annidwyll. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn at Bwyllgor Cynghori'r Ynadon. Felly, ni chaiff y Cyngor ond apelio yn erbyn penderfyniad Ynad i wrthod cymeradwyo caniatâd ar bwynt cyfreithiol drwy wneud cais am Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys.

Bydd y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT') yn parhau i ymchwilio i gwynion gan unigolion ynghylch y modd y mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn defnyddio technegau RIPA. Ar ôl i gŵyn ddod i law'r Tribiwnlys, os yw'n cael bod rhywbeth o'i le â'r caniatâd RIPA, mae ganddo bŵer i ddileu gorchymyn yr Ynad, a oedd yn cymeradwyo rhoi neu adnewyddu'r caniatâd. Gall hefyd ddyfarnu iawndal os yw'n credu bod yr awdurdod lleol wedi torri hawliau dynol unigolyn (gweler Rheolau'r Tribiwnlys ar Bwerau Ymchwilio 2018 (OS 2018/1334), a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2018).

DRAFT

**Siart lif 5 – Proses Gymeradwyo'r Ynadon**

Llenwi'r ffurflen ganiatâd a gofyn am gymeradwyaeth Swyddog Awdurdodi

↓

Llenwi ffurflen gais am gymeradwyaeth ynad

↓

Cysylltu â'r Llys Ynadon lleol i drefnu gwrandawiad

↓

Mynd i'r llys, a mynd â'r dogfennau a ganlyn gyda chi:

- Ffurflen ganiatâd RIPA wedi'i chydlofnodi a chopi ohoni
- Ffurflen gais am gymeradwyaeth ynad a chopi ohoni
- Unrhyw ddeunydd cyfeirio neu ddeunydd ategol perthnasol

↓

**DEWISIADAU'R YNAD**

**GWRTHOD CYMERADWYO**
a dileu'r caniatâd oherwydd gwall sylfaenol

(bydd gan y Cyngor 2 ddiwrnod i gyflwyno sylwadau pellach)

**GWRTHOD CYMERADWYO**

caniatâd oherwydd gwall technegol

(cywiro'r gwall ac ailgyflwyno'r cais i'r llys)

**CYMERADWYO'R CANIATÂD**

Gall y Cyngor fynd ati i gadw gwyliadwriaeth

DRAFT

# RHAN 3 – Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol (‘CHIS’)

Fel y nodwyd uchod, ym Mhennod 2 o RIPA, nodir fframwaith rheoleiddio’r technegau ymchwilio cudd a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gydnaws â’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthygl 8, (yr hawl i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol).

Y mater cyntaf i unrhyw swyddog awdurdod lleol sy’n ystyried cadw gwyliadwriaeth gudd yw pa fath o wyliadwriaeth y mae’n ei gadw, ac **a yw’n rhywbeth y gellir ei ganiatáu o dan RIPA.** Mae Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn un o’r ddwy dechneg wyliadwriaeth sydd ar gael i’r Cyngor o dan Ran 2 o Bennod 2 o RIPA. Yr ail dechneg sydd ar gael yw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, ond ni all y Cyngor ganiatáu’r drydedd dechneg, sef Gwyliadwriaeth Agored.

## Ystyr Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol

Diffinnir Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn A.26(8) o’r Ddeddf RIPA:

*‘…a person is a covert human intelligence source if -*

*(a) he establishes or maintains a personal or other relationship with a person for the covert purpose of facilitating the doing of anything falling within paragraph (b) or (c);*

*(b) he covertly uses such a relationship to obtain information or to provide access to any information to another person; or*

*(c) he covertly discloses information obtained by the use of such a relationship, or as a consequence of the existence of such a relationship.’*

I bennu a yw unigolyn yn Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, rhaid gofyn tri chwestiwn:

1. A yw’r unigolyn yn sefydlu neu’n cynnal perthynas bersonol neu berthynas arall ag unigolyn?
2. A yw’r berthynas honno’n cael ei defnyddio at ddiben cudd? ac
3. A yw’r diben cudd yn hwyluso unrhyw beth sy’n perthyn i Baragraff (b) neu (c) uchod?

***Gweler Siart lif 6** i asesu a yw’r wyliadwriaeth yn cynnwys ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol.*

Rhywun sy’n celu neu’n cam-fynegi pwy ydyw mewn gwirionedd i gasglu gwybodaeth yn gudd gan y targed neu i gael gafael ar wybodaeth ganddo yw Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Er enghraifft, gall Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol fod yn ymchwilydd preifat sy’n cymryd arno ei fod yn byw ar ystad dai i gasglu tystiolaeth am ddelio cyffuriau neu’n hysbysydd sy’n rhoi gwybodaeth i’r Gwasanaeth Safonau Masnach am arferion busnes anghyfreithlon mewn ffatri neu siop.

## Gwerthu i rai o dan oedran

Os yw’r person ifanc yn cael ei friffio i ddechrau sgwrs a allai arwain at gaffael gwybodaeth breifat, gall fod angen caniatâd. Fodd bynnag, os na ddywedir wrth y person ifanc am gyfathrebu, ac felly os na chaiff unrhyw wybodaeth breifat ei chaffael, nid oes angen caniatâd.

## Y prif bwyntiau i’w nodi:

A. Nid yw gwirfoddolwr cyhoeddus yn Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Mae Cod Ymarfer diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol 2018 (Para 2.18) yn datgan:

*'In many cases involving human sources, a relationship will not have been established or maintained for a covert purpose. Many sources merely volunteer or provide information that is within their personal knowledge, without being induced, asked, or tasked by a public authority. This means that the source is not a CHIS for the purposes of the 2000 Act and no authorisation under the 2000 Act is required.'*
(Gweler Pennod 3 o'r Cod i gael arweiniad pellach ar y mathau o weithgarwch ffynhonnell y gall caniatâd o dan Ran II o RIPA fod yn gymwys iddo neu beidio)

**Rhaid gofalu nad yw rhywun sy'n wirfoddolwr cyhoeddus yn y lle cyntaf yn troi'n ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol yn y pen draw.**

B. Rhaid bod perthynas yn cael ei defnyddio'n gudd i ddarparu mynediad at wybodaeth neu i ddatgelu gwybodaeth yn gudd. Os byddwch yn rhoi dyddiadur i achwynydd er mwyn iddo nodi pwy sy'n mynd a dod, nid yw'r unigolyn hwnnw'n ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol.

C. O dan rai amgylchiadau, gall fod angen caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol i ddefnyddio prawf brynwr.

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo 2019 hefyd yn rhoi'r enghreifftiau a ganlyn, i helpu i ddarlunio ac i ddehongli darpariaethau penodol – ond nid ydynt yn ddarpariaethau yn y Cod.  Dim ond i roi arweiniad y maent wedi'u cynnwys:

**'Example 3:** Local authority officers attend a car boot sale where it is suspected that counterfeit goods are being sold, but they are not carrying out surveillance of particular individuals and their intention is, through reactive policing, to identify and tackle offenders. Again this is part of the general duties of public authorities and the obtaining of private information is unlikely. A directed surveillance authorisation need not be sought.
***Example 4:*** *Intelligence suggests that a local shopkeeper is openly selling alcohol to underage customers, without any questions being asked. A juvenile is engaged and trained by a public authority and then deployed to act as a juvenile in order to make a purchase of alcohol. In these circumstances any relationship, if established at all, is likely to be so limited in regards to the requirements of the Act that a public authority may conclude that a CHIS authorisation is unnecessary. However, if the test purchaser is wearing recording equipment and is not authorised as a CHIS, or an adult is observing, consideration should be given to granting a directed surveillance authorisation.'*

Pan fyddant yn ystyried gweithgareddau prawf brynu gan rai o dan oedran, rhaid i'r swyddogion ymchwilio a'r Swyddog Awdurdodi hefyd roi sylw i'r:

- Cod Ymarfer ar gyfer Darparu gwaith Rheoleiddio: Cynnyrch a Gwasanaethau â Chyfyngiadau Oedran (Ebrill 2014) (sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/code-of-practice-age-restricted-products); and


- Ffugenwau/Personâu Ar-lein
  Os caniateir i'r rhain gael eu defnyddio'n gorfforaethol, bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cynnal cofrestr o'r ffugenwau hyn gan gynnwys manylion y gwasanaethau neu'r swyddogion sy'n gallu eu defnyddio/eu cymeradwyo.

Wedyn dylai Rheolwyr a/neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol wirio unrhyw ddefnydd o'r fath, gan gynnwys adolygu pa safleoedd ar y cyfryngau yr ymwelwyd â nhw, pryd, i ba ddiben, a beth a wnaed â'r cynnyrch a ddaeth yn sgil hynny. Mae'n ofynnol i Wasanaethau perthnasol:

- cofnodi gwybodaeth/dyddiad yn ymwneud â gwyliadwriaeth gudd ar y cyfryngau cymdeithasol/ar-lein;
- nodi Swyddog Dynodedig yn y Gwasanaeth i goladu'r wybodaeth;
- rhoi'r wybodaeth hon i'r Swyddog Dynodedig; a
- bydd y Swyddog Dynodedig yn rhoi'r wybodaeth i'r Uwch-swyddog Cyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol bob 4 mis.

DRAFFT

**Siart lif 6 – A ydych yn defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol (CHIS)?**




DRAFT

**Y drefn o wneud cais am ganiatâd i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol o dan RIPA**

Oherwydd y gofynion statudol y mae angen ymlynu wrthynt pan fydd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio, nid yw'n debygol y bydd modd defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol mewn ymchwiliad heb gryn dipyn o gynllunio ymlaen llaw. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol fel dull o gadw gwyliadwriaeth ac fe allai ofyn am gymorth yr Heddlu.

Roedd Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 wedi diwygio Deddf 2000 i sicrhau bod caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn destun cymeradwyaeth gan Ynad. Golyga'r newidiadau hyn fod angen i awdurdodau lleol gael cymeradwyaeth Ynad Heddwch i roi neu adnewyddu caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ac er mwyn i'r caniatâd ddod i rym.

Os yw unrhyw un o swyddogion y Cyngor yn bwriadu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, ac mae angen cyngor ac arweiniad arno, dylai gysylltu â'r Uwch-swyddog Cyfrifol a/neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol **cyn gwneud unrhyw beth**.

Sylwch, fel uchod, nid yw aelod o'r cyhoedd sy'n gwirfoddoli yn Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

**Defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol Ifanc**

Mae'r broses o ganiatáu i Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ifanc (o dan 18 oed) gael ei defnyddio yn cynnwys rhagofalon arbennig. Ni ellir rhoi caniatâd oni bai fod y darpariaethau a geir yng Ngorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Pobl Ifanc) 2000 https://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/2793/contents/made yn cael eu bodloni. Mae Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol Ifanc hefyd ar gael:
https://www.gov.uk/government/publications/covert-human-intelligence-sources-draft-code-of-practice/juvenile-accessible-version.

Os ydych yn bwriadu defnyddio pobl ifanc neu bobl sy'n agored i niwed fel Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol, rhaid ichi ofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr.

Os yw unrhyw un o swyddogion y Cyngor yn bwriadu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ifanc, ac mae angen cyngor ac arweiniad arno, dylai gysylltu â'r Uwch-swyddog Cyfrifol a/neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol **cyn gwneud unrhyw beth**.

**Gweithgarwch Cudd Ar-lein – Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA**

Gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA y Cyngor sy'n rhoi manylion ym Mharagraff 4.11 o'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ffynonellau Cudd-wybodaeth Dynol 2018 (mewn perthynas â chaniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol), ac y mae'n rhaid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi hwn.

**Llenwi'r Ffurflenni**

Bydd angen i'r Swyddog wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol. Gallwch lawrlwytho'r ffurflenni o wefan y Swyddfa Gartref
https://www.gov.uk/government/collections/ripa-forms--2

Bydd angen rhoi'r wybodaeth a ganlyn ar y ffurflen gais:

- Manylion yr hyn y bydd y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio ar ei gyfer;
- Enw'r sawl a gaiff ei ddefnyddio fel Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, os yw'n wybyddus;
- Manylion yr hyn y bydd gofyn i'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ei wneud;
- Manylion yr ymchwiliad;
- Y rheswm dros gredu bod defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn gymesur;
- Eglurhad o'r wybodaeth yr ydych yn gobeithio cael gafael arni;
- Y posibilrwydd o ymyrraeth anuniongyrchol (h.y. ymyrryd â phreifatrwydd unigolion nad ydynt yn rhan o'r ymchwiliad);
- Y tebygrwydd y byddwch yn cael gafael ar wybodaeth gyfrinachol; a
- Chyfeirnod Unigryw dilyniannol a geir gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ac a nodir ar y ffurflen.

**Dylai'r swyddogion sy'n gwneud cais i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'r Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau eu bod yn gwybod am y dogfennau a ganlyn a'u bod yn rhoi sylw iddynt:**

- Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol;
- Y polisi RIPA hwn a'r
- Gweithdrefnau a Dogfennau Cyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth.

Mae ffurflenni enghreifftiol (gydag arweiniad ar sut i lenwi'r ffurflenni) ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn [nodwch y ddolen we]). Bydd **Siart lif 3** o gymorth i chi hefyd.

**Sylwch:** Yn yr un modd â'r ffurflenni cais am ganiatâd i gadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig, ni ddylech ddefnyddio testun safonol pan fyddwch yn llenwi cais am ganiatâd i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Cyn rhoi caniatâd, bydd rhaid bodloni'r Swyddog Awdurdodi fod y caniatâd yn angenrheidiol i atal neu ganfod trosedd. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi hefyd gredu bod defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn gymesur â'r canlyniad gofynnol a bod gweithdrefnau digonol ar waith i gadw cofnodion o'r ymgyrch. Bydd angen ystyried ymyrraeth anuniongyrchol hefyd.

Fel y nodir yn Rhan 4 isod, wrth ganiatáu unrhyw geisiadau i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, dylai'r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried:

(a) am ba hyd y cedwir y data?; a

(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

Wrth ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, rhaid i'r Swyddog Awdurdodi a'r swyddog sy'n cyflwyno'r cais roi sylw i adran 29(5) o RIPA ac i Reoliadau Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Cofnodion Ffynhonnell) 2000.

Mae'r darpariaethau hyn yn darparu (ymhlith pethau eraill) yr hyn a ganlyn:

- Bod swyddog yn y Cyngor yn ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol bob amser;
- Bod swyddog arall yn y Cyngor yn cadw golwg cyffredinol ar y modd y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio;

- Bod y cofnodion yn nodi gwybodaeth bwysig sy'n gysylltiedig â diogelwch a lles y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol;
- Bod y tasgau a roddir i'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'r defnydd a wneir o'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael eu cofnodi;
- Manylion adnabod y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'r manylion adnabod y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn eu defnyddio; a
- Bod cofnodion yn cael eu cadw o'r holl gyfathrebu a'r holl gysylltiadau rhwng y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'r Cyngor/y swyddog perthnasol yn y Cyngor.

**<u>Cylch oes caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol</u>**

Pan fydd caniatâd wedi'i roi, bydd y Swyddog Awdurdodi'n ystyried hyd y caniatâd, adnewyddu'r caniatâd a chanslo'r caniatâd.

**Sylwch: Nid yw unrhyw hysbysiad na chaniatâd yn dod i rym hyd nes i Ynad ei gymeradwyo (nid yw hyn yn berthnasol ar gyfer data cyfathrebu, y mae'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN) yn delio ag ef (gweler Rhan 4 isod)).**

Mae caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn dod i ben 12 mis ar ôl y dyddiad cymeradwyo. Mae caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol Ifanc yn para am fis.

**<u>CANLLAWIAU I SWYDDOGION AWDURDODI SY'N CANIATÁU FFYNHONNELL CUDDWYBODAETH DDYNOL: RHEOLAU A MEINI PRAWF</u>**

Mae Adran 27 o RIPA yn darparu amddiffyniad os caiff gwyliadwriaeth gudd ei herio:

*'1) Conduct to which this Part applies shall be lawful for all purposes if -*

*a. an authorisation under this Part confers an entitlement to engage in that conduct on the person whose conduct it is; and*

*b. his conduct is in accordance with the authorisation.'*

I fanteisio ar yr amddiffyniad hwn, mae angen caniatáu'r wyliadwriaeth yn briodol.
Mae A.29 yn nodi'r meini prawf i ganiatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Gweler **Siart lif 7** i asesu a ddylid caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

**<u>Y Swyddog Awdurdodi</u>**

Mae RIPA a'r Codau cysylltiedig yn mynnu pan fydd y Cyngor yn defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol mai dim ond swyddog â phwerau dirprwyedig a gaiff ganiatáu'r gweithgareddau hyn, a hynny pan fydd y meini prawf perthnasol wedi'u bodloni.

Mae Gorchymyn Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010 (OS 2010 Rhif 521) yn datgan y gall Swyddog Awdurdodi'r awdurdod lleol fod yn Gyfarwyddwr, yn Bennaeth Gwasanaeth, yn Rheolwr Gwasanaeth neu'n unigolyn mewn swydd gyfatebol.

Felly, ar hyn o bryd, gall gwasanaethau enwebu swyddogion sy'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol neu'n uwch. Bydd y swyddogion hyn yn gallu caniatáu'r gweithgareddau hyn, naill ai fel Swyddog Awdurdodi at ddibenion gwyliadwriaeth gyfeiriedig gudd neu ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Yn unol ag ad-drefnu corfforaethol y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018, ac yn dilyn penderfyniad y Cyngor a wnaed ar 21 Mehefin 2018, caniateir i'r



DRAFT

swyddogion a ganlyn weithredu fel Swyddogion Awdurdodi (y Swyddogion Awdurdodi yw'r rheiny a benodwyd i ganiatáu ceisiadau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig).

- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth;**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; a**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.**

Fel uchod, os yw'n debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei chaffael fel rhan o'r wyliadwriaeth neu os yw pobl ifanc neu bobl sy'n agored i niwed yn cael eu defnyddio, **rhaid** gofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr neu, yn ei absenoldeb, y Prif Weithredwr dros dro.

Os nad ydych yn sicr eich bod yn gofyn am ganiatâd gan swyddog ar lefel ddigon uchel, dylech gysylltu â'r Uwch-swyddog Cyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Gyfrifol i gael cyngor.

Fel uchod, rhaid bod yn ofalus lle, drwy ddefnyddio gwyliadwriaeth, y byddai'n bosibl caffael gwybodaeth am drafodaethau rhwng gweinidog yr efengyl ac unigolyn sy'n ymwneud â lles ysbrydol yr olaf, neu lle gallai materion cyfrinachedd meddygol neu newyddiadurol godi.

Pan fydd deunydd o'r fath wedi'i gaffael a'i gadw, rhaid hysbysu Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor cyn gynted â phosibl, gan y dylid rhoi gwybod I Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) am y mater yn ystod ei harolygiad nesaf, a dylai'r deunydd fod ar gael i'r IPCO, os gofynnir amdano.

<u>**Ystyriaethau'r Swyddog Awdurdodi**</u>

Mae Adran 29(2) o RIPA yn datgan:

*'A person shall not grant an authorisation for the conduct or the use of a covert human intelligence source unless he believes -*

*(a) that the authorisation is necessary on grounds falling within subsection (3);*

*(b) that the authorised conduct or use is proportionate to what is sought to be achieved by that conduct or use; and*

*(c)* arrangements exist for the source's case that satisfy—

*(i) the requirements of subsection (4A), in the case of a source of a relevant collaborative unit;*

*(iii) the requirements of subsection (5), in the case of any other source; and that satisfy such other requirements as may be imposed by order made by the Secretary of State'*

***Gweler Siart lif 7 i benderfynu a ddylid caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.***

Mae'n bwysig ystyried tri mater cyn caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol:

**1. Rheidrwydd**

Rhaid ei bod yn angenrheidiol defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ar un o'r seiliau a nodir yn A.29(3). Dim ond ar un sail y caiff awdurdodau lleol ganiatáu ei defnyddio, sef pan fo'n angenrheidiol er mwyn atal neu ganfod trosedd neu atal anhrefn:

> *'for the purpose of preventing or detecting crime or of preventing disorder.'*
> *(A.29 (3) (b))*

Rhaid bod y mater sy'n destun ymchwiliad yn drosedd y gellir ei hadnabod neu raid ei fod yn gyfystyr ag anhrefn.

**2. Cymesuredd**

Ystyr cymesuredd yw sicrhau mai defnyddio'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yw'r dull lleiaf ymwthiol o gael gafael ar y wybodaeth ofynnol, a hynny ar ôl ystyried yr holl ddulliau amgen rhesymol. Yn ogystal ag ystyried a yw defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn briodol, rhaid hefyd ystyried y dull a ddefnyddir, am ba hyd y bydd yn cael ei defnyddio, a'r cyfarpar a gaiff ei ddefnyddio. Mae'r Cod ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol (Para 3.5) yn mynnu y dylid rhoi sylw i bedair agwedd ar y ffurflen gais:

- Taro cydbwysedd rhwng maint a chwmpas y gweithgaredd arfaethedig a difrifoldeb a hyd a lled y drosedd neu'r dramgwydd dybiedig;
- Egluro sut a pham y bydd y dulliau a ddefnyddir yn ymyrryd cyn lleied â phosibl â tharged y wyliadwriaeth ac eraill;
- Ystyried a yw'r gweithgaredd yn gwneud defnydd priodol o'r ddeddfwriaeth a'i fod yn ffordd resymol o gyflawni'r canlyniad angenrheidiol, ar ôl ystyried yr holl opsiynau rhesymol eraill;
- Rhoi tystiolaeth, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, o'r dulliau eraill a gafodd eu hystyried a'r rheswm dros eu diystyru.

Nid yw'n dderbyniol ystyried a oes angen caniatâd ar sail disgrifiad o'r wyliadwriaeth yn unig. Rhaid ystyried y ffeithiau penodol ar sail egwyddorion cyfreithiol. Mater o farn ydyw.

Rhaid nodi a rhoi disgrifiad clir o'r ymddygiad y bwriedir ei atal/ganfod, a rhaid esbonio pam ei bod yn angenrheidiol defnyddio'r technegau cudd y gofynnir am ganiatâd i'w defnyddio.

**3. Trefniadau diogelwch a lles**

Yn aml, bydd Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol yn cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd anodd sydd weithiau'n beryglus e.e. hysbysydd ar ystad dai sy'n dod i gysylltiad â gang troseddol. Rhaid rhoi trefniadau diogelwch a lles priodol ar waith ar gyfer pob Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Yn unol ag A.29(5), mae'n ofynnol gwneud y ddarpariaeth a ganlyn:

- Pennu unigolyn a fydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am ymdrin â'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ar ran yr awdurdod, ac am ei diogelwch a'i lles;
- Pennu unigolyn a fydd yn cadw golwg cyffredinol ar y modd y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio. Rhaid iddo fod yn unigolyn gwahanol i'r unigolyn uchod;
- Pennu unigolyn a fydd yn cadw cofnod o'r modd y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio. Gall fod yn unrhyw un o'r ddau unigolyn uchod neu'n unigolyn arall; a
- Chadw cofnodion priodol a diogel am y modd y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio.

**Asesu risg:** Efallai na chaiff caniatâd i gyfarwyddo na defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ei roi na'i adnewyddu p'un bynnag os yw'r ffynhonnell o dan ddeunaw oed ar yr adeg y caiff y caniatâd ei roi neu'i adnewyddu, oni bai fod asesiad risg wedi'i gyflawni. Rhaid i'r asesiad fod yn ddigonol i ddangos:

- Bod natur a maint unrhyw risg o niwed corfforol i'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a allai godi yng nghwrs cyflawni'r gweithredoedd a ddisgrifir yn y caniatâd, neu o ganlyniad iddynt, wedi'u nodi a'u gwerthuso;

- Bod natur a maint unrhyw risg o drallod seicolegol i'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a allai godi yng nghwrs cyflawni'r gweithredoedd a ddisgrifir yn y caniatâd, neu o ganlyniad iddynt, wedi'u nodi a'u gwerthuso;

- Bod y sawl sy'n rhoi neu'n adnewyddu'r caniatâd wedi ystyried yr asesiad risg a'i fod yn fodlon bod unrhyw risgiau a nodir ynddo wedi'u cyfiawnhau ac, os yw'n fodlon, eu bod wedi'u hegluro'n briodol wrth y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'i bod wedi'u deall; a

- Bod y sawl sy'n rhoi neu'n adnewyddu'r caniatâd yn gwybod a yw'r berthynas y byddai'r weithred neu'r defnydd yn berthnasol iddi yn berthynas rhwng y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ac aelod o'i theulu, gwarcheidwad neu unigolyn sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros les y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol am y tro, ac, os ydyw, a roddwyd ystyriaeth benodol i b'un a ellir cyfiawnhau'r caniatâd yng ngoleuni'r ffaith honno.

Fel y nodwyd uchod, wrth ganiatáu unrhyw geisiadau am Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, dylai'r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried:
(a) am ba hyd y cedwir y data?; a
(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

**Y cam nesaf:** Pan fydd caniatâd wedi'i roi i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, y cam nesaf fydd gofyn am gymeradwyaeth Ynad (gweler isod).

DRAFT

## Siart lif 7 – Caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol

**C.1 – A yw'n angenrheidiol defnyddio'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddyniol er mwyn atal neu ganfod trosedd neu atal anhrefn?**

NAC YDY → METHU CANIATAU FEL FFYNHONNELL CUDDWYBODAETH DDYNOL

YDY ↓

**C.2 – A yw'n gymesur defnyddio'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol?**
Gweler Para 3.5 y Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol. Dylech ystyried:

- Maint a chwmpas yr ymgyrch
- Y dulliau a ddefnyddir
- Y dulliau amgen
- A yw'n gwneud defnydd priodol o'r ddeddfwriaeth
- Yr effaith ar y sawl a ddrwgdybir

NAC YDY → METHU CANIATAU FEL FFYNHONNELL CUDDWYBODAETH DDYNOL

YDY ↓

**C.3 – A ydych wedi ystyried yr hyn y gallwch ei wneud (os o gwbl) i leihau/atal ymyrraeth anuniongyrchol?**

Gweler Para 3.5 y Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol. Dylech ystyried e.e.:

- Maint a chwmpas yr ymgyrch
- Y dull / cyfarpar a ddefnyddir
- Amseriad y gwaith o gadw gwyliadwriaeth

NA → METHU CANIATAU FEL FFYNHONNELL CUDDWYBODAETH DDYNOL

DO ↓

**C.4 – A ydych wedi cydymffurfio â'r Dyletswyddau Arbennig? Gweler A.29(5) o RIPA a Phenodau 6 a 7 y Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol –**

Dylech ystyried:

- Diogelwch a lles y Ffynhonnell
- Y sawl a fydd yn trin a thrafod â'r Ffynhonnell
- Y sawl a fydd yn rheoli'r Ffynhonnell
- Cofnodion y Ffynhonnell

NADDO → **METHU CANIATAU FEL FFYNHONNELL CUDDWYBODAETH DDYNOL**

DO ↓

**CANIATÂU DEFNYDD FFYNHONNEL CUDDWYBODAETH DDYNOL** → **GOFYN AM GYMERADWYAETH YNAD**

# GOFYN AM GYMERADWYAETH YNAD AR GYFER FFYNHONNELL CUDDWYBODAETH DDYNOL (CYMERADWYAETH FARNWROL)

## Cefndir

Ers 1 Tachwedd 2012 a chyflwyno Pennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012 (adrannau 37 a 38), mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gael cymeradwyaeth Ynad ar gyfer defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Mae angen cymeradwyaeth hefyd i adnewyddu caniatâd. Ym mhob achos, rôl yr Ynad yw sicrhau bod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn a bod y ffactorau perthnasol wedi'u hystyried. Nid oes angen i'r Ynad ystyried penderfyniadau i ganslo caniatâd nac adolygiadau mewnol.

## Canllawiau'r Swyddfa Gartref

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch proses gymeradwyo'r Ynad, a hynny ar gyfer yr awdurdodau lleol a'r Llysoedd Ynadon:
http://www.homeoffice.gov.uk/publications/counter-terrorism/ripa-forms/local-authority-ripa-guidance/

Nid yw'r canllawiau hyn yn rhai statudol, ond maent yn rhoi cyngor ynghylch y ffordd orau y gall y Cyngor fynd i'r afael â'r newidiadau i'r gyfraith a'r trefniadau newydd y dylid eu cyflwyno i roi'r newidiadau ar waith yn effeithiol. Mae'r canllawiau'n ategu'r ddeddfwriaeth a'r ddau God Ymarfer a wnaed o dan RIPA.

## Proses Gymeradwyo'r Ynadon (gweler hefyd Siart Lif 8 isod)

1. Y cam cyntaf fydd gwneud cais am ganiatâd mewnol yn y ffordd arferol. Pan fydd hwn wedi'i roi, bydd angen i'r Cyngor gysylltu â'r Llys Ynadon lleol i drefnu gwrandawiad.

2. Bydd y gwrandawiad yn achos cyfreithiol. Felly, bydd angen i Swyddogion y Cyngor gael eu dynodi'n ffurfiol i ymddangos gerbron yr Ynad, tyngu llw, a chyflwyno tystiolaeth neu ddarparu gwybodaeth, yn ôl y gofyn, i gefnogi'r cais. Bydd angen i'r Cyngor ddynodi Swyddogion yn ffurfiol at y diben hwn o dan adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn iddynt gynrychioli'r Cyngor yn yr achos.

3. Mae'r Swyddfa Gartref yn awgrymu mai'r Swyddog Ymchwilio fydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r rôl hon, ond gall y Swyddog Awdurdodi hefyd fod yn awyddus i fynd i'r gwrandawiad i ateb cwestiynau.

4. Bydd y Cyngor yn rhoi copi i'r Ynad o'r caniatâd RIPA gwreiddiol. Hwn fydd sail y cais i'r Ynad a dylai gynnwys yr holl wybodaeth y bydd yn dibynnu arni. Yn ogystal, bydd yr awdurdod lleol yn darparu i'r Ynad ddau gopi o'r ffurflen gais/gorchymyn barnwrol wedi'i llenwi'n rhannol sydd ar gael yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref (ffurflenni enghreifftiol (gydag arweiniad ar lenwi'r ffurflenni) ac ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn [rhowch ddolen we]).

**5.** Cynhelir y gwrandawiad yn breifat a bydd un Ynad yn gwrando ar yr achos, drwy ddarllen ac ystyried y caniatâd RIPA a'r ffurflen gais/gorchymyn barnwrol. Gall fod gan yr Ynad gwestiynau er mwyn egluro pwyntiau neu gael sicrwydd ynghylch materion penodol. Rhaid i'r ffurflenni a'r papurau ategol ddadlau'r achos o'u rhan eu hunain. **Nid yw'n ddigonol i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth lafar os nad yw'r papurau a ddarperir yn adlewyrchu neu'n cefnogi'r dystiolaeth honno.**

6. Bydd yr Ynad yn ystyried a yw'n fodlon bod sail resymol dros gredu, ar yr adeg y cafodd y caniatâd ei roi neu'i adnewyddu, fod y caniatâd yn angenrheidiol ac yn gymesur. Bydd hefyd yn ystyried a yw'r sail resymol yn parhau. Yn ogystal, rhaid i'r Ynad fod yn fodlon bod y Swyddog Awdurdodi mewn swydd briodol o fewn yr awdurdod lleol a bod y caniatâd wedi'i roi yn unol ag unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol perthnasol (e.e. ei fod yn bodloni'r Prawf Trosedd Ddifrifol ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig).

7. Bydd yr Ynad yn cwblhau'r gorchymyn sy'n rhan o'r ffurflen a enwir uchod. Hwn fydd cofnod swyddogol ei benderfyniad. Bydd angen i'r Cyngor gadw copi o'r ffurflen ar ôl i'r Ynad ei llofnodi.

**Dewisiadau'r Ynad**

Gall yr Ynad benderfynu fel a ganlyn -

- ***Cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd***
  Bydd y caniatâd a roddwyd/adnewyddwyd yn dod i rym a chaiff y Cyngor fwrw ymlaen i ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth a enwir ynddo.

- ***Gwrthod cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd ar bwynt technegol***
  Ni fydd y caniatâd RIPA'n dod i rym ac ni chaiff y Cyngor ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth yn yr achos hwn. Bydd angen i'r Cyngor ystyried y rhesymau dros wrthod cymeradwyaeth. Gellir cywiro gwall technegol ar y ffurflen heb fod angen mynd drwy'r broses ganiatáu fewnol eto. Yna, gall y Cyngor wneud cais arall am gymeradwyaeth Ynad.

- ***Gwrthod cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd a dileu'r caniatâd***
  Gall Ynad wrthod cymeradwyo rhoi neu adnewyddu caniatâd a phenderfynu dileu'r caniatâd gwreiddiol. Gall wneud hyn oherwydd ei fod yn credu nad yw'n angenrheidiol neu'n gymesur. Ni fydd y caniatâd RIPA'n dod i rym ac ni chaiff y Cyngor ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth yn yr achos hwn. Ni chaniateir i'r Ynad ddefnyddio'i bŵer i ddileu'r caniatâd oni bai fod y Cyngor wedi cael o leiaf ddau ddiwrnod gwaith o'r dyddiad y gwrthodwyd cymeradwyaeth i baratoi sylwadau pellach a'u cyflwyno i'r Llys.

**Apeliadau**

Nid oes modd cwyno am benderfyniad barnwrol oni bai iddo gael ei wneud yn annidwyll. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn at Bwyllgor Cynghori'r Ynadon.

Felly, ni chaiff y Cyngor ond apelio yn erbyn penderfyniad Ynad i wrthod cymeradwyo caniatâd ar bwynt cyfreithiol drwy wneud cais am Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys.

Bydd y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT') yn parhau i ymchwilio i gwynion gan unigolion ynghylch y modd y mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn defnyddio technegau RIPA. Ar ôl i gŵyn ddod i law'r Tribiwnlys, os yw'n cael bod rhywbeth o'i le â'r caniatâd RIPA, mae ganddo bŵer i ddileu gorchymyn yr Ynad, a oedd yn cymeradwyo rhoi neu adnewyddu'r caniatâd. Gall hefyd ddyfarnu iawndal os yw'n credu bod y Cyngor wedi torri hawliau dynol unigolyn (gweler Rheolau'r Tribiwnlys ar Bwerau Ymchwilio 2018 (OS 2018/1334), a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2018).

## Siart lif 8 – Proses Gymeradwyo'r Ynadon

Llenwi'r ffurflen ganiatâd a gofyn am gymeradwyaeth Swyddog Awdurdodi

↓

Llenwi ffurflen gais am gymeradwyaeth ynad

↓

Cysylltu â'r Llys Ynadon lleol i drefnu gwrandawiad

↓

Mynd i'r llys, a mynd â'r dogfennau a ganlyn gyda chi:

- Ffurflen ganiatâd RIPA wedi'i chydlofnodi a chopi ohoni
- Ffurflen gais am gymeradwyaeth ynad a chopi ohoni
- Unrhyw ddeunydd cyfeirio neu ddeunydd ategol perthnasol

↓

**DEWISIADAU'R YNAD**

**GWRTHOD CYMERADWYO** a dileu'r caniatâd oherwydd gwall sylfaenol

(bydd gan y Cyngor 2 ddiwrnod i gyflwyno sylwadau pellach)

**GWRTHOD CYMERADWYO** caniatâd oherwydd gwall technegol

(cywiro'r gwall ac ailgyflwyno'r cais i'r llys)

**CYMERADWYO'R CANIATÂD**

Gall y Cyngor fynd ati i gadw gwyliadwriaeth

DRAFT

**Terfynau Amser**

Ar hyn o bryd, 12 mis yw terfyn amser caniatâd i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol neu fis os yw'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol o dan oedran.

Rhaid caniatáu i'r caniatâd gwreiddiol gael ei adnewyddu cyn iddo ddod i ben, ond bydd yn dod i rym ar y dyddiad a'r amser y bydd y caniatâd gwreiddiol yn dod i ben. Gellir adnewyddu caniatâd fwy nag unwaith os tybir ei fod yn dal i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur ac os caiff ei gymeradwyo gan Ynad.

Ni chaniateir gwneud cais i adnewyddu caniatâd fwy na 7 diwrnod gwaith cyn i'r caniatâd ddod i ben, a hynny i sicrhau bod angen ei adnewyddu. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol ystyried ffactorau a allai beri oedi yn y broses adnewyddu (e.e. penwythnosau neu a yw swyddog awdurdodi perthnasol yr awdurdod lleol ac Ynad ar gael i ystyried y cais).

DRAFFT

# RHAN 4 – Cofnodion, Trin Data, Trefniadau Diogelwch Wrth Gadw Gwybodaeth, Gwallau a Chwynion

## COFRESTR GANOLOG O'R CANIATADAU

Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cadw cofrestr ganolog sy'n cynnwys y wybodaeth a ganlyn am bob caniatâd. Fe'i cedwir am o leiaf dair blynedd o'r dyddiad y bydd pob caniatâd yn dod i ben ac ym mhob achos bydd yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion (2019) y Cyngor:
https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/2725/information-and-records-management-policy-v20.pdf

Rhaid cadw dogfennau sy'n rhoi cyfarwyddyd i roi'r gorau i gadw gwyliadwriaeth. Dylid cadw cofnod sy'n rhoi manylion y cynnyrch sydd wedi deillio o'r wyliadwriaeth ac sy'n nodi a gafodd yr amcanion eu cyflawni. Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cadw golwg ar y Gofrestr Ganolog, ond y Swyddog Awdurdodi sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau ei bod yn gyfoes o ran caniatadau a adnewyddwyd ac a ganslwyd.

Bydd caniatadau ar gael i Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio eu gweld. Yr Uwch-swyddog Cyfrifol neu ei gynrychiolydd fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y gofrestr yn cael ei chynnal a'i goruchwylio.

Dylai'r cofnodion gynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Y caniatâd gwreiddiol (nid copi ohono);
- Y math o ganiatâd – e.e. Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig neu Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol;
- Dyddiad rhoi'r caniatâd;
- Enw a gradd y swyddog awdurdodi;
- Cyfeirnod (dilyniannol) unigryw'r ymchwiliad neu'r ymgyrch;
- Teitl yr ymchwiliad neu'r ymgyrch, gan gynnwys disgrifiad cryno ac enwau targedau'r ymchwiliad neu'r ymgyrch, os ydynt yn wybyddus;
- A gafodd y darpariaethau brys eu defnyddio ac, os felly, pam;
- Dyddiad unrhyw adolygiadau;
- Os yw'r caniatâd wedi'i adnewyddu, y dyddiad adnewyddu a'r sawl a ganiataodd ei adnewyddu, gan gynnwys enw a gradd y swyddog awdurdodi;
- A wnaeth yr ymchwiliad neu'r ymgyrch arwain at gaffael gwybodaeth gyfrinachol;
- A gafodd y caniatâd ei roi gan unigolyn a oedd yn rhan uniongyrchol o'r ymchwiliad;
- Dyddiad canslo'r caniatâd;
- Y cyfarwyddyd i roi'r gorau i gadw gwyliadwriaeth;
- Cofnod o'r cynnyrch a gafwyd yn sgil cadw gwyliadwriaeth;
- Cofnod sy'n nodi a gafodd yr amcanion eu cyflawni ai peidio;
- Cymeradwyaeth y Llys Ynadon, gan gynnwys dyddiad y gwrandawiad llys;
- Enw'r Ynad a benderfynodd ar yr achos, ac amser a dyddiad y penderfyniad hwnnw;
- Mewn achosion lle gwrthodir unrhyw gais, ar ba sail y'i gwrthodwyd fel y'i mynegwyd i'r awdurdod dyroddi neu i'r Comisiynydd Barnwrol;
- Cofnod, wedi i Gomisiynydd Barnwrol wrthod unrhyw gais, a oes apêl i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio;
- Pan fo apêl o'r fath a bod y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio hefyd yn gwrthod dyroddi cais, ar ba sail y'i gwrthodwyd.

Mae Paragraff 8.2 y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo hefyd yn cadarnhau'r canlynol:

*The following documentation should also be centrally retrievable for at least three years from the ending of each authorisation:*

- *A copy of the application and a copy of the authorisation together with any supplementary documentation and notification of the approval given by the authorising officer;*
- *A record of the period over which the surveillance has taken place;*
- *The frequency of reviews prescribed by the authorising officer;*
- *A record of the result of each review of the authorisation;*
- *A copy of any renewal of an authorisation, together with the supporting documentation submitted when the renewal was requested;*
- *The date and time when any instruction to cease surveillance was given;*
- *The date and time when any other instruction was given by the authorising officer;*
- *For local authorities a copy of the order approving or otherwise the grant or renewal of an authorisation from a Justice of the Peace (JP).*

Dylai pob Swyddog Ymchwilio gadw copi o'r caniatâd o fewn ei wasanaeth a chyflwyno'r dogfennau gwreiddiol i'r Uwch-swyddog Cyfrifol.

**Sicrwydd wrth Drin Data a Threfniadau Diogelwch wrth Gadw Gwybodaeth**

Mae'r gweithdrefnau a'r mesurau diogelu a weithredir wrth ymdrin ag unrhyw ddeunydd a ddaw i law drwy wyliadwriaeth gyfeiriedig o dan Ddeddf 2000 yn cael sylw manwl yn y Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo a'r Cod Ymarfer ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol y dylid eu dilyn.

Mae'r ffurflenni cais ar gyfer Caniatadau RIPA wedi eu diwygio i gynnwys cyfeiriad at gyfnodau cadw gwybodaeth a chadarnhad bod y cyfnodau hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion y Cyngor a'r Rhaglen Gadw Gwybodaeth Gorfforaethol. (mae ffurflenni enghreifftiol gydag arweiniad ar sut i lenwi'r ffurflenni ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) ar [rhowch ddolen gwe]).

Rhaid cadw caniatadau am o leiaf dair blynedd, ac yn ddelfrydol hyd at bum mlynedd, wedi i bob caniatâd ddod i ben a hyd at bum mlynedd yn ddelfrydol. Rhaid i'r holl ddata a gafwyd o dan IPA 2016 a RIPA gael eu labelu'n glir a'u storio ar lwybr data gyda pholisi cadw hysbys.

**Rhaid i'r llwybr cadw, adolygu a'r broses gwaredu data gydymffurfio â'r canlynol:**

1. Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion y Cyngor (2019): https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/2725/information-and-records-management-policy;

2. Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor (i ddilyn)

3. Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742041/201800802_CSPI_code.pdf
   sy'n nodi'r canlynol ym Mharagraff 8.5 – Cadw cofnodion:
   *Records must be available for inspection by the Investigatory Powers Commissioner and retained to allow the Investigatory Powers Tribunal ('IPT'), established under Part IV of the 2000 Act, to carry out its functions. The IPT will consider complaints made up to one year after the conduct to which the complaint relates and, where it is equitable to do so, may consider complaints made more than one year after the conduct to which the complaint relates (see section 67(5) of the Act), particularly where*

*continuing conduct is alleged. Although records are only required to be retained for at least three years, it is therefore desirable, if possible, to retain records for up to five years.*

Gweler hefyd Paragraffau 8.6-8.7 isod ynghylch gwallau.

4. Rhaid i arferion cadw gwybodaeth gydymffurfio â'r fframweithiau cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys:
   - Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)
   - Deddf Pwerau Ymchwilio(IPA) 2016
   - Deddf Diogelu Data 2018 ac
   - Erthygl 8(2) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Wrth ganiatáu unrhyw geisiadau sy'n ymwneud â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig neu Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, dylai Swyddogion Awdurdodi hefyd ystyried:
(a) am ba hyd y cedwir y data?; a
(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

Rhaid i Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau eu bod yn deall yn llawn unrhyw lwybrau data a ddefnyddir ar gyfer data RIPA neu IPA 2016.
**Enghraifft:** Gellir storio data gwyliadwriaeth gyfeiriedig ar yr un pryd ar sawl llwybr data, fel a ganlyn:

- Llwybr 1: cynnyrch fideo teledu cylch cyfyng yn cael ei drosglwyddo i CD a'i gadw mewn cabinet diogel;
- Llwybr 2: copi o'r fideo yn cael ei anfon trwy e-bost a'i storio ar yriant storio cyffredin;
- Llwybr 3: copi o'r fideo yn cael ei dderbyn trwy e-bost a'i gadw mewn ffolder Outlook gan swyddog cyfreithiol; a
- Llwybr 4: copi o'r fideo yn cael ei dderbyn trwy e-bost a'i storio mewn ffolder gwaith achos tystiolaethol wedi'i warchod gan gyfrinair gan swyddog cyfreithiol.

Rhaid i brosesau diogelu hefyd gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag 2018 (ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742041/201800802_CSPI_code.pdf), sy'n nodi ym mharagraff 9.3 y dylai awdurdodau cyhoeddus '*should ensure that their actions when handling information obtained by means of covert surveillance or property interference comply with relevant legal frameworks and this code, so that any interference with privacy is justified in accordance with Article 8(2) of the European Convention on Human Rights. Compliance with these legal frameworks, including data protection requirements, will ensure that the handling of private information so obtained continues to be lawful, justified and strictly controlled, and is subject to robust and effective safeguards.*'

Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 fel ei fod yn cydymffurfio â threfniadau diogelu data er mwyn sicrhau lefel uchel o hyder bod yr holl ddata a gafwyd yn cael ei gadw'n gyfreithlon ac er mwyn gwreiddio ac annog arfer orau o ran cydymffurfio, a hefyd sicrhau bod y modd yr ymdrinnir â gwybodaeth breifat a gafwyd yn y modd hwnnw, yn parhau'n gyfreithlon, wedi'i gyfiawnhau ac wedi ei reoli'n llym, a'i fod yn rhwym wrth drefniadau diogelu cydnerth ac effeithiol. Ni ddylid cadw data am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol nac am fwy o amser nag sy'n briodol.

Cyfrifoldeb pob gwasanaeth yw cadw'r holl ganiatadau o fewn eu gwasanaeth ac unwaith y bo ymchwiliad wedi'i gau, dylai copïau dyblyg o'r cofnodion sydd ym meddiant y gwasanaeth gael eu gwaredu mewn modd priodol h.y. eu trin fel gwastraff cyfrinachol a'u rhwygo.

Rhaid i Swyddogion Awdurdodi sicrhau, drwy eu Rheolydd Data perthnasol, eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu data priodol dan y Ddeddf Diogelu Data ac unrhyw drefniadau mewnol perthnasol a gynhyrchwyd gan y Cyngor o safbwynt trin a storio deunydd.

Rhaid hefyd hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw doriadau i ofynion diogelu data.

Bydd y trefniadau diogelwch hyn yn destun adolygiad rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn gyfoes ac yn effeithiol.

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn nodi:

- *(Ym Mharagraff 9.5 Trefniadau diogelwch, gan gynnwys gwybodaeth freintiedig neu gyfrinachol):*
  *Dissemination, copying and retention of material must be limited to the minimum necessary for authorised purposes. For the purposes of the code, something is necessary for the authorised purposes if the material:*

    - *is, or is likely to become, necessary for any of the statutory purposes set out in the 2000, 1997 or 1994 Act in relation to covert surveillance or property interference;*
    - *is necessary for facilitating the carrying out of the functions of public authorities under those Acts;*
    - *is necessary for facilitating the carrying out of any functions of the Commissioner or the Investigatory Powers Tribunal;*
    - *is necessary for the purposes of legal proceedings; or*
    - *is necessary for the performance of the functions of any person by or under any enactment.*

Mae paragraffau 9.14 i 9.22 y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn cynnig arweiniad ynghylch y trefniadau diogelwch sy'n rheoli rhannu, copïo, storio a dinistrio gwybodaeth breifat a gafwyd drwy wyliadwriaeth gudd neu drwy ymyrryd ag eiddo.

Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau mewnol mewn grym, er mwyn sicrhau bod gofynion y trefniadau diogelwch y cyfeirir atynt yn y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 wedi'u bodloni o ran gwybodaeth breifat a dderbynnir.

Gellir trefnu hyfforddiant ar Drefniadau Diogelu Trin a Chadw Data ar gyfer unrhyw Swyddogion Awdurdodi neu Swyddogion a all ymdrin â data o'r fath – cysylltwch â'r Uwch-swyddog Cyfrifol os hoffech gael unrhyw hyfforddiant o'r fath.

**Rhannu gwybodaeth**
Dylai nifer y bobl y datgelir y wybodaeth iddynt a faint a ddatgelir fod yn gyfyngedig i'r lleiafswm angenrheidiol ar gyfer y diben(ion) awdurdodedig.
Mae'r rheidrwydd hwn hefyd yr un mor berthnasol o ran datgelu i bobl ychwanegol o fewn y Cyngor, neu i awdurdod cyhoeddus arall. Yn yr un modd, dim ond y deunydd y mae ei angen ar y derbynnydd y dylid ei ddatgelu e.e. os bydd crynodeb o'r deunydd yn ddigon, ni ddylid datgelu mwy na chrynodeb.

Mae'r rheidrwydd hwn i gyfyngu ar y nifer o bobl y datgelir unrhyw elfen o'r wybodaeth, gan gynnwys faint a ddatgelir i'r lleiafswm angenrheidiol ar gyfer y diben(ion) awdurdodedig hefyd yn berthnasol i unrhyw un y datgelir y deunydd yn ddiweddarach. Mewn rhai achosion, cyflawnir hyn drwy fynnu bod yr ail yn cael caniatâd oddi wrth yr awdurdod gwreiddiol cyn datgelu deunydd ymhellach. Mewn achosion eraill, dylid rhoi trefniadau diogelwch penodol ar waith ar gyfer derbynwyr eilaidd.

Fel y cadarnhawyd yn yr adran Ymyrryd â Data Cyfathrebu uchod, ynglŷn â deunydd a gafwyd dan warant neu awdurdod ac a ddatgelir i awdurdodau gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU, rhaid i'r Cyngor sicrhau mai dim ond os yr ymddengys iddynt y cedwir at unrhyw ofynion sy'n ymwneud â lleihau'r graddau y bydd y deunydd yn cael ei ddatgelu ei gopïo, ei rannu a'i gadw i'r graddau yr ystyria'r swyddog awdurdodi, y Comisiynydd Barnwrol neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn briodol.

Pan ddatgelir deunydd a gafwyd o dan warant neu ganiatâd i awdurdodau gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y deunydd yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdodau dim ond os yw'n ymddangos iddynt hwy y cedwir at unrhyw ofynion sy'n ymwneud â lleihau'r graddau y bydd y deunydd yn cael ei ddatgelu, ei gopïo, ei rannu a'i gadw i'r graddau yr ystyria'r swyddog awdurdodi, Comisiynydd Barnwrol neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn briodol.

**Copïo**

Dim ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol at ddibenion awdurdodedig y ceir copïo deunydd a gafwyd drwy wyliadwriaeth gudd ac ymyrryd ag eiddo. Mae copïau'n cynnwys nid yn unig gopïau uniongyrchol o'r deunydd i gyd, ond hefyd ddetholion a chrynodebau sy'n dynodi eu bod yn gynnyrch gwyliadwriaeth gudd neu ymyrryd ag eiddo, ac unrhyw gofnod sy'n cyfeirio at wyliadwriaeth gudd neu ymyrryd ag eiddo a phwy yw'r unigolion y cyfeirir atynt yn y deunydd.

**Storio**

Rhaid i ddeunydd a gafwyd drwy wyliadwriaeth gudd neu ymyrryd ag eiddo a phob copi, pob detholiad a phob crynodeb ohono gael eu trin a'u storio'n ddiogel, er mwyn lleihau hyd yr eithaf y perygl iddynt fynd ar goll neu gael eu dwyn. Rhaid cadw'r deunydd mewn modd fel na all unigolion heb y lefel angenrheidiol o gliriad diogelwch (lle bo hynny'n briodol) gael mynediad ato. Mae'r angen hwn i storio deunydd o'r fath yn ddiogel yn berthnasol i bawb sy'n gyfrifol am drin y deunydd.

Rhaid i'r Cyngor roi'r mesurau diogelwch gwarchodol canlynol far waith:

- Diogelwch ffisegol i warchod unrhyw eiddo lle gall y wybodaeth gael ei storio neu lle gellir cael mynediad ati;
- Diogelwch TG er mwyn lleihau'r risg o fynediad diawdurdodedig at systemau TG; a
- Chliriad diogelwch priodol ar gyfer staff a'r cliriad diogelwch wedi ei lunio i roi sicrwydd bod y sawl sydd â mynediad at y deunydd hwn yn ddibynadwy ac yn bobl y gellir ymddiried yn llwyr ynddynt.

**Dileu a Dinistrio**

Dylid trefnu i wybodaeth a gafwyd drwy wyliadwriaeth gudd neu ymyrryd ag eiddo, yn ogystal â phob copi, detholiad a chrynodebau sy'n cynnwys deunydd o'r fath gael eu dileu neu eu dinistrio a dylid eu dinistrio mewn modd diogel cyn gynted ac nad oes mo'u hangen bellach ar gyfer y diben(ion) awdurdodedig. Dylid cael gwared ar gofnodion dyblyg sydd ym meddiant y gwasanaeth mewn dull priodol h.y. dylid eu trin fel gwastraff cyfrinachol a dylid eu rhwygo.

Os cedwir gwybodaeth o'r fath, dylid ei hadolygu ar gyfnodau priodol, er mwyn sicrhau bod y cyfiawnhad dros ei chadw'n parhau'n ddilys.

**Deunydd Cyfrinachol a Deunydd sy'n Meddu ar Fraint Gyfreithiol**

Mae gofynion penodol a manwl iawn hefyd o ran deunydd sy'n arbennig o sensitif. Mae llawer o'r deunydd hwn yn ddarostyngedig i gyfundrefnau uwch awdurdodi. Ymhlith deunydd o'r math hwn, mae'r canlynol:

- Deunydd sy'n rhwym wrth fraint gyfreithiol;
- Gwybodaeth bersonol gyfrinachol;
- Gwybodaeth gyfansoddiadol gyfrinachol; a
- Deunydd newyddiadurol cyfrinachol a ffynonellau newyddiadurwyr.

Dim ond Swyddogion Awdurdodi â'r hawl ganddynt i roi caniatadau yn ymwneud â gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig gaiff awdurdodi gwyliadwriaeth gyfeiriedig sy'n debygol o arwain neu y bwriedir iddi arwain at gaffael gwybodaeth am ddeunydd cyfrinachol neu freintiedig. Rhaid bod yn ofalus os byddai modd, trwy gadw gwyliadwriaeth, gaffael gwybodaeth am drafodaethau rhwng gweinidog yr efengyl ac unigolyn ynghylch lles ysbrydol yr olaf, neu os yw materion o gyfrinachedd meddygol neu newyddiadurol dan sylw.

Os yw materion o'r fath wedi cael eu caffael a'u cadw, rhaid i Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer RIPA gael ei hysbysu cyn gynted â phosibl oherwydd dylai'r mater gael ei adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn ystod yr arolygiad nesaf a dylai'r deunydd fod ar gael i'r Swyddfa os oes angen.

**Marcio**

Dylid ystyried marcio deunydd mewn modd priodol, er enghraifft, marcio deunydd cyfrinachol neu sensitif â'r geiriau 'CYFRINACHOL' neu 'PEIDIWCH Â DOSBARTHU HEB GANIATÂD YSGRIFENEDIG'

**Gwallau**

Bydd paratoi gofalus a gwirio caniatadau a systemau technegol priodol yn lleihau'r posibiliad o wneud gwallau.

Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cynnal adolygiad blynyddol o wallau ynghyd â chadw cofnod ysgrifenedig.
Gweler Paragraffau 8.8-8.18 y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo (2018):

> *8.6 This section provides information regarding errors. Proper application of the surveillance provisions provided for in Part II of the 2000 Act and the property interference provision provided for in the 1994 and 1997 Acts, should reduce the scope for making errors. Public authorities will be expected to have thorough procedures in place to comply with these provisions, including for example the careful preparation and checking of warrants and authorisations, reducing the scope for making errors.*
>
> *8.7 Wherever possible, any technical systems should incorporate functionality to minimise errors.*
>
> *8.8 An error must be reported if it is a 'relevant error'. Under section 231(9) of the Investigatory Powers Act 2016, a relevant error for the purpose of activity covered by this code is any error by a public authority in complying with any requirements that are imposed on it by any enactment which are subject to review by a Judicial*

*Commissioner. This would include compliance by public authorities with Part II of the 2000 Act or the property interference provisions of the 1994 and 1997 Acts. Examples of relevant errors occurring would include circumstances where:*

- *Surveillance or property interference activity has taken place without lawful authorization; or*
- *There has been a failure to adhere to the safeguards set out in the relevant statutory provisions and Chapter 9 of the Code.*

*8.9 Errors can have very significant consequences on an affected individual's rights and, in accordance with section 235(6) of the Investigatory Powers Act 2016, all relevant errors made by public authorities must be reported to the Investigatory Powers Commissioner by the public authority that is aware of the error.*

*8.10 When a relevant error has occurred, the public authority that made the error must notify the Investigatory Powers Commissioner as soon as reasonably practicable, and no later than* ***ten working*** *days (or as agreed with the Commissioner) after it has been established by appropriate internal governance processes that a relevant error has occurred. Such internal governance processes are subject to review by the Investigatory Powers Commissioner. Where the full facts of the error cannot be ascertained within that time, an initial notification must be sent with an estimated timescale for the error being reported in full and an explanation of the steps being undertaken to establish the full facts of the error.*

*8.11 From the point at which the public authority identifies that a relevant error may have occurred, they must take steps to confirm the fact of an error as quickly as it is reasonably practicable to do so. Where it is subsequently confirmed that an error has occurred and that error is notified to the Commissioner, the public authority must also inform the Commissioner of when it was initially identified that an error may have taken place.*

*8.12 A full report must be sent to the Investigatory Powers Commissioner as soon as reasonably practicable in relation to any relevant error, including details of the error and, where it has not been possible to provide the full report within ten working days (or as agreed with the Commissioner) of establishing the fact of the error, the reasons this is the case. The report should include information on the cause of the error; the amount of surveillance or property interference conducted and material obtained or disclosed; any unintended collateral intrusion; any analysis or action taken; whether any material has been retained or destroyed; and a summary of the steps taken to prevent recurrence.*

*8.13 The Investigatory Powers Commissioner may issue guidance as necessary, including guidance on the format of error reports. Public authorities must have regard to any guidance on errors issued by the Investigatory Powers Commissioners.*

*8.14 In addition to the above, errors may arise where a warrant or authorisation has been obtained as a result of the public authority having been provided with information which later proved to be incorrect due to an error on the part of the person providing the information, but on which the public authority relied in good faith. Whilst these actions do not constitute a relevant error on the part of the authority which acted on the information, such occurrences should be brought to the attention of the Investigatory Powers Commissioner. Where reporting such circumstances to the Investigatory Powers Commissioner, the processes outlined at Paragraph 8.10 apply as they apply to the reporting of a relevant error.*

**Enghreifftiau o gamgymeriadau cyffredin ar ffurflenni RIPA**

- Defnyddio hen ffurflenni'r Swyddfa Gartref;
- Peidio â nodi cyfeirnod unigryw ar y ffurflen;
- Copïo geiriad caniatadau blaenorol;
- Methu â rhoi esboniadau manwl o'r hyn a fydd yn digwydd fel rhan o'r gwaith gwyliadwriaeth;
- Methu ag ystyried a/neu egluro'r ffactorau cymesuredd yn ddigonol;
- Methu ag ystyried a/neu egluro'r ymyrraeth anuniongyrchol yn ddigonol;
- Methu ag ystyried y tebygrwydd o gaffael gwybodaeth gyfrinachol;
- Methu ag anfon ffurflenni (gwreiddiol) wedi'u llenwi at yr Uwch-swyddog Cyfrifol; neu
- Fethu â gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r tactegau y mae'n wybyddus eu bod ar gael neu y bwriedir eu defnyddio yn unig.

**Enghreifftiau o gamgymeriadau Swyddogion Awdurdodi**

- Naratif ailadroddus a rhoi sêl bendith heb ystyried yr holl ffeithiau a nodir ar y ffurflen gais am ganiatâd yn briodol;
- Methu â nodi'n glir pa weithgareddau a chyfarpar gwyliadwriaeth a ganiateir;
- Heb fod yn gwybod yr hyn y gall y cyfarpar gwyliadwriaeth a ganiateir ei wneud; (e.e. camerâu sy'n recordio'n barhaus, y gallu i greu delweddau thermol / is-goch, camerâu sy'n cael eu switsio ymlaen gan symudiadau);
- Methu â dangos bod dulliau llai ymwthiol wedi'u hystyried yn ddigonol a pham eu bod wedi'u diystyru er mwyn defnyddio'r dacteg a ddewiswyd;
- Methu â rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli a storio cynnyrch y wyliadwriaeth wrth ganslo caniatâd;
- Dim gweithdrefnau cadarn na gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith;
- Methu â rhoi tystiolaeth o gymesuredd – bod dulliau eraill wedi'u hystyried, a bod y meini prawf perthnasol wedi'u hystyried; neu
- Rhaid barnu'r angen am ganiatâd ar adeg rhoi'r caniatâd, ac nid drwy edrych yn ôl.

**<u>Gwallau Difrifol</u>**

*8.15 Section 231 of the 2016 Act states that the Investigatory Powers Commissioner must inform a person of any relevant error relating to that person if the Commissioner considers that the error is a serious error and that it is in the public interest for the person concerned to be informed of the error. The Commissioner may not decide that an error is a serious error unless he or she considers that the error has caused significant prejudice or harm to the person concerned. The fact that there has been a breach of a person's Convention rights (within the meaning of the Human Rights Act 1998) is not sufficient by itself for an error to be a serious error.*

*8.16 In deciding whether it is in the public interest for the person concerned to be informed of the error, the Commissioner must in particular consider:*
- *national security;*
- *the prevention or detection of serious crime;*
- *the economic well-being of the United Kingdom; or*
- *the continued discharge of the functions of any of the intelligence services*

*8.17 Before making their decision, the Commissioner must ask the public authority which has made the error to make submissions on the matters concerned. Public authorities must take all such steps as notified to them by the Investigatory Powers Commissioner to help identify the subject of a serious error.*

*8.18 When informing a person of a serious error, the Commissioner must inform the person of any rights that the person may have to apply to the Investigatory Powers Tribunal, and provide such details of the error as the Commissioner considers to be necessary for the exercise of those rights.*

Gellir cael rhagor o arweiniad fan hyn:

- Paragraffau 7.1 – 7.20 o'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol 2018 a
- Paragraffau 8.6 – 8.18 o'r Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018

DRAFFT

**CWYNION**

**Caiff unrhyw un sy'n anfodlon â'r modd y mae'r Cyngor wedi cadw gwyliadwriaeth, neu'r modd y mae'n cadw gwyliadwriaeth, wneud cwyn. Yr unigolyn fydd yn penderfynu pa weithdrefn y dylid ei defnyddio.**

Os bydd yr unigolyn am gwyno gan ddefnyddio gweithdrefnau'r Cyngor, dylai'r achwynydd gael gwybod am Drefn Gwyno Gorfforaethol y Cyngor, (gweler https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/sylwadau-canmoliaeth-a-chwynion/cwynion-corfforaethol/ a https://www.ceredigion.gov.uk/media/1178/complaints-policy-bookletcymraeg.pdf)
Bydd y gŵyn yn cael ei thrafod yn unol â'r weithdrefn honno.
Os bydd yr unigolyn am gyflwyno cwyn yn uniongyrchol i gorff annibynnol, neu os bydd wedi defnyddio gweithdrefnau mewnol y Cyngor a'i fod yn dal i fod yn anfodlon, caiff gyflwyno cwyn i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT').

Mae gan y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio yr awdurdod i ymchwilio a dod i benderfyniad ynghylch cwynion yn erbyn defnydd awdurdod cyhoeddus o bwerau ymchwilio. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio neu er mwyn gwneud cwyn, yna ceir manylion llawn sut mae gwneud hynny ar wefan y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio (IPT): www.ipt-uk.com.

Gellir anfon cwyn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod:

The Investigatory Powers Tribunal
PO Box 33220
London
SWIH 9ZQ

* Gweler Rhan 5 isod am gwynion ynghylch Data Cyfathrebu

DRAFT

# RHAN 5 – Data Cyfathrebu

Daeth Gorchymyn Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Data Cyfathrebu) 2010 (OS 2010 rhif 480) i rym ar 6 Ebrill 2010 ac mae'n cadarnhau'r pwerau a geir ym Mhennod 2 o RIPA a ddarparwyd i'r Awdurdodau Lleol gan Orchymyn cyfatebol 2003.

Yn gryno, mae Pennod 2 yn caniatáu i Awdurdod Cyhoeddus, fel y Cyngor, gaffael gwybodaeth a ddiffinnir fel "data cyfathrebu" *("communications data").* Mae hyn yn cynnwys data tanysgrifio a data gwasanaeth ond nid "data traffig" *("traffic data")* fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA).

Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 ('IPA 2016') sy'n rheoleiddio mynediad i ddata cyfathrebu (https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/25/). Gweler hefyd God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/757850/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf.

**Ystyr 'Data Cyfathrebu'**

Gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu (e.e. cwmnïau telathrebu, rhyngrwyd a phost) sy'n ymwneud â chyfathrebiadau'u cwsmeriaid yw data cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â defnyddio gwasanaeth cyfathrebu, ond nid cynnwys y cyfathrebiadau'u hunain.

Gallai enghraifft syml o gais llwyddiannus am ddata cyfathrebu gynnwys, er enghraifft, gwneud cais am fanylion yn cadarnhau dyddiad ac amser e-bost, ond nid ei gynnwys.

Mae Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 yn nodi (ym mharagraff 2.18) bod y term 'data cyfathrebu' yn cynnwys 'pwy', 'pryd', 'ble', a 'sut' y cyfathrebwyd ond nid cynnwys y cyfathrebiad h.y. yr hyn a ddywedwyd neu a ysgrifennwyd (diffinnir cynnwys cyfathrebiad yn adran 261(6) o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 fel unrhyw elfen o'r cyfathrebiad, neu unrhyw ddata sydd ynghlwm wrth y cyfathrebiad neu'n rhesymegol gysylltiedig ag ef, sy'n datgelu unrhyw beth o'r hyn y gellid yn rhesymol ei ystyried yn ystyr (os oes un) y cyfathrebiad hwnnw).

Mae Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 yn nodi, mewn perthynas â Data Cyfathrebu :

2.19 '*It includes the way in which, and by what method, a person or thing communicates with another person or thing. It excludes anything within a communication including text, audio and video that reveals the meaning, other than inferred meaning, of the communication.*

*2.20 It can include the address to which a letter is sent, the time and duration of a communication, the telephone number or email address of the originator and recipient, and the location of the device from which the communication was made. It covers electronic communications including internet access, internet telephony, instant messaging and the use of applications. It also includes postal services.*

*2.21 Communications data is generated, held or obtained in the provision, delivery and maintenance of communications services – i.e. postal services or telecommunications services.*

DRAFT

2.22 *Communications data in relation to telecommunications operators' services and systems includes data held or obtainable by a telecommunications operator or postal operator or which is available directly from a telecommunication system and comprises four elements.*

***Data about an entity to which a telecommunications service is provided and relates to the provision of the service***

2.23 *This data includes information about any person or entity to whom a service is provided, whether a subscriber or guest user and whether or not they have ever used that service. For example, this may include information about the person associated with an email address even if that email address has not been used since its creation.*

2.24 *An entity (see below for further details) can also include devices so this data would cover information about the devices owned by a customer as well as the services provided by the telecommunications operator to which the owner of the devices subscribes. This data may include names and addresses of subscribers.*

2.25 *Importantly this data is limited to data held or obtained by the telecommunications operator in relation to the provision of a telecommunications service – it does not include data which may be held about a customer by a telecommunications operator more generally which is not related to the provision of a telecommunications service.*

2.26 *For example, for a social networking provider data such as the status of the account, contact details for the customer and the date a person registered with the service would all be communications data as they relate to the use of the service. However, other data held by the provider about a customer which does not relate to the provision of the telecommunications service, including personal information such as political or religious interests included in profile information, is not within scope of the definition of communications data.*

***Data comprised in, included as part of, attached to or logically associated with a communication for the purposes of a telecommunication system that facilitates the transmission of that communication***

2.27 *This data includes any information that is necessary to get a communication from its source to its destination, such as the dialled telephone number or Internet Protocol (IP) address. It includes data which:*

- *identifies the sender or recipient of a communication or their location;*
- *identifies or selects the apparatus used to transmit the communication;*
- *comprises signals which activate the apparatus used (or which is to be used) to transmit the communication; and*
- *identifies data as being part of a communication.*

2.28 *This element of the communications data definition also includes data held, or capable of being obtained, by the telecommunications operator which is logically associated with a communication for the purposes of the telecommunication system by which the communication is being, or may be, transmitted. In practice this will often mean any data which is used to route or transmit a communication which the telecommunications operator holds or could obtain, for example from the network.*

***Communications Data Code of Practice***

*2.29 This might include, for example data about domain name system ('DNS') requests which allow communications to be routed across the network. It also includes data that facilitates the transmission of future communications (regardless of whether those communications are, in fact, transmitted).*

*2.30 Only information falling within this section of the definition of communications data can be obtained directly from a telecommunication system by a public authority.*

***Data which relates to the use of a service or system***

*2.31 This element includes other information held by a telecommunications operator about the use of the service such as information that the provider holds for billing purposes.*

***Data which is about the architecture of a telecommunication system.***

*2.32 The definition of communications data additionally includes data held by a telecommunications operator about the architecture of the telecommunication system (sometimes referred to as 'reference data'). This may include the location of cell masts or Wi-Fi hotspots. This information itself does not contain any information relating to specific persons and its acquisition in its own right does not interfere with the privacy of any customers. However, this data is often necessary for the public authority to interpret the data received in relation to specific communications or users of a service.*

*2.33 Part 3 of the Act does not apply to any conduct by a public authority to obtain publicly or commercially available communications data. A communications data authorisation under Part 3 is not mandatory to obtain reference data, such as mobile phone mast locations, from a telecommunications operator as there is no intrusion into an individual's rights. However, some reference data, such as details of Wi-Fi hotspots, may be commercially sensitive and an authorisation can be sought by a public authority seeking to obtain this data from a telecommunications operator where the telecommunications operator requires it.*

***Entity and Events Data***

*2.34 All communications data held by a telecommunications operator or obtainable from a telecommunication system falls into two categories:*

- *entity data – this data is about entities or links between them and describes or identifies the entity but does not include information about individual events. Entities could be individuals, groups and objects (such as mobile phones or other communications devices);*
- *events data – events data identifies or describes events in relation to a telecommunication system which consist of one or more entities engaging in an activity at a specific point, or points, in time.*

*2.35 The authorisation levels required to access communications data reflect the fact that the set of events data as a whole contains the more intrusive communications data, including information on who has been in communication*



DRAFT

*with whom, a person's location when their mobile device connects to the network and internet connection records. The rank of the designated senior officer that can authorise acquisition of data reflects the differing levels of intrusiveness of the data. For example, in certain circumstances, the police can authorise access to entity data at Inspector level but events data is authorised at Superintendent level. Additionally entity data can be obtained in a wider range of crime types than events data.*

*2.36 There are some circumstances where a telecommunications operator will need to process events data in order to respond to a request for entity data. In such circumstances the level of authorisation required is for the type of data that is to be disclosed, rather than the type of data that is processed e.g. where a public authority wants to know the identity of a person using an IP address at a specific time and date this will be an application for entity data.*

*2.37 Where a public authority provides events data to a telecommunications operator as part of a request for entity data then the telecommunications operator may disclose that events data in the response to the entity data authorisation. Taking the example above, the telecommunications operator could include the time and date of the communication as part of the response without the need for it to be authorised as an event. This is because the public authority, by providing the events data to the telecommunications operator, has demonstrated they are already aware of the event and only intend to determine the entity involved in that event. By disclosing the events data the telecommunications operator would only be providing the public authority with information they already knew. Such disclosure is likely to occur where the telecommunications operator discloses the full record from their systems.*

***Entity data***

*2.38 Entity data covers information about a person or thing, and about links between a telecommunications service, part of a telecommunication system and a person or thing, that identify or describe the person or thing. This means that individual communication devices such as phones, tablets and computers are entities. The links between a person and their phone are therefore entity data but the fact of or information about communications between devices on a network at a specific time and for a specified duration would be events data.*

*2.39 Examples of entity data include:*

- *'subscriber checks' such as "who is the subscriber of phone number 01234 567 890?", "who is the account holder of e-mail account example@example.co.uk?" or "who is entitled to post to web space www.example.co.uk?";*
- *subscribers' or account holders' account information, including names and addresses for installation, and billing including payment method(s), details of payments;*
- *information about the connection, disconnection and reconnection of services to which the subscriber or account holder is allocated or has subscribed (or may have subscribed) including conference calling, call messaging, call waiting and call barring telecommunications services;*
- *information about apparatus or devices used by, or made available to, the subscriber or account holder, including the manufacturer, model, serial numbers and apparatus codes (This includes PUK (Personal Unlocking Key) codes for mobile phones. These are initially set by the handset manufacturer*

*and are required to be disclosed in circumstances where a locked handset has been lawfully seized as evidence in criminal investigations or proceedings); and*

- *information about selection of preferential numbers or discount calls.*

2.40 *Entity data can change over time. So, for example if a person moves house the address held by a telecommunications operator will change. The fact of that is an attribute of the entity (the person) and not a communication event.*

2.41 *Some telecommunications operators may choose to retain user passwords as clear text for business purposes (In many cases a telecommunications operator will actually retain a password hash rather than the password itself. When a user enters the password to use a service it is encrypted and the hash generated is checked against the hash already held by a telecommunications operator meaning the operator never needs to retain the actual password). In this context passwords would constitute entity data. Any information, such as a password, giving access to the content of any stored communications or access to the use of a communications service may only be sought under Part 3 of the Act from a telecommunications operator in the following circumstances:*
   - *where such information is necessary in the interests of national security; or*
   - *for preventing death, injury or damage to health.*

2.42 *A communications data authorisation cannot authorise a public authority to use a password obtained through that or another communications data authorisation. If a public authority wishes to use a password obtained through a communications data authorisation to access the content of stored communications or any communications service it must, in accordance with section 6*

2.43 *of the Act, ensure that it has appropriate lawful authority.*

***Events***

2.44 *Events data covers information about time-bound events taking place across a telecommunication system at a time interval. Communications data is limited to communication events describing the transmission of information between two or more entities over a telecommunications service. This will include information which identifies, or appears to identify, any person, apparatus ('Apparatus' is defined in section 263 of the Act to include 'any equipment, machinery or device (whether physical or logical) and any wire or cable') or location to or from which a communication is transmitted. It does not include non-communication events such as a change in address or telephone number for a customer.*

2.45 *Examples of events data include, but are not limited to:*
- *information tracing the origin or destination of a communication that is, or has been, in transmission (including incoming call records);*
- *information identifying the location of apparatus when a communication is, has been or may be made or received (such as the location of a mobile phone);*
- *information identifying the sender or recipient (including copy recipients) of a communication from data comprised in or attached to the communication;*
- *routing information identifying apparatus through which a communication is or has been transmitted (for example, file transfer logs and e-mail headers –*



DRAFT

*to the extent that content of a communication, such as the subject line of an e-mail, is not disclosed);*

- *itemised telephone call records (numbers called) (Itemised bills can include an indication of the cost for receiving communications, for example calls and messages received by a mobile telephone that has been 'roaming' on another network);*
- *itemised internet connection records;*
- *itemised timing and duration of service usage (calls and/or connections);*
- *information about amounts of data downloaded and/or uploaded;*
- *information about the use made of services which the user is allocated or has subscribed to (or may have subscribed to) including conference calling, call messaging, call waiting and call barring telecommunications services.*'

**Ymyrryd â Data Cyfathrebu**

Ni all awdurdod lleol recordio galwadau ffôn rhwng dau barti pan nad yw'r naill barti na'r llall yn gwybod bod yr alwad yn cael ei recordio.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gall y sawl sy'n ffonio neu'n derbyn galwad gydsynio i'r sgwrs ffôn gael ei recordio. O dan amgylchiadau o'r fath, nid oes angen gwarant. I gadw gwyliadwriaeth o'r fath, bydd naill ai angen caniatâd i gadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig neu ganiatâd i ddefnyddio ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol os mai ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol sy'n gwneud neu'n derbyn yr alwad (fel arfer swyddog sy'n '*gweithio'n gudd'*).

Os yw'r swyddog neu'r ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol yn bwriadu recordio sgwrs ffôn fel rhan o weithgareddau gwyliadwriaeth gyfeiriedig neu weithgareddau sy'n defnyddio ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol sydd eisoes wedi'u caniatáu, nid oes angen cael caniatâd arbennig neu ganiatâd ychwanegol.

Nid yw fframwaith deddfwriaethol RIPA'n berthnasol i'r gwaith o recordio sgyrsiau ffôn at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig â phwerau ymchwilio.

Mae'r Ddeddf Pwerau Ymchwilio (IPA) 2016 yn amlinellu'r dyletswyddau cyffredinol o ran preifatrwydd wrth ymwneud â'r canlynol:

- ymyrryd yn anghyfreithlon â data cyfathrebu a
- chaffael data cyfathrebu yn anghyfreithlon.

Mae'r Ddeddf hefyd yn diddymu ac yn cyfyngu ar nifer o bwerau cyffredinol i gaffael data cyfathrebu ac yn cyfyngu ar yr amgylchiadau hynny lle gellir cynnal ymyrraeth ag offer ac y gellir gwneud rhai ceisiadau am ymyrryd â chyfathrebu. Mae'r Ddeddf yn nodi gwaharddiadau rhag ymyrraeth anghyfreithlon.

Sylwch, o dan adran 11 o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016, mae'n drosedd i unigolyn mewn awdurdod cyhoeddus gael data cyfathrebu yn fwriadol neu'n ddi-hid gan weithredwr telathrebu neu weithredwr post heb awdurdod cyfreithlon. Ni chyflawnir trosedd os gall yr unigolyn sawl sy'n cael y data ddangos ei fod wedi gweithredu yn y gred resymol bod ganddo ganiatâd cyfreithlon.

Nid yw'n drosedd i gael gafael ar ddata cyfathrebu lle mae'r data hwn ar gael yn gyhoeddus neu'n fasnachol gan weithredydd telathrebu/gweithredwr post. Mewn amgylchiadau o'r fath mae cydsyniad y gweithredwr yn darparu'r awdurdod cyfreithlon. Fodd bynnag, ni ddylai awdurdodau cyhoeddus fynnu, neu wahodd, unrhyw weithredwr i ddatgelu data cyfathrebu trwy ddibynnu ar yr eithriad hwn.

**Nid yw Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn caniatáu i awdurdodau lleol ryng-gipio data cyfathrebu. Dim ond trwy Un Pwynt Cyswllt (SPC) y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN) y caniateir i Swyddogion y Cyngor gael gafael ar Data Cyfathrebu (gweler isod).**

Mae caniatadau Data Cyfathrebu yn dod i ben 1 mis ar ôl y dyddiad cymeradwyo. Gall adnewyddiad wedi'i ganiatáu estyn y caniatâd am hyd at fis ychwanegol.

Gallai methu â sicrhau cymeradwyaeth briodol a chydymffurfio â Pholisi'r Cyngor arwain at eithrio tystiolaeth gan Lysoedd, cwynion yn erbyn y Cyngor, neu gyflawni troseddau. Mae'r Cyngor yn destun archwiliad ac arolygiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ac mae'n bwysig ein bod yn cydymffurfio â Deddf Pwerau Ymchwilio 2016.

**<u>Cael gafael ar ddata cyfathrebu drwy Un Pwynt Cyswllt (SPOC) y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN)</u>**

Mae'n hanfodol bod caffael Data Cyfathrebu wedi'i ganiatáu'n briodol.

Mae caffael data cyfathrebu o dan Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn cynnwys pedair rôl:

(a) Ymgeisydd;

(b) Swyddog ar Reng Gymeradwy;

(c) Un Pwynt Cyswllt;

(ch) Uwch-swyddog Cyfrifol mewn Awdurdod Cyhoeddus.

Caiff ceisiadau am ddata cyfathrebu eu caniatáu trwy aelodaeth y Cyngor o'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol ('NAFN') sy'n gweithredu fel Un Pwynt Cyswllt achrededig ar gyfer gweithredwyr telathrebu, gweithredwyr post a darparwyr gwasanaethau'r rhyngrwyd.

Rhaid i Swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi i geisio caffael unrhyw fath o ddata cyfathrebu (yr Ymgeisydd) wneud cais i'w gaffael trwy borth canolog Un Pwynt Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol. Rhaid i Swyddog ar Reng Gymeradwy hefyd fod yn ymwybodol o'r cais ac mae'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol yn hwyluso cymeradwyo'r cais gan y Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu ('OCDA').

Ers i Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (IPA) ddod i rym, hon yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n pennu sut mae awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys asiantaethau gorfodi'r gyfraith, asiantaethau cuddwybodaeth ac awdurdodau lleol, yn defnyddio'r pwerau ymchwilio sydd ar gael i ni. Mae'r pwerau hyn yn darparu ar gyfer caffael yn gyfreithlon ddata cyfathrebu, gan gynnwys manylion ynglŷn â phwy a gyfathrebodd, ble, pryd, sut a chyda phwy, ond nid y cynnwys (hynny yw, yr hyn a ddywedwyd).

I ddefnyddio gwefan ddiogel NAFN, rhaid i'r ymgeiswyr gofrestru'n unigol ar wefan NAFN yn www.nafn.gov.uk. Ar ôl cofrestru, rhaid i'r ymgeisydd lenwi'r ffurflen gais ar-lein a'i chyflwyno'n electronig i un o swyddogion NAFN. Bydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd a oes angen iddo wneud unrhyw newidiadau. Gellir lawrlwytho'r ffurflenni perthnasol o wefan y Swyddfa Gartref hefyd, a gellir cael copi gan yr Uwch-swyddog Gyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Gyfrifol.

Rhaid i'r cais i gaffael data cyfathrebu (yn ôl paragraffau 5.4-5.5 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018):

- disgrifio'r data cyfathrebu sy'n ofynnol, gan nodi, lle bo hynny'n berthnasol, unrhyw ddyddiad(au) hanesyddol neu yn y dyfodol a, lle bo hynny'n briodol, cyfnod(au) amser;

- nodi'r pwrpas y mae angen y data ar ei gyfer, trwy gyfeirio at bwrpas statudol o dan y Ddeddf;

- cynnwys cyfeirnod unigryw;

- cynnwys enw a swydd, rheng neu radd y sawl sy'n gwneud y cais;

- disgrifio a yw'r data cyfathrebu'n ymwneud â dioddefwr, tyst, achwynydd, rhywun sydd dan amheuaeth, perthynas agosaf, person bregus neu berson arall sy'n berthnasol i'r ymchwiliad neu'r ymgyrch;

- cynnwys enw'r ymgyrch (os yw'n berthnasol) y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

- nodi ac egluro'r amserlen y mae angen y data ar ei gyfer;

- esbonio pam yr ystyrir bod caffael y data hwnnw'n angenrheidiol ac yn gymesur â'r hyn y ceisir ei gyflawni trwy ei gaffael (gweler adran Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 ar reidrwydd a chymesuredd, gan ddechrau ym mharagraff 3.3. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r ddau fwled nesaf ar ymyrraeth anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol);

- cyflwyno'r achos dros ei ganiatáu mewn ffordd deg a chytbwys. Yn benodol, dylid gwneud pob ymdrech resymol i ystyried gwybodaeth sy'n cefnogi neu'n gwanhau'r achos dros ei ganiatáu;

- ystyried a, lle bo hynny'n briodol, disgrifio unrhyw ymyrraeth anuniongyrchol ystyrlon – i ba raddau y gellir torri hawliau unrhyw unigolyn nad yw'n destun ymchwiliad a pham y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth honno o dan yr amgylchiadau;

- ystyried a, lle bo hynny'n briodol, disgrifio unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl yn sgil y cais; a

- lle mae data yn cael eu ceisio gan weithredwr telathrebu neu weithredwr post, a all y gweithredwr telathrebu neu weithredwr post hysbysu'r unigolyn(unigolion) sy'n destun gwyliadwriaeth o'r ffaith bod cais wedi cael ei wneud am ei ddata.

- Dylai'r cais gofnodi wedi hynny a gafodd ei ganiatáu gan unigolyn sy'n caniatáu a phryd y gwnaed y penderfyniad hwnnw. Dylai'r awdurdod cyhoeddus gadw ceisiadau a dylent fod yn hygyrch i'r Un Pwynt Cyswllt.

Bydd y swyddog NAFN a benodir yn Un Pwynt Cyswllt, ymhlith pethau eraill, yn cyflawni rôl rheoli ansawdd ac yn rhoi cyngor ar faterion amrywiol i gynorthwyo'r swyddog ymchwilio a'r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn y Cyngor ar gyfer Caniatadau Data Cyfathrebu, y mae'n ofynnol iddynt fod ar yr un lefel (gweler 4.11 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018) â'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu.

Bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN yn cynghori a yw'r cais yn bodloni'r gofynion statudol, a oes modd i'r Gweithredwyr Telathrebu, Gweithredwyr Post neu'r Darparwyr Gwasanaethau

Rhyngrwyd gael gafael ar y wybodaeth ofynnol yn rhwydd, ac a yw'r cais yn effeithiol o ran cost. Bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN hefyd yn gweithredu fel swyddog cyswllt gan gyfathrebu â'r Gweithredwyr Telathrebu, Gweithredwyr Post neu Ddarparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd.

Ar hyn o bryd mae'r swyddogion canlynol yn ymgymryd â rôl **'Swyddogion ar Reng Gymeradwy'** i gadarnhau i NAFN eu bod yn ymwybodol o'r cais a wnaed ar ran y Cyngor:

1. Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd;

Eilyddion eraill (os nad yw Swyddog ar Reng Gymeradwy 1 uchod ar gael);

- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth; a
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.

Bydd y Swyddog ar Reng Gymeradwy yn derbyn hysbysiad, pan fydd yr ymgeisydd yn cwblhau'r cais, ei fod wedi'i gyflwyno. Ar ôl iddo gadarnhau ei fod yn ymwybodol o'r cais, bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN yn derbyn y cais ac yn cynnal gwiriadau priodol ar y cais. Os bydd unrhyw newidiadau sylfaenol yn cael eu gwneud i'r cais, bydd yn ofynnol i'r Swyddog ar Reng Gymeradwy gadarnhau ei fod yn ymwybodol o'r cais diwygiedig. Bydd y Swyddog ar Reng Gymeradwy yn anfon copi o'r e-bost at yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu (gweler isod).

**<u>Asiantaeth Awdurdodi: Y Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu ('OCDA')</u>**

Cyflwynodd Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 y Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu fel, y corff annibynnol sy'n gyfrifol am ganiatáu ac asesu pob cais cyfathrebu data o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016. Mae'r Swyddfa yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- Asesiad annibynnol o'r holl geisiadau cyfathrebu data.
- Caniatáu unrhyw geisiadau priodol.
- Sicrhau atebolrwydd Awdurdodau yn y broses a safonau diogelu.

O ganlyniad, nid oes angen cymeradwyaeth farnwrol i gaffael data cyfathrebu gan Swyddogion awdurdod lleol mwyach. Bydd NAFN yn cyflwyno'r cais i'r OCDA a fydd wedyn yn asesu'r cais. Bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN (neu Un Pwynt Cyswllt y Cyngor) yn defnyddio'r broses ganiatáu i gael gafael ar y data cyfathrebu gofynnol o gronfa ddata'r Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu a bydd y data'n cael eu postio ar y wefan i sicrhau mai dim ond yr ymgeisydd sy'n gallu cael gafael arnynt. Os nad yw NAFN yn gallu mynd i gronfa ddata'r Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu perthnasol yn uniongyrchol, bydd yr Un Pwynt Cyswllt yn anfon hysbysiad i'r Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu yn y ffordd arferol.

Pan fydd yr OCDA yn caniatáu'r cais, mae'r penderfyniad hwn yn cael ei gyfleu i Un Pwynt Cyswllt NAFN a chymerir camau i ofyn am y data gan y darparwyr telathrebu perthnasol ac asiantaethau eraill sy'n dal data cyfathrebu o'r fath i ddarparu'r data angenrheidiol.

Pan fydd yr OCDA yn ei gwneud yn ofynnol i'r cais gael ei ddiwygio, bydd yn cael ei ddychwelyd trwy Un Pwynt Cyswllt NAFN a bydd gan yr Ymgeisydd 14 diwrnod calendr i adolygu'r cais a'i ailgyflwyno. Bydd methu â diwygio'r cais o fewn y 14 diwrnod yn arwain at wrthod y cais yn awtomatig.

Pan fydd yr OCDA yn gwrthod y cais, gall yr Ymgeisydd:

1. Peidio â bwrw ymlaen â'r cais;

2. Ailgyflwyno'r cais gyda chyfiawnhad diwygiedig a/neu ymddygiad diwygiedig i ofyn am y data; neu
3. Ailgyflwyno'r cais heb ei ddiwygio a gofyn i'r OCDA adolygu'r penderfyniad.

Yn achos ceisio adolygiad, neu apelio yn erbyn y penderfyniad gwreiddiol, **mae gan yr Awdurdod 7 diwrnod calendr i geisio'r adolygiad.** Rhaid i Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor wneud unrhyw apêl. Bydd yr OCDA yn darparu arweiniad ar y broses hon.

Mae manteision sylweddol i ddefnyddio porth NAFN ac nid oes unrhyw ffordd arall o gael data cyfathrebu, gan fod y Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio Gwasanaeth Un Pwynt Cyswllt NAFN.

Gellir ceisio gwybodaeth hanesyddol ac yn y dyfodol gan ddarparwr, yn amodol ar gyfyngiadau.

**Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer Data Cyfathrebu**

**Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer Data Cyfathrebu** yw'r Swyddog Monitro/Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch Data Cyfathrebu at yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu, neu fel arall Cynrychiolydd yr **Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu**, sef y Swyddog Llywodraethu.

Mae Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 (ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/822817/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf) yn cadarnhau ym mharagraff 4.10 y dylai'r Cyngor gael Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu. Rhaid i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu fod ar reng uwch, sydd o leiaf yr un rheng â'r uwch swyddog dynodedig (at ddibenion NAFN, byddai hwn yn Gyfarwyddwr Cyngor, Pennaeth Gwasanaeth, Rheolwr Gwasanaeth neu reng gyfatebol). Mae paragraff 4.10 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 hefyd yn nodi mai'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu sy'n gyfrifol am y canlynol:

*(a) the integrity of the process in place within the public authority to acquire communications data;*

*(b) engagement with Authorising Officers in the Office for Communications Data Authorisations (where relevant);*

*(c) compliance with Part 3 of the IPA 2016 and with the Communications Data Code of Practice 2018, including responsibility for novel or contentious cases (see paragraph 8.45 of the Communications Data Code of Practice 2018);*

*(d) oversight of the reporting of errors to the Investigatory Powers Commissioner ('IPC') and the identification of both the cause(s) of errors and the implementation of processes to minimise repetition of errors;*

*(e) ensuring the overall quality of applications submitted to Office for Communications Data Authorisations ('OCDA') by the public authority;*

*(f) engagement with the IPC's inspectors when they conduct their inspections; and*

*(g) where necessary, oversight of the implementation of post-inspection action plans approved by the IPC.*

Rhaid i gofnodion a gedwir gael eu cadw'n ganolog gan Un Pwynt Cyswllt NAFN a bod ar gael i'w harchwilio gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ar gais a'u cadw i ganiatáu i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT') gyflawni ei swyddogaethau. Bydd y gwasanaeth cadw dogfennau yn cael ei ddarparu gan NAFN, a fydd hefyd yn darparu copïau o bryd i'w gilydd, ac yn ôl y gofyn, i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu (gweler hefyd baragraffau 24.1 – 24.9 Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018).

I gael rhagor o wybodaeth am gaffael a datgelu, cadw gwybodaeth a materion cyfathrebu cyffredinol gweler Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/757850/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf.

**Gwallau Data Cyfathrebu**

Os bydd unrhyw wall yn cael ei wneud, o ran rhoi hysbysiad neu ganiatâd neu o ganlyniad i unrhyw weithred a ganiatawyd neu unrhyw weithred i gydymffurfio â hysbysiad, dylid cadw cofnod ohono. Dim ond ar ôl cyflwyno'r hysbysiad i'r Gweithredwyr Telegyfathrebu/Gweithredwyr Post y gall gwall ddigwydd. Os ceir hyd iddo cyn cyflwyno'r hysbysiad, ni fydd yn cyfrif fel gwall swyddogol.
Gweler paragraffau 24.17 – 24.37 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018.

Ceir dau fath o wall sef '**Gwall Adroddadwy'** a **'Gwall Cofnodadwy'**:

- Gwall lle cafodd data cyfathrebu'u caffael yn anghywir yw **Gwall Adroddadwy** ac, mewn achos o'r fath, rhaid rhoi adroddiad i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol, a dim hwyrach na 5 diwrnod gwaith (neu fel y cytunir â'r Comisiynydd) ar ôl i'r prosesau llywodraethu mewnol priodol gadarnhau bod gwall perthnasol wedi digwydd. Mae hyn oherwydd gallai fod iddo ganlyniadau sylweddol i'r unigolyn y cafodd ei fanylion eu datgelu'n anghywir.

- Gwall lle cafodd gwall ei bennu cyn caffael y data cyfathrebu yw **Gwall Cofnodadwy**. Rhaid i'r Cyngor gadw cofnod o'r achosion hyn, ond nid oes rhaid iddo gyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd.

Gall Gwallau Adroddadwy gynnwys y gwallau a ganlyn:

- Hysbysiad sy'n cael ei wneud at ddiben, neu i gael math o ddata, na all yr awdurdod cyhoeddus ofyn i'w gweld;
- Amryfusedd dynol, fel trawsosod gwybodaeth yn anghywir;
- Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu'n datgelu'r wybodaeth anghywir pan fydd yn cydymffurfio â hysbysiad; neu
- Ddatgelu neu gaffael mwy o ddata nag sy'n ofynnol.

Gall Gwallau Cofnodadwy gynnwys y gwallau a ganlyn:

- Hysbysiad nad oes modd i Ddarparwr Gwasanaethau Cyfathrebu gydymffurfio ag ef;
- Methiant i adolygu gwybodaeth a oedd eisoes ym meddiant y swyddogion, e.e. gofyn am ddata a gafodd eu caffael eisoes ar gyfer yr un ymchwiliad, neu ddata y mae'n wybyddus nad yw'r rheswm dros eu caffael bellach yn ddilys;
- Anfon hysbysiadau at y Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu anghywir; neu
- Anfon hysbysiadau at Ddarparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu na chawsant eu paratoi gan y Swyddog a Reng Gymeradwy a ganiataodd y cais;

Nid yw anfon rhif ffôn at Weithredwr Telegyfathrebu neu Weithredwr Post arall yn gyfystyr â gwall. Mewn achosion lle caiff gormod o ddata'u datgelu, os nad yw'r deunydd yn berthnasol i'r ymchwiliad, dylid ei ddinistrio ar ôl cyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd.

Os bwriedir defnyddio'r deunydd gormodol ar ôl bwrw golwg drosto, rhaid i'r ymgeisydd ychwanegu atodiad at y cais gwreiddiol sy'n nodi pam fod angen defnyddio'r data gormodol hyn. Yna bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu yn penderfynu a yw'n angenrheidiol ac yn gymesur i'r data gormodol gael ei ddefnyddio yn yr ymchwiliad (gweler paragraffau 24.38 – 24.42 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018).

Rhaid rhoi gwybod i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ac i'r Comisiynydd am unrhyw wall adroddadwy cyn pen 5 diwrnod gwaith. Mae NAFN yn adrodd am wallau ar ran y Cyngor a bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cael gwybod am y rhain yng nghofnodion y Cyngor ac unrhyw gamau mewnol sy'n ofynnol. Os yw'r adroddiad yn ymwneud â gwall a wnaed gan Weithredwyr Telathrebu/Gweithwyr Post, rhaid i'r Cyngor gyflwyno adroddiad amdano, ond bydd NAFN yn rhoi gwybod i'r Gweithredwyr Telathrebu/Gweithredwyr Post i sicrhau bod modd iddo ymchwilio i'r achos.

Rhaid i'r cofnodion a gedwir o'r gwallau cofnodadwy gynnwys manylion y gwall, esboniad o'r modd y bu i'r gwall ddigwydd a braslun o'r camau a gymerir i sicrhau nad yw'r un gwall yn digwydd eto. Rhaid bod y cofnodion hyn ar gael i arolygwyr y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio eu gweld a rhaid i'r Uwch-swyddog Cyfrifol fwrw golwg drostynt yn rheolaidd.

**<u>Gwallau Difrifol</u>**

O ran 'Gwall Difrifol', a 'achosodd ragfarn neu niwed sylweddol i'r unigolyn dan sylw', rhaid rhoi gwybod i Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor. Gall y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio hysbysu'r unigolyn yr effeithir arno o'r data a ddatgelwyd, a all wneud cwyn i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio. Rhaid i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio fod yn fodlon bod y gwall yn a) gwall difrifol A b) mae er budd y cyhoedd i'r unigolyn dan sylw gael gwybod am y gwall.

Cyn penderfynu a yw'r gwall yn ddifrifol neu beidio, bydd y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn derbyn cyflwyniadau gan y Cyngor ynghylch a yw datgelu er budd y cyhoedd e.e. efallai na fyddai er budd y cyhoedd i ddatgelu pe byddai gwneud hynny yn niweidiol i 'atal a chanfod troseddau.

Gweler paragraffau 25.1 – 25.9 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 i gael rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio a 25.10 – 25.17 i gael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl y Comisiynydd Gwybodaeth.

Gweler hefyd baragraffau 25.18 – 25.21 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 i gael rhagor o wybodaeth ynghylch Gorfodi safonau uniondeb, dinistrio a diogelwch.

**<u>Caniatáu Caffael Data Cyfathrebu</u>**

Mae Adran 81 o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn darparu amddiffyniad os caiff unrhyw gamau i gaffael a datgelu data cyfathrebu eu herio:

**81. Lawfulness of conduct authorised by this Part**
*(1) Conduct is lawful for all purposes if—*
*(a) it is conduct in which any person is authorised to engage by an authorisation or required to undertake by virtue of a notice given in pursuance of an authorisation, and*
*(b) the conduct is in accordance with, or in pursuance of, the authorisation or notice.*

Felly, i fanteisio ar yr amddiffyniad hwn, mae angen cael caniatâd priodol ar gyfer y wyliadwriaeth.

**Y prawf rheidrwydd a chymesuredd**

Ni ddylai'r Swyddog ar Reng Gymeradwy ond ganiatáu caffael data cyfathrebu os yw'n fodlon:

1. **Bod y weithred yn ANGENRHEIDIOL ar y sail a ganlyn:**

    - I atal neu ganfod trosedd neu i atal anhrefn

2. **Bod y wyliadwriaeth yn GYMESUR – Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn diffinio mesur neu weithred fel un sy'n gymesur os yw:**

    - Yn amharu cyn lleied â phosibl ar hawliau a rhyddidau (yr unigolyn o dan sylw ac unrhyw drydydd parti diniwed); a

    - Yn cael ei llunio'n ofalus i gyflawni'r amcanion o dan sylw ac nad yw'n fympwyol, yn annheg nac yn seiliedig ar ystyriaethau afresymol.

Mae canfod trosedd yn cynnwys pennu gan bwy, at ba ddiben, drwy ba fodd ac yn gyffredinol o dan ba amgylchiadau y cafodd unrhyw drosedd ei chyflawni, casglu tystiolaeth i'w defnyddio mewn achos cyfreithiol a dal yr unigolyn (neu'r unigolion) sydd wedi cyflawni'r drosedd.

Gall ffurflen gais gynnwys sawl cais am wahanol fathau o ddata sy'n ymwneud ag ymchwiliad penodol neu ymgyrch benodol. Felly, dylid ystyried sut y gall hyn effeithio ar effeithlonrwydd prosesau'r awdurdod cyhoeddus ac effaith rheoli materion datgelu cyn treial troseddol, yn ystod treial troseddol ac ar ei ôl.

I gael mwy o gyfarwyddyd, darllenwch ganllawiau perthnasol y Swyddfa Gartref sydd ar gael ar ei gwefan: https://www.gov.uk/government/collections/ripa-codes

**<u>Terfynau Amser</u>**

Dylai'r cais bennu'r cyfnod byrraf ar gyfer y data sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan y gofynnir am y data ar ei gyfer.

Dim ond am fis o'r dyddiad y caiff y caniatâd neu'r hysbysiad ei roi (gan yr OCDA trwy Un Pwynt Cyswllt NAFN) y bydd pob hysbysiad a chaniatâd sy'n gofyn am ddata cyfathrebu gan y darparwr gwasanaeth yn ddilys. Gellir adnewyddu am gyfnod o hyd at 1 mis a daw hysbysid neu ganiatâd o'r newydd i rym ar ddiwedd yr hysbysiad neu'r caniatâd y mae'n ei adnewyddu.

Os yw'r Swyddog ar Reng Gymeradwyo yn cytuno i adnewyddu caniatâd neu hysbysiad, rhaid bod y Swyddog ar Reng Gymeradwy wedi ystyried y rhesymau pam ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur iddo barhau, a rhaid iddo gofnodi'r dyddiad adnewyddu.

Pan ddylid canslo caniatâd (e.e. ddim yn angenrheidiol nac yn gymesur mwyach), rhaid hysbysu Un Pwynt Cyswllt NAFN ar unwaith. Bydd yr Un Pwynt Cyswllt yn canslo'r camau awdurdodedig ac yn cymryd camau i hysbysu'r darparwr gwasanaeth post neu delathrebu yn ddi-oed.

**Swyddog ar Reng Gymeradwy**

Y Swyddog ar Reng Gymeradwy yw'r unigolyn sy'n rheolwr ar lefel gwasanaeth neu'n uwch yn y Cyngor, a'i rôl yw bod yn ymwybodol o'r cais a wnaed gan yr Ymgeisydd, a chadarnhau hyn i Un Pwynt Cyswllt NAFN. Nid yw'n canatau nac yn cymeradwyo'r cais.

Ar ôl darllen y cais, os yw'r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn credu bod yr Ymgeisydd wedi bodloni'r holl ofynion ar gyfer rheidrwydd a chymesuredd yna dylai gofnodi'r ffaith honno drwy gyfrwng nodyn syml. Dylid nodyn syml gan y Swyddog ar Reng Gymeradwy gael ei gofnodi.

Os nad yw'r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn credu bod yr Ymgeisydd wedi dadlau'r achos dros gaffael y data, dylai wrthod y cais a'i ddychwelyd at yr Un Pwynt Cyswllt a'r Ymgeisydd.

Yn yr un modd, os bydd Ynad yn gwrthod y cais, dylid ei wrthod a'i ddychwelyd at yr Un Pwynt Cyswllt.

Os caiff y cais ei wrthod gan yr Un Pwynt Cyswllt neu'r Swyddog ar Reng Gymeradwy, bydd yr Un Pwynt Cyswllt yn cadw'r ffurflen ac yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig am y rhesymau dros wrthod y cais. Bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN yn gwneud hynny trwy'r wefan.

Os yw'r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn cofnodi'i ystyriaethau yng nghronfa ddata NAFN a bod modd priodoli'r ystyriaethau i'r Swyddog ar Reng Gymeradwy, nid oes angen llofnod.

**Cofrestr Ganolog o'r Caniatadau – Data Cyfathrebu**

Yn achos data cyfathrebu, bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN yn cadw copïau gwreiddiol o'r holl geisiadau, caniatadau, copïau o'r hysbysiadau a'r penderfyniadau i dynnu caniatadau yn eu hôl ac i ganslo hysbysiadau, a'r rheini wedi'u croesgyfeirio yn erbyn pob dogfen gysylltiedig.

Rhaid cadw ceisiadau, caniatadau, copïau o hysbysiadau, a chofnodion o dynnu caniatâd yn ôl a'i ganslo, ar ffurf ysgrifenedig neu electronig am o leiaf 3 blynedd. Cofnod o'r dyddiad a, phan fo hynny'n briodol, yr amser y mae pob hysbysiad neu ganiatâd yn cael ei ganiatáu, ei adnewyddu neu ei ganslo (gweler paragraffau 24.1-24.9 o'r Cod Ymarfer Data Cyfathrebu i gael manylion llawn am lefel y wybodaeth y dylid ei chadw).

Nid oes unrhyw beth yn y Polisi hwn yn cael effaith ar ddyletswyddau tebyg o dan Ddeddf Gweithdrefn Droseddol ac Ymchwiliadau 1996, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeunydd a gafwyd yn ystod ymchwiliad ac a allai fod yn berthnasol i'r ymchwiliad gael ei gofnodi, ei gadw a'i ddatgelu i'r erlynydd.

Pan fydd y system NAFN yn cael ei defnyddio, bydd y gwasanaeth cadw dogfennau yn cael ei ddarparu gan NAFN, a fydd hefyd yn darparu copïau o bryd i'w gilydd, ac yn ôl y gofyn, i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu, ac yn delio ag unrhyw geisiadau gan arolygwyr gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Serch hynny, dylai Cofnod Canolog y Cyngor hefyd gynnwys cofnod o:

- Nifer y ceisiadau a wrthodwyd gan Swyddog Rheng Cymeradwy;
- Nifer yr hysbysiadau sy'n gofyn am i ddata cyfathrebu gael eu datgelu yn unol ag ystyr pob un o is-adrannau Adran 21(4);
- Nifer y caniatadau i gaffael data cyfathrebu yn unol ag ystyr pob un o is-adrannau Adran 21(4); a'r
- Nifer y troeon y rhoddir hysbysiad brys ar lafar.

Gellir gofyn i NAFN ddarparu gwybodaeth ystadegol am nifer yr hysbysiadau neu'r caniatadau y mae wedi'u rhoi ar ran y Cyngor yn ystod cyfnod penodol, gan gynnwys unrhyw wallau a wnaed. Bydd yr Uwch-swyddog Gyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu'r Cyngor yn gofyn am wybodaeth o'r fath oddi wrth NAFN bob chwarter.

DRAFFT

**Cwynion**

Fel y nodir ym mharagraff 26.2 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gyfrifol am oruchwylio diogelwch, uniondeb a dinistrio data a gedwir yn unol â'r Ddeddf. Gall methu â chydymffurfio â darpariaethau Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 yn y meysydd hyn hefyd ennyn pryderon ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a deddfwriaeth gysylltiedig. Dylid trosglwyddo unrhyw bryderon ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data gysylltiedig i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO):

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Gaer
SK9 5AF
0303 123 1113
www.ico.org.uk.

Fel y nodir ym mharagraff 26.3 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018, mae gan y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio (IPT) awdurdodaeth i ystyried a phenderfynu ar gwynion ynghylch defnydd awdurdodau cyhoeddus o bwerau ymchwilio, gan gynnwys y rhai a gwmpesir gan y cod hwn, yn ogystal ag ymddygiad gan neu ar ran unrhyw un o'r gwasanaethau cudd-wybodaeth, a dyma'r unig dribiwnlys priodol ar gyfer hawliadau hawliau dynol yn erbyn yr asiantaethau cudd-wybodaeth. Dylid cyfeirio unrhyw gwynion am ddefnyddio pwerau fel y'u disgrifir yn y cod hwn at y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio.

Gall unrhyw unigolyn sy'n anfodlon â'r ffordd y mae'r Cyngor yn cadw neu wedi cadw gwyliadwriaeth gwyno. Yr unigolyn dan sylw sy'n penderfynu pa weithdrefn y dylid ei defnyddio.

Os yw rhywun yn dymuno cwyno gan ddefnyddio gweithdrefnau'r Cyngor, yna dylid gwneud yr achwynydd yn ymwybodol o Weithdrefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor (gweler https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/comments-compliments-and-complaints/cwynion corfforaethol/ ac https://www.ceredigion.gov.uk/media/1179/complaints-policy-bookletenglish.pdf)

Ymdrinnir â'r gŵyn yn unol â'r weithdrefn honno.

Os yw person yn dymuno cwyno'n uniongyrchol i gorff annibynnol neu wedi defnyddio gweithdrefnau mewnol y Cyngor a'i fod yn dal yn anfodlon, yna gall ef/hi gwyno i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT').

Mae gan yr IPT awdurdodaeth i ymchwilio a phenderfynu ar gwynion yn erbyn defnydd awdurdodau cyhoeddus o bwerau ymchwilio. I ddarganfod mwy o wybodaeth am yr IPT neu wneud cwyn, yna mae manylion llawn sut i wneud hynny ar gael ar wefan IPT: www.ipt-uk.com.

Gellir anfon cwynion i'r cyfeiriad isod:

The Investigatory Powers Tribunal
PO Box 33220
Llundain
SWIH 9ZQ

* Gweler Rhan 4 uchod am gwynion ynghylch Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig neu Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

DRAFFT

# RHAN 6 – Gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA’

## Ystyr ‘gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA’

O bryd i’w gilydd, gall fod angen i’r Cyngor gadw gwyliadwriaeth gudd nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA. Mae hyn yn iawn gan mai deddfwriaeth ganiataol yw RIPA. Mae’r gweithdrefnau a’r canllawiau isod yn amlinellu’r prosesau sy’n angenrheidiol i ganiatáu gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA. Bwriedir i’r broses adlewyrchu’r broses ar gyfer caniatáu gwyliadwriaeth o dan RIPA, ac eithrio nad oes angen cymeradwyaeth ynad. Mae rhagor o wybodaeth i’w gweld isod sy’n amlinellu’r gweithdrefnau i’w dilyn mewn perthynas â gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA, gan gynnwys llenwi ffurflen gais.

Mae’n bwysig bod gweithdrefn ar waith ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA, gan fod dulliau ar gyfer gweithgarwch, na ellir eu gwarchod, yn cael eu hannog. O dan amgylchiadau o’r fath, caiff y diffiniadau statudol eu bodloni, ond nid ar y seiliau a nodir yn RIPA. Mae’n dal i fod yn ofynnol ystyried hawliau dynol ac mae proses awdurdodi’n darparu trywydd archwilio defnyddiol o’r penderfyniadau a wnaed a’r camau a gymerwyd.

Rhaid i Swyddogion Ymchwilio gael cyfeirnod unigryw gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol cyn ei gyflwyno i’r Swyddog Awdurdodi ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA.

Drwy ganiatáu gweithgareddau o dan RIPA, mae’n rhoi amddiffyniad i’r Cyngor o dan Adran 27 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) h.y. mae’r gweithgaredd yn gyfreithlon at bob diben, ar yr amod bod caniatâd wedi’i roi, ac mae gweithredoedd y Swyddogion yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, o fethu â chael caniatâd, nid yw’n golygu bod y wyliadwriaeth gudd yn anghyfreithlon.

*‘Tarian nid cleddyf yw RIPA ac mae Adran 80 o RIPA yn cynnwys arbediad cyffredinol am ymddygiad cyfreithlon:*

*‘Nothing in any of the provisions of this Act by virtue of which conduct of any description is or may be authorised by any warrant, authorisation or notice, or by virtue of which information may be obtained in any manner, shall be construed -*

*(a) as making it unlawful to engage in any conduct of that description which is not otherwise unlawful under this Act and would not be unlawful apart from this Act;*
*(b) as otherwise requiring—*
  *(i) the issue, grant or giving of such a warrant, authorisation or notice, or*
  *(ii) the taking of any step for or towards obtaining the authority of such a warrant, authorisation or notice, before any such conduct of that description is engaged in; or*
*(c) as prejudicing any power to obtain information by any means not involving conduct that may be authorised under this Act.’*

Eglurwyd y pwynt hwn yn fanylach gan y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio yn achos ‘C yn erbyn yr Heddlu’ (Rhif yr achos: IPT/03/32/H 14 Tachwedd 2006) (Saesneg yn unig):

*‘Although RIPA provides a framework for obtaining internal authorisations of directed surveillance (and other forms of surveillance), there is no general prohibition in RIPA against conducting directed surveillance without RIPA authorisation. RIPA does not require prior authorisation to be obtained by a public authority in order to carry out surveillance. Lack of*

*authorisation under RIPA does not necessarily mean that the carrying out of directed surveillance is unlawful.'*

**Pam cynnal gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA?**

Gall y Cyngor fod yn awyddus i gadw "gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA" am un o ddau reswm:

**Troseddau nad ydynt yn cael eu cosbi drwy chwe mis o garchar**

Fel y nodir uchod, ni chaiff Swyddogion Awdurdodi'r Cyngor ganiatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig o dan RIPA ac eithrio er mwyn atal neu ganfod ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd, neu sy'n drosedd, ac sy'n bodloni'r amodau a nodir yn yr Erthygl Newydd 7A(3)(a) neu (b) o Orchymyn 2010 sef bod modd cosbi'r drosedd y maent yn ceisio ei hatal neu'i chanfod, o gael collfarn ddiannod neu dditiad, drwy **o leiaf 6 mis o garchar**, neu ei bod yn drosedd o dan adrannau 146, 147 neu 147A o Ddeddf Trwyddedu 2003 neu adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (troseddau sy'n ymwneud â gwerthu tybaco ac alcohol i blant o dan oedran).

Fodd bynnag, hyd yn oed os nad yw trosedd yn bodloni'r prawf chwe mis, nid yw'n golygu na ellir cadw gwyliadwriaeth gudd.

Gwnaed y pwynt hwn gan y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth yn ei adroddiad blynyddol (2010/2011) (Saesneg yn unig):

*'The higher threshold in the proposed legislation will reduce the number of cases in which local authorities have the protection of RIPA when conducting covert surveillance; it will not prevent the use of those tactics in cases where the threshold is not reached but where it may be necessary and proportionate to obtain evidence covertly and there will be no RIPA audit trail. Part I of RIPA makes unauthorised interception unlawful. In contrast, Part II makes authorised surveillance lawful but does not make unauthorised surveillance unlawful.'*

**II. Cadw Gwyliadwriaeth ar Gyflogeion**

Ni fydd modd caniatáu'r rhan fwyaf o'r gwaith o gadw gwyliadwriaeth ar gyflogeion o dan RIPA.

Gweler penderfyniad blaenorol y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio: C yn erbyn yr Heddlu a'r Ysgrifennydd Gwladol ar ran yr Adran Gartref (14 Tachwedd 2006; Rhif IPT/03/32/H)

Roedd C, cyn sarjant heddlu, wedi ymddeol yn 2001 ar ôl hawlio iawndal am anaf i'w gefn ar ôl baglu ar garped yng ngorsaf yr heddlu. Dyfarnwyd iawndal iddo, ynghyd â phensiwn uwch oherwydd yr anafiadau.

Yn 2002, bu i'r heddlu gyfarwyddo cwmni o dditectifs preifat i gadw llygad ar C i weld a oedd yn gwneud unrhyw beth a oedd yn anghyson â'i anafiadau honedig. Roedd tystiolaeth fideo'n ei ddangos yn torri lawnt. Bu i C erlyn yr heddlu gan honni eu bod wedi cadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig heb ganiatâd. Yn gyntaf, roedd yn rhaid i'r Tribiwnlys benderfynu a oedd ganddo awdurdod i wrando ar yr achos. Roedd yr achos yn dibynnu ar y dehongliad o ran gyntaf y diffiniad o wyliadwriaeth gyfeiriedig h.y. a oedd y wyliadwriaeth yn cael ei chadw 'at ddibenion ymchwiliad penodol neu ymgyrch benodol?'

Dyfarnodd y Tribiwnlys nad hwn oedd y math o wyliadwriaeth y bwriedir i RIPA ei reoleiddio. Bu iddo wahaniaethu rhwng swyddogaethau cyffredin a swyddogaethau craidd awdurdod cyhoeddus (Saesneg yn unig):

*'The specific core functions and the regulatory powers which go with them are identifiable as distinct from the ordinary functions of public authorities shared by all authorities, such as the employment of staff and the making of contracts. There is no real reason why the performance of the ordinary functions of a public authority should fall within the RIPA regime, which is concerned with the regulation of certain investigatory powers, not with the regulation of employees or of suppliers and service providers.'*

Bu i'r Tribiwnlys ddatgan hefyd na fyddai'n briodol cymhwyso RIPA i wyliadwriaeth o'r fath am sawl rheswm:

1) Nid yw RIPA'n cwmpasu pob awdurdod cyhoeddus, ac nid oedd unrhyw synnwyr cadw gwyliadwriaeth ar un o gyflogeion yr heddlu ar sail gyfreithiol wahanol, er enghraifft, i un o gyflogeion y Trysorlys, sef corff nad oes ganddo'r un hawliau gwyliadwriaeth o dan RIPA.
2) Mae gan y Tribiwnlys reolau cyfyng iawn o ran tystiolaeth, bod yn agored, a hawliau i apelio. Byddai'r rhain yn peri annhegwch i gyflogeion awdurdodau RIPA pan fyddent yn herio gwyliadwriaeth eu cyflogwyr o'u cymharu â'r rheini a gyflogir gan awdurdodau nad ydynt yn dod o dan gwmpas RIPA.

Hyd yn oed pan fydd cyflogwr yn cadw gwyliadwriaeth ar gyflogai ar un o'r seiliau a geir yn adran 28(3), mae'r achos hwn yn awgrymu mai'r cwestiwn allweddol yw:

A yw'n swyddogaeth graidd sy'n gysylltiedig ag un o swyddogaethau rheoleiddiol yr awdurdod? Yng nghyd-destun awdurdod lleol, byddai hyn yn cynnwys Safonau Masnach, Iechyd Amgylcheddol, a Thrwyddedu, ymhlith swyddogaethau eraill. Os nad yw'n cael ei wneud at un o'r dibenion hyn, nid yw'n wyliadwriaeth gyfeiriedig.

**<u>Gweithgarwch cudd ar-lein – y Rhyngrwyd a Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol ('SNS')</u>**

Gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA y Cyngor i gael arweiniad ynghylch gweithgarwch cudd ar-lein ar y Rhyngrwyd a Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol, y mae'n rhaid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi hwn.

*Gweler Siart lif 9 – Caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA*

**<u>Cydymffurfio â Deddfwriaeth Hawliau Dynol</u>**

Ni fydd RIPA'n amddiffyn unrhyw wyliadwriaeth gudd a wneir heb ganiatâd RIPA (h.y. yr amddiffyniad yn adran 27). Fodd bynnag, gellir cadw gwyliadwriaeth gudd ar yr amod ei bod yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gellir gorfodi'r Confensiwn hwn yn uniongyrchol yn erbyn awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn datgan:

Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn datgan:
*'Mae gan bawb hawl i barch at ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a'i ohebiaeth.*

*Ni chaiff unrhyw awdurdod cyhoeddus ymyrryd â'r hawl hon ac eithrio yn unol â'r gyfraith ac fel y bo'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er mwyn diogelu'r cyhoedd, cadw trefn gyhoeddus, amddiffyn iechyd neu foesau, neu ddiogelu hawliau a rhyddidau eraill.'*

I fodloni gofynion Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, rhaid bod y wyliadwriaeth gudd yn **angenrheidiol ac yn gymesur**. Wrth benderfynu a yw'n angenrheidiol ac yn gymesur, mae angen ystyried y ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth ganiatáu gwyliadwriaeth a reoleiddir gan RIPA.

**Cydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data**

Mae'r Rheoliadau Telathrebu'n caniatáu i'r Cyngor heb ganiatâd pellach ryng-gipio'n gyfreithlon gyfathrebiadau e-bost neu ffôn ei gyflogeion, a monitro eu defnydd o'r rhyngrwyd, at ddibenion atal neu ganfod trosedd, neu ganfod defnydd nas caniateir o'r systemau hyn. Dylid rhoi sylw i Bolisi Diogelwch Gwybodaeth mewnol y Cyngor (ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (Cerinet).

Dylid ceisio cyngor pellach ar y rheoliadau hyn gan Swyddog Diogelu Data'r Cyngor a dylid rhoi sylw i Bolisi Diogelwch Gwybodaeth mewnol y Cyngor, a hefyd 'Ganllaw Cyflym yr ICO i'r Cod Ymarfer Cyflogaeth' (gweler https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1128/quick_guide_to_the_employment_practices_code.pdf).

Wrth gadw gwyliadwriaeth gudd ar gyflogeion mewn modd nad yw'n cael ei reoleiddio gan RIPA, bydd y Deddf Diogelu Data yn berthnasol gan fod gwybodaeth bersonol am unigolion sy'n fyw yn cael ei phrosesu e.e. eu symudiadau, lluniau ac ati.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Arferion Cyflogaeth mewn perthynas â diogelu data (ar gael yn www.ico.org.uk). Nid yw'r math hwn o wyliadwriaeth yn cael ei drafod yn y ddogfen hon.

Yn y ddau achos uchod, mae'n bwysig sicrhau bod trywydd archwilio priodol ar gael ar ffurf cofnodion ysgrifenedig.

**Y Cod Ymarfer ar Arferion Cyflogaeth o ran Diogelu Data**

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Arferion Cyflogaeth mewn perthynas â diogelu data (ar gael yn: https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1064/the_employment_practices_code.pdf (y 'Cod DPEP').Mae Rhan 3 o'r Cod DPEP yn cynnwys pob math o wyliadwriaeth gweithwyr o fonitro fideo ac olrhain cerbydau i wyliadwriaeth e-bost a'r rhyngrwyd. Mae'n rhoi canllawiau ar sut i gadw gwyliadwriaeth ar gyflogeion mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Er nad yw'r Cod yn ddeddf, gall y Comisiynydd Gwybodaeth a'r llysoedd ei gymryd i ystyriaeth pan fyddant yn penderfynu a gydymffurfiwyd â'r Ddeddf Diogelu Data.

Mae'r Cod yn datgan y dylid monitro cyflogeion at ddiben pendant y gellir ei gyfiawnhau ac y dylai'r cyflogeion wybod bod hyn yn digwydd.
O ran gwyliadwriaeth gudd, mae'n datgan mai prin fydd yr achosion pan fydd modd cyfiawnhau monitro o'r fath. Felly, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid ei wneud e.e. i atal neu i ganfod trosedd neu gamymddygiad difrifol.
Un o brif argymhellion eraill y Cod yw y dylai'r uwch reolwyr fel rheol awdurdodi unrhyw gamau i fonitro cyflogeion yn gudd. Dylent sicrhau eu bod yn fodlon bod lle i amau bod gweithgarwch troseddol neu gamymddygiad o'r fath yn digwydd. Dylent gyflawni asesiad effaith ac ystyried a yw'r wyliadwriaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur o ystyried yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni.

Mae'r Cod yn cynnwys rheolau eraill y mae angen i awdurdodau lleol (ac eraill) eu hystyried pan fyddant yn cadw gwyliadwriaeth gudd ar gyflogeion:

- Cyn ymchwilio, rhaid pennu rheolau clir sy'n cyfyngu ar y camau i ddatgelu'r wybodaeth y ceir gafael arni a mynediad at y wybodaeth honno;
- Dylid cyfyngu ar nifer y bobl sy'n rhan o'r ymarfer monitro cudd;
- Rhaid mai diben y wyliadwriaeth yw cael gafael ar dystiolaeth o fewn cyfnod penodol ac ni ddylai barhau ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben;
- Os defnyddir cyfarpar sain neu fideo, ni ddylid gwneud hyn mewn mannau fel toiledau neu swyddfeydd preifat fel rheol;
- Dim ond er mwyn atal neu ganfod trosedd neu gamymddygiad difrifol y dylid defnyddio'r wybodaeth y ceir gafael arni drwy'r ymarfer monitro cudd; a
- Dylid diystyru unrhyw wybodaeth arall a gesglir yn ystod y cyfnod monitro a, lle bo modd, dylid ei dileu oni bai ei bod yn datgelu gwybodaeth na fyddai'n rhesymol disgwyl i unrhyw gyflogwr ei hanwybyddu.

Yn y ddau achos uchod nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan RIPA, mae'n bwysig cadw trywydd archwilio clir drwy gadw cofnodion ysgrifenedig. Yn ei adroddiad blynyddol (2011/2012), pwysleisiwyd hyn gan y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth (ym mharagraff 5.22) (Saesneg yn unig):

*'I occasionally encourage the use of similar authorisation mechanisms for activity which cannot be protected by the Acts (for example where covert techniques are used to identify a missing person when no crime is suspected). In these circumstances statutory definitions are met but none of the grounds specified in RIPA section 28(3) or RIP(S)A section 6(3), yet the human rights of the subject of surveillance must be considered. The authorisation process provides a useful audit of decisions and actions.'*

**Swyddogion Awdurdodi ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA**

Yr un yw'r Swyddogion Awdurdodi ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA a'r Swyddogion Awdurdodi sy'n awdurdodi gwyliadwriaeth RIPA h.y.:

- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth;**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; a**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.**

Fe'ch anogir i ddefnyddio dulliau tebyg ar gyfer gweithgareddau na all deddfwriaeth RIPA eu hamddiffyn. O dan amgylchiadau o'r fath, caiff y diffiniadau statudol eu bodloni, ond nid ar y seiliau a nodir yn RIPA. Mae'n dal i fod yn ofynnol ystyried hawliau dynol. Mae proses ganiatáu yn darparu archwiliad defnyddiol o'r penderfyniadau a'r camau gweithredu. Mae'r broses yn adlewyrchu'r un ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, ar wahân i Gymeradwyaeth Farnwrol.

Dylid ceisio URN gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol cyn ei gyflwyno i Swyddogion Awdurdodi, gyda'r ffurflen wreiddiol yn cael ei hanfon at yr Uwch-swyddog Cyfrifol i'w chofnodi yn y Gofrestr Ganolog ar ôl cwblhau'r broses awdurdodi, a chadw copi o'r Gwasanaeth.

**Ffurflen caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA**

Rhaid llenwi ffurflen awdurdodi gwyliadwriaeth and yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA, fel uchod, ac mae ffurflen enghreifftiol gydag arweiniad ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn [nodwch y ddolen].

**Cylch oes caniatâd gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA**

Dangosir Siart Llif sy'n dangos cylch oes sylfaenol caniatâd gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA isod. Mae hwn yr un fath â chylch oes gwyliadwriaeth gyfeiriedig RIPA, ac eithrio nad oes angen cymeradwyaeth farnwrol

Bydd gweithgarwch nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA yn cael ei riportio i'r Pwyllgor Arolygu Trosolwg a Chydlynu.

DRAFFT

## Siart lif 9 - Caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA

**C.1 – ai diben y wyliadwriaeth arfaethedig yw ymchwilio:**
Trosedd, Trefn gyhoeddus, Diogelwch cyhoeddus, Camymddygiad staff, Diogelu plant, Mater difrifol arall

Enghreifftiau:
mân drosedd h.y. trosedd nad yw'n bodloni'r prawf 'trosedd ddifrifol' (**gweler y diffiniad isod)
- camddefnyddio'r e-bost/rhyngrwyd
- cwblhau taflen amser yn anghywir
- torri cytundeb tenantiaeth

YDY → C.2
NAC YDY → Ceisio caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y wyliadwriaeth arfaethedig trwy ddilyn y broses caniatâd RIPA ragnodedig

**Ceisio caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y wyliadwriaeth arfaethedig trwy ddilyn y broses caniatâd RIPA ragnodedig**

**C.2 – A yw diben y wyliadwriaeth yn angenrheidiol? Dylid ystyried effeithiolrwydd dulliau eraill i gael y wybodaeth/y dystiolaeth a geisir**

YDY → C.3
NAC YDY → Mae'n bosib na chaiff caniatâd ei roi i gadw'r wyliadwriaeth

**C.3 Ydy'r wyliadwriaeth yn gymesur?**

Dylid ystyried:
- Maint a chwmpas yr ymgyrch
- Y dulliau i'w mabwysiadu
- Dulliau eraill (a llai ymwthiol) sydd ar gael
- Y defnydd priodol o ddeddfwriaeth
- Yr effaith ar y sawl a amheuir

YDY → C.4
NAC YDY → Mae'n bosib na chaiff caniatâd ei roi i gadw'r wyliadwriaeth

**Mae'n bosib na chaiff caniatâd ei roi i gadw'r wyliadwriaeth**

**C.4 – Ydych chi wedi ystyried beth y gallwch ei wneud (os o gwbl) i leihau/osgoi ymyrraeth anuniongyrchol?**

Dylid ystyried y perygl o darfu ar breifatrwydd pobl nad ydynt yn gysylltiedig â'r ymchwiliad e.e.:
- Maint a chwmpas yr ymgyrch
- Dulliau/offer a ddefnyddir
- Amseriad y wyliadwriaeth
- Hyd y wyliadwriaeth


NAC YDW / NO → Mae'n bosib na chaiff caniatâd ei roi i gadw'r wyliadwriaeth
YDW ↓

**Ceisiwch Ganiatâd Ysgrifenedig ar gyfer y Wyliadwriaeth arfaethedig trwy ddilyn proses caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA y Cyngor**

** Prawf Trosedd Ddifrifol: gwyliadwriaeth mewn perthynas â throseddau difrifol yn unig sy'n bodloni'r amodau a osodir yn Erthygl 7A(3)(a) neu (b) o Orchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2021 (fel y'i diwygiwyd) sydd angen caniatâd o dan RIPA h.y. troseddau y gellir eu cosbi gan uchafswm cyfnod o 6 mis o garchar, neu drosedd o dan Adrannau 146, 147, 147(A) o Ddeddf Trwyddedu 2003 neu Adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933

DRAFT

**Siart lif 10 – Gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA – Cylch oes sylfaenol Caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig**



# Atodlen 1 – Deddfwriaeth, Codau Ymarfer, Polisïau a Chanllawiau Perthnasol

Dylid darllen Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA ar y cyd â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau a chodau ymarfer cyfredol a pherthnasol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r) canlynol:

- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/23/contents
- Nodiadau Esboniadol RIPA http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/23/notes/contents

- Codau Ymarfer Statudol RIPA:
    - Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742041/201800802_CSPI_code.pdf
    - Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742042/20180802_CHIS_code_.pdf
    - Cod Ymarfer ar Swmpgaffael Data Cyfathrebu: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/715477/Bulk_Communications_Data_Code_of_Practice.pdf
    - Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/822817/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf
    - Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ymchwilio i Wybodaeth Electronig a Ddiogelwyd https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742064/RIPA_Part_III_Code_of_Practice.pdf
    - Cod Ymarfer Ymyrryd ag Offer 2018 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/715479/Equipment_Interference_Code_of_Practice.pdf

- Ddeddf Pwerau Ymchwilio ('IPA 2016') https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/25/contents

- OS 2010 Rhif 521 – Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010 http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/521/contents/made
- OS 2012 Rhif 1500 Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) 2012 http://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/1500/contents/made

- Canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('IPCO') (Swyddfa'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth ('OSC' gynt) (ar gael yn: https://www.ipco.org.uk/) gan gynnwys Gweithdrefnau a Dogfen Gyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth: https://ipco-wpmedia-prod-s3.s3.eu-west-2.amazonaws.com/OSC-PROCEDURES-AND-GUIDANCE.pdf

- Cod Ymarfer Diogelu Cyflogaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1064/the_employment_practices_code.pdf

- Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref ar Gamerâu Gwyliadwriaeth (2013) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/282774/SurveillanceCameraCodePractice.pdf

- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor: https://ceri.ceredigion.gov.uk/portal/employee-handbook/policies-procedures/social-media-policy/

- Polisi Diogelwch Gwybodaeth y Cyngor; https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/information-security-policy/

- Cod Ymarfer y Cyngor ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol *

- Polisi Diogelu Data a GDPR y Cyngor **

- Polisi E-bost y Cyngor *

- Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion y Cyngor (ar gael yn https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/information-and-records-management-policy/)**

- Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn Perygl y Cyngor

- Polisi Golygyddol a Gweinyddu Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor *

- Polisi Chwythu’r Chwiban y Cyngor *

*: ar gael ar fewnrwyd y Cyngor (CeriNet)
**: ar gael ar wefan y Cyngor a CeriNet

DRAFT

**ATODIAD 2**

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# CYNGOR SIR CEREDIGION
# CEREDIGION COUNTY COUNCIL

# Polisi Cyfryngau Cymdeithasol at ddibenion DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 ('RIPA')

Drafft

**22/07/21**
**Pwyllgor Trosolwg a Chydlynu: 15/9/2021**

Mae'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol hwn at ddibenion DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 ('RIPA') ('Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA') yn berthnasol i holl weithwyr ('Swyddogion') Cyngor Sir Ceredigion ('y Cyngor'), gan gynnwys asiantau'r Cyngor.

Mae'n amlinellu safbwynt y Cyngor ynghylch defnyddio'r rhyngrwyd, gan gynnwys pori'r we ar ddyfeisiau symudol, ac, yn benodol, gwefannau cyfryngau cymdeithasol, wrth gynnal ymchwiliadau o dan ac yn unol â RIPA.

**Cwmpas**

1. Mae'r Cyngor yn cydnabod y buddion a'r cyfleoedd y mae offer amlgyfrwng, fel y rhyngrwyd, yn eu darparu i gael mynediad i wybodaeth a'i rhannu, gan gynnwys ystod eang o gyfleusterau ar-lein.

2. Dylid darllen Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA ar y cyd â'r ddeddfwriaeth, codau ymarfer, polisïau a chanllawiau perthnasol a restrir yn Atodlen 1 isod.

**Gwyliadwriaeth a Chyfryngau Cymdeithasol y Cyngor**

3. <u>Gwyliadwriaeth gudd</u>
   Rhaid peidio â defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol megis cyfrifon ar-lein, tudalennau, hysbysfyrddau, proffiliau neu gyfryngau cymdeithasol eraill (megis tudalennau/proffiliau Facebook y Cyngor, porthwyr Twitter neu broffiliau/tudalennau LinkedIn) sy'n eiddo i'r Cyngor neu'n cael eu rheoli ganddo, neu gyfrifon preifat Swyddogion ar gyfer unrhyw wyliadwriaeth gudd neu ymchwiliad cudd heb ystyried ymlaen llaw a oes angen caniatâd RIPA.

4. <u>Gwyliadwriaeth agored</u>
   Nid oes angen caniatâd RIPA ar gyfer y defnydd agored o'r cyfryngau cymdeithasol (boed y tu mewn neu y tu allan i gwmpas RIPA).

5. Mae'r gofynion hyn yn eu lle oherwydd yr angen i:
   - warchod enw da'r Cyngor;
   - osgoi canlyniadau posibl camddefnyddio cyfryngau cymdeithasol y Cyngor; a
   - sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau RIPA.

6. Nid yw'r Polisi hwn yn disodli Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Corfforaethol (2016) y Cyngor, y mae'n rhaid i bob Swyddog sy'n defnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol gydymffurfio ag ef hefyd.

7. Mae'r Polisi hwn yn berthnasol pan fydd Swyddogion yn cadw gwyliadwriaeth gudd ar-lein/ar y cyfryngau cymdeithasol (p'un a yw'r wyliadwriaeth gudd yn wyliadwriaeth sy'n cael ei rheoleiddio gan RIPA neu'n wyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA (gweler Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA'), RHAN II Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Defnyddio Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol a Chaffael Data Cyfathrebu, Polisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnau ('Polisi RIPA')) y Cyngor.

8. Er nad yw defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymchwilio yn cael ei ystyried yn wyliadwriaeth gudd neu'n weithgarwch cudd yn awtomatig, gall ei ddefnyddio wrth gynnal ymchwiliadau/cadw gwyliadwriaeth olygu ei fod yn croesi i feysydd gwyliadwriaeth gudd a/neu wedi'i thargedu, a newid i fod yn *'gamddefnydd',* hyd yn oed os gwneir hynny yn anfwriadol.

9. Mae'n hanfodol bod darpariaethau RIPA, yng nghyd-destun gwyliadwriaeth gudd a chyfeiriedig, yn cael eu dilyn bob amser wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn ymchwiliadau.

10. Dylid ceisio cyngor gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (Swyddog Monitro ac Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer RIPA) a/neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth, os yw unrhyw wyliadwriaeth cyfryngau cymdeithasol yn cael ei defnyddio wrth ymchwilio i weithgareddau gweithiwr y Cyngor.

11. Gweler Polisi RIPA y Cyngor i gael esboniad am yr hyn a olygir wrth *'Gwyliadwriaeth'* a *'Gwybodaeth Breifat'*, a manylion ynghylch sut y gellid disgwyl gael preifatrwydd ar-lein, ac yn *arbennig*, preifatrwydd ar gyfer gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, er gwaethaf gosodiadau preifatrwydd.

***Beth yw'r 'Cyfryngau Cymdeithasol'?***

12. Bydd y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA hwn yn berthnasol i bob math o safleoedd cyfryngau cymdeithasol/rhwydweithio sydd wedi'u seilio ar y rhyngrwyd ac sydd yn aml yn cynnwys adeiladu proffil cyhoeddus neu led-gyhoeddus. Gallai nodweddion ychwanegol gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

    12.1 Y gallu i ddangos/rhannu rhestr o ddefnyddwyr eraill y mae'r defnyddiwr yn rhannu cysylltiad â nhw (e.e. cyfeirir atynt fel *'ffrindiau'* neu *'ddilynwyr'*);
    12.2 Y gallu i weld a phori rhestr cysylltiadau'r proffil a rhai defnyddwyr eraill;
    12.3 Galluoedd lletya sy'n caniatáu i ddefnyddwyr bostio cynnwys cyfryngau y gall defnyddwyr eraill ei weld; a
    12.4 Tudalennau cymdeithasol ar-lein seiliedig yn y gymuned, megis fforymau trafod neu ystafelloedd sgwrsio.

13. Mae enghreifftiau o'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i (gan fod y cyfryngau cymdeithasol yn faes sy'n newid yn gyson) y rhai a restrir isod:
    13.1 Blogiau personol;
    13.2 Postiadau neu sylwadau ar unrhyw flogiau eraill;
    13.3 Fforymau ar-lein;
    13.4 Hysbysfyrddau ar-lein;
    13.5 Facebook (rhwydweithio cymdeithasol);
    13.6 Twitter (microblog);
    13.7 YouTube (rhannu fideo);
    13.8 Flickr (rhannu delwedd);
    13.9 Tumblr (blogio/rhwydweithio cymdeithasol);
    13.10 LinkedIn (rhwydwaith proffesiynol);
    13.11 Reddit (fforymau); a
    13.12 Instagram (rhannu delweddau).

**Gwyliadwriaeth gudd ar y Cyfryngau Cymdeithasol a Phersonâu Ar-lein**

15. Gweler Polisi RIPA y Cyngor am esboniad o *'wyliadwriaeth gudd'.*

16. Nid yw'r ffaith bod ymchwilio ar-lein bellach yn arferol ac yn hawdd ei gyrchu yn lleihau'r angen am ganiatâd. Rhaid i Swyddogion Ymchwilio ac Awdurdodi ddeall sut mae'r cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu defnyddio yn gweithio, gan nad yw'r gwasanaethau a ddarperir i gyd yr un fath.



Draft

17. Rhaid i Swyddogion sy'n bwriadu defnyddio cyfrifon cudd y Cyngor neu bersonol (megis Facebook) i gael mynediad i bostiadau preifat aelodau unigol o'r cyhoedd/defnyddwyr gwasanaeth ystyried ceisio caniatâd RIPA, ond dylid nodi nad oes unrhyw system ar hyn o bryd i Wasanaeth y Cyngor weithredu cyfrifon cudd ar Facebook o fewn telerau ac amodau Facebook, felly gall unrhyw dystiolaeth a geir y tu allan i delerau ac amodau'r safle olygu bod y telerau hyn wedi cael eu torri.

18. Rhaid i Swyddogion fod yn ymwybodol bod:
    18.1 cael mynediad diawdurdod i ddeunydd cyfrifiadurol (mynd i mewn i system gyfrifiadurol heb ganiatâd h.y. hacio);
    18.2 cael mynediad diawdurdod i ddeunyddiau cyfrifiadurol gyda'r bwriad o gyflawni trosedd bellach (mynd i mewn i system gyfrifiadurol i ddwyn data neu ddinistrio dyfais neu rwydwaith (e.e. plannu firws));
    18.3 addasiad diawdurdod o ddata (addasu neu ddileu data, gan gynnwys cyflwyno meddalwedd maleisus neu ysbïwedd ar gyfrifiadur (fandaliaeth electronig a dwyn gwybodaeth)); a
    18.4 gwneud, cyflenwi neu gael unrhyw beth y gellir ei ddefnyddio mewn troseddau camddefnyddio cyfrifiaduron

    yn torri Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, sy'n drosedd ac yn arwain at ddirwyon a charchar. Gallai enghreifftiau o droseddau gynnwys defnyddio safle cyfryngau cymdeithasol y tu allan i delerau ac amodau'r safle hwnnw.

19. Mae Polisi RIPA y Cyngor a'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 ym Mharagraffau 3.10, a 3.11-3.17 yn rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch pryd y gallai fod angen caniatâd RIPA ar gyfer gweithgarwch cudd ar-lein, ac mae Paragraff 4.16 yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch ble y rhoddwyd caniatâd blaenorol.

20. Pan ganiateir i bersonâu ar-lein gael eu defnyddio'n gorfforaethol, bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cadw cofrestr ganolog o'r ffugenwau a'r proffiliau/cyfrifon hyn, ynghyd â manylion y gwasanaethau neu'r Swyddogion unigol y caniateir iddynt ddefnyddio/cymeradwyo eu defnyddio.

21. Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn monitro bob 4 mis unrhyw ddefnydd sy'n ymwneud â gwyliadwriaeth gudd ar y cyfryngau cymdeithasol a phersonâu ar-lein, a bydd yn cadw rhestr o'r data/gwybodaeth a gedwir pan fydd y wyliadwriaeth honno'n debygol o gael gafael ar wybodaeth breifat unigolyn (p'un a yw'r wyliadwriaeth gudd yn wyliadwriaeth sy'n cael ei rheoleiddio gan RIPA neu'n wyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA). Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu gan Swyddog Dynodedig yn y Gwasanaeth perthnasol.

22. Bydd y Swyddog Dynodedig yn darparu'r wybodaeth/data i'r Uwch-swyddog Cyfrifol bob 4 mis. Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol hefyd yn cofnodi manylion ynghylch pa Wasanaethau neu Swyddogion all ddefnyddio gwyliadwriaeth gudd ar y cyfryngau cymdeithasol a phersonâu ar-lein, a hefyd pa Swyddogion all gymeradwyo'r defnydd ohonynt.

23. Os yw Swyddog yn dymuno sefydlu persona ar-lein at ddiben cudd pan fydd yn debygol o gael gafael ar wybodaeth breifat (gan gynnwys hunaniaeth ffug neu broffil ffug), rhaid gwneud hyn dim ond gyda chaniatâd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol.

Draft

24. Mae defnyddio ffotograffau o bobl eraill heb eu caniatâd i gefnogi'r persona ar-lein yn torri deddfau eraill.

25. Rhaid i Swyddogion Awdurdodi hefyd hysbysu'r Uwch-swyddog Cyfrifol am gais Swyddog i sefydlu persona ar-lein, gan ddarparu manylion am ganiatâd y Swyddog i gael mynediad i'r cyfrif.

**Gosodiadau preifatrwydd**

26. Gall fod disgwyliad rhesymol o breifatrwydd ar gyfer deunydd a gyhoeddir ar-lein os defnyddir rheolyddion mynediad neu mewn fformat cyfathrebu preifat, megis negeseuon gwib. Os yw gosodiadau preifatrwydd ar gael ond heb eu defnyddio, gellir ystyried bod y data yn ffynhonnell agored ac er nad oes angen caniatâd fel arfer, rhaid ei ystyried. **Gall gwylio safleoedd *'ffynhonnell agored'* yn rheolaidd gael ei ystyried yn wyliadwriaeth gyfeiriedig yn dibynnu ar yr achos ac os yw'r math o gyfryngau cymdeithasol yn berthnasol.**

    **Enghraifft 1**
    'Facebook' – os yw'r data yn cael ei gyfathrebu i 'Ffrindiau' yn unig, gall fod yn rhesymol i'w ystyried yn wybodaeth breifat gyda disgwyliad o breifatrwydd am fod yr wybodaeth yn cael ei chyfathrebu i grŵp neilltuedig yn unig.

    **Enghraifft 2**
    'Twitter' – gellir ei ystyried yn fath o gyfathrebu â'r byd yn gyffredinol, ond pan gofnodir meini prawf chwilio gall newid i fod yn wyliadwriaeth gyfeiriedig.

27. Os gall unrhyw aelod o'r cyhoedd gael mynediad i wybodaeth (e.e. os nad oes system feto) nid yw'n wybodaeth breifat. Fel rheol nid oes angen caniatâd ar gyfer gwybodaeth ffynhonnell agored. Fodd bynnag, os yw proffil yn cael ei adeiladu o ffordd o fyw unigolyn, gall newid i fod yn wyliadwriaeth gyfeiriedig.

28. Os ystyrir ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur i'r Cyngor gael mynediad cudd i safleoedd sy'n destun gosodiadau preifatrwydd, gellir gwneud hyn trwy ganiatâd priodol yn unig.

29. Pan fydd Swyddog yn bwriadu ymgysylltu ag eraill ar-lein heb ddatgelu ei hunaniaeth, efallai y bydd angen caniatâd Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol (CHIS) (h.y. mae'r gweithgarwch yn fwy na dim ond darllen cynnwys y safle), e.e. mae Swyddog yn anfon cais 'ffrind' yn gudd ar Facebook.

30. Os yw perthynas yn cael ei sefydlu neu ei chynnal (h.y. mae'r gweithgarwch yn fwy na dim ond darllen cynnwys y safle) mae angen caniatâd Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol:

    *'CHIS authorisation is only required for the use of an internet trading organisation such as eBay when a covert relationship is likely to be formed. The use of disguised purchaser details in a simple, overt, electronic purchase does not require a CHIS authorisation, because no relationship is usually established at that stage*.'
    (Gweithdrefnau a Chanllawiau Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth 2016 (yn 239)).

31. Dylai'r Swyddog ystyried beth yw pwrpas edrych neu geisio edrych ar yr wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol (gweler Polisi RIPA y Cyngor a'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo y Cyngor yn 3.33).

32. Rhaid i Swyddogion beidio â mabwysiadu hunaniaeth (h.y. proffiliau ffug/hunaniaeth ffug) rhywun y mae'r sawl sydd o ddiddordeb neu ddefnyddwyr y safle yn ei adnabod/yn debygol o'i adnabod heb ganiatâd, a heb ganiatâd yr unigolyn y mae ei hunaniaeth yn cael ei ddefnyddio, a heb ystyried diogelwch yr unigolyn hwnnw. Rhaid i'r caniatâd fod yn benodol (h.y. rhaid i'r sawl y ceisir caniatâd ganddo gytuno (yn ysgrifenedig os yn bosibl) i'r hyn fydd a'r hyn na fydd yn cael ei wneud).

**Gweithdrefnau Gwyliadwriaeth**

33. Mae tair gweithdrefn wyliadwriaeth ar gael y mae'n rhaid i Swyddogion eu hystyried cyn cadw gwyliadwriaeth sy'n cynnwys safleoedd rhwydweithio cymdeithasol/cyfryngau cymdeithasol (gweler Polisi RIPA y Cyngor i gael rhagor o wybodaeth, RIPA a Deddf Pwerau Ymchwilio 2016), sef:

    - Defnyddio ***'Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig'***;
    - Defnyddio **Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol**; a
    - Pwerau i gaffael neu gae gafael ar ***'Ddata Cyfathrebu'***.

34. Mae'r materion allweddol y mae'n rhaid i Swyddogion eu hystyried yn cynnwys:
    34.1 Pa ddisgwyliad o breifatrwydd y mae'n rhesymol i ddefnyddiwr ei gael wrth bostio ar y rhyngrwyd;
    34.2 Pa mor gudd neu agored y mae'r Swyddog sy'n edrych ar wybodaeth ar y rhyngrwyd; a
    34.3 A ddylid cael caniatâd RIPA neu Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol neu beidio.

<u>Senarios Enghreifftiol</u>

35. **Senario 1 – Gweld postiadau/gwefannau sydd ar gael i'r cyhoedd lle nad oes rhaid i'r sawl sy'n eu gweld gofrestru proffil, ateb cwestiwn, neu ohebu'n sylweddol er mwyn eu gweld e.e. gwefan nodweddiadol masnachol.**

    - Dylai fod disgwyliad isel o breifatrwydd ac fel rheol ni fyddai angen caniatâd RIPA i weld neu gofnodi'r tudalennau hyn.

    - Serch hynny, efallai y bydd angen caniatâd RIPA i ymweld yn rheolaidd dros amser (monitro canfyddedig). Gall gwybodaeth breifat barhau'n breifat hyd yn oed os caiff ei phostio ar wefan o'r fath, ac mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi dehongli y gall y ffordd y mae busnes yn cael ei redeg fod yn wybodaeth breifat. Os yw Swyddog yn bwriadu monitro fel hyn, gall gaffael gwybodaeth breifat a dylid gwneud hyn mewn ffordd systematig, gan gofnodi'r canlyniadau (gan gynnwys a yw'r Swyddog yn digwydd cael mynediad i wybodaeth breifat). Gallai'r ffaith, wrth ymweld yn flaenorol, fod diffyg gwybodaeth breifat yn cael ei darganfod, dystio bod unrhyw gaffaeliad dilynol yn ddamweiniol ac nid oes angen caniatâd RIPA.

    - Os oes angen prawf brynu, gellir defnyddio enw a chyfeiriad ffug heb fod angen cael caniatâd Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol (neu wyliadwriaeth gyfeiriedig) ar yr amod na ffurfir *'perthynas'*. Mae angen ystyried y tebygolrwydd o gaffael gwybodaeth breifat, neu i ba raddau y mae *'perthynas'* yn cael ei ffurfio.

Draft

36. **Senario 2 – Gweld postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, megis rhwydwaith cymdeithasol lle bu'n rhaid i'r gwyliwr gofrestru proffil ond nid oes unrhyw gyfyngiad arall ar fynediad, e.e. Facebook, lle nad oes rhaid i chi gael eich derbyn fel *'ffrind'* i weld y safle, e.e. mae gan fasnachwr *'ffenestr siop'* Facebook yn hysbysebu ei fusnes/nwyddau.**

- Gall fod yn rhesymol i'r sawl sy'n rhedeg y safle/postio gwybodaeth ddisgwyl i wylwyr weithio o fewn telerau ac amodau'r wefan.

- O ganlyniad, dylid gwylio mewn ffordd agored fel arfer, h.y. trwy broffil cyfrif gan ddefnyddio enw a chyfeiriad e-bost cywir y Swyddog (cyfeiriad e-bost Ceredigion.gov.uk) neu broffil wedi'i osod a'i gymeradwyo gan Swyddog priodol. Os felly gall recordiad o'r ymweliad gael ei wneud i'w gyflwyno fel tystiolaeth.

- Os nad yw'r postiad//tudalen we yn cynnwys gwybodaeth breifat, ni fyddai unrhyw faterion preifatrwydd yn codi yn sgil ei wylio, ac felly nid oes angen caniatâd RIPA. Fodd bynnag, gallai cymysgedd o ddeunydd preifat a busnes fod ar gael i'w weld ac, fel uchod, mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn dehongli'r ffordd y mae busnes yn cael ei redeg i fod yn wybodaeth breifat. Efallai y bydd angen caniatâd ar gyfer ymweld yn rheolaidd dros amser er mwyn ei fonitro.

- Dylid defnyddio cyfrif *'cudd'* ar y lefel hon yng nghyd-destun caniatâd RIPA yn unig.

37. **Senario 3 – Gweld postiadau ar rwydweithiau cymdeithasol lle mae angen cael statws *'ffrind'* neu statws tebyg i'w gweld.**

- Mae gweld y safle yn debygol iawn o gynnwys gwybodaeth breifat, felly bydd ei weld yn rheolaidd yn cael ei ystyried yn *'wyliadwriaeth'* o dan RIPA, ac felly bydd angen caniatâd RIPA, <u>os yw</u> <u>cyfrif 'cudd' neu 'agored' yn cael ei ddefnyddio neu beidio</u> (ond y ffordd orau o'i gael mae'n debyg yw trwy ganiatâd Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol, gan ddefnyddio proffil cudd ac asesiadau risg priodol).

- **Efallai y bydd angen caniatâd RIPA o hyd** ar gyfer cyfrif *'agored'* sy'n cael statws *'ffrind'* neu statws tebyg oherwydd gallai statws o'r fath gael ei roi yn ddiofyn ar ran yr unigolyn sy'n postio/perchennog y dudalen we.

- Rhaid i'r Swyddog sicrhau bod ei fynediad yn cael ei ganiatáu gan y Swyddog Awdurdodi perthnasol.

- Er enghraifft, o dan delerau ac amodau Facebook, dim ond pobl sy'n adnabod yr unigolyn sy'n cynnal y proffil ddylai anfon cais 'ffrind' i'r proffil hwnnw. Os caiff ei dderbyn, gall yr unigolyn hwnnw gredu ar gam fod y sawl sy'n gofyn amdano yn rhywun y mae'n ei adnabod, e.e. nid yw'n ei gofio nac yn ei adnabod wrth enw arall. Mae gan yr unigolion hyn ddisgwyliad cyfiawnadwy o breifatrwydd o hyd. Gan na fydd gwneud cais i gael mynediad efallai'n cydymffurfio â dehongliad cul o delerau ac amodau Facebook, byddai **proffil a gymeradwyir gan Wasanaeth y Cyngor** y gellir ei weld yn glir yn delio â'r disgwyliad hwnnw o breifatrwydd, yn hytrach na phroffil cyfryngau cymdeithasol mwy niwtral yn seiliedig ar Swyddog, megis proffil Facebook gydag enw, statws a manylion cyflogaeth y Swyddog yn y Cyngor, lle na fydd y sawl sy'n derbyn y cais *'ffrind'* yn gwerthfawrogi'r manylion hyn o bosib.

Draft

- Rhaid i Uwch-swyddog Cyfrifol ganiatáu proffil sydd wedi'i osod a'i gymeradwyo gan Swyddog priodol er mwyn cael cuddwybodaeth a darparu cyngor.

**Cofnodi Gwybodaeth, Trefniadau Diogelu ar gyfer Trin a Chadw Data**

38. Dylai'r holl ddata a gaffaelir gael eu cofnodi'n briodol ar y ffurflen berthnasol a dylid diweddaru'r Gofrestr Ganolog. Rhaid i'r Swyddog gadw copi o'r ffurflen a gyflwynwyd a'r ddogfen(dogfennau) gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Uwch-swyddog Cyfrifol (ar gyfer diweddaru'r Gofrestr Ganolog). Mae Rhan 4 o Bolisi RIPA y Cyngor yn amlinellu'r gweithdrefnau o ran sicrhau mesurau diogelu ar gyfer trin a chadw data.

39. Rhaid cymryd gofal arbennig gyda gwybodaeth sensitif a gaffaelir trwy bersonâu ar-lein. Rhaid i unrhyw wybodaeth a gedwir gael ei chadw yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ac unrhyw ofynion cyfreithiol eraill, gan gynnwys cyfrinachedd, a pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor. Gellir ceisio cyngor gan y Swyddog Diogelu Data.

**Atodlen 1- Deddfwriaeth, Codau Ymarfer, Polisïau a Chanllawiau Perthnasol**

1. Dylid darllen Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA ar y cyd â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau a chodau ymarfer cyfredol a pherthnasol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r) canlynol:

1.1 Polisi RIPA y Cyngor;
https://ceri.ceredigion.gov.uk/net/wp-content/uploads/2018/05/1.1-S-RIPA-procedure-policy-English-amended-05.10.2017.pdf

1.2 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA');
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/23/contents

1.3 Nodiadau Esboniadol RIPA;
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/23/notes/contents

1.4 Dogfennau a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('IPCO') (Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth ('OSC') gynt) (ar gael yn: https://www.ipco.org.uk/) gan gynnwys Gweithdrefnau a Dogfen Ganllaw OSC:
https://ipco-wpmedia-prod-s3.s3.eu-west-2.amazonaws.com/OSC-PROCEDURES-AND-GUIDANCE.pdf

1.5 Codau Ymarfer Statudol RIPA:
1.5.1 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018;
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742041/201800802_CSPI_code.pdf
1.5.2 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol;
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742042/20180802_CHIS_code_.pdf
1.5.3 Cod Ymarfer ar Swmpgaffael Data Cyfathrebu:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/715477/Bulk_Communications_Data_Code_of_Practice.pdf
1.5.4 Cod Ymarfer Ymyrryd ag Offer

Draft

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/496069/53693_CoP_Equipment_Interference_Accessible.pdf

1.5.5 Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/822817/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf

1.5.6 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ymchwilio i Wybodaeth Electronig a Ddiogelwyd;
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742064/RIPA_Part_III_Code_of_Practice.pdf

1.6 Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref ar Gamerâu Gwyliadwriaeth (2013)
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/282774/SurveillanceCameraCodePractice.pdf

1.7 Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 ('IPA');
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/25/contents

1.8 OS 2010 Rhif 521 – Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol) 2010;
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/521/contents/made

1.9 OS 2012 Rhif 1500 (Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol) (Diwygio) 2012).
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/1500/contents/made

1.10 Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor:
https://ceri.ceredigion.gov.uk/portal/employe.e.-handbook/policies-procedures/social-media-policy/

1.11 Polisi Diogelwch Gwybodaeth y Cyngor;
https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/information-security-policy/

1.12 Cod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol *

1.13 Polisi Diogelu Data a GDPR y Cyngor **

1.14 Polisi E-bost y Cyngor *

1.15 Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion y Cyngor (ar gael yn https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/information-and-records-management-policy/)**

1.16 Polisi a Chanllawiau'r Cyngor ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn Perygl *

1.17 Polisi Golygyddol a Gweinyddu Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor *

1.18 Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor *

*: ar gael ar fewnrwyd y Cyngor (CeriNet)
**: ar gael ar wefan y Cyngor a CeriNet

Draft

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

IPCO
Investigatory Powers Commissioner's Office

PO Box 29105, London
SW1V 1ZU

By Email

April 2020

Dear Sir/Madam,

**Assurance of data handling and retention safeguards**

In light of the recent and serious compliance failings by part of the UK intelligence community, I have asked the IPCO inspectorate to carry out a full review of the ways in which data is handled by the public authorities we oversee. This work, which was initiated in late 2019, has comprised initial discussions with a range of authorities in relation to their data holdings. This includes any data obtained under the Investigatory Powers Act (IPA) 2016 and the Regulation of Investigatory Powers Act (RIPA) 2000 and which is therefore the subject of oversight by my office. This programme is intended to promote compliance with these acts and the Codes of Practice, and with other legal obligations including the Data Protection Act (DPA) 2018. You will be aware that the current restrictions have meant that our working model has changed and that any contact with our inspectors will be conducted remotely for the foreseeable future. Nonetheless, my inspectors will contact you to discuss data assurance alongside our usual inspections.

The objectives of the Data Assurance programme are:

- To inspect and investigate compliance with data safeguards to establish a high level of confidence that all data obtained under the powers overseen by IPCO is retained lawfully.
- To embed and encourage best practice for compliance at each authority we oversee.
- To assist the authorities we oversee to understand and investigate the compliance challenges arising from the use of bespoke, off-the-shelf and shared data handling programmes and technical storage environments.

My inspectors have identified that many organisations are retaining data for longer than is necessary or appropriate for a number of reasons. Firstly, in many cases authorities have not fully implemented data retention and disposal policies, secondly, many authorities operate with a culture of comprehensive retention to prevent operational data loss, and finally, systems used to transfer and securely store data may not promote or enable appropriate disposal processes.

For example, consider that an authority seeks and is granted a directed surveillance authorisation. Under that authorisation, surveillance is conducted for a period of time and provides information to meet the objectives of the investigation. As part of the investigation, one officer emails the results of the surveillance to a colleague and their manager, both of whom save a copy on their desktop and in Outlook for future reference. The officer also emails the product to a legal colleague so that the product may be used as evidence during criminal proceedings, it is therefore disclosed to a court and retained in a password-protected file for further use in the event of an appeal. At this point, no decision is taken as to how long that data should be retained, and the copies on both Outlook and the desktops are retained.

Although this example demonstrates legitimate use of the data for investigative and evidential use of the data, this approach is unlikely to be compliant with the code of practice for surveillance. The data pathway described includes retention on a personal desktop and in Outlook as well as a password-protected evidential copy. In this example, no retention, review or disposal process is in place for either pathway. In cases such as this, my inspectorate have found that data is being retained longer than is necessary, and at times indefinitely. I urge you to review your obligations under IPA and RIPA and to revisit the safeguards in the Codes of Practice[1] to ensure that appropriate policies and processes are in place within your authority.


Starting in 2020, IPCO inspections will include data assurance and will require the following to be made available to my inspectors: safeguarding policies; retention and disposal schedules; access to any systems used to store data obtained under IPA and RIPA. Through each inspection, my office will ask you to demonstrate the adequacy of your policies, including physical security of data, adequacy of staff training, steps to minimise copying of data and processes to ensure all relevant data and copies are deleted at the appropriate time.

This work is a central part of IPCO's role to assist public authorities to use these powers lawfully, in the public interest. I anticipate that this programme will allow my office to establish a good level of confidence in the safeguarding practices of the authorities I oversee. I recommend that you take the following actions, which will assist you in demonstrating compliance and adherence to your obligations to safeguard any data you have obtained or may obtain:

1) Review the safeguarding obligations in the relevant Code of Practice for any powers used by your authority.
2) Ensure that internal safeguard policies for retaining, reviewing and disposing of any relevant data are accurate and up-to-date.
3) Ensure that the authorising officer for your authority has a full understanding of any data pathways[2] used for RIPA or IPA data.
4) Ensure that all data obtained under IPA and RIPA is clearly labelled and stored on a data pathway with a known retention policy.
5) Review the wording of safeguards in any applications to obtain data under IPA and RIPA and ensure that they accurately reflect the retention and disposal processes at your authority[3].
6) Review whether data obtained under previous authorisations is being retained for longer than is necessary and, if appropriate, consider disposing of retained data.

If you have any questions about this programme or the recommendations we have made, please do not hesitate to contact IPCO at Info@IPCO.org.uk. Although we are not conducting inspections in person, my inspectors are available to answer any questions you have, and will be conducting inspections remotely, on a rolling basis, throughout the year.

Yours sincerely



**The Rt. Hon. Sir Brian Leveson**
The Investigatory Powers Commissioner

[1] Communications Data Code of Practice Chapter 13, CHIS Code of Practice Chapter 8 and Property Interference and Surveillance Code of Practice Chapter 9 set out safeguarding requirements.
[2] For example, directed surveillance data may be simultaneously stored on several data pathways: Pathway one – CCTV video product is transferred onto a CD and kept in a secure cabinet; Pathway two – a copy of the video is sent via email and stored on a common storage drive; Pathway three – a copy of the video is received via email and saved in an Outlook folder by a legal officer; Pathway four – a copy of the video is received via email and stored in a password protected evidential casework folder by a legal officer.
[3] For example, if all data will be retained for a set number of years this should be stated in your application, or the application should refer to the internal safeguards policy document.

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | 15 Medi 2021 |
| **LLEOLIAD:** | **ZOOM** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 4 2020/21** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Monitro gweithgarwch ar sail amlasiantaethol o ran y camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion. |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH HON:** | Sicrhau bod aelodau'n monitro cynnydd yng nghyfarfodydd rheoli chwarterol Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS |

**CEFNDIR:**

Amgaeir Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 4 2020/21.

Adroddiadau rheoli amlasiantaethol yw'r rhain ar ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2021. Darparant wybodaeth reoli ar y camau a gymerwyd o dan Ganllawiau Diogelu Cymru.

Mae'r Adroddiadau yn cynnwys yr wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu llesiant plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS (Ceredigion) yn trafod yr wybodaeth reoli hon er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn rhoi cyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

***Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol:***

***DIOGELU PLANT***

- Roedd ychydig o leihad yn nifer yr adroddiadau diogelu plant o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, ac roedd y rhifau ychydig yn is nag yn ystod yr un chwarter y flwyddyn flaenorol. Gyda'r cyfyngiadau'n cael eu llacio a'r ysgolion yn ailagor cafwyd twf yn nifer yr adroddiadau yn dilyn rhai lefelau adrodd ataliedig yn ystod y cyfnod clo.

- Yr Heddlu oedd y brif asiantaeth atgyfeirio yn ystod y chwarter hwn.

- Y pryderon pennaf syn arwain at gwblhau ymholiadau amddiffyn plant oedd honiadau am gam-drin corfforol a cham-drin rhywiol.

- Cafodd llai o Gynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant eu cynnal y chwarter hwn a chafodd pob un ei chynnal o fewn yr amserlen ofynnol.

- Mewn rhai achosion mae pryderon wedi cael eu huwch-gyfeirio i'r arena Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn uniongyrchol yn hytrach na chynnal cynhadledd oherwydd difrifoldeb y pryderon a'r angen am y camau gweithredu diogelu dan gyfarwyddyd y llys.

- Cafodd 65.7% o Gynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant eu cynnal yn ôl yr amserlen. Y rheswm am hyn oedd absenoldeb staff a blaenoriaethu'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant. Cafodd y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant eu haildrefnu cyn gynted â phosibl, a chafodd Cadeirydd Asiantaeth annibynnol ei benodi yn gynnar ym mis Chwefror.

- Y prif ffactorau risg a gofnodwyd oedd cam-drin domestig, rhieni'n gwahanu, rhieni'n camddefnyddio sylweddau ac anawsterau iechyd meddwl y rhieni.

- Lleihaodd nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gan 17 o blant, cafodd 24 o blant eu datgofrestru, a dim ond 7 o blant gafodd eu cofrestru mewn Cynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.

**DIOGELU OEDOLION**

- Bu cynnydd yn nifer yr oedolion yr adroddwyd eu bod mewn perygl ers Chwarter 3, gyda chynnydd o 117 o oedolion yn Chwarter 3 i 146 yn Chwarter 4 sy'n adlewyrchu'n fras nifer yr oedolion yr adroddwyd eu bod mewn perygl yn Chwarter 4 2019-2020.
  Yn ystod y cyfnod rhwng Chwarter 1 a diwedd Chwarter 3 roedd lleihad amlwg yn nifer yr oedolion mewn perygl a adroddwyd, ond bu cynnydd yn Chwarter 4. Mae'r ffigurau hyn i'w gweld yn adlewyrchu'r lleihad yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd pan oedd cyfyngiadau COVID wedi arwain at gyfnod clod, a bu cynnydd wedyn yn yr adroddiadau a dderbyniwyd pan ddechreuodd y cyfyngiadau gael eu codi.

- Mae nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd wedi cynyddu yn Chwarter 4 o'i gymharu â'r tri chwarter blaenorol gyda chynnydd sydyn yn nifer yr atgyfeiriadau ym mis Mawrth eleni, ac mae hyn yn debyg i'r cynnydd yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd ym mis Mawrth Chwarter 4 2019-2020. Mae'n ymddangos ein bod wedi dechrau dychwelyd i nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd cyn i bandemig COVID 19 ddechrau a chyn i'r cyfnod clo gael ei orfodi.

- Y Bwrdd Iechyd Lleol yw prif ffynhonnell adroddiadau yn Chwarter 4, wedi'i ddilyn gan asiantaethau Darparwr ac yna'r Heddlu, o'i gymharu â Chwarter 3 lle oedd yr Awdurdod Lleol yn brif ffynhonnell adroddiadau, wedi'i ddilyn gan yr Heddlu ac yna'r Bwrdd Iechyd Lleol. Y chwarter hwn, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan asiantaethau Darparwr o'i gymharu â'r chwarteri blaenorol.
  Y chwarter hwn derbyniwyd nifer cynyddol o adroddiadau mewn perthynas â phryderon mewn cartrefi gofal ac o ran cymorth gofal cartref, sef meysydd sydd dan bwysau, rheoli meddyginiaeth, achosion o ladrata gan staff gofal proffesiynol ac adroddiadau o bryderon am gamddefnyddio neu beidio â defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE).

- Cam-drin emosiynol/seicolegol yw'r math mwyaf cyffredin o gam-drin sy'n cael ei adrodd yn y chwarter hwn fel yn Chwarter 3, ac esgeulustod yw'r categori nesaf o gam-drin sydd â'r nifer fwyaf o adroddiadau gan ddilyn yr un patrwm â Chwarter 3 unwaith eto.

- Mae cynnydd yn nifer y benywod yr honnir eu bod yn cael eu cam-drin yn rhywiol y chwarter hwn ac mae'n ymddangos bod yr adroddiadau hyn syn rhai sy'n ymwneud â cham-drin domestig.

- Y chwarter hwn mae ychydig yn llai o adroddiadau oedd heb fynd ymlaen i ymholiad, ond mae nifer uchel o adroddiadau yn cael eu derbyn o hyd lle yr aseswyd nad oes angen ymholiad, ac mae angen ymchwilio ymhellach i hyn.

- Y chwarter hwn roedd nifer isel pellach o ymholiadau pan ddaethpwyd i'r casgliad bod angen gweithredu, h.y. roedd angen rhoi cynllun diogelu yn ei le. Roedd 6 yn unig yn y chwarter hwn, sef ychydig o leihad o 7 yn Chwarter 3, ond lleihad amlwg o'i gymharu â Chwarter 2 (23), Chwarter 1 (39) a Chwarter 4 2019-2020 (53).

- O'r 6 Chynllun Amddiffyn a roddwyd yn eu lle, cafodd 5 person eu diogelu yn eu cartrefi eu hunain, roedd angen diogelu 1 person mewn lleoliad gofal cartref, roedd angen i 1 person gael ei ddiogelu rhag gweithiwr â thâl, roedd angen i 2 gael eu diogelu rhag perthnasau/ffrind ac 1 ei ddiogelu rhag rhywun arall.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam** | Naddo |

***Crynodeb:***

Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir ar ddiogelu plant yng Ngheredigion.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol |

| | |
|---|---|
| **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt |
| **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod |
| **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid |
| **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu |

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol

**RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**
Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner.

**Enw Cyswllt:** **Siân Howys**

**Swydd:** **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)**

**Dyddiad yr Adroddiad:** **2 Mehefin 2021**

**Acronymau:**
CP – Amddiffyn Plant
CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
Rhan 4 – Honiadau a wnaed yn erbyn aelod o staff neu'r rhai sy'n gweithio gyda phlant e.e. – gofalwyr maeth, gwirfoddolwyr, cylchoedd chwarae at ati
CPCC – Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant
ICPC – Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant

# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR CEREDIGION

## Adroddiad Rheoli Perfformiad

**Chwarter: 4**

**1.1.21 – 31.3.21**

DRAFT

| CYNNWYS: | TUDALEN |
|---|---|
| ADRAN 1:<br>Cyflwyniad | 3 |
| ADRAN 2:<br>Prif Ddata a Data Cymharol | 4 |
| ADRAN 3:<br>Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant | 5 |
| ADRAN 4:<br>Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant | 9 |
| ADRAN 5:<br>Cynadleddau Amddiffyn Plant | 11 |
| ADRAN 6:<br>Y Gofrestr Amddiffyn Plant | 19 |
| ADRAN 7:<br>Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn mewn Amgylchiadau Arbennig | 22 |
| ADRAN 8:<br>Cyfarfodydd Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE) | 23 |
| ADRAN 9:<br>Adroddiad Cryno Blynyddol | 24 |
| ADRAN 10:<br>Yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC) | 25 |
| ADRAN 11:<br>Gwasanaethau Dysgu | 28 |
| ADRAN 12:<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 35 |
| ADRAN 13:<br>Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS) | 36 |
| ADRAN 14<br>Diogelu Oedolion | |


DRAFT

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2021. Mae'n darparu gwybodaeth rheoli perfformiad am y camau a gymerwyd i ddiogelu plant.

Mae'n cynnwys adroddiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid ynglŷn â diogelu a hybu llesiant plant yng Ngheredigion.

Mae'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir yn cael eu diffinio a'u hadrodd yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Ceredigion yn trafod yr wybodaeth reoli hon yn gyson er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau diogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn at:

Elizabeth Upcott
Rheolwr Corfforaethol Diogelu
Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk
01545 574212

DRAFFT

## ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol

| **Canlyniadau'r Atgyfeiriadau** | **Ion-Maw 2021** | **Hyd-Rhag 2020** | **Gorff-Medi 2020** | **Ebrill-Meh 2020** | **Ion-Maw 2020** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiadau / Atgyfeiriadau sy'n arwain at Drafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant | 99 | 102 | 92 | 85 | 106 |
| | | | | | |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau trosglwyddo a chyn geni) | 3 | 13 | 10 | 5 | 11 |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant Cyn Geni | - | 1 | 2 | 2 | - |
| Nifer y Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant | 1 | - | - | - | 1 |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys cynadleddau trosglwyddo a chyn geni)** | **4** | **14** | **12** | **7** | **12** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol / Cyn Geni / Trosglwyddo** | **9** | **20** | **23** | **9** | **30** |
| | | | | | |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau cyn geni a throsglwyddo) | 4 | 15 | 18 | 7 | 23 |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni | - | 1 | 2 | 2 | - |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill | 3 | - | - | - | 3 |
| **Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl Cynadleddau Cychwynnol** | **7** | **16** | **20** | **9** | **26** |
| Cyfanswm y plant na roddwyd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 2 | 4 | 3 | - | 4 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **18** | **17** | **16** | **19** | **11** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **35** | **39** | **26** | **42** | **15** |
| **Cyfanswm y plant sy'n dal ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **11** | **18** | **11** | **24** | **9** |
| Cyfanswm y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 24 | 21 | 15 | 18 | 6 |

DRAFT

## Dadansoddiad:

Roedd ychydig o leihad yn nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at weithredu o dan Ganllawiau Diogelu Cymru yn ystod y chwarter hwn, ac mae ychydig yn is nag yn ystod y chwarter hwn y flwyddyn flaenorol. Canran y plant a drafodwyd mewn cynadleddau adolygu ac a gafodd eu datgofrestru oedd 69%.

## ADRAN 3: Adroddiadau ac Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant

Mae Argymhelliad 39 Ymchwiliad Victoria Climbie yn ei gwneud hi'n ofynnol i staff ar y rheng flaen drosglwyddo ymholiadau am ddiogelwch a llesiant plant i'r tîm priodol yn ddi-oed ac o fewn yr awr. Yng Ngheredigion mae'r Porth Gofal yn derbyn ac yn cofnodi pob galwad gan y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau ac yn eu trosglwyddo i'r Tîm Asesu a Chymorth i Blant a Theuluoedd.


**Mae'r tabl canlynol yn dangos lefel cydymffurfio â'r argymhelliad:**


| Lefel | Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 1 awr | Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2 awr | Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2-5 awr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | | | | |
| 1 | 76 | 14 | 22 | 112 |
| 2 | 59 | 19 | 6 | 84 |
| 3 | 89 | 18 | 3 | 110 |
| 4 | 33 | 3 | 0 | 36 |
| 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Lefel** | **Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 1 awr** | **Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2 awr** | **Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2-5 awr** | **Cyfanswm** |
| **Chwefror** | | | | |
| 1 | 72 | 6 | 20 | 98 |
| 2 | 61 | 7 | 11 | 79 |
| 3 | 44 | 9 | 10 | 63 |
| 4 | 32 | 1 | 1 | 34 |
| 5 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| | | | | **Cyfanswm** |
| **Mawrth** | | | | |
| 1 | 68 | 21 | 24 | 113 |
| 2 | 61 | 21 | 13 | 95 |
| 3 | 68 | 14 | 9 | 91 |
| 4 | 48 | 12 | 1 | 61 |
| 5 | 5 | 0 | 0 | 5 |

DRAFT

| **Ffynonellau'r Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a'r nifer a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cysylltwyd gan** | **Ionawr** | **Chwefror** | **Mawrth** | **Cyfanswm** | Data cymharol chwarter 3 |
| Yr Heddlu | 12 | 17 | 16 | **45** | **57** |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Mewnol | 8 | 5 | 7 | **20** | **5** |
| Addysg | 3 | 4 | 6 | **13** | **23** |
| Perthynas/ffrind/aelod o'r gymuned | 2 | 1 | 2 | **5** | **4** |
| Awdurdod Lleol Arall | 4 | - | 1 | **5** | **4** |
| Iechyd | - | 2 | 2 | **4** | **7** |
| Asiantaethau Gwirfoddol | 1 | - | 2 | **3** | **1** |
| Arall | 1 | 2 | - | **3** | **1** |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWF) | - | - | 1 | **1** | **-** |
| Gwasanaeth Prawf / Cwmni Adsefydlu Cymunedol | - | - | - | **-** | **-** |
| CAFCASS | - | - | - | **-** | **-** |
| Meddyg Teulu | - | - | - | **-** | **-** |
| Gwasanaeth Ieuenctid | - | - | - | **-** | - |
| Adrodd am eu hunan | - | - | - | **-** | **-** |
| Tai | - | - | - | **-** | **-** |
| Ymddiriedolaeth Ambiwlans Gorllewin Cymru (WAST) | - | - | - | **-** | **-** |
| **Cyfanswm** | **31** | **31** | **37** | **99** | **102** |

DRAFT





## Dadansoddiad:

Daeth y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau oddi wrth yr Heddlu yn ystod y chwarter hwn a bu gostyngiad yng nghyfradd yr ysgolion er gwaetha'r ffaith iddynt ailagor ar ddechrau'r chwarter hwn.

| Cyfeiriadau Post yr Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth Rhan 3 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tref Agosaf yn y Cyfeiriad Post** | **Ionawr** | **Chwefror** | **Mawrth** | **Cyfanswm** | Data cymharol chwarter 3 |
| Aberystwyth | 11 | 16 | 12 | **39** | **56** |
| Aberteifi | 5 | 5 | 9 | **19** | **4** |
| Llanbedr Pont Steffan | 5 | 4 | 5 | **14** | **15** |
| Aberaeron | 3 | 1 | 3 | **7** | **4** |
| Llandysul | 4 | -- | 2 | **6** | **8** |
| Cei Newydd | - | 1 | 3 | **4** | **5** |
| Castellnewydd Emlyn (Ceredigion) | - | 3 | 1 | **4** | **4** |
| Sir arall | 2 | - | 2 | **4** | **1** |
| Aber-porth | 1 | 1 | - | **2** | **2** |
| Tregaron | - | - | - | **-** | **3** |
| Arall | - | - | - | **-** | **-** |
| **Cyfanswm yr Atgyfeiriadau** | **31** | **31** | **37** | **99** | **102** |




## Dadansoddiad:

Aberystwyth yw'r ardal lle y ceir y nifer uchaf o atgyfeiriadau yn gyson.


| **Dadansoddiad yn ôl % o Weithgarwch Diogelu<br>Chwarter 4 2020/2021 (1 Ionawr – 31 Mawrth)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm o 982 – Yr Holl Gysylltiadau Cychwynnol ynghylch Plant | | | |
| Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol (NAET) a neilltuwyd i'r Timau Plant –<br>Dim gwybodaeth ar gael | Trafodaethau Strategaeth<br>10% | Ymholiadau Adran 47<br>5% | Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant<br>1% |

DRAFFT


## ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant

| Nifer y Trafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant Rhan 3 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | **Chwefror** | **Mawrth** | **Cyfanswm** | Data cymharol chwarter 3 |
| 31 (40) | 31 (25) | 37 (37) | 99 | 102 |

| Asiantaethau sy'n cynnal Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ionawr** | **Chwefror** | **Mawrth** | **Cyfanswm** | Data cymharol chwarter 3 |
| Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu | 14 | 12 | 12 | **38** | **38** |
| Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel un asiantaeth | 4 | - | - | **4** | **2** |
| Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant gan yr Heddlu fel un asiantaeth | - | - | 3 | **3** | **10** |
| **Cyfanswm yr Ymholiadau** | **18** | **12** | **15** | **45** | **50** |



| **Categorïau'r Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Ionawr** | **Chwefror** | **Mawrth** | **Cyfanswm** | Data cymharol Chwarter 3 |
| Cam-drin Corfforol | 5 | 4 | 8 | 17 | 24 |
| Cam-drin / Camfanteisio'n Rhywiol | 4 | 6 | 6 | 16 | 23 |
| Esgeulustod | 5 | 2 | 1 | 8 | 2 |
| Cam-drin Emosiynol | 4 | - | - | 4 | 1 |
| **Cyfanswm yr Ymholiadau** | **18** | **12** | **15** | **45** | **50** |





| **Cyfweliadau Fideo** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ion** | **Chwe** | **Maw** | **Cyfanswm** | Data cymharol Chwarter 3 |
| **Nifer y cyfweliadau fideo â phlant** | - | - | - | - | - |

**Dadansoddiad:**
Y pryderon mwyaf a arweiniodd at gynnal ymholiadau amddiffyn plant oedd honiadau am gam-drin corfforol a cham-drin rhywiol.
Cynhaliwyd y mwyafrif o'r ymholiadau ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant.


## ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant

| Mae'r tabl hwn yn cynnwys ffigurau wedi'u dadansoddi mewn perthynas â Chanlyniadau Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant** | **Nifer y plant heb eu geni** | **Nifer y teuluoedd** | **Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gan gynnwys rhai heb eu geni a rhai a drosglwyddwyd** | **Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth os na chofrestrwyd** |
| 4 | 9 | - | 4 | 7 | 2 |

**Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 100.0% o'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl y Drafodaeth / Cyfarfod Strategaeth.
Mae'n bwysig nodi bod yr holl Gynadleddau Adolygu Achos a Chynadleddau Cychwynnol yn cael eu cynnal yn rhithiol trwy Microsoft Teams. Bu modd i rieni a phlant gymryd rhan yn y cyfarfodydd.




**Cyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 50.0% o Gyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant. Mae hyn yn cynrychioli 2 blentyn allan o 4. Ar gyfer 1 teulu gyda 2 blentyn roedd oedi oherwydd argaeledd gweithwyr proffesiynol.




| Mae'r tabl hwn yn dadansoddi canlyniadau'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn ôl niferoedd: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant** | **Nifer y teuluoedd** | **Nifer y plant sy'n aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant a gafodd eu dileu o'r Gofrestr Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth yn dilyn datgofrestru** |
| 18 | 35 | 18 | 11 | 24 | 17 |

**Canlyniadau'r Adolygiadau:**
O'r 24 o blant a ddatgofrestrwyd, derbyniodd 17 ymyrraeth bellach drwy Gynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth; roedd 5 yn destun Gorchymyn Llys ac yn Blant sy'n Derbyn Gofal ac nid oedd angen unrhyw wasanaethau ar 2 blentyn arall.

**Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 65.7% o'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn y terfynau amser. Ar gyfer 3 theulu gyda 2 blentyn a 6 phlentyn unigol arall cynhaliwyd y Cynadleddau y tu allan i'r amserlenni oherwydd absenoldeb salwch y Cadeirydd Annibynnol a blaenoriaethu Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant. Ail-drefnwyd y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant i'w cynnal cyn gynted â phosibl yn dilyn penodi Cadeirydd Annibynnol yr Asiantaeth yn gynnar ym mis Chwefror; roedd y Cynadleddau Adolygu yn 35 diwrnod yn hwyr ar gyfartaledd, gyda 7 o'r plant a adolygwyd wedi'u datgofrestru yn eu Cynhadledd Adolygu 3 mis cyntaf.




| Cyfranogiad rhieni a phlant mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant<br>*Data cymharol Chwarter 3 mewn cromfachau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol i rieni 24 awr cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r teulu cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r plentyn cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Aelod o'r teulu yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Cyfleu barn plant mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant pan nad oeddent yn bresennol (5-18 oed)** | ***Presenoldeb plant yn y Cynhadledd Amddiffyn Plant (Dros 11 oed)** | ***Plant y penodwyd Eiriolwr / Tros Gynnal ar eu cyfer** |
| 100% (87%) | 100% (96%) | 80% (60%) | 100% (94%) | 91% (91%) | 42% (21%) | 76% (75%) |

**Cyfranogiad a Phresenoldeb Plant a Theuluoedd mewn Cynadleddau:**

**Presenoldeb rhieni, plant ac aelodau'r teulu:**
Roedd o leiaf 1 rhiant / taid neu nain â chyfrifoldeb rhieni yn bresennol mewn 22 Cynhadledd Amddiffyn Plant (100%).
Roedd cyfanswm o 38 o rieni ac aelodau eraill o'r teulu yn bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant.


**Mae barn y plant a'r bobl ifanc wedi cael eu cynrychioli cyn ac yn ystod y Gynhadledd Amddiffyn Plant:**
Roedd cyfanswm o 44 o blant o 22 o deuluoedd yn destun Cynadleddau Cychwynnol, Cyn Geni, Trosglwyddo ac Adolygu Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter hwn.
Yn destun y cynadleddau hynny oedd 0 (0%) plentyn cyn geni, 3 (7%) phlentyn oedd yn iau na 6 mis oed, 4 (9%) plentyn oedd rhwng 6 a 12 mis oed, 9 (21%) plentyn oedd yn hŷn na blwydd oed ac yn iau na 5 oed, 16 (36%) plentyn oedd rhwng 5 a 10 mlwydd oed, a 12 (27%) plentyn oedd rhwng 11 a 18 mlwydd oed.
Mynegwyd barn 14 (88%) plentyn a oedd rhwng 5 ac 11 mlwydd oed yn y Gynhadledd.
Roedd 5 (42%) person ifanc yn hŷn nag 11 mlwydd oed wedi mynychu eu Cynhadledd, roedd 4 (80%) o'r bobl ifanc hyn wedi cwrdd â'r Cadeirydd cyn y Gynhadledd; nid oedd y Cadeirydd wedi

cwrdd ag unrhyw un o'r bobl ifanc hyn ar ôl y Gynhadledd. Cafodd barn pob un o'r 7 (100%) person ifanc oedd heb fynychu'r Cynadleddau ei chynrychioli yn y Gynhadledd.
Derbyniodd 19 (76%) o'r bobl ifanc a oedd yn hŷn na 5 mlwydd oed wasanaethau eiriolwr, cafodd 6 arall eu hatgyfeirio am wasanaeth ond nid oedd y rhieni yn ymgysylltu ar y pryd. Cafodd 3 pherson ifanc arall eu hatgyfeirio ond roeddent wedi gwrthod y gwasanaeth.

**Dadansoddiad**
Mae o leiaf 1 aelod o'r teulu yn bresennol yn 100% o'r Cynadleddau.
Cafodd Gwasanaeth Eiriolaeth ei gynnig i bob plentyn 5 oed a hŷn a drafodwyd mewn Cynhadledd yn ystod y cyfnod hwn, ond yn anffodus nid oedd rhieni 6 o blant yn ymgysylltu'n dda ar y pryd, ac felly ni chafodd y plant y gwasanaeth. Cafodd 3 pherson ifanc eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Eiriolaeth, ond roeddent wedi gwrthod y cynnig, felly cawsant eu dileu o'r hafaliad.

| **Crynodeb o'r Peryglon Pennaf/Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a nodwyd ac a drafodwyd yn y Cynadleddau Amddiffyn Plant** | |
|---|---|
| Mae'r tabl hwn yn seiliedig ar werthusiad y Cadeirydd Annibynnol o'r peryglon pennaf mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant lle rhoddwyd enwau'r plant dan sylw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a Chynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant lle roedd enwau'r plant yn aros ar y gofrestr. | |
| **Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 29 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Mawrth 2021** | |
| Cam-drin Domestig (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 25 (86.2%) |
| Rhieni'n gwahanu wedi bod yn broblem yn y cartref (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 21 (72.4%) |
| Rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 20 (68.9%) |
| Anawsterau iechyd meddwl y rhieni (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 15 (51.7%) |
| Troseddau treisgar gan oedolion | 14 (48.3%) |
| Rhieni ddim yn cydweithredu â'r Cynllun Amddiffyn Plant | 14 (48.3%) |
| Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant | 8 (27.6%) |
| Person ifanc yn ymddwyn mewn ffyrdd peryglus / yn camddefnyddio sylweddau | 6 (20.7%) |
| Mam, tad neu bartner wedi bod yn y carchar (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 5 (17.2%) |
| Camau cyfreithiol wedi'u cymryd i ddiogelu plant hŷn yn y teulu | 3 (10.3%) |
| Troseddau gan oedolion yn erbyn plant | 1 (3.4%) |
| Anableddau dysgu'r rhieni | 0 (0%) |

DRAFT



Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 29 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Mawrth 2021
30
25
20
15
10
5
0
25
21
20
15
14
14
8
6
5
3
1
Cam-drin Domestig
Rhieni'n gwahanu
Rhieni'n camddefnyddio sylweddau /...
Anawsterau iechyd meddwl y rhieni
Troseddau treisgar gan oedolion
Rhieni ddim yn cydweithredu â'r...
Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant
Person ifanc yn ymddwyn mewn ffyrdd...
Mam, tad neu bartner wedi bod yn y...
Camau cyfreithiol wedi'u cymryd i...
Troseddau gan oedolion yn erbyn plant
Anableddau dysgu'r rhieni

DRAFT


| **Y Tri Pherygl Pennaf Gwenwynig ar gyfer y 29 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Mawrth 2021** | | |
|---|---|---|
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r Tri Pherygl Gwenwynig yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl y Rhieni) | 10 | 34.5% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae Rhieni'n Gwahanu a / neu Garchariad yn ymddangos (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 22 | 75.9% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r pum Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl y Rhieni, Rhieni'n Gwahanu a Charchariad) | 4 | 13.8% |


**Dadansoddiad:**
Y peryglon pennaf a nodwyd oedd cam-drin domestig, rhieni'n gwahanu, rhieni'n camddefnyddio sylweddau ac anawsterau iechyd meddwl y rhieni.

**Presenoldeb Asiantaethau mewn Cynadleddau:**




DRAFT




Mae'r siartiau uchod yn dangos yr asiantaethau a fu'n bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant. Ar gyfartaledd estynnwyd gwahoddiad i 6 aelod o staff asiantaethau i bob cynhadledd a bu 3 yn bresennol.
Roedd 5 adroddiad ysgrifenedig ar gyfartaledd ar gael ym mhob Cynhadledd Amddiffyn Plant.
Trefnwyd dyddiad ar gyfer Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant ym mhob cynhadledd pan oedd ei angen.
Roedd cworwm ymhob un o'r 44 (100%) Cynhadledd Amddiffyn Plant.


Mewn 3 (14%) Cynhadledd Amddiffyn Plant argymhellwyd galw cyfarfod Grŵp Teulu.
Darparodd Gweithwyr Cymdeithasol adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer pob un o'r 22 (100%) cynhadledd. Roedd 1 (25%) o'r adroddiadau a gyflwynwyd mewn Cynadleddau Cychwynnol yn cynnwys cronoleg.
Mynegodd 22 (100%) o weithwyr proffesiynol / asiantaethau eu barn am gofrestru a lefel y perygl ymhob cynhadledd.
Roedd 40 (91%) o benderfyniadau cofrestru Cynhadledd Amddiffyn Plant yn ddienw gyda 4 (9%) o gofrestriadau Cynhadledd Amddiffyn Plant yn benderfyniad mwyafrif.
Roedd 1 (2%) Cynhadledd Amddiffyn Plant wedi nodi bod anghytuno ynghylch diogelwch y Cynllun Amddiffyn Plant ar gyfer diogelu llesiant plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
Mewn 0 (0%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gofalwr ifanc.
Mewn 1 (4%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod diffyg gwybodaeth ynghylch partner y fam.
Mewn 2 (9%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anabledd dysgu cymedrol / difrifol; ac mewn 4 (18%) cynhadledd nodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Datblygu Unigol.
Mewn 1 (4%) Gynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd gan y person ifanc anabledd corfforol / nam ar y synhwyrau, ac mewn 0 (0%) nodwyd bod gan y person ifanc broblemau ymddygiad.
Mewn 4 (18%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anawsterau lleferydd / iaith ac ni chofnodwyd mewn unrhyw gynhadledd (0%) bod y plant wedi'u gwahardd o'r ysgol.


DRAFT


## ADRAN 6: Cofrestr Amddiffyn Plant


**Mae'r tabl a'r siart isod yn dangos data a thueddiadau'r Gofrestr ar ddiwedd pob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf.**

| Y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y plant o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y teuluoedd o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y plant wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y teuluoedd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Cyfanswm y plant wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Cyfanswm y teuluoedd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Cyfanswm y plant o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd yn Blant sy'n Derbyn Gofal |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 31 Mawrth 2021 | 29 | 16 | 12 | 6 | 41 | 22 | 5 |
| 31 Rhagfyr 2020 | 46 | 24 | 7 | 5 | 53 | 29 | 5 |
| 30 Medi 2020 | 50 | 22 | 4 | 3 | 54 | 25 | 1 |
| 30 Mehefin 2020 | 46 | 24 | 4 | 2 | 50 | 26 | 4 |
| 31 Mawrth 2020 | 55 | 26 | 10 | 4 | 65 | 30 | 2 |
| 31 Rhagfyr 2019 | 35 | 20 | 12 | 5 | 47 | 25 | 3 |
| 30 Medi 2019 | 52 | 27 | 7 | 3 | 59 | 30 | 4 |
| 30 Mehefin 2019 | 55 | 31 | 10 | 5 | 65 | 36 | 3 |
| 31 Mawrth 2019 | 74 | 40 | 4 | 3 | 78 | 44 | 5 |
| 31 Rhagfyr 2018 | 53 | 32 | 2 | 2 | 55 | 34 | 4 |
| 30 Medi 2018 | 58 | 36 | 9 | 7 | 67 | 43 | 3 |
| 30 Mehefin 2018 | 54 | 31 | 9 | 6 | 63 | 37 | 6 |




Oedran a Rhyw Plant Ceredigion (29) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth 2021
8
7
6
5
4
3
2
1
0
1
1
4
2
3
3
6
7
0
2
o dan 1 oed
1-4 oed
5-9 oed
10-15 oed
16-18 oed
Gwryw (Cyfanswm o 14)
Benyw (Cyfanswm o 15)


Hyd yr amser y bu Plant Ceredigion (29) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth 2021
18
16
14
12
10
8
6
4
2
0
17
3
9
0
o dan 6 mis
6-12 mis
1-2 flynedd (yn cynnwys 4 deulu)
Dros 2 flynedd


Y Categori Cofrestru ar gyfer Plant Ceredigion (46) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth 2021
18
16
14
12
10
8
6
4
2
0
17
9
3
0
0
Cam-drin emosiynol neu seicolegol
Esgeulustod
Cam-drin rhywiol
Cam-drin corfforol
Esgeulustod a Cham-drin emosiynol neu seicolegol

| **Mesur 28 Llywodraeth Cymru – Yr amser ar gyfartaledd y bu pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:** | | |
|---|---|---|
| Ar gyfer y Mesur hwn mae'n ofynnol rhoi'r amser ar gyfartaledd mewn diwrnodau calendr y treuliodd pob plentyn ar y Gofrestr cyn eu datgofrestru yn ystod y chwarter dan sylw | Ionawr-Mawrth | 244.1 |

| | **Ion-Maw 2021** | **Hyd-Rhag 2020** | **Gorff-Medi 2020** | **Ebrill-Meh 2020** | **Ion-Maw 2020** | **Hyd-Rhag 2019** | **Gorff-Medi 2019** | **Ebrill-Meh 2019** | **Ion-Maw 2019** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd y 10,000 o blant o dan 18 oed** | 23 | 36 | 39 | 36 | 42 | 27 | 40 | 42 | 57 |

| **Mesur 27 Llywodraeth Cymru – Nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol o fewn y flwyddyn** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynadleddau Cychwynnol** | **Ion-Maw 2021** | **Hyd-Rhag 2020** | **Gorff-Medi 2020** | **Ebrill-Meh 2020** | **Ion-Maw 2020** | **Hyd-Rhag 2019** | **Gorff-Medi 2019** | **Ebrill-Meh 2019** |
| Nifer y plant a fu ar y gofrestr o'r blaen ac a ddatgofrestrwyd dros y 12 mis diwethaf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 5 | 1 |

**Dadansoddiad**

Roedd lleihad sylweddol yn nifer y plant ar y Gofrestr yn ystod y cyfnod hwn. Datgofrestrwyd 24 o blant oedd yn cynnwys 1 teulu gyda 5 o blant, 1 teulu gyda 4 o blant, 1 teulu gyda 3 o blant, 4 teulu gyda 2 o blant a 4 teulu gydag un plentyn. Fodd bynnag, cafodd 7 o blant eu cofrestru mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant. Roedd nifer y plant yn y teuluoedd hyn yn cynnwys 1 teulu gyda 3 o blant a 2 deulu gyda 2 o blant.
Mae'r mwyafrif o blant ar y Gofrestr oherwydd cam-drin emosiynol ac esgeulustod sy'n adlewyrchu'r ffaith mai cam-drin domestig yw un o'r peryglon pennaf.
Mae'r mwyafrif o blant ar y Gofrestr am gyfnod o hyd at 6 mis.
Mae mwy o ferched na bechgyn ar y Gofrestr erbyn hyn.
Y categori oedran sy'n parhau â'r nifer fwyaf ar y Gofrestr yw plant 10-15 mlwydd oed.

DRAFT

## ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o dan Rannau 4 a 5 o Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Atgyfeiriwyd 21 o blant a chynhaliwyd cyfanswm o 31 o gyfarfodydd strategaeth yn ystod y chwarter.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Strategaeth ar gyfer 2 Blentyn sy'n Derbyn Gofal o Geredigion ac 1 Plentyn sy'n Derbyn Gofal o Awdurdod Lleol arall.

Adroddwyd bod 1 Plentyn sy'n Derbyn Gofal o Geredigion sydd wedi'i leoli y tu allan i'r sir wedi bod yn destun Ymholiadau Amddiffyn Plant yn ardal y lleoliad.

| **Categori o Gyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant (Amgylchiadau Penodol)** | **Ionawr**<br><br>**Cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **Chwefror**<br><br>**Cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **Mawrth**<br><br>**Cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **Cyfanswm yr achosion** |
|---|---|---|---|---|
| Perygl o gamfanteisio ar blentyn | 5 | 5 | 4 | **11** |
| Pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol | 1 | 0 | 2 | **2** |
| Pryderon ynghylch person ifanc yn mynd ar goll o'r cartref | 1 | 1 | 2 | **4** |
| Pryderon Proffesiynol | 3 | 2 | 5 | **9** |
| | | | | |
| **Cyfanswm y cyfarfodydd** | **10** | **8** | **13** | |
| **Cyfanswm yr achosion a drafodwyd yn ystod y chwarter dan sylw** | | | | **26** |

DRAFT

## ADRAN 8: Cyfarfodydd Rheoli Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)

| Achos Newydd / Adolygu | Ymadael / Aros yn MACSE | Gwryw / Benyw | Oedran | Yn y cartref /mewn gofal | Cofrestr Amddiffyn Plant | Dyddiad y cyfarfod | Presenoldeb Asiantaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | B | 16 | C | Ie | 12.02.21 | CFAST, Coleg, Yr Heddlu, YJPS |
| A | Y | B | 14 | C | Ie | 02.03.21 | CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, Iechyd |
| A | Y | B | 15 | G | Na | 16.03.21 | CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu |
| N | A | B | 13 | C | Na | 06.01.21 | CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, TAF, Iechyd |
| N | Y | B | 17 | C | Na | 06.01.21 | CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu |
| N | A | B | 16 | C | Na | 08.01.21 | CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, YJPS, Iechyd |
| N | A | B | 13 | C | Na | 08.01.21 | CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu |
| N | A | G | 17 | C | Na | 14.01.21 | CFAST, Yr Heddlu, YJPS, Coleg, Tai |
| N | A | G | 15 | C | Na | 09.02.21 | CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, YJPS, TAF |
| N | Y | B | 17 | C | Na | 12.02.21 | CFAST, Yr Heddlu, Coleg |
| N | A | B | 16 | C | Ie | 05.03.21 | CFAST, Yr Heddlu, CAMHS, Barod |
| N | A | B | 15 | C | Na | 12.03.21 | CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, Iechyd, TPA |
| N | A | G | 15 | C | Na | 24.03.21 | CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, Iechyd, YJPS, TAF |

Daeth 10 achos newydd i'r cyfarfodydd MACE yn ystod Chwarter 4 a 3 achos i'w hadolygu. O'r rhain, roedd 10 yn fenywod rhwng 13-17 mlwydd oed ac roedd 3 yn wrywod rhwng 15 ac 17 mlwydd oed ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

DRAFT

## ADRAN 9: Adroddiad Cryno Blynyddol

| **1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021** | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfodydd/Trafodaethau Strategaeth Amddiffyn Plant** | | Data cymharol ar gyfer y flwyddyn flaenorol |
| Cyfarfodydd / Trafodaethau Strategaeth | 378 | 335 |
| Cyfarfodydd Strategaeth (Rhan 4 a 5) | 105 | 70 |
| **Canlyniadau Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant** | | |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau trosglwyddo a chyn geni) | 31 | 31 |
| Cynadleddau Cychwynnol Cyn-geni Amddiffyn Plant | 5 | - |
| Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant | 1 | 2 |
| Cyfanswm Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys cynadleddau trosglwyddo a chyn-geni) | 37 | 33 |
| Cyfanswm y plant a gafodd eu trafod mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | 61 | 69 |
| Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (gan gynnwys adeg eu geni) | 52 | 61 |
| Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant heb eu cofrestru | 9 | 8 |
| Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant lle roedd plant ar y Gofrestr yn flaenorol ond wedi cael eu datgofrestru o fewn y 12 mis diwethaf | 0 | 7 |
| **Canlyniadau Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | | |
| Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant | 70 | 82 |
| Cyfanswm y plant a adolygwyd | 142 | 151 |
| Enwau wedi'u datgofrestru o'r Gofrestr AP | 78 | 81 |
| **Nifer y Plant a'r Teuluoedd sy'n destun Cynadleddau Amddiffyn Plant** | | |
| Nifer y Plant | 115 | 142 |
| Nifer y Teuluoedd | 59 | 72 |

DRAFT

**ADRAN 10: Adroddiad yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)**

DRAFFT

DRAFFT

DRAFFT

## ADRAN 11: Gwasanaethau Dysgu

**ADRODDIAD LOG GWASANAETHAU YSGOLION**

**BWLIO**

Mae data bwlio yn parhau i gael eu casglu yn dymhorol ym mhob cyfarfod Corff Llywodraethu ysgolion. Gweler isod y data a gasglwyd yn nhymor yr Gwanwyn 2021 a gasglwyd yn ystod y tymor blaenorol sef tymor yr Hydref 2020.

| Math o Fwlio | Gwanwyn 2020 | Haf 2020 | Hydref 2020 |
|---|---|---|---|
| Gallu | 2 | 2 | 1 |
| Oedran | 1 | 0 | 0 |
| Edrychiad | 8 | 5 | 5 |
| Bioffobig | 0 | 0 | 0 |
| Anabledd | 0 | 1 | 0 |
| Rhyw | 2 | 0 | 0 |
| Homoffobig | 0 | 0 | 0 |
| Plentyn syn Derbyn Gofal | 0 | 0 | 0 |
| Anneuaidd | 0 | 0 | 0 |
| Beichiogrwydd neu Famolaeth | 0 | 0 | 0 |
| Hiliol | 2 | 0 | 3 |
| Crefydd neu Gred | 0 | 0 | 0 |
| Rhywiol | 0 | 0 | 0 |
| Trawsffobig | 0 | 0 | 0 |
| Gofalwr Ifanc | 0 | 0 | 0 |
| E-ddiogelwch | 7 | 1 | 1 |
| Eraill | 21 | 1 | 8 |
| **Cyfanswm** | 43 | 10 | 18 |

Mae gwrthdaro rhwng ffrindiau hefyd wedi cael ei gynnwys yng nghofnodion ysgolion. Ni fyddai'r mathau hyn o ymddygiad wedi'u cynnwys fel arfer o fewn y diffiniad o fwlio, fodd bynnag mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn eu cofnodi o dan y categori 'arall' yn eu ffurflen adborth.

## HYFFORDDIANT

Mae hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant lefel 1 ar gael fel rhaglen e-ddysgu yn unig a dyma nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod cyfnod chwarter 4. Yn ogystal, mae nifer y staff sydd wedi cwblhau lefel 2 Amddiffyn Plant yn rhithiol yn ystod y cyfnod hwn wedi'i nodi isod.

| | |
|---|---|
| Lefel 1 | 360 |
| Lefel 2 | 132 (93 staff CSC / 39 allanol) |

## VAWDASV

Mae 90 aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant VAWDASV ar-lein yn ystod cyfnod chwarter 4.

## GWEMINAR HYRWYDDO SEFYDLOGRWYDD TEULUOEDD AC ANSAWDD PERTHNASOEDD

Ar ddydd Iau 25 Mawrth, cynhaliwyd y gweminar uchod yn rhithiol ar gyfer staff Ceredigion. Roedd yn ddull amlasiantaethol, gan weithio ar y cyd â Billy Goodfellow (Tim Teulu), Kizzie Garner-Hughes (Gwasanaethau Plant/Addysg), Michelle Pooley (WWDAS) ac Emma Williams (cyfreithiwr cyfraith teulu). Nod y sesiwn oedd:

- Cyflwyno ffocws ar sefydlogrwydd teuluoedd ac ansawdd perthnasoedd
- Rhoi cyfle i ymarferwyr gydnabod a blaenoriaethu sgyrsiau am anawsterau perthnasoedd
- Cynnig modd i ymarferwyr gael mynediad at gyfryngu, cwnsela parau neu gymorth arall
- Dysgu am anghenion plant a sut y mae gwrthdaro rhwng rhieni yn effeithio ar ateb yr anghenion hynny

I gychwyn bwriadwyd ei gynnal ym Mawrth 2020 ond cafodd ei ohirio oherwydd Covid. Y rheswm y tu ôl i adnabod yr angen i gyflwyno'r wybodaeth hon oedd oherwydd y nifer uchel o broblemau sy'n codi a'u nodi mewn perthynas â gwrthdaro rhieni, ac effaith hyn ar leoliadau ysgol ac asiantaethau cymorth i deuluoedd ac ati. Roedd Michelle Pooley hefyd wedi archwilio gyda chyfranogwyr y gwahaniaeth rhwng gwrthdaro ac ymddygiad camdriniol.

Roedd 20 o bobl wedi mynychu'r digwyddiad a oedd yn sesiwn bore yn unig. Roedd y gynulleidfa yn cynnwys staff ysgol, swyddogion cynhwysiant a gweithwyr cymorth i deuluoedd. Cafwyd adborth cadarnhaol.

DRAFT

**ADDYSG DDEWISOL GARTREF**

| Nifer y blant rydych yn ymwybodol ohonynt sydd yn cael eu haddysgu'n ddewisol gartref | Nifer y plant Addysg Ddewisol Gartref sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol sydd wedi cael cynnig ymweliad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf | Canlyniad |
|---|---|---|
| 258 | 80 | Cyfarfodydd rhithiol/galwadau ffôn – 41<br>Wedi gwrthod – 21<br>Dim ymateb -18 – yn cael ei ystyried ar gyfer ymweliad gartref / llythyr wedi'i anfon i gael diweddariad ar y ddarpariaeth addysg |


**PLANT MEWN GOFAL**


| | |
|---|---|
| Plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion o oedran ysgol statudol | Ionawr – 42<br>Chwefror – 43<br>Mawrth – 45 |
| Plant sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan o'r Sir o oedran ysgol statudol | Ionawr – 13<br>Chwefror – 13<br>Mawrth – 13 |
| Plant sy'n derbyn gofal o Awdurdodau Lleol eraill o oedran ysgol statudol | Ionawr – 34<br>Chwefror – 35<br>Mawrth – 37 |


**CYSYLLTIADAU YSGOLION**


Gweler isod, nifer a natur y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ysgolion / sefydliadau dysgu


DRAFT


Ysgolion Uwchradd / Secondary Schools
35
30
25
20
15
10
5
0
Aberaeron
Aberteifi
Penglais
Penweddig
PRU


Ysgolion Ganol / Middle Schools
25
20
15
10
5
0
Bro Pedr
Bro Teifi
Henry Richard


Ysgolion Cynradd / Primary Schools
12
10
8
6
4
2
0
Aberaeron
Aberporth
Aberteifi
Bro Sion Cwilt
Cei Newydd
Comins Coch
Felinfach
Llanarth
Llanfarian
Llangwyryfon
Llannon
Llechryd
Llwyn-yr-Eos
Myfenydd
Padarn Sant
Penllwyn
Penparc
Penrhyncoch
Plascrug
Rhos Helyg
Rhydypennau
Y Dderi
Ysgol Gymraeg


Ffynonellau Eraill / Other Sources
Gwasanaeth Ieuenctid / Youth Service
Allan o'r Sir / Out of County
Hyfforddiant Ceredigion Training
Coleg Ceredigion
EOTAS
0
2
4
6
8
10
12





Oherwydd y nifer fawr o resymau a roddwyd ar gyfer cysylltu, mae rhai wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y nodir isod er mwyn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn fwy eglur ar y siart.

| | |
|---|---|
| Arfau | |
| Cais am wybodaeth | |
| Cam-drin Domestig | |
| Corfforol | |
| E-ddiogelwch | Gan gynnwys camddefnydd ffonau symudol/rhyngrwyd. Anfon negeseuon/lluniau/fideos anweddus. |
| Esgeulustod | Gan gynnwys amodau'r cartref, problemau ariannol a goruchwyliaeth |
| Gofal | |
| Iechyd a Diogelwch | |
| Iechyd Meddwl Disgyblion | Gan gynnwys cam-drin emosiynol. |
| Iechyd Meddwl Rhieni | |
| Lles | Gan gynnwys plant sydd ar goll, presenoldeb, tor-berthynas, gofalwyr ifanc, anawsterau cysylltu yn ystod y cyfnod clo, problemau cysylltu rhwng rhieni. |
| Materion Cyfreithiol | |
| Atal | |
| Rhywiol | Gan gynnwys perthnasoedd amhriodol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. |
| Sylweddau Disgyblion | Gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. |
| Sylweddau Rhieni | Gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Materion Traws | |
| Ymddygiad Disgybl | |
| Ymddygiad Rhiant | Gan gynnwys rhieni yn y carchar |
| Ymddygiad Staff | Gan gynnwys unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch ymddygiad aelod staff ysgolion a/neu sydd yn gysylltiedig ag ysgolion Ceredigion. |




DRAFT

**ADRAN 12: Iechyd**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

DRAFFT

## ADRAN 13: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS)

DRAFFT

# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR CEREDIGION

## Adroddiad Rheoli Perfformiad – Diogelu Oedolion

### Chwarter: 4

### 1.1.21 – 31.3.21

DRAFT

| Adroddiad Cryno Blynyddol Amddiffyn Oedolion | |
|---|---|
| Nifer y Cyfarfodydd Trafod Strategaeth | 121 |
| Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol Oedolion | 31 |
| Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Adolygu Oedolion | 21 |
| Nifer y Cyfarfodydd Pryderon Proffesiynol | 34 |
| Nifer y Cyfarfodydd Pellach Pryderon Proffesiynol | 9 |





DRAFT

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **15 Medi 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **ZOOM** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2021/22** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Dynodiad:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 8/9/2021 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2021/22

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cydlynu*** | | | |
| 16 Mehefin | Cofnodion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (gan gynnwys Cadeirydd y grŵp prosiect)<br><br>Adroddiadau Diogelu Cysur / CWMPAS<br><br>Cofnod o Gamau Gweithredu'r Grŵp Rheoli Aur yn wyneb COVID-19 | Diana Davies<br><br>Sian Howys<br><br>Elin Prysor | Monitro<br><br>Monitro<br><br>Monitro |
| 15 Medi | Diweddariad ar Brosiect Cylch Caron<br><br>Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion 2020-24<br><br>Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020/21<br><br>Polisi RIPA a Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA<br><br>Adroddiadau Diogelu Cysur / CWMPAS | Donna Pritchard<br><br>Diana Davies / Lynne Walters<br><br>Michael Smith<br><br>Robb Starr<br><br>Elin Prysor / Hannah Rees<br><br>Sian Howys | Monitro<br><br>Monitro<br><br>Monitro<br><br>Monitro<br><br>Monitro<br><br>Monitro |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 Rhagfyr | Diweddariad ar Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol | Michael Smith | |
| **2022**<br>10 Chwefror<br>Paratoi'r Gyllideb | Paratoi'r Gyllideb | | |
| Cyfarfodydd y gorffennol | Effaith Brexit ar economi gyffredinol Ceredigion | | |

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau sy'n Dysgu*** | | | |
| 27 Mai | CYSGA<br><br>Defnyddio darpariaeth rithiol i'r dyfodol<br><br>Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALl a'r Ysgolion 2021-24 | Silyn Roberts<br><br>Meinir Ebbsworth/Non Davies | |
| 20 Medi | Cwricwlwm i Gymru<br><br>Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol<br><br>Diweddariad ar y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oed a Sgiliau a'r Gwasanaeth Cymorth ag Atal.<br><br>Llythyr Estyn, tymor yr Haf 2021<br><br>Proses dyfarnu canlyniadau TGAU a Lefel A 2021 | Gillian Evans<br><br>Elen James<br><br>Meinir Ebbsworth<br><br>Meinir Ebbsworth | |
| 25 Tachwedd | Adroddiad ar chanlyniadau TGAU a Safon Uwch<br><br>Adborth o ymgynghoriad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 | Meinir Ebbsworth<br><br>Silyn Roberts | |
| **2022** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24 Chwefror<br>Paratoi'r Gyllideb<br>1:30pm | Cyllideb | | |
| 2 Mawrth | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant | Carys Davies | |
| Cyfarfodydd y Dyfodol | Asesiad Digonolrwydd Chwarae | Cathryn Morgan | |
| Ffrydiau Gwaith | Safonau ac Ysgolion<br><br>ADY, Cynhwysiant a Lles<br><br>Porth Cymorth Cynnar | Meinir Ebbsworth<br><br>Gillian Evans<br><br>Elen James | |

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Ffyniannus*** | | | |
| 26 Mai | Adroddiad Blynyddol ar Reoli Carbon | Lyndon Griffiths | |
| 15 Gorffennaf | Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Priffyrdd | Rhodri Llwyd | |
| 1 Hydref | Parthau Diogel | Rhodri Llwyd / Russell Hughes Pickering | |
| 4 Tachwedd | Diweddariad ar Clefyd coed ynn<br><br>Cyflawni Sero-Net erbyn 2030 - bob chwe mis<br><br>Defnyddio Mannau Agored | | |
| **2022**<br>20 Ionawr | Parcio ceir yn y trefi – edrych ar y sefyllfa yn ariannol, yn flynyddol, yn dymhorol, ac yn ôl lleoliad. | | |
| 25 Ionawr<br>Paratoi'r Gyllideb | Paratoi'r Gyllideb | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9:30am | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | Afonydd a llifogydd<br><br>Casglu sbwriel | | |

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Adnoddau Corfforaethol*** | | | |
| 13 Mai<br>Cyfarfod Arbennig | Polisi Gofalwyr<br><br>Rheoli slyri Ffermydd y Sir | Geraint Edwards<br><br>Russell Hughes- Pickering | Cyn-Cabinet<br><br>Cais gan y Pwyllgor a chan Aelodau'r Pwyllgor Cymunedau Ffynniannus yn ystod cyfarfod y Gyllideb |
| 7 Gorffennaf 2021 | Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol<br><br>Strategaeth Iechyd a Lles | Marie-Neige Hadfield<br><br>Geraint Edwards | Cyn-Cabinet<br><br>Cyn-Cabinet |
| 14 Hydref 2021 | Adroddiad ar Dlodi yn ystod y Pandemig, gan gynnwys y Strategaeth i Fynd i'r Afael â Chaledi | Sian Howys<br>Diana Davies<br>Cathryn Morgan | Cais gan Aelodau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd, Polisi Ymgysylltu Drafft Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Diweddariad ar Clic gan gynnwys Llyfrgelloedd | Michael Smith<br><br>Joy Lake/Anna Gawthorpe/Gareth Griffiths | Cyn Cyngor<br><br>Cais |
| Cyfarfod arbennig 27 Hydref | Polisiau fan Pobl a Pherfformiad | Geraint Edwards | Cyn Cabinet |
| **<u>2022</u>**<br>13 Ionawr | Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd, Polisi Ymgysylltu Drafft Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Adroddiad Absenoldeb oherwydd salwch<br><br>Cysylltedd Digidol | Michael Smith<br><br>Geraint Edwards<br><br>David Owen | Cyn Cyngor<br><br>Cais |
| 25 Chwefror<br>Paratoi'r Gyllideb<br>1:30pm | | | |
| 17 Mawrth | | | |
| Grŵp Gorchwyl a Gorffen | Ystadau – Ffermydd y Sir – cyfarfod anffurfiol efo Tenantiaid Ffermydd y Sir (gohiriwyd cyfarfod Ebrill oherwydd y pandemig) | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd y dyfodol | Cyfarfod o’r grwp Gorffen a Gorchwyl Ffermydd y Sir ar 13.7.2021, am 3 o’r gloch. (nid yw’r cyfarfod yma yn agored i’r cyhoedd). | | |

| Pwyllgor | Eitem(disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Iachach*** | | | |
| 24 Mehefin | Y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO)<br><br>Diweddariad oddiwrth Cadeirydd y Pwyllgor yn dilyn cyfarfod Mai 2021 Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal y Canolbarth | Sian Howys | Monitro |
| 17 Medi<br>Arbennig<br>Gwahoddiad I Aelodau Cymunedau sy'n Dysgu<br>2pm | Y Strategaeth Gydol Oes a Lles<br><br>Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021: Cyngor Sir Ceredigion | Caroline Lewis<br><br>Sian Howys | |
| 22 Medi<br>arbennig | Tipio Anghyfreithlon – esbonio'r weithdrefn<br><br>Rheoli Plâu<br><br>Gwasnaethau Canolfannau Lles a'r datblygiadau yng Nghanolfan Lles Llambed | Heddwyn Evans<br><br>Anne Louise<br><br>Elen James a Carwyn Young<br><br>Heddwyn Evans | Ar gais<br><br>Ar gais<br><br>Cais gan y swyddog<br><br>Cyn-Cabinet |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 | | |
| 6 Hydref | Pryder – rhaid dod o hyd i fwy o ofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg fod yn flaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion. Tynnodd aelodau o'r cymunedau iachach sylw at y ffaith bod plant Cymraeg eu hiaith yn cael eu rhoi gyda theuluoedd Saesneg eu hiaith. Dywedodd Aelod ei fod yn broblem hirsefydlog a bod y plant hyn mewn amgylchiadau rhyfedd iawn yn gorfod newid iaith.<br><br>Pecynnau Gofal gan gynnwys Dementia<br><br>Effaith defnydd cyffuriau yn y Sir<br><br>Adroddiad Swyddog Adolygu Annibynnol cwarter 4 2021 | Donna Pritchard<br>Nerys Lewis<br><br>Donna Pritchard a Heather West<br><br>John Callow<br><br>Sian Howys | Cais mewn cyfarfod pan yn trafod adroddiad yr IRO<br><br>Ar gais<br><br>Ar gais<br><br>Monitro |
| 20 Hydref arbennig | Lles Anifeiliaid a Bridio Cŵn<br><br>Safonau Masnach (scamiau)<br><br>Adroddiad Blynyddol Gofalwyr | Heddwyn Evans<br><br>Anne Louise<br><br>Lowri Evans | Ar gais<br><br>Ar gais<br><br>Cyn-Cabinet |
| 16 Rhagfyr | Polisi Grantiau a Benthyciadau | Llyr Hughes | Cyn-Cabinet |
| **2022** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24 Chwefror<br>Paratoi'r Gyllideb<br>9:30am | | | |
| 16 Mawrth | | | |
| Eitemau i'r dyfodol | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Donna Pritchard | Monitro |

# Eitem Agenda 10

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd yn rhithiol drwy gyfrwng Zoom ddydd Mercher 16 Mehefin 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Elaine Evans, Bryan Davies, Lyndon Lloyd MBE, Wyn Thomas, Ivor Williams, Dan Potter ac Euros Davies ynghyd â'r Cynghorydd Elizabeth Evans (Sylwedydd)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Arweinydd y Cyngor), y Cynghorydd Ray Quant MBE, (Dirprwy Arweinydd y Cyngor) ynghyd â'r Cynghorwyr Rhodri Evans, Gareth Lloyd, Catherine Hughes ac Alun Williams (Aelodau Cabinet).

Hazel Lloyd Lubran, Prif Weithredwr, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Partneriaeth a Pherfformiad; Lynne Walters, Swyddog Partneriaeth; Siân Howys, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol; Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol; Hannah Rees, Swyddog Llywodraethu; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu; Dwynwen Jones, Swyddog Cefnogi Trosolwg a Chraffu; Iona Davies, Cyfieithydd a Rhidian Jones, Cyfieithydd.

(10:00am –11:20pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Marc Davies am na fedrai ddod i'r cyfarfod. Hefyd, ymddiheurodd y Cynghorydd Mark Strong am na fedrai ymuno â'r cyfarfod gan ei fod yn cael trafferthion cysylltu â Zoom.

**2 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Ni ddatgelwyd dim buddiannau personol na buddiannau a oedd yn rhagfarnu.

**3 Cofnodion Cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021 a 26 Ebrill 2021 gan ganolbwyntio ar Grŵp Prosiect Deall Ein Cymunedau**

Croesawodd y Cadeirydd Diana Davies, Lynne Walters a Hazel Lloyd Lubran i'r cyfarfod i roi'r adroddiad fel y gallai Aelodau'r Pwyllgor gael y cyfle i graffu ar y penderfyniadau a'r camau gweithredu a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

Bu i Lynne Walters gyflwyno'r wybodaeth gan gyfeirio'n benodol at y gwaith a wnaed yn ystod chwarter olaf 2020 o ran adolygu aelodaeth a blaenoriaethau pob Grŵp Prosiect. Dywedodd fod pump o'r Grwpiau Prosiect wedi cytuno ar flaenoriaethau a chynlluniau gweithredu newydd a oedd yn canolbwyntio ar weithredu yng ngoleuni COVID.

Yn unol â chais y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, rhoddodd Hazel Lloyd Lubran, Cadeirydd Grŵp Prosiect Deall Ein Cymunedau ddiweddariad

am y cynnydd yr oedd y grŵp wedi'i wneud. Rhoddodd grynodeb byr o'r gwaith a wnaed yn ystod pandemig COVID-19. Soniodd yn benodol am y cyfathrebu rhagorol sydd wedi digwydd ac sy'n parhau i ddigwydd gyda'r rhwydwaith o grwpiau cymorth lleol a oedd wedi'u sefydlu. Dywedodd hefyd fod y cyfathrebu parhaus rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod yr argyfwng.

Ar ôl hynny, cafodd yr Aelodau'r cyfle i ofyn cwestiynau i'r Swyddogion a oedd yn bresennol. Bu i lawer o'r Aelodau ganmol y gwaith a wnaed yn eu trefi a'u cymunedau yn ystod yr argyfwng gan nodi'r ysbryd tîm rhagorol a ddangoswyd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniadau a dywedodd wrth Aelodau'r Pwyllgor y byddai cynrychiolydd o bob un o'r grwpiau yn cael y cyfle i ddod i gyfarfodydd yn y dyfodol i roi cyflwyniadau.

Ar ôl trafodaeth, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr argymhellion canlynol:

**ARGYMHELLION:**

i. Derbyn cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021 a chofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2021;
ii. Derbyn yr adroddiad mwyaf diweddar ynglŷn â Grwpiau Prosiect y BGC, fel y'i cyflwynwyd i'r BGC;
iii. Derbyn adroddiad ffocws ar waith Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau; a;
iv. Derbyn braslun o Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-21.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn yr argymhellion fel y'u nodwyd uchod fel y gallai'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**4 Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 3 2020/2021**

Croesawodd y Cadeirydd Siân Howys i'r cyfarfod i roi Crynodeb Gweithredol o'r Adroddiad CYSUR/CWMPAS.

Yn dilyn cwestiynau, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylid anfon neges i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i'w canmol am eu gwaith caled a'u hymrwymiad yn ystod argyfwng COVID. Cytunodd Ms Howys y byddai'n cyfleu'r neges hon i'w chydweithwyr.

**CYTUNODD** Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol fel bod trefniadau llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau sy'n bartneriaid yn cael eu monitro.

**5 Adroddiad am Gofnod Penderfyniadau Grŵp Rheoli Aur COVID-19**

Croesawyd Elin Prysor a Hannah Rees i gyflwyno'r adroddiad am Gofnod Penderfyniadau Grŵp Rheoli Aur COVID-19. Cyflwynodd Hannah Rees yr adroddiad gan roi gwybodaeth am benderfyniadau Grŵp Arweiniol Covid-19 (y Grŵp Rheoli Aur) yn ystod y cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 1 Rhagfyr 2020 a 29 Ebrill 2021.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad a chynnwys Cyfarfodydd Grŵp Rheoli Aur Covid-19 yn unol â'r Cofnod Penderfyniadau a oedd wedi'i gynnwys gyda phapurau'r agenda.

**CYTUNODD** yr Aelodau i dderbyn a nodi'r adroddiad er gwybodaeth. Drwy wneud hyn, gellid monitro'r modd y mae trefniadau gwneud penderfyniadau'r Cyngor yn cael ei lywodraethu ar ôl i'r trefniadau hynny gael eu haddasu.

**6 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021 a 18 Mawrth 2021 ac ystyried unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion hynny**

Bu i'r Cynghorydd Ivor Williams gynnig y dylid cadarnhau Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021 a 18 Mawrth 2021 yn rhai cywir ac eiliwyd y cynnig hwn gan y Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE. Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion.

**7 Blaenraglenni Gwaith Drafft y Pwyllgorau 2020/2021**

Bu i Gadeirydd pob Pwyllgor neu'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd, neu'r Swyddog Craffu os oedd y ddau yn absennol, ddarparu gwybodaeth yn eu tro am y Pwyllgorau trosolwg a chraffu perthnasol.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai'r canlynol yn cael eu cynnwys ar Flaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau canlynol fel eitemau i'w hystyried yn y dyfodol:

- Adnoddau Corfforaethol - Gwasanaethau CLIC
- Cymunedau Iachach – Effaith y defnydd o gyffuriau ledled y Sir (gan gynnwys sefydliadau addysg). Byddai Aelodau'r Pwyllgor Cymunedau sy'n Dysgu yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol pan fyddai'r eitem hon yn cael ei hystyried.

**9 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Ni chodwyd dim materion eraill.

Diolchodd y Cynghorydd Rowland Rees-Evans i Aelodau'r Pwyllgor am ddod i'r cyfarfod ac i'r swyddogion am gyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd gryno. Diolchodd hefyd i dîm y Gwasanaethau Democrataidd a'r Cyfieithwyr am sicrhau bod y cyfarfod wedi'i gynnal yn hwylus.

**Cadeirydd:**____________

**Dyddiad:-**